# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 19/01/2016

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys
Urgent Question: Accident and Emergency Departments

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Tata Steel
3. Statement: Tata Steel

4. Datganiad: Y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys
4. Statement: Emergency Medical Retrieval and Transfer Service

5. Datganiad: Prentisiaethau
5. Statement: Apprenticeships

6. Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Agenda Diwygio Gwasanaethau Datganoledig
6. Statement: Update on the Devolved Services Reform Agenda

7. Datganiad: Argymhellion a Dyfodol y Cynllun Bathodynnau Glas yng Nghymru
7. Statement: Recommendations and the Future of the Blue Badges Scheme in Wales

8. Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016
8. The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

9. Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014-15
9. Debate on the Annual Report on Equality 2014-15

10. Cyfnod Pleidleisio
10. Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before we start the agenda, it gives me great pleasure to announce, in accordance with Standing Order 26.75, that both the Renting Homes (Wales) Bill and the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill were given Royal Assent on 18 January.

Cyn i ni ddechrau ar yr agenda, mae'n rhoi pleser mawr i mi gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, bod Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) a Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr.

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:31

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to first item on the agenda this afternoon, and that's questions to the First Minister. Question 1, Llyr Gruffydd.

Symudwn at yr eitem gyntaf ar yr agenda y prynhawn yma nawr, sef cwestiynau i'r Prif Weinidog. Cwestiwn 1, Llyr Gruffydd.

## Cynllun y Taliad Sylfaenol

## The Basic Payment Scheme

13:31 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

*1. Pa fesurau arbennig y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ffermwyr sy'n aros am daliadau o dan gynllun y taliad sylfaenol? OAQ(4)2657(FM)[W]*

*1. What specific steps is the Welsh Government taking to support farmers who are waiting for payments under the basic payment scheme? OAQ(4)2657(FM)[W]*

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mewn cyfnod talu a ddechreuodd ar 1 Rhagfyr 2015 ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin, rydym ni eisoes wedi talu 74 y cant o fusnesau ac rydym ni'n prosesu'r hawliadau sy'n weddill yn brydlon. Bydd ffermwyr sydd heb gael taliad erbyn diwedd Ionawr yn cael llythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn nodi pryd y dylid disgwyl y taliad.

Within a payment window commencing 1 December 2015 and ending 30 June 2016, we have paid 74 per cent of businesses and are promptly processing remaining claims. Farmers who have not received payment by the end of January will receive a letter updating them on progress and when they should expect payment.

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Fel rŷch chi wedi dweud, mae chwarter ffermwyr Cymru yn dal i aros. Rwy'n siŵr bod nifer ohonom ni fel Aelodau Cynulliad wedi derbyn negeseuon gan rai ohonyn nhw sydd yn wynebu sefyllfa ariannol ddyrys iawn o ganlyniad i'r disgwyl am y taliad. A gaf i felly ofyn: mewn sefyllfaoedd lle mae pobl yn wynebu caledi o'r fath—ac mae'r Dirprwy Weinidog wedi gofyn inni gyfeirio achosion ati, wrth gwrs—ond hefyd mewn achosion, ar ôl i'r Dirprwy Weinidog o bosib edrych ar yr achosion hynny, lle mae'n amlwg na fydd y taliad yn cyrraedd yn reit fuan, a fyddech chi fel Llywodraeth yn barod i ystyried datblygu rhyw ffordd o gynnig rhyw rhandaliad fechan, efallai, yn gynharach, er mwyn sicrhau nad yw lles yr unigolion hynny, a'u hanifeiliaid nhw hefyd, yn dioddef?

As you've said, a quarter of Welsh farmers are still waiting. I'm sure that many of us, as Assembly Members, will have received messages from some of those farmers who are facing a very dire financial situation as a result of awaiting this payment. May I therefore ask: in situations where people are facing hardship—and the Deputy Minister has asked us to refer cases to her, of course—and in cases, once the Deputy Minister has looked at those cases, where it's clear that the payment will not arrive any time soon, would you as a Government be willing to consider developing some method of providing a part-payment, perhaps, at an earlier date in order to ensure that the welfare of those individuals and their livestock does not suffer?

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs, rŷm ni'n fodlon edrych ar unrhyw ffyrdd o sicrhau eu bod nhw'n cael eu talu. Un o'r problemau gydag, er enghraifft, ffermydd trawsffiniol, yw nad ydym ni eto wedi cael y manylion, y wybodaeth, o'r corff yn Lloegr. Rŷm ni'n gobeithio cael hynny fis nesaf, ac, wrth gwrs, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n para i dalu ffermwyr. I gymharu â Lloegr, rŷm ni ymhell o flaen Lloegr—67 y cant sydd wedi cael eu talu fanna. Yn yr Alban, 18 y cant, yn ôl ffigurau'r mis diwethaf, sydd wedi cael eu talu lan i nawr. Felly, rŷm ni yn gweithio'n galed iawn er mwyn sicrhau bod y taliadau yn mynd mas mor gynted ag sy'n bosib.

Of course, we're willing to look at any way of ensuring that they are paid. One of the problems with, for example, cross-border farms is that we haven't yet received the details or the data from the body in England. We hope to receive that next month, and, of course, we must ensure that we continue to pay farmers. We are doing much than England, as only 67 per cent have been paid there. In Scotland, it is only 18 per cent, according to last month's figures, that have been paid to date. So, we are working very hard in order to ensure that the payments are made as soon as possible.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, y llynedd, byddwch chi'n ymwybodol bod y Dirprwy Weinidog wedi ysgrifennu ataf i i ddweud bod gan eich Llywodraeth chi hawl i wneud taliadau o dan y cynllun yma o ganol fis Hydref ymlaen, ond eich bod chi fel Llywodraeth wedi penderfynu peidio gwneud hynny. Onid ydych chi'n derbyn, efallai, y byddai wedi bod yn synhwyrol i ddechrau gwneud y taliadau yma bryd hynny er mwyn sicrhau bod mwy o amser gan eich swyddogion yn yr adeg yma i ganolbwyntio ar yr achosion mwyaf cymhleth, ac, felly, y byddai mwy o ffermwyr wedi derbyn y taliadau'n llawn erbyn hyn?

First Minister, you will be aware that, last year, the Deputy Minister wrote to me to state that your Government had the right to make payments under this scheme from the middle of October onwards, but that you as a Government had decided not to do that. Do you not accept that it would perhaps have been sensible to have started to make these payments at that time in order to ensure that your officials had more time to then concentrate on the most complex cases, and that, therefore, more farmers would have received their payments in full by now?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Na, nid wyf yn derbyn hynny, wrth gofio'r ffaith bod mwy o ganran o ffermwyr wedi cael eu talu yng Nghymru nag yn Lloegr, ac yn well na'r Alban ymhell. Felly, rwy'n credu bod y system sydd wedi cael ei mabwysiadu yn system sydd yn gadarn, yn dangos bod y rhan fwyaf, o bell ffordd, o ffermwyr Cymru wedi cael eu talu. Mae rhai achosion anodd, cymhleth sydd yn dal i gael eu datrys, ond rŷm ni'n ffyddiog iawn y bydd y sefyllfa yn gwella ymhellach eto dros yr wythnosau eto.

No, I don't accept that, bearing in mind that, in Wales, the percentage of farmers who have been paid is higher than the percentage in England, and far higher than in Scotland. So, I believe that the system that's been adopted is one that is robust, as evidenced by the fact that the majority of Welsh farmers have been paid. There are some difficult and complex cases that are still outstanding, but we are very confident that the situation will improve yet again over the ensuing weeks.

13:34 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before proceeding to my question, I draw Members' attention to my register of interests in terms of our own family farming partnership. First Minister, in last week's written statement, your Deputy Minister for Farming and Food urged farmers, and I quote:

'to resist the temptation to phone the Customer Contact Centre chasing payment'

and not to divert staff unnecessarily from the business of making the remaining payments. Now, whilst I understand fully that time and resources are limited, given the extreme stress that certain farm businesses in Wales are under, would you reiterate today that it is important that farmers can make contact with the advice centres if they are in a situation where they think there's been some irregularity, or where they've got specific issues to raise, because of the potential stress that many of them are under, as we've heard in previous weeks?

Cyn symud ymlaen at fy nghwestiwn, tynnaf sylw'r Aelodau at fy nghofrestr buddiannau o ran ein partneriaeth ffermio teuluol ein hunain. Brif Weinidog, yn natganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf, anogodd eich Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ffermwyr, ac rwy'n dyfynnu:

'i beidio â ffonio y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid yn holi am eu taliad'

ac i beidio â dargyfeirio staff yn ddiangen oddi wrth y busnes o wneud y taliadau sy'n weddill. Nawr, er fy mod i'n deall yn llwyr bod amser ac adnoddau yn brin, o ystyried y straen eithafol sydd ar rai busnesau fferm yng Nghymru, a wnewch chi ail-bwysleisio heddiw ei bod yn bwysig bod ffermwyr yn gallu cysylltu â'r canolfannau cyngor os ydynt mewn sefyllfa lle maen nhw'n meddwl y bu rhyw fath o afreoleidd-dra, neu lle mae ganddyn nhw broblemau penodol i'w codi, oherwydd y straen posibl y mae llawer ohonynt yn ei ddioddef, fel yr ydym ni wedi clywed yn ystod wythnosau blaenorol?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I would urge farmers to track the progress of their claims using Rural Payments Wales Online. That service is available. That does explain whether there are any outstanding queries, and that will provide them with the information more quickly, I would argue, than by telephoning. I would also say, of course, that the farm liaison service is there in the livestock marts and via the phone to offer one-to-one support and advice to farmers on these matters as well.

Gwnaf, byddwn yn annog ffermwyr i olrhain cynnydd eu hawliadau gan ddefnyddio Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein. Mae'r gwasanaeth hwnnw ar gael. Mae hwnnw'n esbonio pa un a oes unrhyw ymholiadau heb eu hateb, a bydd hwnnw'n rhoi'r wybodaeth iddynt yn gyflymach, byddwn yn dadlau, na drwy ffonio. Byddwn hefyd yn dweud, wrth gwrs, bod y gwasanaeth cyswllt fferm yno yn y marchnadoedd da byw a dros y ffôn i gynnig cymorth a chyngor un i un i ffermwyr ar y materion hyn hefyd.

## Gofal Cymdeithasol

## Social Care

13:35 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)2661(FM)*

*2. What are the Welsh Government's plans for improving the provision of social care in Wales? OAQ(4)2661(FM)*

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

In Wales, we regulate for success. Yesterday, I sealed the new legislation—the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016, as it is now—and we continue to support the provision of effective, citizen-centred social care. The new legislative landscape, alongside our decision to protect social care budgets, allows the sector to meet the challenges ahead.

Yng Nghymru, rydym ni'n rheoleiddio ar gyfer llwyddiant. Ddoe, seliais y ddeddfwriaeth newydd—Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, fel yw hi nawr—ac rydym ni'n parhau i gefnogi'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae'r dirwedd ddeddfwriaethol newydd, ochr yn ochr â'n penderfyniad i ddiogelu cyllidebau gofal cymdeithasol, yn caniatáu i'r sector ymateb i'r heriau sydd o'i flaen.

13:36 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, First Minister. First Minister, while we welcome the additional money in the budget of social services, cuts in other areas are impacting on social care provision. Your Government has cut funding to many organisations in receipt of the sustainable social services grant and changed the way grants are awarded to care and repair agencies. The way your Government is now awarding grants is endangering the provision of social care and will have an impact on the NHS by increasing delayed transfers of care. Therefore, will you look again at the grant-awarding process and ensure that those organisations in receipt of grants, designed to help the most vulnerable in our society, are able to plan for the future?

Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog. Brif Weinidog, er ein bod yn croesawu'r arian ychwanegol yng nghyllideb y gwasanaethau cymdeithasol, mae toriadau mewn meysydd eraill yn effeithio ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Mae eich Llywodraeth wedi torri cyllid llawer o sefydliadau sy'n derbyn y grant gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ac wedi newid y ffordd y dyfernir grantiau i asiantaethau gofal a thrwsio. Mae'r ffordd y mae eich Llywodraeth yn dyfarnu grantiau erbyn hyn yn peryglu'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol a bydd yn cael effaith ar y GIG trwy gynyddu oediadau wrth drosglwyddo gofal. Felly, a wnewch chi ailystyried y broses dyfarnu grantiau a sicrhau bod y sefydliadau hynny sy'n derbyn grantiau, sydd â'r bwriad o helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can say that, in the draft budget on 8 December, an additional £21 million was included in that statement in recognition of the pressures on social services in Wales. In England, between 2012 and 2015, there was a cut of 11.5 per cent in the social services budget. We see, for example, in the latest figures published by the Treasury, that combined spending per head on health and social services was 7 per cent higher than in England. We've established the intermediate care fund of £50 million. Of course, that is helping to avoid unnecessary hospital and residential admissions, making sure there are no delays in hospital discharges, and that fund also promotes independent living. We have made our financial commitment to social services. We will not pass the blame on to local government, which is what is happening under the Government in England, and we will continue to fund social services in Wales in the way that our people would expect.

Wel, gallaf ddweud, yn y gyllideb ddrafft ar 8 Rhagfyr, y cafodd £21 miliwn ychwanegol ei gynnwys yn y datganiad hwnnw i gydnabod y pwysau ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yn Lloegr, rhwng 2012 a 2015, bu toriad o 11.5 y cant i'r gyllideb gwasanaethau cymdeithasol. Rydym ni'n gweld, er enghraifft, yn y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, bod gwariant cyfunol fesul pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol 7 y cant yn uwch nag yn Lloegr. Rydym ni wedi sefydlu'r gronfa gofal canolraddol o £50 miliwn. Wrth gwrs, mae honno'n helpu i osgoi derbyniadau ysbyty a phreswyl diangen, gan sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, ac mae'r gronfa honno hefyd yn hybu byw'n annibynnol. Rydym ni wedi gwneud ein hymrwymiad ariannol i wasanaethau cymdeithasol. Ni fyddwn yn trosglwyddo'r bai i lywodraeth leol, sef yr hyn sy'n digwydd o dan y Llywodraeth yn Lloegr, a byddwn yn parhau i ariannu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn y modd y byddai ein pobl yn ei ddisgwyl.

13:38 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as you've just said, despite the challenges caused by Tory funding cuts to Wales, things are much better here because of the steps this Government has taken to protect social services. Can I ask whether you're aware of the recent survey in 'The Guardian' that found that the vast majority of social workers are happy in their roles in Wales—87 per cent compared to 69 per cent in the south-west of England—and would you agree with me that the consultation announced by the Minister this morning on ending zero-hours contracts and ensuring that the domiciliary workforce is well paid is a further step forward in ensuring that social care is a positive career in Wales?

Brif Weinidog, fel yr ydych chi newydd ei ddweud, er gwaethaf yr heriau a achoswyd i Gymru gan doriadau'r Toriaid i gyllid, mae pethau'n llawer gwell yma oherwydd y camau y mae'r Llywodraeth hon wedi eu cymryd i ddiogelu gwasanaethau cymdeithasol. A gaf i ofyn a ydych chi'n ymwybodol o'r arolwg diweddar yn 'The Guardian' a ganfu fod y mwyafrif helaeth o weithwyr cymdeithasol yn hapus yn eu swyddi yng Nghymru—87 y cant o'i gymharu â 69 y cant yn ne-orllewin Lloegr—ac a fyddech chi'n cytuno â mi bod yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan y Gweinidog y bore yma ar roi terfyn ar gontractau dim oriau a sicrhau bod y gweithlu cartref yn cael ei dalu'n dda yn gam arall ymlaen i sicrhau bod gofal cymdeithasol yn yrfa gadarnhaol yng Nghymru?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I do, and I thank the Member for the question. It's a sign of the recognition that the profession has shown in the investment that's been made in the workforce in Wales. The survey showed that Wales is a place, a nation, where social work is recognised and valued. It was said that it's a better place to be and social workers in Wales are the happiest in the UK. So, that research is very welcome, of course, and it shows that when you in invest in those who work in social care, their morale increases and, importantly, the service they provide to the public improves as well.

Byddwn, mi fyddwn, a diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n arwydd o'r gydnabyddiaeth y mae'r proffesiwn wedi ei dangos i'r buddsoddiad a wnaed yn y gweithlu yng Nghymru. Dangosodd yr arolwg bod Cymru yn lle, yn genedl, lle mae gwaith cymdeithasol yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi. Dywedwyd ei fod yn well lle i fod ac mai gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yw'r hapusaf yn y DU. Felly, mae'r gwaith ymchwil hwnnw i'w groesawu'n fawr, wrth gwrs, ac mae'n dangos, pan eich bod chi'n buddsoddi yn y rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, bod eu hysbryd yn gwella ac, yn bwysig, mae'r gwasanaeth y maen nhw'n ei ddarparu i'r cyhoedd yn gwella hefyd.

13:39 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, bedair gwaith yn y Cynulliad yma mae'ch Llywodraeth chi a'r bloc Llafur wedi pleidleisio yn erbyn y cyfle i osod mewn deddfwriaeth waharddiad ar gytundeb sero awr yn y sector gofal. Efallai y liciech chi esbonio i'r Cynulliad pam mae'n well gennych chi bleidleisio yn erbyn cyflwyno hyn yn y Cynulliad yma, ac yn eich tymor chi fel Llywodraeth, a'i ohirio ar gyfer y Cynulliad nesaf, drwy gyflwyno ymgynghoriad yn unig ar y pwnc pwysig yma yn ystod eich cyfnod chi fel Prif Weinidog.

First Minister, four times in this Assembly your Government and the Labour block has voted against the chance to place in legislation a ban on zero-hours contracts in the care sector. Perhaps you would like to explain to the Assembly why you would prefer to vote against the introduction of this in this Assembly, and in your term of Government, and to postpone it until the next Assembly, by introducing only a consultation on this important issue during your time as First Minister.

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid oedd gyda ni unrhyw fath o broblem ynglŷn ag egwyddor y peth—mae hynny'n iawn ar yr ochr hon i'r Cynulliad. Rydym ni'n moyn sicrhau bod cytundebau sero awr yn mynd hefyd. Ond, beth roeddech chi'n moyn ei wneud oedd ychwanegu i Filiau a oedd yn mynd drwyddo'r Cynulliad a hefyd, wrth gwrs, sicrhau y byddai mwy o risg y byddai'r Biliau hynny yn cael eu rhoi i'r Uchel Lys. Rŷm ni'n moyn sicrhau bod yna ffordd uniongyrchol i wneud hyn. Os felly, a phe bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisiau i unrhyw Fil fynd i'r llys, byddai hynny lan iddyn nhw, wrth gwrs. Byddai hynny'n meddwl na fyddai'n peryglu unrhyw Fil mawr, a dyna beth oedd y pryder a oedd gyda ni.

We didn't have any kind of a problem as regards the principle of it—that's fine on this side of the Chamber. We want to ensure that zero-hours contracts are a thing of the past too. But, what you wanted to do was to add to Bills that were going through the Assembly, and also, of course, there would be a greater risk that those Bills would then be referred to the Supreme Court. We want to ensure that there is a direct way of doing this. If so, and if the United Kingdom Government wants to refer any Bill to the courts, that would be a matter for them. That would mean that it wouldn't endanger any major Bill, and that was our major concern.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions from the party leaders. The first this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr. Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:41 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. First Minister, we all witnessed the terrible news yesterday coming out of Port Talbot and other plants across Wales, and indeed the rest of the United Kingdom. One job loss is one too many; it's devastating news for families and the individuals—highly skilled individuals in many cases who've given a lifetime of service to the steel industry. There have been UK summits, there have been Welsh summits. I think it was 5 November that the Minister here held a steel summit with the industry. Can you tell us what tangible efforts were made after that summit to offer support from the Welsh Government, particularly on business rates, to the steel industry here in Wales?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, roedd pob un ohonom yn dyst i'r newyddion ofnadwy a ddaeth ddoe o Bort Talbot a gweithfeydd eraill ledled Cymru, ac o weddill y Deyrnas Unedig yn wir. Mae colli un swydd yn ormod; mae'n newyddion trychinebus i'r teuluoedd a'r unigolion—unigolion hynod fedrus mewn llawer o achosion, sydd wedi rhoi oes o wasanaeth i'r diwydiant dur. Bu uwchgynadleddau ar lefel y DU, bu uwchgynadleddau yng Nghymru. Rwy'n credu mai ar 5 Tachwedd y cynhaliodd y Gweinidog yma uwchgynhadledd dur gyda'r diwydiant. A allwch chi ddweud wrthym pa ymdrechion pendant a wnaed ar ôl yr uwchgynhadledd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig ar ardrethi busnes, ar gyfer y diwydiant dur yma yng Nghymru?

13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First of all, we know—I know that, obviously, the Minister will make a statement on this later on this afternoon—that this is very difficult news for Port Talbot and the surrounding area. Can I pay tribute to the unstinting efforts of David Rees, the Assembly Member, who I know has been very concerned, as somebody from the area and with great roots in the area, in terms of what the future holds? What Tata have said to us is that there is, as we all know, an issue with the oversupply of steel. That is a matter for the European Commission to resolve as far as Europe in concerned. The strong pound, Tata tell us, is not helpful in terms of exporting steel from the UK. We know that there are issues with regard to high-energy costs, which the UK Government has recognised in the statement that they made last month.

Yn gyntaf oll, rydym ni'n gwybod—gwn, yn amlwg, y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar hyn yn ddiweddarach y prynhawn yma—bod hwn yn newyddion anodd iawn i Bort Talbot a'r cyffiniau. A gaf i dalu teyrnged i ymdrechion diflino David Rees, yr Aelod Cynulliad, y gwn sydd wedi bod yn bryderus iawn, fel rhywun o'r ardal a chanddo wreiddiau dwfn yn yr ardal, o ran yr hyn a ddaw yn y dyfodol? Yr hyn y mae Tata wedi ei ddweud wrthym yw bod problem, fel yr ydym ni i gyd yn gwybod, gyda'r gorgyflenwad o ddur. Mae hwnnw'n fater i'r Comisiwn Ewropeaidd ei ddatrys cyn belled ag y mae Ewrop yn y cwestiwn. Nid yw'r bunt gref, mae Tata yn dweud wrthym, yn helpu o ran allforio dur o'r DU. Rydym ni'n gwybod bod problemau o ran costau ynni uchel, y mae Llywodraeth y DU wedi eu cydnabod yn y datganiad a wnaed ganddi fis diwethaf.

We accept that business rates were devolved to us in April last year. There is a review that is already in place. The Minister will indicate that that review will move ahead with urgency to see what we can do to help Tata with business rates. But business rates on their own are never going to be enough in terms of the kind of money that's going to need to be made available. Energy costs need to be dealt with. They are a major factor for Tata. Above all else, Tata wanted to feel, and they have said this to us—they are content with the relationship that they have with us and the work that we have done for them—they need to feel that the UK Government really and truly believes that there is a future for steel in the UK.

Rydym ni'n derbyn bod ardrethi busnes wedi eu datganoli i ni ym mis Ebrill y llynedd. Mae adolygiad eisoes ar waith. Bydd y Gweinidog yn nodi y bydd yr adolygiad hwnnw yn symud ymlaen ar frys i weld beth y gallwn ni ei wneud i helpu Tata gydag ardrethi busnes. Ond nid yw ardrethi busnes ar eu pennau eu hunain byth yn mynd i fod yn ddigon o ran y math o arian y bydd angen ei roi ar gael. Mae angen ymdrin â chostau ynni. Maen nhw'n brif ffactor i Tata. Yn fwy na dim arall, roedd Tata eisiau teimlo, ac maen nhw wedi dweud hyn wrthym—maen nhw'n fodlon â'r berthynas sydd ganddyn nhw gyda ni a'r gwaith yr ydym ni wedi ei wneud iddyn nhw—eu bod nhw angen teimlo bod Llywodraeth y DU wir yn credu bod dyfodol i ddur yn y DU.

13:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, there is a future for steel in the UK—I passionately believe that. Any advanced economy has to retain its steel industry and I would stand shoulder to shoulder with anyone who wanted to argue the case to make sure that we do have a strong steel industry here in Wales and the rest of the United Kingdom. It is vital that we do stand shoulder to shoulder. There is a vital board meeting in Mumbai next month, where the Tata board will discuss whether actions taken to date do warrant further investment and further positive decisions in the Port Talbot steelworks, but also at other sites that they have across Wales and across the United Kingdom. But, it is a fact that the chief executive—and I do take your point that business rates on their own would not be the solution to this problem—. Obviously, imports and dumping and energy costs are important parts of the equation, but the chief executive of Tata Steel Europe did point to business rates as being one—one—of the blocks that they require to be addressed in the wall of support that they require. So, it is important that when we look at this Chamber and what this Government can do, that we look to what you will be announcing, maybe after tomorrow's meeting or sooner, about business rates. I do put the question again to you: is there any respite available to steel producers here in Wales on business rates because, obviously, there is Celsa Steel here in Cardiff as well, and it couldn't be offered to just one steel producer, as it would have to be offered to the industry as a whole?

Brif Weinidog, mae dyfodol i ddur yn y DU—rwy'n credu hynny'n gryf. Mae'n rhaid i unrhyw economi ddatblygedig gadw ei diwydiant dur a byddwn yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd ag unrhyw un a fyddai eisiau dadlau'r achos i sicrhau bod gennym ddiwydiant dur cryf yma yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae'n hanfodol ein bod yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd. Bydd cyfarfod bwrdd hollbwysig ym Mumbai fis nesaf, pryd y bydd bwrdd Tata yn trafod a yw'r camau a gymerwyd hyd yn hyn yn cyfiawnhau buddsoddiad pellach a phenderfyniadau cadarnhaol pellach yng ngwaith dur Port Talbot, ond hefyd mewn safleoedd eraill sydd ganddynt ar draws Cymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Ond, mae'n ffaith bod y prif weithredwr—ac rwy'n derbyn eich pwynt na fyddai ardrethi busnes ar eu pennau eu hunain yn ateb i'r broblem hon—. Yn amlwg, mae mewnforion a dympio a chostau ynni yn rhannau pwysig o'r sefyllfa, ond nododd prif weithredwr Tata Steel Europe bod ardrethi busnes yn un—un—o'r blociau y maen nhw angen iddynt gael sylw yn y wal o gymorth sydd ei angen arnynt. Felly, mae'n bwysig, pan fyddwn ni'n edrych ar y Siambr hon a'r hyn y gall y Llywodraeth hon ei wneud, ein bod yn edrych ar yr hyn y byddwch yn ei gyhoeddi, efallai ar ôl cyfarfod yfory neu'n gynharach, ar ardrethi busnes. Gofynnaf y cwestiwn i chi eto: a oes unrhyw seibiant ar gael i gynhyrchwyr dur yma yng Nghymru o ran ardrethi busnes oherwydd, yn amlwg, ceir Celsa Steel yma yng Nghaerdydd hefyd, ac ni ellid ei gynnig i un cynhyrchydd dur yn unig, gan y byddai'n rhaid ei gynnig i'r diwydiant yn ei gyfanrwydd?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is the issue and that, of course, makes it expensive as far as Government is concerned. But, what I can say is that the Minister is writing to the Chancellor of the Exchequer, asking him to designate Port Talbot as an enterprise zone. That will mean assistance in terms of capital allowances; that will mean that we will be able to target business rate relief, and we look forward to the Chancellor of the Exchequer agreeing that we should be able to do that here in Wales.

Dyna yw'r broblem ac mae hynny, wrth gwrs, yn ei wneud yn ddrud cyn belled ag y mae Llywodraeth yn y cwestiwn. Ond, yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod y Gweinidog yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys, yn gofyn iddo ddynodi Port Talbot fel ardal fenter. Bydd hynny'n golygu cymorth o ran lwfansau cyfalaf; a fydd yn golygu y byddwn yn gallu targedu rhyddhad ardrethi busnes, ac edrychwn ymlaen at weld Canghellor y Trysorlys yn cytuno y dylem ni allu gwneud hynny yma yng Nghymru.

Yes, we recognise, of course, that we need to do work on business rates, but the UK Government also has to recognise that there are factors here that are outside of the control of the Welsh Government. There are two unique factors that affect the steel industry only in Britain and which don't affect the steel industry elsewhere in Europe. One is the strength of currency, and that is something that Tata have flagged up very strongly with us. There is less that the UK Government—they are not powerless—but there is less that the UK Government can do about that. But, on energy costs, that is something that we have lobbying the UK Government about for four years. They recognised last month that this was an issue. We do need to see action on this now. We will work with the UK Government, because I think the last thing that those who see their jobs at risk want to see is a political battle taking place. But we have to understand that there are, of course, challenges for us as a Government, that there are major challenges for the UK Government and, indeed, that there are challenges for the European Commission.

Ydym, rydym ni'n cydnabod, wrth gwrs, bod angen i ni weithio ar ardrethi busnes, ond mae'n rhaid i Lywodraeth y DU hefyd gydnabod bod ffactorau yn y fan yma sydd y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru. Ceir dau ffactor unigryw sy'n effeithio ar y diwydiant dur ym Mhrydain yn unig ac nad ydynt yn effeithio ar y diwydiant dur mewn mannau eraill yn Ewrop. Un yw cryfder arian, ac mae hynny'n rhywbeth y mae Tata wedi tynnu sylw ato'n gryf iawn gyda ni. Mae llai y gall Llywodraeth y DU—nid yw hi'n ddi-rym—ond mae llai y gall Llywodraeth y DU ei wneud am hynny. Ond, o ran costau ynni, mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni wedi lobïo Llywodraeth y DU yn ei gylch ers pedair blynedd. Cydnabuwyd ganddynt fis diwethaf bod hyn yn broblem. Mae angen i ni weld camau ar hyn nawr. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, oherwydd rwy'n credu mai'r peth olaf y bydd y rhai sy'n gweld eu swyddi mewn perygl eisiau ei weld yn digwydd yw brwydr wleidyddol. Ond mae'n rhaid i ni ddeall bod heriau, wrth gwrs, i ni fel Llywodraeth, bod heriau mawr i Lywodraeth y DU ac, yn wir, bod heriau i'r Comisiwn Ewropeaidd.

13:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I look forward to working with you and any other politicians who want to advance the cause of Port Talbot and other steelworks here in Wales, and I, too, will be joining in those discussions and correspondence with the Chancellor to see what help we can offer from the Welsh Conservatives, and, in particular, building on the five-point plan for steel that we've brought forward. I hope that other Members will be able to coalesce around that.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ac unrhyw wleidyddion eraill sydd eisiau hyrwyddo achos Port Talbot a gweithfeydd dur eraill yma yng Nghymru, a byddaf innau, hefyd, yn ymuno yn y trafodaethau a'r ohebiaeth honno gyda'r Canghellor i weld pa gymorth y gallwn ni ei gynnig gan Geidwadwyr Cymru, ac, yn benodol, adeiladu ar y cynllun pum pwynt ar gyfer dur yr ydym ni wedi ei gyflwyno. Gobeithiaf y bydd Aelodau eraill yn gallu cyfuno o gwmpas hynny.

I do want to ask you a question, though, on another issue that's in the news today, around the Royal College of Emergency Medicine, and in particular the pressure that accident and emergency departments in Wales are facing. We know that, across the United Kingdom, there are pressures on A&E departments, but I do not believe that there is a single country within the United Kingdom that is understaffed in every A&E unit, as the report identifies today. In the freedom of information request that we've had returned from the health boards across Wales, in June of last year, the full-time equivalent, or the staffing measure that was used for consultant-grade posts, was only being met by that 45 per cent. Can you answer the question, First Minister, as to exactly how the Government will respond to the report around A&E staffing levels and, importantly, the retention of consultants within those units?

Rwyf eisiau gofyn cwestiwn i chi, fodd bynnag, am fater arall sydd yn y newyddion heddiw, yn ymwneud â'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, ac, yn benodol, y pwysau y mae adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru yn eu hwynebu. Rydym ni'n gwybod, ar draws y Deyrnas Unedig, bod pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys, ond nid wyf yn credu bod yr un wlad yn y Deyrnas Unedig nad oes ganddi ddigon o staff ym mhob uned damweiniau ac achosion brys, fel y mae'r adroddiad yn ei nodi heddiw. Yn y cais rhyddid gwybodaeth a ddychwelwyd gan y byrddau iechyd ledled Cymru, ym mis Mehefin y llynedd, roedd y mesur cyfwerth ag amser llawn, neu'r mesur staffio a ddefnyddiwyd ar gyfer swyddi gradd ymgynghorwyr, yn cael ei fodloni gan y 45 y cant hynny. A allwch chi ateb y cwestiwn, Brif Weinidog, am sut yn union y bydd y Llywodraeth yn ymateb i'r adroddiad ar lefelau staffio adrannau damweiniau ac achosion brys ac, yn bwysig, yn cadw meddygon ymgynghorol yn yr unedau hynny?

13:47

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, the comment that was made today—. Yes, we heard what was said, but I think it's worth saying that the doctor who made the comment also said this is a problem that is across the UK, not just in terms of Wales. It's a problem for all of us, that much is true. He also said that we are able to fill our junior doctor training posts in Wales. We've done that over the last year to maximum numbers, and it was said that we could fill them again. It is true to say that it's always a challenge to recruit A&E consultants. That much is true. We know that, at this time of year, there are pressures. We plan for those pressures. We are grateful for the hard work that so many of our medical staff put in during this time of year. And we will, of course, work, as was acknowledged by the royal college, with the royal college itself in order to ensure that we can attract even more doctors to Wales. I do have to point out that we have already increased the number of A&E consultants in Wales by over 50 per cent in the last five years, and we will, of course, continue to do more.

Yn gyntaf oll, y sylw a wnaed heddiw—. Do, clywsom yr hyn a ddywedwyd, ond rwy'n meddwl ei bod yn werth dweud bod y meddyg a wnaeth y sylw hwn hefyd wedi dweud bod hon yn broblem ar draws y DU, nid dim ond o ran Cymru. Mae'n broblem i ni i gyd, mae cymaint â hynny'n wir. Dywedodd hefyd ein bod yn gallu llenwi ein swyddi hyfforddi meddygon iau yng Nghymru. Rydym ni wedi gwneud hynny dros y flwyddyn ddiwethaf i'r uchafswm niferoedd, a dywedwyd y gallem ni eu llenwi eto. Mae'n wir i ddweud ei bod hi bob amser yn anodd recriwtio meddygon damweiniau ac achosion brys ymgynghorol. Mae cymaint â hynny'n wir. Rydym ni'n gwybod, ar yr adeg hon o'r flwyddyn, bod pwysau. Rydym ni'n cynllunio ar gyfer y pwysau hynny. Rydym ni'n ddiolchgar am y gwaith caled y mae cynifer o'n staff meddygol yn ei wneud ar yr adeg hon o'r flwyddyn. A byddwn, wrth gwrs, yn gweithio, fel y cydnabuwyd gan y coleg brenhinol, gyda'r coleg brenhinol ei hun er mwyn sicrhau y gallwn ddenu hyd yn oed mwy o feddygon i Gymru. Mae'n rhaid i mi nodi ein bod eisoes wedi cynyddu nifer y meddygon damweiniau ac achosion brys ymgynghorol yng Nghymru gan fwy na 50 y cant yn y pum mlynedd diwethaf, a byddwn, wrth gwrs, yn parhau i wneud mwy.

13:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, the news from Tata Steel will be devastating to hundreds of families and it's vital that the Welsh Government does all that it can to help those workers retrain to find other jobs and to maintain salaries. When the steelworks closed in Newport, a number of years ago now, the Welsh Government set up Newport Unlimited, a development company with a significant budget, to try and mitigate the job losses in steel and to try to build resilience within that community. Do you have any similar plans to establish such a scheme to address these significant job losses in the steel industry?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, bydd y newyddion gan Tata Steel yn ofnadwy i gannoedd o deuluoedd ac mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i helpu'r gweithwyr hynny ailhyfforddi i ddod o hyd i swyddi eraill ac i gynnal cyflogau. Pan gaeodd y gwaith dur yng Nghasnewydd, nifer o flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, sefydlodd Llywodraeth Cymru Newport Unlimited, cwmni datblygu â chyllideb sylweddol, i geisio lliniaru'r colledion swyddi ym maes dur ac i geisio adeiladu cydnerthedd yn y gymuned honno. A oes gennych chi unrhyw gynlluniau tebyg i sefydlu cynllun o'r fath i roi sylw i'r colledion swyddi sylweddol hyn yn y diwydiant dur?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, these are all issues that will be discussed at the meeting that will take place tomorrow of the taskforce chaired by the Minister. I've already mentioned, earlier on in questions, the request that we are making for the designation of an enterprise zone, which I believe will help. What we don't know at the moment is what the split will be between voluntary and compulsory redundancies. We don't know how many people will be in need of retraining and, indeed, further help. But we have a track record—we did this in Murco, and we did this, as the leader of the Liberal Democrats is correct to say, back in 2001, when there were more significant job losses at that time. So, tomorrow will be the start of a short process in order to develop an action plan to deal with these job losses.

Oes, mae'r rhain i gyd yn faterion a gaiff eu trafod yng nghyfarfod y tasglu a gynhelir yfory, wedi'i gadeirio gan y Gweinidog. Rwyf eisoes wedi sôn, yn gynharach yn y cwestiynau, y cais yr ydym ni'n ei wneud ar gyfer dynodi ardal fenter, yr wyf yn credu fydd o gymorth. Yr hyn nad ydym yn ei wybod ar hyn o bryd yw beth fydd y rhaniad rhwng diswyddiadau gwirfoddol a gorfodol. Nid ydym yn gwybod faint o bobl fydd angen eu hailhyfforddi ac, yn wir, angen rhagor o gymorth. Ond mae gennym ni hanes—gwnaethpwyd hyn gennym yn Murco, a gwnaethpwyd hyn gennym, fel y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gywir i ddweud, yn ôl yn 2001, pan roedd mwy o golledion swyddi ar yr adeg honno. Felly, yfory fydd cychwyn proses gryno i ddatblygu cynllun gweithredu i ymdrin â'r colledion swyddi hyn.

13:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I was dismayed to read comments yesterday from you that you felt that you had done everything that you could to help the steel industry, so I'm glad at least today to hear that there are more initiatives being pursued by the Government to try and ensure that there is a future.

Brif Weinidog, roeddwn i'n siomedig o ddarllen sylwadau gennych chi ddoe eich bod yn teimlo eich bod wedi gwneud popeth y gallech i helpu'r diwydiant dur, felly rwy'n falch o leiaf heddiw i glywed bod y Llywodraeth yn cyflwyno mwy o fentrau i geisio sicrhau y bydd dyfodol.

Can I return to the issue of business rates? Your Government has had full control of business rates since last year. In November of this year, you told me that your Government would proactively look at the abolition of business rates on plant and machinery, and now, today, you tell us that the Minister has written to the Chancellor of the Exchequer. First Minister, problems in the steel industry have been around for very many months: Redcar and Scunthorpe were perhaps warning signals to us that our steelworkers would be next. Why did the Minister wait until the job losses had been announced before writing to the Chancellor of the Exchequer to pursue the issue of an enterprise zone, and when will you be in a position to make a positive announcement around business rates for Tata?

A gaf i ddychwelyd at fater ardrethi busnes? Mae eich Llywodraeth wedi bod mewn rheolaeth lawn o ardrethi busnes ers y llynedd. Ym mis Tachwedd eleni, dywedasoch wrthyf y byddai eich Llywodraeth yn edrych yn rhagweithiol ar ddiddymu ardrethi busnes ar offer a pheiriannau, a nawr, heddiw, rydych chi'n dweud wrthym fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys. Brif Weinidog, bu problemau yn y diwydiant dur ers misoedd lawer: roedd Redcar a Scunthorpe efallai'n arwyddion o rybudd i ni mai ein gweithwyr dur ni fyddai nesaf. Pam wnaeth y Gweinidog aros tan roedd y colledion swyddi wedi'u cyhoeddi cyn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys i fynd ar drywydd y mater o ardal fenter, a phryd fyddwch chi mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad cadarnhaol ar ardrethi busnes i Tata?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have to say I'm surprised at the tone of the question from the leader of the Liberal Democrats—to say that she is dismayed that the Welsh Government did all that it could to help the steel industry.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn synnu at dôn y cwestiwn gan arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol—i ddweud ei bod yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud popeth yn ei gallu i helpu'r diwydiant dur.

13:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You said it yesterday.

Chi ddywedodd hynny ddoe.

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, that's an unfortunate phrase, and not in the spirit, I would argue, of what has been said today—indeed, by the leader of the opposition. I have to say to her that we were not aware of what the scale of the announcement would be until the end of last week, when I had a conversation with Tata. She is right to say that we knew that there were challenges for the steel industry, but, in terms of the scale of the job losses, we weren't aware of that until the end of last week.

Wel, mae hwnna'n ymadrodd anffodus, ac nid yn ysbryd, byddwn yn dadlau, yr hyn a ddywedwyd heddiw—yn wir, gan arweinydd yr wrthblaid. Mae'n rhaid i mi ddweud wrthi nad oeddem yn ymwybodol o beth fyddai graddfa'r cyhoeddiad tan ddiwedd yr wythnos diwethaf, pan gefais sgwrs gyda Tata. Mae hi'n iawn i ddweud ein bod yn gwybod bod heriau i'r diwydiant dur, ond, o ran maint y colledion swyddi, nid oeddem yn ymwybodol o hynny tan ddiwedd yr wythnos diwethaf.

It is right to say that Tata have asked us to join with them in emphasising to the UK Government how important the issue of energy cost prices is to them, how important the issue of infrastructure projects is as well, because we know that the tidal lagoon is a huge project, with great opportunities for steel, HS2 is a great project, electrification—these are all infrastructure projects for steel, where there's the opportunity to specify the quality of the steel, which would mean a level playing field for plants like Port Talbot. Those schemes have not gone ahead, and they do need to go ahead for the future. Tomorrow's emphasis will be on helping people, on making sure that we understand what can be done to help those who are affected, and, of course, we will then, at the same time, look at how we can encourage the UK Government, and, indeed, I have to say, the European Commission in this regard, to make sure, firstly, that we see the establishment of a level playing field, where we don't see below-cost imports coming into the EU, and, secondly, that the fundamental issues of, for example, energy costs, are dealt with quickly.

Mae'n iawn i ddweud bod Tata wedi gofyn i ni ymuno â nhw i bwysleisio i Lywodraeth y DU pa mor bwysig yw'r mater o brisiau cost ynni iddyn nhw, pa mor bwysig yw'r mater o brosiectau seilwaith hefyd, gan ein bod yn gwybod bod y morlyn llanw yn brosiect enfawr, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer dur, mae HS2 yn brosiect gwych, trydaneiddio—mae'r rhain i gyd yn brosiectau seilwaith ar gyfer dur, lle ceir y cyfle i bennu ansawdd y dur, a fyddai'n golygu chwarae teg i weithfeydd fel Port Talbot. Nid yw'r cynlluniau hynny wedi mynd yn eu blaenau, ac mae angen iddyn nhw fynd yn eu blaenau ar gyfer y dyfodol. Bydd pwyslais yfory ar helpu pobl, ar sicrhau ein bod yn deall yr hyn y gellir ei wneud i helpu'r rhai sy'n cael eu heffeithio, ac, wrth gwrs, byddwn wedyn, ar yr un pryd, yn ystyried sut y gallwn annog Llywodraeth y DU, ac, yn wir, mae'n rhaid i mi ddweud, y Comisiwn Ewropeaidd yn hyn o beth, i wneud yn siŵr, yn gyntaf, ein bod yn gweld chwarae teg yn cael ei sicrhau i bawb, lle nad ydym yn gweld mewnforion is na chost yn dod i mewn i'r UE, ac, yn ail , bod y problemau sylfaenol o gostau ynni, er enghraifft, yn cael eu datrys yn gyflym.

13:52 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, of course it won't be just the workers at Tata that will be fearful for their futures today, but also those working for people who work in the supply chain and in the businesses in these communities that will be affected who will be very concerned about what the knock-on effect will be to their businesses and their employment prospects. Figures published yesterday by the Federation of Small Businesses show that confidence amongst small businesses in Wales has fallen back into minus numbers for the first time in almost two years. Welsh small and medium-sized enterprises are losing confidence in our economy, and now a key player in the economy of south Wales says it can't guarantee its long-term future for Port Talbot. Could you outline today what key policies you will be bringing forward to turn business confidence in the small business sector around so that they feel that they have the confidence that they can invest and look to a brighter future?

Brif Weinidog, nid y gweithwyr yn Tata yn unig a fydd yn ofnus am eu dyfodol heddiw, wrth gwrs, ond hefyd y rhai sy'n gweithio i bobl sy'n gweithio yn y gadwyn gyflenwi ac yn y busnesau yn y cymunedau hyn a fydd yn cael eu heffeithio a fydd yn bryderus iawn am beth fydd y sgil-effaith ar eu busnesau nhw a'u rhagolygon cyflogaeth. Mae ffigurau a gyhoeddwyd ddoe gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yn dangos bod hyder ymhlith busnesau bach yng Nghymru wedi gostwng yn ôl i rifau minws am y tro cyntaf ers bron i ddwy flynedd. Mae mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yn colli hyder yn ein heconomi, ac mae chwaraewr allweddol yn economi'r de bellach yn dweud na all sicrhau ei ddyfodol hirdymor ar gyfer Port Talbot. A allech chi amlinellu heddiw pa bolisïau allweddol y byddwch chi'n eu cyflwyno i weddnewid hyder busnes yn y sector busnesau bach fel eu bod yn teimlo bod yr hyder ganddyn nhw y gallant fuddsoddi ac edrych at ddyfodol mwy disglair?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Many small businesses, of course, depend on larger businesses for their existence. If we look at the plant at Port Talbot, it does sustain jobs for many, many contractors, that much is true. It goes without saying that the announcement yesterday was unwelcome. We have to balance that, of course, against the good job announcements that we've had in the course of the past year—we look at creative industries; there are many, many SMEs that are benefiting with the productions that are coming to Wales. But, of course, yesterday there was more difficult news. We, of course, work with our SMEs in terms of being able to help them, whether it's through finance, whether it's through advice, because we recognise how important they are to the Welsh economy. The leader of the Liberal Democrats is correct: the emphasis now has to be on ensuring a sustainable future for steel in Wales, which I believe is perfectly possible. We're not talking here about an industry that has not had investment, that is antiquated, that somehow belongs in a past era—far from it. Port Talbot is one of the most sophisticated plants in Europe. It has had lots of investment, it has a fantastic workforce and it has the ability to produce high-quality steel. What it doesn't have is a level playing field, and that is something that a number of levels of government have to address.

Mae llawer o fusnesau bach, wrth gwrs, yn dibynnu ar fusnesau mwy ar gyfer eu bodolaeth. Os edrychwn ar y gwaith ym Mhort Talbot, mae'n cynnal swyddi i lawer iawn o gontractwyr, mae cymaint â hynny'n wir. Afraid dweud bod y cyhoeddiad ddoe yn ddigroeso. Mae'n rhaid i ni gydbwyso hynny, wrth gwrs, yn erbyn y cyhoeddiadau swyddi da yr ydym ni wedi eu cael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf—rydym ni'n edrych ar ddiwydiannau creadigol; ceir llawer iawn o BBaChau sy'n elwa o'r cynyrchiadau sy'n dod i Gymru. Ond, wrth gwrs, roedd newyddion anoddach ddoe. Rydym ni, wrth gwrs, yn gweithio gyda'n BBaChau o ran gallu eu helpu, boed trwy gyllid, boed trwy gyngor, gan ein bod yn cydnabod pa mor bwysig ydyn nhw i economi Cymru. Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gywir: mae'n rhaid i'r pwyslais nawr fod ar sicrhau dyfodol cynaliadwy i ddur yng Nghymru, yr wyf yn credu sy'n gwbl bosibl. Nid ydym yn sôn yma am ddiwydiant nad yw wedi cael buddsoddiad, sy'n hen ffasiwn, sydd rywsut yn perthyn yn y gorffennol—mae hynny ymhell o fod yn wir. Port Talbot yw un o'r gweithfeydd mwyaf soffistigedig yn Ewrop. Mae wedi cael llawer o fuddsoddiad, mae ganddo weithlu ardderchog ac mae ganddo'r gallu i gynhyrchu dur o ansawdd uchel. Yr hyn nad oes ganddo yw chwarae teg, ac mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i sawl lefel o lywodraeth roi sylw iddo.

13:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Now we move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn yn awr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:55 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. We'll return to steel later in this session, First Minister. I'd like to go back to the question of health. It's clear from your response to Dr Robin Roop's concerns that you think that Welsh patients should just put up with the current state of the Welsh NHS. One point that Dr Roop made is, and I quote:

Diolch, Lywydd. Byddwn yn dychwelyd at ddur yn ddiweddarach yn y sesiwn hon, Brif Weinidog. Hoffwn ddychwelyd at y cwestiwn o iechyd. Mae'n eglur ô'ch ymateb i bryderon Dr Robin Roop eich bod yn credu y dylai cleifion yng Nghymru dderbyn sefyllfa bresennol GIG Cymru. Dyma un pwynt a wnaeth Dr Roop, a dyfynnaf:

'In Wales staff turnover in emergency medicine is getting worse. We have not been able to recruit new consultants at the same level here as in other countries.'

Mae trosiant staff ym maes meddygaeth frys yn gwaethygu yng Nghymru. Nid ydym wedi gallu recriwtio ymgynghorwyr newydd ar yr un lefel yma ag mewn gwledydd eraill.

I wonder if you can tell us how many health boards are out recruiting now for emergency consultants. And, First Minister, I heard in your answer earlier on that you said that there's been an increase in spending on A&E consultants and that, according to your own figures, that's almost £1 billion. If you can't show results from this, then doesn't it call into question your management?

Tybed a allech chi ddweud wrthym faint o fyrddau iechyd sydd wrthi'n recriwtio meddygon ymgynghorol brys ar hyn o bryd. A, Brif Weinidog, clywais eich ateb yn gynharach pan ddywedasoch y bu cynnydd i wariant ar feddygon ymgynghorol damweiniau ac achosion brys ac, yn ôl eich ffigurau eich hun, bod hynny bron i £1 biliwn. Os na allwch ddangos canlyniadau o hyn, yna onid yw'n bwrw amheuaeth ar eich rheolaeth?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, she's misheard what I said. What I said was that the number of A&E consultants has increased by over 50 per cent in the last five years, from 40 to over 60, and we will continue to do more to recruit them. Health boards are actively recruiting to current vacancies, but there are shortages, not just in Wales but across the UK, in terms of those who are available for A&E consultant roles. It is, however, encouraging that we are able to fill the junior doctor training posts in Wales—we did it last year to maximum numbers and we can fill it again—because that means, of course, that where doctors train in Wales, they are more likely to stay in Wales. We've seen what's happened with junior doctor strikes in England; it's quite clear that junior doctors see Wales as an attractive place to begin their careers, and also, I believe, to develop their careers.

Yn gyntaf oll, mae hi wedi cam-glywed yr hyn a ddywedais. Yr hyn a ddywedais oedd bod nifer y meddygon ymgynghorol damweiniau ac achosion brys wedi cynyddu dros 50 y cant yn y pum mlynedd diwethaf, o 40 i dros 60, a byddwn yn parhau i wneud mwy i'w recriwtio. Mae byrddau iechyd yn recriwtio'n ymarferol i swyddi gwag cyfredol, ond ceir prinder, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU, o ran y rhai sydd ar gael ar gyfer swyddi meddygon ymgynghorol damweiniau ac achosion brys. Fodd bynnag, mae'n galonogol ein bod yn gallu llenwi'r swyddi hyfforddi meddygon iau yng Nghymru—gwnaethom hynny y llynedd hyd at yr uchafswm niferoedd a gallwn eu llenwi eto—oherwydd mae hynny'n golygu, wrth gwrs, pan fo meddygon yn hyfforddi yng Nghymru, maen nhw'n fwy tebygol o aros yng Nghymru. Rydym ni wedi gweld yr hyn sydd wedi digwydd gyda streiciau meddygon iau yn Lloegr; mae'n eithaf amlwg bod meddygon iau yn gweld Cymru fel lle deniadol i ddechrau eu gyrfaoedd, a hefyd, rwy'n credu, i ddatblygu eu gyrfaoedd.

13:57 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

But if you just look at A&E times alone, then people here in Wales wait longer for A&E than they do in either England or Scotland. Now, if the situation with regards to recruiting consultants is the same right throughout the UK, why are patients in Wales waiting longer than anywhere else?

Ond os edrychwch chi ar amseroedd damweiniau ac achosion brys yn unig, yna mae pobl yma yng Nghymru yn aros yn hwy am wasanaethau damweiniau ac achosion brys nag y maen nhw naill ai yn Lloegr neu yn Alban. Nawr, os yw'r sefyllfa o ran recriwtio meddygon ymgynghorol yr un fath ar hyd a lled y DU, pam mae cleifion yng Nghymru yn aros yn hwy nag yn unman arall?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It's comparing apples with pears. Let me give you an example: in England, A&E waiting times include their walk-in centres, which are not A&E departments, but they are included in the figures, and that helps, then, to present the figures in a different way. We use figures for A&E departments. We don't use walk-in centres—we don't have walk-in centres—as a way of making our figures appear better. What we do know is that the hospitals have coped with the winter pressures and the plans have held. We know that people have been—we haven't seen what we saw in England last year in A&E. The pressures are there, that much is true, and those pressures will need to be addressed. But I do note that the comments of the royal college are positive in terms of the engagement that they have with the Welsh Government, positive in terms of recruitment of junior doctors, and, of course, recognise the fact that there are difficulties across the UK and beyond in terms of recruitment, and that it's a challenge that all of us, in all levels of government, including Scotland, have to rise to.

Mae fel cymharu afalau gyda gellyg. Gadewch i mi roi enghraifft i chi: yn Lloegr, mae amseroedd aros damweiniau ac achosion brys yn cynnwys eu canolfannau galw i mewn, nad ydynt yn adrannau damweiniau ac achosion brys, ond maen nhw'n cael eu cynnwys yn y ffigurau, ac mae hynny'n helpu, wedyn, i gyflwyno'r ffigurau mewn ffordd wahanol. Rydym ni'n defnyddio ffigurau ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys. Nid ydym yn defnyddio canolfannau galw i mewn—nid oes gennym ni ganolfannau galw i mewn—fel ffordd o wneud ein ffigurau ymddangos yn well. Yr hyn yr ydym ni'n ei wybod yw bod yr ysbytai wedi ymdopi â phwysau'r gaeaf ac mae'r cynlluniau wedi bod yn gadarn. Rydym ni'n gwybod bod pobl wedi bod yn—nid ydym wedi gweld yr hyn a welsom yn Lloegr y llynedd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'r pwysau yno, mae cymaint â hynny'n wir, a bydd angen mynd i'r afael â'r pwysau hwnnw. Ond rwy'n sylwi bod sylwadau'r coleg brenhinol yn gadarnhaol o ran yr ymgysylltiad sydd ganddyn nhw gyda Llywodraeth Cymru, yn gadarnhaol o ran recriwtio meddygon iau, ac, wrth gwrs, yn cydnabod y ffaith bod anawsterau ar draws y DU a thu hwnt o ran recriwtio, a'i bod yn her y mae'n rhaid i bob un ohonom ni, ar bob lefel o lywodraeth, gan gynnwys yr Alban, ymateb iddi.

13:58 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, these sound like excuses, and they sound like weak excuses. These are not new problems, are they? They are problems that your Government has consistently failed to tackle, though. Plaid Cymru has set out our plans clearly to increase the capacity in the health service, to bring down waiting times and to counter your centralisation plans, which, of course, are making all of this worse. Our plans to train and recruit 1,000 extra doctors will improve outcomes for patients, and our proposals to fully integrate health and social care will deal with the bureaucratic nightmare that Dr Roop has highlighted.

Brif Weinidog, mae'r rhain yn swnio fel esgusodion, ac maen nhw'n swnio fel esgusodion gwan. Nid yw'r rhain yn broblemau newydd, ydyn nhw? Maen nhw'n broblemau y mae eich Llywodraeth wedi methu mynd i'r afael â nhw'n gyson, serch hynny. Mae Plaid Cymru wedi cyflwyno ein cynlluniau'n eglur i gynyddu capasiti yn y gwasanaeth iechyd, i leihau amseroedd aros ac i wrthwneud eich cynlluniau canoli, sydd, wrth gwrs, yn gwneud hyn i gyd yn waeth. Bydd ein cynlluniau i hyfforddi a recriwtio 1,000 o feddygon ychwanegol yn gwella canlyniadau i gleifion, a bydd ein cynigion i integreiddio iechyd yn llawn yn ymdrin â'r hunllef fiwrocrataidd y mae Dr Roop wedi tynnu sylw ati.

Now, First Minister, we all know what you are against. You consistently rubbish new ideas that will improve outcomes for people, although, usually, a few years down the line, our proposals are accepted by yourselves—you come round. Is it not time now to come round to addressing the crisis in NHS recruitment, as well as the need to fully integrate health and social care?

Nawr, Brif Weinidog, rydym ni i gyd yn gwybod beth yr ydych chi'n ei wrthwynebu. Rydych chi'n difrïo syniadau newydd a fydd yn gwella canlyniadau i bobl yn gyson, er, fel rheol, ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, mae ein cynigion yn cael eu derbyn gennych chi eich hunain—rydych chi o'r un meddylfryd yn y pen draw. Onid yw'n bryd nawr i fabwysiadu'r meddylfryd o fynd i'r afael ag argyfwng recriwtio'r GIG, yn ogystal â'r angen i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, let me deal with that issue and the issue of steel as well, because it's relevant to what I'm going to say about health. This morning, I understand from your party's press conference, the suggestion was that the Welsh Government should borrow up to £1 billion in order to take a stake in Tata. If you think that's sensible—[Interruption.] If you think that's sensible, then I say to you now—[Assembly Members: 'Oh.'] Well, I say to you now: that is not the way to deal with the situation in the steel—

Wel, gadewch i mi ymdrin â'r mater hwnnw a'r mater o ddur hefyd, gan ei fod yn berthnasol i'r hyn yr wyf i'n mynd i ddweud am iechyd. Y bore yma, rwy'n deall o gynhadledd eich plaid i'r wasg, mai'r awgrym oedd y dylai Llywodraeth Cymru fenthyg hyd at £1 biliwn er mwyn cymryd cyfran yn Tata. Os ydych chi'n credu bod hynny'n synhwyrol—[Torri ar draws.] Os ydych chi'n credu bod hynny'n synhwyrol, yna rwy'n dweud wrthych chi nawr— [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Wel, rwy'n dweud wrthych chi nawr: nid dyna'r ffordd i ymdrin â'r sefyllfa yn y diwydiant—

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues. ]—industry. Secondly—[Interruption.]

[Yn parhau.]—dur. Yn ail—[Torri ar draws.]

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. First Minister.

Trefn, trefn. Brif Weinidog.

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—it was said—

[Yn parhau.]—dywedwyd—

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, First Minister.

Brif Weinidog, Brif Weinidog.

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—that the money should not be used for the M4, but to buy a stake in Tata. That is money that has to be borrowed.

[Yn parhau.]—na ddylai'r arian gael ei ddefnyddio ar gyfer yr M4, ond i brynu cyfran yn Tata. Mae hwnnw'n arian y mae'n rhaid ei fenthyg.

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Is my microphone on?

A yw fy meicroffon i ymlaen?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Now, in the context of that, I turn to the issue of what you said about doctors. You say—[Interruption.] Well, either you want to listen—

Nawr, yng nghyd-destun hynny, trof at y mater o'r hyn a ddywedasoch am feddygon. Rydych chi'n dweud—[Torri ar draws.] Wel, rydych chi naill ai eisiau gwrando—

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. Will you let the—? I'm sorry, First Minister—. First Minister. First Minister.

Trefn. A wnewch chi adael i'r—? Mae'n ddrwg gen i, Brif Weinidog—. Brif Weinidog. Brif Weinidog.

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I'm sorry if you don't like having your comments repeated back to you, but let me turn to the second point that—

Mae'n ddrwg gen i os nad ydych chi'n hoffi i'ch sylwadau gael eu hailadrodd yn ôl i chi, ond gadewch i mi droi at yr ail bwynt a—

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry, First Minister. First Minister. First Minister. Your microphone has been turned off, First Minister. I'm trying to get some quiet so we can hear what you're saying.

Mae'n ddrwg gen i, Brif Weinidog. Brif Weinidog. Brif Weinidog. Mae eich meicroffon wedi ei ddiffodd, Brif Weinidog. Rwy'n ceisio cael rhywfaint o ddistawrwydd fel y gallwn glywed yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud.

The Minister has not finished answering his question yet, so you can't say that he's not answering it.

Nid yw'r Gweinidog wedi gorffen ateb ei gwestiwn eto, felly ni allwch chi ddweud nad yw'n ei ateb.

14:01 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, he's answering a question that he wasn't asked.

Wel, mae'n ateb cwestiwn na ofynnwyd iddo.

14:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, you have to wait until he's finished. First Minister.

Wel, mae'n rhaid i chi aros tan ei fod wedi gorffen. Brif Weinidog.

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will move on, having used that context, to deal with the point that she raises. There is an issue with the recruitment, she says, of A&E consultants. She is correct. There is an issue across the whole of the UK in that regard. A thousand doctors do not address the issue of A&E consultants, because what she is suggesting is we should train 1,000 doctors. It takes 10 years, at least, to train somebody to the level of a consultant. That will not help in recruiting consultants now to the Welsh NHS, and we will focus on recruiting consultants now, rather than saying, as she does, 'It doesn't matter, because everything will be fine in 10 years' time'. That's not good enough; we want to deliver things now.

Symudaf ymlaen, ar ôl defnyddio'r cyd-destun hwnnw, i ymdrin â'r pwynt y mae hi'n ei godi. Ceir problem gyda recriwtio, meddai, meddygon ymgynghorol damweiniau ac achosion brys. Mae hi'n gywir. Mae problem ar draws y DU gyfan yn hynny o beth. Nid yw mil o feddygon yn mynd i'r afael â'r mater o feddygon ymgynghorol damweiniau ac achosion brys, oherwydd yr hyn y mae'n ei awgrymu yw y dylem ni hyfforddi 1,000 o feddygon. Mae'n cymryd 10 mlynedd, o leiaf, i hyfforddi rhywun i lefel meddyg ymgynghorol. Ni fydd hynny'n helpu i recriwtio meddygon ymgynghorol i GIG Cymru nawr, a byddwn yn canolbwyntio ar recriwtio meddygon ymgynghorol nawr, yn hytrach na dweud, fel y mae hi'n ei wneud, 'Nid yw o bwys, gan y bydd popeth yn iawn mewn 10 mlynedd'. Nid yw hynny'n ddigon da; rydym ni eisiau cyflawni pethau nawr.

14:02 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

There's no need for patronising, is there?

Nid oes angen bod yn nawddoglyd, nac oes?

14:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would appreciate it if Members could let the Chair hear what's happening this afternoon, so please can you stop shouting across the Chamber?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Aelodau adael i'r Cadeirydd glywed yr hyn sy'n digwydd y prynhawn yma, felly a wnewch chi roi'r gorau i weiddi ar draws y Siambr?

We now move back to questions on the paper. Question 3, Keith Davies.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr. Cwestiwn 3, Keith Davies.

### Tlodi Pobl Hŷn

### Older People in Poverty

14:02 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*3. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi ymhlith pobl hŷn yng Nghymru? OAQ(4)2665(FM)[W]*

*3. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's commitment to tackling poverty among older people in Wales? OAQ(4)2665(FM)[W]*

14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym wedi ymrwymo i drechu tlodi i bawb, gan gynnwys pobl hŷn. Er enghraifft, hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon mae'n rhaglen Cefnogi Pobl wedi helpu dros 43,000 o bobl hŷn i fyw'n annibynnol. Mae cyllid sydd wedi'i ddyrannu i Age Cymru wedi'u helpu i ymateb i dros 17,000 cais am gyngor yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

We are committed to tackling poverty for all, including older people. For example, so far in the current financial year, our Supporting People programme has helped over 43,000 older people to live independently. Funding allocated to Age Cymru enabled them to respond to over 17,000 requests for advice in the first half of this financial year.

14:03 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch. Wythnos diwethaf, clywsom y cyhoeddiad gan Lywodraeth Doriaidd y Deyrnas Unedig am ddatganoli lwfans gweini i Gymru. Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch datganoli'r budd-daliadau lles yma? A ydych yn rhannu fy mhryder i y gallai'r gronfa gael ei thorri cyn cael ei datganoli, yn debyg iawn i ddatganoliad budd-daliadau'r dreth gyngor, ddwy flynedd yn ôl?

Thank you. Last week, we heard an announcement made by the Conservative Government in the UK about devolving the attendance allowance to Wales. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government on the devolution of these welfare benefits? Do you share my concern that the fund could be cut before it's devolved, as happened with the devolution of council tax benefits two years ago?

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Diolch am y cwestiwn. Mae sawl peth. Yn gyntaf, nid ydym wedi gofyn i'r lwfans hwn i gael ei ddatganoli. Nid oes siarad wedi bod ynglŷn â hyn. Nid wyf yn gwybod beth yw'r cynlluniau sydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Beth rydym yn gwybod yw hwn: os edrychwn ni ar beth ddigwyddodd gyda budd-daliadau'r dreth gyngor, cafodd arian ei dynnu bant o'r gyllideb cyn ei bod yn dod i Gymru. Felly, roedd yna fwlch yn y gyllideb cyn iddi gyrraedd. Nid ydym ni'n gwybod ym mha ffordd bydd yr arian yn cael ei ddosbarthu. Yr hyn rydym ni'n gwybod ynglŷn â chanran Prydain Fawr yw bod 7.1 y cant o'r bobl sy'n cael y lwfans yn dod o Gymru. Pe baem ni'n cael rhyw fath o siâr Barnett, byddai llai o arian gennym ni. Felly, nid yw hwn yn rhywbeth rydym ni o blaid ei weld yn cael ei ddatganoli, o gofio'r ffaith nid ydym yn gwybod faint o arian a fydd ar gael.

Thank you for the question. There are a number of issues here. First, we haven't asked for the devolution of this allowance. There's been no discussion on this. I don't know what the United Kingdom Government's plans are. What we do know is that, if we look at what happened with the council tax benefit, funding was taken out of the budget before it was allocated to Wales. So, there was a gap in the budget before it even arrived. We don't know in which way the funding would be allocated. What we do know is that, as regards the Great Britain percentage, 7.1 per cent of the people who are in receipt of the allowance come from Wales. If we got some kind of Barnett allocation, we would have less funding. Therefore, this is not something that we are in favour of seeing devolved, bearing in mind that we don't know how much funding will be available.

14:04 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister, to that particular question. But will you join me in congratulating the UK Government on its introduction of a triple lock for pensioners in terms of the increase in the state pension? Do you not also want to reflect, when you talk about council tax, on the fact that they've had a council tax freeze in England, yet pensioners haven't been able to enjoy such a freeze here in Wales? That has left pensioners hundreds of pounds worse off under your Government than under a Government in England that has frozen council tax.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, i'r cwestiwn penodol yna. Ond a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Llywodraeth y DU ar gyflwyno clo triphlyg i bensiynwyr o ran y cynnydd i bensiwn y wladwriaeth? Onid ydych chi hefyd eisiau myfyrio, pan fyddwch chi'n siarad am y dreth gyngor, ar y ffaith eu bod wedi cael rhewi'r dreth gyngor yn Lloegr, ac eto nid yw pensiynwyr wedi gallu mwynhau rhewi o'r fath yma yng Nghymru? Mae hynny wedi gadael pensiynwyr gannoedd o bunnoedd yn waeth eu byd o dan eich Llywodraeth chi nag o dan Lywodraeth yn Lloegr sydd wedi rhewi'r dreth gyngor.

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I mean, the idea that there has been a freeze in council tax in England is a myth, as we know. At least half of the councils have ignored the freeze. We know that.

Wel, hynny yw, myth yw'r syniad bod y dreth gyngor wedi ei rhewi yn Lloegr, fel y gwyddom. Mae o leiaf hanner y cynghorau wedi anwybyddu'r rhewi. Rydym ni'n gwybod hynny.

14:05 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

But half have frozen.

Ond mae hanner wedi rhewi.

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—We know that, because they couldn't afford to keep their budgets going under the financial settlement that his party delivered. So, you always want to talk about a council tax freeze, but when that leads to a destruction of social care for older people, which is what his party is leading in England, that is not something that we are willing to support. Council tax in Wales is, on average, 17 per cent lower than in England. That is the price of a Conservative Government in England—a 17 per cent increase in council tax. When it comes to attendance allowance, I'll say this once again to him: we've had no discussions over this. If this is something that the UK Government wishes to devolve, then it must not do it on the same basis as council tax benefit, when it took a cut of the money before that money arrived in Wales. We have 7.1 per cent of the GB population that receives attendance allowance. If we get a Barnett share, we'll be tens of millions of pounds out of pocket.

[Yn parhau.]—Rydym ni'n gwybod hynny, gan na allent fforddio cadw eu cyllidebau i fynd o dan y setliad ariannol a ddarparwyd gan ei blaid ef. Felly, rydych chi eisiau siarad am rewi'r dreth gyngor bob amser, ond pan fo hynny'n arwain at ddinistrio gofal cymdeithasol i bobl hŷn, sef yr hyn y mae ei blaid ef yn ei arwain yn Lloegr, nid yw hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n barod i'w gefnogi. Mae'r dreth gyngor yng Nghymru, ar gyfartaledd, 17 y cant yn is nag yn Lloegr. Dyna bris Llywodraeth Geidwadol yn Lloegr—cynnydd o 17 y cant i'r dreth gyngor. Pan ddaw i lwfans gweini, dywedaf hyn wrtho unwaith eto: nid ydym ni wedi cael unrhyw drafodaethau ynghylch hyn. Os yw hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth y DU yn dymuno ei ddatganoli, yna mae'n rhaid iddi beidio â gwneud hynny ar yr un sail â budd-dal treth gyngor, pan gymerodd gyfran o'r arian cyn i'r arian hwnnw gyrraedd Cymru. Mae gennym ni 7.1 y cant o boblogaeth Prydain Fawr sy'n derbyn lwfans gweini. Os byddwn yn cael cyfran Barnett, byddwn ddegau o filiynau o bunnoedd allan o boced.

14:06 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the main reasons why older people have to exist on low incomes is that they're unaware of the financial help available. You mentioned in your previous answer about the financial assistance given to Age Cymru. Other charities are available as well. Could you tell us what efforts the Welsh Government is making to help older people gain access to financial help and, in particular, pension credits to which they are entitled, please?

Brif Weinidog, un o'r prif resymau pam mae'n rhaid i bobl hŷn fodoli ar incwm isel yw nad ydynt yn ymwybodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael. Soniasoch yn eich ateb blaenorol am y cymorth ariannol a roddir i Age Cymru. Mae elusennau eraill ar gael hefyd. A allech chi ddweud wrthym pa ymdrechion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i helpu pobl hŷn gael mynediad at gymorth ariannol ac, yn benodol, credydau pensiwn y mae ganddynt hawl iddynt, os gwelwch yn dda?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we do support a range of advice providers to deliver advice in outreach settings and in different ways, including face to face, over the phone and home visiting, so that we can try and reach the individuals and the families that are most in need of support. We need to ensure that there are a range of advice services available to suit the needs of everyone. We know, for example, that being able to access face-to-face advice is particularly important for older people; so, we'll be looking to maintain this type of service where there is a local need for that service.

Wel, rydym ni yn cynorthwyo amrywiaeth o ddarparwyr cyngor i roi cyngor mewn lleoliadau allgymorth ac mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ymweliadau cartref, fel y gallwn geisio cyrraedd yr unigolion a'r teuluoedd sydd angen cymorth fwyaf. Mae angen i ni sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau cyngor ar gael i gyd-fynd ag anghenion pawb. Rydym ni'n gwybod, er enghraifft, bod gallu cael mynediad at gyngor wyneb yn wyneb yn arbennig o bwysig i bobl hŷn; felly, ein nod fydd cynnal y math hwn o wasanaeth lle ceir angen lleol am y gwasanaeth hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

## Prosiectau Ymchwil Prifysgolion

## University Research Projects

14:07 **William Graham** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 ar brosiectau ymchwil prifysgolion? OAQ(4)2659(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the impact of the Welsh Government 2016-17 budget on university research projects? OAQ(4)2659(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Universities receive a range of funding to support research projects, including through the Higher Education Funding Council for Wales and European funding. To boost Wales's research capacity and to ensure greater future competitive grant capture, Sêr Cymru and Sêr Cymru II are now both operational.

Mae prifysgolion yn derbyn ystod o gyllid i gefnogi prosiectau ymchwil, gan gynnwys trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chyllid Ewropeaidd. Er mwyn rhoi hwb i allu ymchwil Cymru ac i sicrhau y bydd mwy o grantiau cystadleuol yn y dyfodol, mae Sêr Cymru a Sêr Cymru II ill dau yn weithredol erbyn hyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister, for your answer. How do you account for the criticism, First Minister, that the £20 million reduction in the education budget for HEFCW will seriously curtail the amount of money to be spent on quality research, particularly part-time education and expensive subjects, including STEM?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am eich ateb. Sut ydych chi'n esbonio'r feirniadaeth, Brif Weinidog, y bydd y gostyngiad o £20 miliwn i'r gyllideb addysg ar gyfer CCAUC yn cyfyngu'n ddifrifol ar faint o arian fydd yn cael ei wario ar ymchwil o ansawdd, yn enwedig addysg ran-amser a phynciau drud, gan gynnwys STEM?

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, overall income to the sector from private and public services is £1.3 billion. So, we maintain that this budget reduction is actually a relatively small one to the overall sector. In his remit letter to HEFCW the Minister for Education and Skills will provide a strong steer on how the budget should be applied. We will, of course, listen to representations from the sector in the meantime, but it's ultimately for the council to decide the allocation of resources.

Wel, £1.3 biliwn yw cyfanswm yr incwm i'r sector o wasanaethau preifat a chyhoeddus. Felly, rydym ni'n haeru bod y gostyngiad hwn i'r gyllideb mewn gwirionedd yn un cymharol fach i'r sector yn gyffredinol. Yn ei llythyr cylch gwaith i CCAUC, bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn rhoi arweiniad cryf ar sut y dylid defnyddio'r gyllideb. Byddwn, wrth gwrs, yn gwrando ar sylwadau gan y sector yn y cyfamser, ond, yn y pen draw, cyfrifoldeb y cyngor yw penderfynu ar ddyraniad adnoddau.

In terms of research, Sêr Cymru has already gained £27 million of grant income for a £10 million input. Sêr Cymru II has secured £17 million from COFUND, plus £39 million for its other fellowship schemes. So, the remaining other sources of income that are available to higher education, and the figures that are being talked about in terms of reduction, though difficult—I appreciate that—are to be set against the overall income that the sector has.

O ran ymchwil, mae Sêr Cymru eisoes wedi ennill incwm grant o £27 miliwn am fewnbwn o £10 miliwn. Mae Sêr Cymru II wedi sicrhau £17 miliwn gan COFUND, yn ogystal â £39 miliwn ar gyfer ei gynlluniau cymrodoriaeth eraill. Felly, bydd y ffynonellau incwm eraill sy'n weddill sydd ar gael i addysg uwch, a'r ffigurau sy'n cael eu trafod o ran lleihau, er eu bod yn anodd—rwy'n gwerthfawrogi hynny—yn cael eu gosod yn erbyn cyfanswm yr incwm sydd gan y sector.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, mae HEFCW yn ddigon clir achos mae David Blaney wedi e-bostio pob prifysgol yng Nghymru ar 15 Ionawr yn dweud y canlynol:

Well, HEFCW is quite clear on this because David Blaney has e-mailed all Welsh universities on 15 January, saying the following:

It will probably make sense for you to start thinking about reductions of some 40 per cent in our funding for the next academic year.

Mae'n debyg y bydd yn gwneud synnwyr i chi ddechrau meddwl am ostyngiadau o tua 40 y cant i'n cyllid ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Rŷch chi'n torri arian HEFCW ac y mae hwnnw yn ei dro yn torri arian ar gyfer ymchwil o £80 miliwn eleni i rywbeth tebyg i £50 miliwn neu llai ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn eich blwyddyn olaf fel Prif Weinidog, a ydych yn falch eich bod wedi tynnu arian oddi ar ymchwil mewn prifysgolion? Onid yw hynny'n dangos bod eich polisi cyllido prifysgolion yn fethiant llwyr?

You're cutting HEFCW's funding, which, in turn, will cut research funding from £80 million this year to something like £50 million or less next year. In your final year as First Minister, are you proud that you have withdrawn funding from research in universities? Does this not demonstrate that your university funding policy is an utter failure?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Na, nid ydyw, ac rwy'n dod nôl at y ffigurau y gwnes i sôn amdanynt yn gynharach, sef yr arian sydd wedi mynd mewn i Sêr Cymru a Sêr Cymru II. Mae hynny'n dangos faint o ymrwymiad sydd gennym ni, fel Llywodraeth, tuag at y sector a hefyd, wrth gwrs, ynglŷn ag ymchwil. Rŷm ni'n gweld, wrth gwrs, yr ymchwil sydd wedi tyfu, wedi cynyddu, yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf o achos y ffaith bod y cynlluniau hyn wedi cael eu sefydlu ac, wrth gwrs, y cyllid maen nhw wedi ei dynnu i mewn o ffynonellau eraill.

No, it does not, and I return to the figures that I alluded to earlier, namely the money that has gone into Sêr Cymru and Sêr Cymru II. That shows how committed we are, as a Government, to the sector and also in terms of research. We see, of course, the research that has increased and grown in Wales over the past few years due to the fact that these schemes have been established and, of course, the funding that they've drawn in from other sources.

14:10 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I declare an interest: my husband works for Swansea University. Cardiff University, though, in my region, generates £6 in economic impact for every £1 spent on it. Therefore, if the assumed cuts, including the in-year cuts, for that one institution alone are correct, the cut proposed will take £120 million out of the local economy in my region. Cardiff University makes, of itself—in one single institution—a measurable impact on Wales's GVA and Wales's export figures. What assessment did the Welsh Government make of the impact of cuts in budgets in the education and skills department on the outputs it expects to see in the Welsh economy and the economy, science and transport budget?

Rwy'n datgan buddiant: mae fy ngŵr yn gweithio i Brifysgol Abertawe. Fodd bynnag, mae Prifysgol Caerdydd, yn fy rhanbarth i, yn cynhyrchu gwerth £6 miliwn o effaith economaidd am bob £1 sy'n cael ei gwario arni. Felly, os yw'r toriadau tybiedig, gan gynnwys y toriadau yn ystod y flwyddyn, ar gyfer yr un sefydliad hwnnw ar ei ben ei hun yn gywir, bydd y toriad arfaethedig yn cymryd £120 miliwn allan o'r economi leol yn fy rhanbarth i. Mae Prifysgol Caerdydd yn cael, ynddo'i hun—mewn un sefydliad unigol—effaith fesuradwy ar werth ychwanegol gros Cymru a ffigurau allforio Cymru. Pa asesiad wnaeth Llywodraeth Cymru o effaith toriadau i gyllidebau yn yr adran addysg a sgiliau ar yr allbynnau y mae'n disgwyl eu gweld yn economi Cymru a chyllideb yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We understand that it's difficult; it was difficult for the FE sector last year. We know that the cuts are even higher in England and in Scotland. We know that, put against the overall income for universities, the cuts are relatively small, although they will need to have to be managed. HEFCW, of course, has the job of ensuring that our universities are funded, but as I mentioned earlier on, the Minister will be providing a steer to HEFCW in terms of how the cuts to its budget should be applied.

Rydym ni'n deall ei bod yn anodd; roedd yn anodd i'r sector addysg bellach y llynedd. Rydym ni'n gwybod bod y toriadau yn uwch fyth yn Lloegr ac yn yr Alban. Rydym ni'n gwybod, o'u rhoi yn erbyn cyfanswm incwm prifysgolion, bod y toriadau yn gymharol fach, er y bydd angen eu rheoli. CCAUC, wrth gwrs, sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod ein prifysgolion yn cael eu hariannu, ond fel y soniais yn gynharach, bydd y Gweinidog yn rhoi arweiniad i CCAUC o ran sut y dylai roi'r toriadau i'w gyllideb ar waith.

**Bil Undebau Llafur**

**Trade Union Bill**

14:11 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch a yw'n gyfansoddiadol bod Llywodraeth y DU yn gosod y Bil Undebau Llafur ar Gymru heb gydsyniad y Cynulliad hwn? OAQ(4)2656(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the constitutionality of the UK Government imposing the Trade Union Bill on Wales without the consent of this Assembly? OAQ(4)2656(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we will debate a legislative consent motion on the Trade Union Bill next Tuesday. If consent is withheld, the UK Government should respect the will of the Assembly and revise the Bill accordingly.

Wel, byddwn yn trafod cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Undebau Llafur ddydd Mawrth nesaf. Os gwrthodir cydsyniad, dylai Llywodraeth y DU barchu ewyllys y Cynulliad a diwygio'r Bil yn unol â hynny.

14:11 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. The Wales Trades Union Congress released legal advice from Hefin Rees QC that states that the

‘UK Government’s conclusion that the Bill’s provisions are not within the legislative competence of the Assembly is flawed’.

How potentially damaging is this imposition of the Trade Union Bill to labour relations in Wales?

Diolch i chi am yr ateb yna. Cyhoeddodd Cyngres Undebau Llafur Cymru gyngor cyfreithiol gan Hefin Rees QC sy'n datgan bod

Casgliad Llywodraeth y DU nad yw darpariaethau'r Bil yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn wallus.

Pa mor niweidiol yw’r cam hwn o orfodi’r Bil Undebau Llafur ar gysylltiadau llafur yng Nghymru?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, hugely. Our view is that this falls within our devolved competence, which is why there is an LCM coming before the Assembly. I would hope that the UK Government respects the will of this Assembly, elected by the people of Wales. I believe that at least three of the parties—well, at least two of the parties in the Chamber—certainly would feel that this does come within devolved competence. We will do all that we can in order to press that point home with the UK Government, including, of course, taking steps to overturn and repeal those sections of the legislation, should the legislation become law, in those areas that we feel are within our competence.

Wel, niweidiol dros ben. Ein barn ni yw bod hyn yn rhan o’n cymhwysedd datganoledig, a dyna pam mae cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn dod gerbron y Cynulliad. Byddwn yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn parchu ewyllys y Cynulliad hwn, a etholwyd gan bobl Cymru. Rwy’n credu bod o leiaf tair o'r pleidiau—wel, o leiaf dwy o'r pleidiau yn y Siambr—yn sicr yn teimlo bod hyn yn rhan o gymhwysedd datganoledig. Byddwn yn gwneud popeth a allwn i bwysleisio’r pwynt hwnnw i Lywodraeth y DU, gan gynnwys, wrth gwrs, cymryd camau i wrthdroi a diddymu'r adrannau hynny o'r ddeddfwriaeth, pe byddai’r ddeddfwriaeth yn dod yn gyfraith, yn y meysydd hynny yr ydym yn teimlo sy’n rhan o’n cymhwysedd.

14:12 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the proposals in the Trade Union Bill is that union members will have to opt in to pay a political levy instead of opting out, as at present. Is it not the case, First Minister, that your concern and proposal are not in the true spirit of the constitution of the Trade Union Bill? You’re only protecting the money for your own Labour Party.

Brif Weinidog, un o'r cynigion yn y Bil Undebau Llafur yw y bydd yn rhaid i aelodau undebau optio i mewn i dalu ardoll wleidyddol yn hytrach nag optio allan, fel ar hyn o bryd. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, nad yw eich pryder a’ch cynnig yn wir ysbryd cyfansoddiad y Bil Undebau Llafur? Y cwbl yr ydych chi’n ei wneud yw diogelu'r arian ar gyfer eich Plaid Lafur eich hun.

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The whole point of the Trade Union Bill is to undermine—undermine—the main opposition party in Britain, with a view to undermining democracy, in my view. That's all this is about. I do not see equivalent provisions for businesses and companies. I do not see those provisions. I do not see how shareholders in individual companies are somehow asked their view as to whether there should be a political contribution to his party. One rule for them, and one rule for everyone else. It is our view that there are sections of the trade—. Well, we don't support the Trade Union Bill as it is, but there are sections of the Trade Union Bill that fall within devolved competence. Let's see if the party opposite agree with that, that this is a matter for the people of Wales, or will they simply do as they're told from London?

Holl bwynt y Bil Undebau Llafur yw tanseilio—tanseilio—y brif wrthblaid ym Mhrydain, gyda'r bwriad o danseilio democratiaeth, yn fy marn i. Dyna'r cwbl yw hyn. Nid wyf yn gweld darpariaethau cyfatebol ar gyfer busnesau a chwmnïau. Nid wyf yn gweld y darpariaethau hynny. Nid wyf yn gweld sut y gofynnir rywsut i gyfranddalwyr mewn cwmnïau unigol am eu barn ynghylch pa un a ddylai fod cyfraniad gwleidyddol i'w blaid ef. Un rheol iddyn nhw, ac un rheol i bawb arall. Ein barn ni yw bod rhannau o'r bil—. Wel, nid ydym ni'n cefnogi'r Bil Undebau Llafur fel ag y mae, ond ceir adrannau o'r Bil Undebau Llafur sy'n rhan o gymhwysedd datganoledig. Gadewch i ni weld a yw'r blaid gyferbyn yn cytuno â hynny, bod hwn yn fater i bobl Cymru, neu a fyddan nhw'n gwneud dim ond yr hyn y mae Llundain yn dweud wrthynt am ei wneud?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Mae Plaid Cymru yn cytuno â chi, Brif Weinidog, fod yna rannau o'r Mesur hwn sydd o fewn cwmpas y Cynulliad hwn. Felly, mae'n briodol bod LCM yn dod gerbron y Cynulliad. Bydd Plaid Cymru yn pleidleisio yn erbyn rhoi'r caniatâd hwnnw. Fodd bynnag, os yw San Steffan yn deddfu beth bynnag—achos confensiwn yw Sewell, wrth gwrs, nid rhan o'r cyfansoddiad, fel y cyfryw—rŷch chi newydd grybwyll y byddech yn edrych i ddeddfu yn y maes hwn er mwyn hepgor y rhannau hynny o'r Bil sydd wedi'u datganoli i Gymru, fel petai. Byddai hynny'n digwydd yn y Cynulliad nesaf. Nid yw'n gallu digwydd yn y Cynulliad hwn. Os yw hynny'n digwydd, a ydych yn barod, felly, i ymladd yr achos hwnnw, pwy bynnag yw'r Prif Weinidog erbyn hynny, yn y Goruchaf Lys?

Plaid Cymru agrees with you, First Minister, that there are parts of this Bill that are within the responsibility of this Assembly and that, therefore, it's appropriate that an LCM does come before the Assembly. Plaid Cymru will vote against giving that consent. But, if Westminster legislates anyway, because Sewel is a convention of course, rather than part of the constitution as such, you've just mentioned that you will look at legislating in this area to do away with those sections of the Bill that are devolved to Wales. This will happen in the next Assembly. It can't happen in this Assembly. If that does happen, are you willing to fight that corner, whoever the First Minister is, in the Supreme Court?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs. Os ydych am ofyn imi beth yw fy marn ynghylch beth fydd yn digwydd yn awr, bydd y Cynulliad yn pleidleisio yn erbyn yr LCM a bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn symud ymlaen ta beth, gan fynnu bod y Bil a'r Ddeddf ei hun yn dod i mewn i Gymru a hefyd i'r gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi cael eu datganoli. Wedyn bydd hynny'n fater, wrth gwrs, i'r Llywodraeth nesaf, ond rwy'n siŵr y byddai Bil yn dod ger bron y Cynulliad er mwyn cael gwared ar rannau o'r Bil sydd yn ddatganoledig. Y broblem yw, ynglŷn â Bil Cymru ar hyn o bryd, pe bai hynny yn mynd trwyddo fel y mae fe, byddwn ni'n ffaelu gwneud hynny fel Cynulliad. So, mae'r sefyllfa gyfreithiol ar hyn o bryd yn rhoi cyfle i bobl Cymru, trwy'r Cynulliad hwn, wrthdroi'r adrannau o'r Bil sydd ddim wedi cael eu cytuno gan y Cynulliad. Ond mae yna berygl ynglŷn â'r Bil newydd, ynglŷn â pheth fydd hynny yn ei wneud.

Of course. If you're asking me what I believe will happen now, the Assembly will vote against the LCM, and the United Kingdom Government will proceed regardless and insist that the Bill itself should come into Wales, and also into the devolved public services that have been devolved. Then that will be a matter, of course, for the next Government, but I'm sure that a Bill would come before the Assembly in order to get rid of some of the sections of the Bill appertaining to devolved issues. The problem is, with the Wales Bill at the moment, if that goes through as it stands, then we would not be able to do that as an Assembly. So, the legal position at the moment gives the people of Wales the opportunity, through this Assembly, to overturn the sections of the Bill that have not been agreed by the Assembly, But there is a danger in relation to the new Bill, in relation to what that will do.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

First Minister, if I might commend the Government for the stand it has taken in supporting democratic rights in the United Kingdom, can I just say that, leaving aside disagreements that may exist between different parties over the merits or demerits of the Bill itself, there's a broader constitutional issue around which everyone in this Chamber can unite, and that is that the Sewel convention has to be upheld, and attempts to impose legislation on Wales in areas that are clearly reserved matters for this Assembly are constitutionally wrong, and what we should be expressing from this Chamber is unity on the constitutional position, which is that the Trade Union Bill should not be imposed on this Assembly without its consent?

Brif Weinidog, hoffwn gymeradwyo'r Llywodraeth am y safiad y mae wedi ei gymryd wrth gefnogi hawliau democrataidd yn y Deyrnas Unedig, a gaf i ddweud, gan adael anghytundebau a allai fodoli rhwng gwahanol bleidiau am rinweddau neu ddiffygion y Bil ei hun o'r neilltu, ceir mater cyfansoddiadol ehangach y gall pawb yn y Siambr hon uno yn ei gylch, sef bod yn rhaid cyd-fynd â chonfensiwn Sewel, a bod ceisio gorfodi deddfwriaeth ar Gymru mewn meysydd sy'n amlwg yn faterion a gadwyd ar gyfer y Cynulliad hwn yn gyfansoddiadol anghywir, a'r hyn y dylem ni fod yn ei fynegi o'r Siambr hon yw undod ar y sefyllfa gyfansoddiadol, sef na ddylai'r Bil Undebau Llafur gael ei orfodi ar y Cynulliad hwn heb ei gydsyniad?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. The judgment on the Agricultural Sector (Wales) Bill makes it pretty clear, to my mind, that this is an issue where the Assembly has devolved powers. We have made this point to the UK Government. They want to ignore that judgment, and that is something that they will have to explain. But, if it comes to the point where that Bill is passed and its provisions are applied to devolved public services, then we will seek to introduce a Bill in this Chamber to overturn the sections of the Bill that impact in devolved areas. It's a matter for the UK Government as to whether they then wish to go to the Supreme Court in order to frustrate the will of this democratically elected Assembly.

Yn hollol. Mae'r dyfarniad ar Fil Sector Amaethyddol (Cymru) yn ei gwneud yn gwbl eglur, yn fy marn i, bod hwn yn fater lle mae gan y Cynulliad bwerau datganoledig. Rydym ni wedi gwneud y pwynt hwn i Lywodraeth y DU. Maen nhw eisiau anwybyddu'r farn honno, ac mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid iddyn nhw ei esbonio. Ond, os daw i'r pwynt lle caiff y Bil hwnnw ei basio a bod ei ddarpariaethau'n cael eu rhoi ar waith mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, yna byddwn yn ceisio cyflwyno Bil yn y Siambr hon i wrthdroi adrannau'r Bil sy'n effeithio ar feysydd datganoledig. Mater i Lywodraeth y DU yw pa un a yw'n dymuno mynd i'r Goruchaf Lys wedyn, i rwystro ewyllys y Cynulliad hwn a etholwyd yn ddemocrataidd.

Senedd.tv Fideo Video

14:17

## Cwestiwn Brys: Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

## Urgent Question: Accident and Emergency Departments

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We move now to the next item on the agenda. I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Andrew R.T. Davies to ask the urgent question of the Minister.

Symudwn at yr eitem nesaf ar yr agenda nawr. Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ofyn y cwestiwn brys i'r Gweinidog.

14:17 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am honiadau gan bennaeth y Coleg Brehinol Meddygaeth Frys yng Nghymru nad oedd gan yr un adran damweiniau ac achosion brys yng Nghymru ddigon o feddygon ymgynghorol i fodloni isafswm lefelau staffio y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys y llynedd? EAQ(4)0676(HSS)*

*Will the Minister make a statement on claims by the head of the Royal College of Emergency Medicine in Wales that no A&E department in Wales had enough consultants to meet minimum RCEM staffing levels last year? EAQ(4)0676(HSS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Staff numbers and the skills mix in accident and emergency departments are set by local health boards. While there is a UK-wide shortage of emergency medicine consultants, as the First Minister explained earlier this afternoon, the number of A&E consultants in Wales has increased by more than 50 per cent over the most recent five-year period, and increased in every one of those five years.

Caiff niferoedd staff a'r gymysgedd sgiliau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys eu pennu gan fyrddau iechyd lleol. Er bod prinder meddygon ymgynghorol brys ar draws y DU, fel yr esboniodd y Prif Weinidog yn gynharach y prynhawn yma, mae nifer y meddygon ymgynghorol damweiniau ac achosion brys yng Nghymru wedi cynyddu mwy na 50 y cant dros y cyfnod pum mlynedd diweddaraf, ac wedi cynyddu ym mhob yn un o'r pum mlynedd hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that answer. Obviously, in the report today it talked of A&E departments in Wales being on the edge. I do accept that there are pressures across the whole of the United Kingdom, Minister, when it comes to accident and emergency provision, but, from a freedom of information request that we've had back from the health boards, if you take the baseline measurement that the Royal College of Emergency Medicine uses to measure staffing levels for consultants in A&E units across Wales, it shows that, in June of last year, only 45 per cent of consultants were in place to meet their baseline requirements. That's the health board's own figure, Minister.

Diolch, Weinidog, am yr ateb yna. Yn amlwg, yn yr adroddiad heddiw, roedd sôn bod adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru ar yr ymyl. Rwy'n derbyn bod pwysau ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, Weinidog, pan ddaw i ddarpariaeth adrannau damweiniau ac achosion brys, ond, o gais rhyddid gwybodaeth yr ydym ni wedi ei gael yn ôl gan y byrddau iechyd, os cymerwch chi'r mesuriad llinell sylfaen y mae'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys yn ei ddefnyddio i fesur lefelau staffio ar gyfer meddygon ymgynghorol mewn unedau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru, mae'n dangos, ym mis Mehefin y llynedd, mai dim ond 45 y cant o feddygon ymgynghorol oedd ar gael i fodloni eu gofynion sylfaenol. Dyna ffigur y bwrdd iechyd ei hun, Weinidog.

The key question for you as the Government of the day is: how are you going to be working with local health boards to address not just the recruitment, but, importantly, the retention, of key personnel within accident and emergency departments across Wales, and in particular consultants, so that that baseline figure can be met, and ultimately you can finally get on top of the chronic waiting times that many patients are experiencing in A&E departments across Wales?

Y cwestiwn allweddol i chi fel y Llywodraeth bresennol yw: sut ydych chi'n mynd i fod yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i fynd i'r afael nid yn unig â recriwtio, ond, yn bwysig, cadw personél allweddol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru, a meddygon ymgynghorol yn arbennig, fel y gellir bodloni'r ffigur llinell sylfaen, ac yn y pen draw, gallwch sicrhau rheolaeth dros yr amseroedd aros parhaus y mae llawer o gleifion yn eu dioddef mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru?

14:19 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, it's very important to be clear that this so-called baseline figure is a figure of the royal college. It's not a figure of the health boards, and it's not a figure that any health department in the United Kingdom recognises as its own. You ask a group of consultants how many consultants they think there should be and they produce a figure. Now, we have increased the number of consultants in A&E departments in Wales. There is definitely more to do. I absolutely accept that, and it is a matter of recruitment and of retention. There will be a statement later this afternoon, Llywydd, by the Deputy Minister on the emergency medical retrieval and transfer service, which is showing how that by itself has helped us with recruitment and to retain some very skilled and experienced staff within the Welsh A&E departments. We work with our local health boards. We provide our consultants, we think, with a combination of factors that makes the job attractive to them. And, in Wales, we work with our consultant body, as the individual doctor who made the statement earlier today agreed, in order to try and resolve the difficulties that we face.

Lywydd, mae'n bwysig iawn bod yn eglur mai ffigur y coleg brenhinol yw'r ffigur llinell sylfaen honedig hwn. Nid yw'n ffigur gan y byrddau iechyd, ac nid yw'n ffigur y mae unrhyw adran iechyd yn y Deyrnas Unedig yn ei gydnabod fel ei un ei hun. Gofynnwch chi i grŵp o feddygon ymgynghorol faint o feddygon ymgynghorol y maen nhw'n credu y dylai fod ac maen nhw'n creu ffigur. Nawr, rydym ni wedi cynyddu nifer y meddygon ymgynghorol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru. Mae mwy i'w wneud yn sicr. Rwy'n derbyn hynny'n llwyr, ac mae'n fater o recriwtio a chadw staff. Bydd datganiad yn ddiweddarach y prynhawn yma, Lywydd, gan y Dirprwy Weinidog ar y gwasanaeth adalw a throsglwyddo meddygol brys, sy'n dangos sut y mae, ar ei ben ei hun, wedi ein helpu gyda recriwtio ac i gadw rhai aelodau staff hynod fedrus a phrofiadol yn adrannau damweiniau ac achosion brys Cymru. Rydym ni'n gweithio gyda'n byrddau iechyd lleol. Rydym ni'n darparu ein meddygon ymgynghorol, rydym ni'n credu, gyda chyfuniad o ffactorau sy'n gwneud y swydd yn ddeniadol iddyn nhw. Ac, yng Nghymru, rydym ni'n gweithio gyda'n corff meddygon ymgynghorol, fel y cytunodd y meddyg ymgynghorol unigol a wnaeth y datganiad yn gynharach heddiw, er mwyn ceisio datrys yr anawsterau sy'n ein hwynebu.

14:20 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae sylwadau'r coleg brenhinol am ba mor fregus yw ein hadrannau brys ni yn rhai difrifol iawn, iawn. Dim ond un ysbyty yng Nghymru sy'n gweld dros 90 y cant o'u cleifion nhw o fewn pedair awr mewn uned frys, ac ysbyty Bronglais yw hwnnw. Rwy'n ymfalchïo ym mherfformiad yr ysbyty hwnnw, ond mae hynny ond yn adlewyrchiad wedyn ar yr ysbytai eraill sy'n methu cwrdd â'r math yma o lefel o ffigwr.

Minister, the comments of the royal college on the vulnerability of our A&E departments are very serious indeed. There's only one hospital in Wales that sees over 90 per cent of its patients within four hours in an A&E department, and that is Bronglais hospital. I do take pride in the performance of that hospital, but that, of course, only reflects on the fact that other hospitals are failing to meet that kind of figure.

Rydym ni wedi trafod tipyn nifer yr ymgynghorwyr a'r diffygion staffio yn yr unedau brys, ond mater arall mae'r coleg brenhinol yn tynnu sylw penodol ato yw'r angen i wella llif cleifion drwy ysbytai. I wneud hynny, wrth gwrs, rydym i gyd yn gwybod yr ateb. Rydym yn gwybod yr atebion yma ers rhyw bum mlynedd yn awr, sef bod angen integreiddiad gwell o wasanaethau gofal a chymdeithasol gyda'r gwasanaeth iechyd. Mae gan Plaid Cymru gynlluniau cyffrous i integreiddio'n llawn y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.

Now, we've discussed the number of consultants and staffing deficiencies in emergency units on a number of occasions, but another issue raised specifically by the Royal College is the need to improve patient flow through our hospitals. To do that, of course, we all know what the solution is. We've known these solutions for some five years, and that is that we need a better integration of health and social care services. Plaid Cymru has some exciting proposals to fully integrate social services and health services.

Hyd yn hyn, nid ydych wedi llwyddo i gracio'r mater yma ac i gyflawni'r gwelliannau yn yr integreiddiad yma, sydd mor angenrheidiol. Beth, felly rydych heb ei wneud dros y pum mlynedd diwethaf i wella'r integreiddiad hwn yr ydych yn bwriadu ei wneud yn y ddau fis sydd gyda chi ar ôl fel Gweinidog?

Now, to date, you haven't succeeded in cracking this particular issue and in implementing the improvements in this integration, which is so necessary. So, what haven't you done over the past five years to improve this integration that you intend to do in the two months you have remaining as Minister?

14:21

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We are well aware of Plaid Cymru's policies to throw the health and social care services in Wales into massive upheaval and reorganisation—absolutely calculated to make the position worse, not better. Delayed transfers of care in the Welsh system, which I think is the key test of whether the integration agenda is working, have fallen in the last two months. We are confident that, despite being in the depths of winter, they will go on falling and that is a result of the success we have had, and the success, let me acknowledge, helped by the intermediate care fund, as part of the way we do things to get health and social care working together. It's not just a matter of integration, Llywydd, it's also a matter of the nature of demand. The people who come in through our accident and emergency departments in recent years are older, are frailer and are more complex; they take longer for their problems to be addressed. Integration, which we are succeeding in doing, is helping us to address that. But, by itself, it doesn't make a difference to the nature of demand.

Rydym ni'n ymwybodol iawn o bolisïau Plaid Cymru i daflu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i gynnwrf ac ad-drefnu enfawr—sydd yn sicr o wneud y sefyllfa'n waeth, nid yn well. Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn system Cymru, yr wyf yn meddwl yw'r prawf allweddol o ba un a yw'r agenda integreiddio yn gweithio, wedi gostwng yn y ddau fis diwethaf. Rydym ni'n hyderus, er ein bod yn nyfnderoedd y gaeaf, y byddant yn parhau i ostwng, ac mae hynny o ganlyniad i'r llwyddiant yr ydym ni wedi ei gael, a'r llwyddiant, gadewch i mi gydnabod, a gynorthwywyd gan y gronfa gofal canolraddol, yn rhan o'r ffordd yr ydym ni'n gwneud pethau er mwyn cael iechyd a gofal cymdeithasol i weithio gyda'i gilydd. Nid mater o integreiddio yn unig yw hyn, Lywydd, mae hefyd yn fater o natur y galw. Mae'r bobl sy'n dod i mewn drwy ein hadrannau damweiniau ac achosion brys yn y blynyddoedd diwethaf yn hŷn, yn fwy eiddil ac yn fwy cymhleth; mae'n cymryd mwy o amser i roi sylw i'w problemau. Mae integreiddio, yr ydym ni'n llwyddo i'w wneud, yn ein helpu i fynd i'r afael â hynny. Ond, ar ei ben ei hun, nid yw'n gwneud gwahaniaeth i natur y galw.

14:23

## Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I say, Minister, I'm surprised to hear you dismiss the views of the royal college regarding the baseline number in the way you have, because often your Government uses royal college guidance as an excuse to close services and to reconfigure services?

A gaf i ddweud, Weinidog, fy mod i'n synnu eich clywed yn diystyru barn y coleg brenhinol am y nifer sylfaenol yn y ffordd yr ydych chi wedi ei wneud, gan fod eich Llywodraeth yn aml yn defnyddio canllawiau'r coleg brenhinol fel esgus i gau gwasanaethau ac ad-drefnu gwasanaethau?

You are quite right to say—[Interruption.] You're quite right to say what you have said about demand. Would you agree with me that one of the areas in which we could take pressure off our A&E departments and provide a better service for patients and their relatives is those people at the end of their lives who find themselves being blue-lighted into an A&E, when, in reality, there is very little can be done to prolong their lives? Those individuals should be able to spend their last hours in a more conducive and pleasant setting. What are you doing to work with primary care and the social care sector to ensure that people at the end of their lives do not have to spend that time in a very busy, stressful, noisy environment in an A&E department?

Rydych chi'n gwbl gywir i ddweud—[Torri ar draws.] Rydych chi'n gwbl gywir i ddweud yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud am alw. A fyddech chi'n cytuno â mi mai un o'r meysydd lle gallem ni gymryd pwysau oddi ar ein hadrannau damweiniau ac achosion brys a chynnig gwasanaeth gwell i gleifion a'u perthnasau yw'r bobl hynny ar ddiwedd eu hoes sy'n cael eu cludo dan olau glas i adrannau damweiniau ac achosion brys, pan, mewn gwirionedd, mai ychydig iawn y gellir ei wneud i ymestyn eu bywydau? Dylai'r unigolion hynny allu treulio eu horiau olaf mewn lleoliad mwy ffafriol a dymunol. Beth ydych chi'n ei wneud i weithio gyda gofal sylfaenol a'r sector gofal cymdeithasol i sicrhau nad oes rhaid i bobl ar ddiwedd eu hoes dreulio'r amser hwnnw mewn amgylchedd prysur, swnllyd a llawn straen, mewn adran damweiniau ac achosion brys?

14:24 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question. Llywydd, let me be clear: I wasn't dismissing the royal college's figures; I was simply pointing out to the leader of the opposition that it was not the health board's figures, as I think he was suggesting, and that those staffing levels are ones that the college itself have published.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Lywydd, gadewch i mi fod yn eglur: nid oeddwn yn diystyru ffigurau'r coleg brenhinol; y cwbl yr oeddwn i'n ei wneud oedd dweud wrth arweinydd yr wrthblaid nad ffigurau'r bwrdd iechyd yw'r rhain, fel yr wyf yn credu ei fod yn awgrymu, ac mae'r lefelau staffio hynny yw'r rhai y mae'r coleg ei hun wedi eu cyhoeddi.

Now, the point that the Member makes is a really important one. To be taken from a care home or from your own home when you are in the last hours of life to an emergency department is actually not the way at all that people would want to see their lives, or the lives of their relatives, come to an end.

Nawr, mae'r pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud yn un pwysig iawn. I gael eich cymryd o gartref gofal neu o'ch cartref eich hun pan fyddwch yn oriau olaf oes i adran achosion brys, nid dyna'r ffordd o gwbl y byddai pobl eisiau gweld eu bywydau, neu fywydau eu perthnasau, yn dod i ben.

In Betsi Cadwaladr University Local Health Board we have a pilot going on where the board has worked with 11 different care homes in its area on exactly this topic. When the experiment began, over 20 per cent of people who died didn't die in the care home, which was the place where they lived, but were taken into hospital and died very shortly thereafter. Six months after the start of the experiment, that figure is now down to 6 per cent. At the start of it, 43 per cent of residents in those 11 care homes had advance decision documents; today, 83 per cent of them have them. It's an example of what the Member said, that, when work goes on to address that part of what will happen to all of us in a care home setting, we can make a real difference both to the quality of life and experience that people have, and in the process make sure that people are looked after in the right place—and that very often, certainly in those circumstances, is not likely to be an A&E department.

Ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae gennym ni brawf sy'n cael ei gynnal lle mae'r bwrdd wedi gweithio gydag 11 o wahanol gartrefi gofal yn ei ardal ar yr union bwnc hwn. Pan ddechreuodd yr arbrawf, roedd dros 20 y cant o bobl na fuont farw yn y cartref gofal, sef y man lle'r oeddent yn byw, ond aethpwyd â nhw i'r ysbyty a bu iddynt farw yn fuan wedi hynny. Chwe mis ar ôl dechrau'r arbrawf, mae'r ffigur hwnnw wedi gostwng i 6 y cant erbyn hyn. Ar y cychwyn, roedd gan 43 y cant o breswylwyr yn yr 11 o gartrefi gofal hynny ddogfennau penderfyniad ymlaen llaw; heddiw, maen nhw gan 83 y cant ohonynt. Mae'n enghraifft o'r hyn a ddywedodd yr Aelod, lle, pan fydd gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r rhan honno o'r hyn a fydd yn digwydd i bob un ohonom mewn lleoliad cartref gofal, gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ansawdd bywyd a'r profiad y mae pobl yn eu cael , a thrwy wneud hynny, sicrhau bod pobl yn derbyn gofal yn y lle iawn—ac yn aml iawn, yn sicr o dan yr amgylchiadau hynny, nid yw'n debygol o fod mewn adran damweiniau ac achosion brys.

14:26 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the other things that was cited this morning in the quote by Dr Robin Roop was the morale in the health service, particularly in those departments that are under pressure, being at rock bottom. What specific action are you taking to improve the retention of staff who are considering exiting emergency departments? [Interruption.] I can hear Government Ministers heckling me, Presiding Officer.

Weinidog, un o'r pethau eraill a nodwyd y bore yma yn y dyfyniad gan Dr Robin Roop oedd bod yr ysbryd yn y gwasanaeth iechyd, yn enwedig yn yr adrannau hynny sydd o dan bwysau, ar ei isaf. Pa gamau penodol ydych chi'n eu cymryd i wella'r gwaith o gadw staff sy'n ystyried gadael adrannau achosion brys? [Torri ar draws.] Gallaf glywed Gweinidogion y Llywodraeth yn fy heclo i, Lywydd.

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:26 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can hear Government Ministers heckling me, Presiding Officer, but I'm going to persist with my questions.

Gallaf glywed Gweinidogion y Llywodraeth yn fy heclo i, Lywydd, ond rwy'n mynd i barhau gyda fy nghwestiynau.

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can hear lots of people heckling. Can we just let the questioner ask the question in silence, and the Minister answer in silence as well? Darren Millar.

Wel, gallaf glywed llawer o bobl yn heclo. A allwn ni adael i'r holwr ofyn y cwestiwn mewn distawrwydd, ac i'r Gweinidog ateb mewn distawrwydd hefyd? Darren Millar.

14:26

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I ask what you are doing to improve the immediate retention of those staff and what you would say to those staff who are considering exiting the Welsh NHS because of the pressures that they're under? Do you also accept that closing minor injuries units across Wales has added to the pressure in our emergency departments and therefore undermined that staff morale that I have just referred to? Will you explain to patients across Wales why you're twice as likely to wait beyond four hours in an emergency department in Wales compared to over the border in England? I accept that there are pressures in England, we all understand that, but will you explain why people are twice as likely to wait beyond that four-hour target here than they are elsewhere?

A gaf i ofyn beth yr ydych chi'n ei wneud i wella cyfraddau cadw uniongyrchol y staff hynny, a beth fyddech chi'n ei ddweud wrth y staff hynny sy'n ystyried gadael GIG Cymru oherwydd y pwysau sydd arnynt? A ydych chi hefyd yn derbyn bod cau unedau mân anafiadau ledled Cymru wedi ychwanegu at y pwysau yn ein hadrannau achosion brys ac felly wedi tanseilio'r ysbryd staff hwnnw yr wyf newydd gyfeirio ato? A wnewch chi esbonio i gleifion ledled Cymru pam yr ydych ddwywaith yn fwy tebygol o aros y tu hwnt i bedair awr mewn adran achosion brys yng Nghymru o'i gymharu â dros y ffin yn Lloegr? Rwy'n derbyn bod pwysau yn Lloegr, rydym ni i gyd yn deall hynny, ond a wnewch chi egluro pam mae pobl ddwywaith yn fwy tebygol o aros y tu hwnt i'r targed o bedair awr yma nag y maen nhw mewn mannau eraill?

14:27

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There were a number of different questions there, Llywydd. The Conservative Party's plans to open redundant MIUs across Wales is a recipe for making sure that people who need to get an accident and emergency response will find that more difficult, because staff will be taken away from those departments in order to reopen units for which there is no demand and no clinical support for their reopening, either.

Roedd nifer o wahanol gwestiynau yn y fan yna, Lywydd. Mae cynlluniau'r Blaid Geidwadol i agor Unedau Mân-anafiadau segur ledled Cymru yn rysáit ar gyfer gwneud yn siŵr y bydd pobl sydd angen ymateb damweiniau ac achosion brys yn canfod bod hynny'n anoddach, gan y bydd staff yn cael eu symud o'r adrannau hynny er mwyn ailagor unedau nad oes unrhyw alw amdanynt a dim cefnogaeth glinigol i'w hailagor ychwaith.

As far as morale is concerned, the Member will be very well aware that the constant attacks by his party on the NHS in Wales are regularly reported to me as one of the things that affect people's ability to do the job. As far as that is concerned, he'll be well aware that clinicians in Wales look across the border, look at the strike that took place amongst junior doctors there, and ask themselves very clearly the question of where they would rather work, and they know the answer to that question, I can assure him.

Cyn belled ag y mae ysbryd yn y cwestiwn, bydd yr Aelod yn gwbl ymwybodol bod yr ymosodiadau cyson gan ei blaid ef ar y GIG yng Nghymru yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i mi fel un o'r pethau sy'n effeithio ar allu pobl i wneud y swydd. Cyn belled ag y mae hynny yn y cwestiwn, bydd yn gwbl ymwybodol bod clinigwyr yng Nghymru yn edrych ar draws y ffin, yn edrych ar y streic a gynhaliwyd ymhlith meddygon iau yno, ac yn gofyn i'w hunain yn eglur iawn y cwestiwn o ble y byddai'n well ganddyn nhw weithio, ac maen nhw'n gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwnnw, gallaf ei sicrhau.

As for his question on four-hour waits, let me explain—[Interruption.]

O ran ei gwestiwn am ar arosiadau pedair awr, gadewch i mi esbonio—[Torri ar draws.]

14:28

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Sorry. Please, let's listen to the answer to the urgent question. Darren Millar is complaining that there's calling from other benches; it's happening from your benches as well, particularly from senior members of your party. Minister.

Mae'n ddrwg gen i. Gadewch i ni wrando ar yr ateb i'r cwestiwn brys os gwelwch yn dda. Mae Darren Millar yn cwyno bod gweiddi o feinciau eraill; mae'n digwydd o'ch meinciau chi hefyd, yn enwedig gan aelodau hŷn eich plaid. Weinidog.

14:29

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As far as the four-hour waits issue is concerned, Llywydd, in Wales we have a system in which we work in our emergency departments to try and make sure that people who do not need to be admitted to a hospital are worked with and returned home. In the English system, at three hours and fifty-nine minutes, we know that there is a rush to admit in order to beat the clock. That's simply not in the interests of patients, and we will not run our system on the basis that it will produce figures that are convenient for politicians rather than services that are right for patients.

Cyn belled ag y mae'r mater arosiadau pedair awr yn y cwestiwn, Lywydd, mae gennym ni system yng Nghymru lle'r ydym ni'n gweithio yn ein hadrannau achosion brys i geisio gwneud yn siŵr y gweithir gyda phobl nad oes angen eu derbyn i ysbyty, a'u dychwelyd adref. Yn system Lloegr, ar ôl tair awr a phum deg naw munud, gwyddom fod rhuthr i dderbyn er mwyn curo'r cloc. Nid yw hynny o fudd i gleifion, ac ni fyddwn yn rhedeg ein system ni ar y sail y bydd yn cynhyrchu ffigurau sy'n gyfleus i wleidyddion yn hytrach na gwasanaethau sy'n iawn i gleifion.

14:29 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, some constituents of mine turned up to the Heath hospital in Cardiff on 14 December and waited overnight without seeing a doctor. According to the staff, there were no doctors available at all in Cardiff's A&E clinic outside of the resuscitation bays. Now, I've had a response from the health board; they accept that and they know that their staffing is not adequate, in their words, and that they are conducting a full workforce review. However, it says that whilst they are opening more resus bays, and I quote,

Weinidog, daeth rhai o'm hetholwyr i ysbyty'r Mynydd Bychan yng Nghaerdydd ar 14 Rhagfyr ac aros dros nos heb weld meddyg. Yn ôl y staff, nid oedd unrhyw feddygon ar gael o gwbl yng nghlinig damweiniau ac achosion brys Caerdydd y tu allan i'r cilfannau dadebru. Nawr, rwyf wedi cael ymateb gan y bwrdd iechyd; mae'n derbyn hynny ac mae'n gwybod nad yw eu staffio'n ddigonol, yn eu geiriau nhw, ac mae'n cynnal adolygiad gweithlu llawn. Fodd bynnag, mae'n dweud, er ei fod yn agor mwy o gilfannau dadebru, a dyfynnaf,

'further investment will be required to open all the available bays'.

bydd angen ragor o fuddsoddiad i agor yr holl gilfannau sydd ar gael.

Will you be making that investment available to them?

A fyddwch chi'n rhoi'r buddsoddiad hwnnw ar gael iddyn nhw?

14:30 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If the Member would like to share that correspondence with me, I'm quite happy to review it.

Pe hoffai'r Aelod rannu'r ohebiaeth honno gyda mi, rwy'n gwbl fodlon ei hadolygu.

14:30

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. We now move to item 2, which is the business statement and announcement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Diolch yn fawr, Weinidog. Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad a chyhoeddiad busnes, a galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

There have been three changes to the business statement for this week's business. The Minister for Economy, Science and Transport will be making a statement on Tata Steel, and to allow sufficient time for this important issue to be debated, the Minister for Economy, Science and Transport wishes to withdraw her oral statement on recommendations on the future of the blue badge scheme in Wales, which will be issued as a written statement. As there have only been four questions tabled to the Counsel General, the time made available on Wednesday has been reduced to 15 minutes, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among agenda papers available to Members electronically.

Bu tri newid i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad ar Tata Steel, ac i ganiatáu digon o amser i drafod y mater pwysig hwn, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn dymuno tynnu yn ôl ei datganiad llafar ar argymhellion ar ddyfodol y cynllun bathodyn glas yng Nghymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig. Gan mai dim ond pedwar cwestiwn a gyflwynwyd i'r Cwnsler Cyffredinol, mae'r amser sydd ar gael ddydd Mercher wedi ei leihau i 15 munud, ac mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:31 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, could we have a statement from the Deputy Minister in relation to the Control of Horses (Wales) Act 2014 that was put through and is now effective for local authorities to use? I think you'll be familiar with the fact that, in the western part of the Vale, there is an increasing problem with fly-grazing showing its head again, and causing a huge amount of distress, I would say, in terms of the welfare of the animals, but also the trespass that these animals are inflicting on private property—very often, people's own garden space, as well as verges of the road, which could prove really dangerous for traffic using the road as well. Could we have a statement from the Minister to update us on how effective this piece of legislation has been, and how many local authorities are implementing it to best effect, so that we don't get repetition of some of the horrendous scenes that we saw some two to three years ago, that led to the calls for the introduction of this piece of legislation?

Weinidog, a allem ni gael datganiad gan y Dirprwy Weinidog ar Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 a gyflwynwyd ac sydd bellach ar waith i awdurdodau lleol ei defnyddio? Rwy'n credu y byddwch yn gyfarwydd â'r ffaith, yn rhan orllewinol y Fro, bod problem pori anghyfreithlon gynyddol yn codi unwaith eto, ac yn achosi llawer iawn o bryder, byddwn yn dweud, o ran y lles yr anifeiliaid, ond hefyd y tresmasu y mae'r anifeiliaid hyn yn ei wneud ar eiddo preifat—yn aml, yng ngerddi pobl, yn ogystal ag ymylon y ffordd, a allai fod yn wirioneddol beryglus i draffig sy'n defnyddio'r ffordd hefyd. A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ba mor effeithiol y bu'r darn hwn o ddeddfwriaeth, a faint o awdurdodau lleol sy'n ei weithredu yn y modd gorau, fel na welwn ailadrodd rhai o'r golygfeydd erchyll a welsom tua dwy neu dair blynedd yn ôl, a arweiniodd at y galwadau am gyflwyno'r darn hwn o ddeddfwriaeth?

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That is a very constructive question. I'm sure we will want to update and, indeed, monitor the legislation, which, of course, this Welsh Government put through.

Mae hwnna'n gwestiwn adeiladol iawn. Rwy'n siŵr y byddwn ni eisiau diweddaru ac, yn wir, monitro'r ddeddfwriaeth, a basiwyd, wrth gwrs, gan y Llywodraeth Cymru hon.

14:32 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have two requests. The first one is: I would like to ask for a statement on the Landore rail repair depot, which is planned to close. While this is not a devolved issue, the closure was related to electrification. With electrification being postponed, there is now good reason to postpone the closure. I wonder whether the business Minister can make a statement on what is happening with that depot.

Mae gen i ddau gais. Y cyntaf yw: Hoffwn ofyn am ddatganiad ar ddepo atgyweirio rheilffordd Landore, y bwriedir ei gau. Er nad yw hwn yn fater datganoledig, roedd y cau'n gysylltiedig â thrydaneiddio. Ar ôl gohirio trydaneiddio, ceir rheswm da erbyn hyn i ohirio'r cau. Tybed a all y Gweinidog busnes wneud datganiad ar yr hyn sy'n digwydd gyda'r depo hwnnw.

The second one is that I would like to ask for a statement on progress with the Swansea bay city region. With the loss of jobs at Port Talbot and Trostre, plus the new-found lack of enthusiasm for the tidal lagoon by the Prime Minister, can the business Minister make a statement on proposed infrastructure improvements for the region and plans to grow the region's economy?

Yr ail un yw yr hoffwn ofyn am ddatganiad ar gynnydd gyda dinas-ranbarth Bae Abertawe. Ar ôl colli swyddi ym Mhort Talbot a Trostre, yn ogystal â diffyg brwdfrydedd newydd y Prif Weinidog am y morlyn llanw, a all y Gweinidog busnes wneud datganiad ar welliannau seilwaith arfaethedig ar gyfer y rhanbarth a chynlluniau i dyfu economi'r rhanbarth?

14:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Mike Hedges for that question. The issue about the Landore rail depot is a matter for the Minister for Economy, Science and Transport. She has her questions tomorrow, and I know that she will want to respond. Also, it is important, in terms of your questions about the opportunities that lie ahead for the Swansea bay city region, for you to be aware that I met with the leader last week, Councillor Rob Stewart, of Swansea city council, in order to look at the opportunities in terms of a city deal, which is something that the Swansea bay city region is very interested in promoting.

Diolch i Mike Hedges am y cwestiwn yna. Mae'r mater ynghylch depo rheilffordd Landore yn fater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Mae ganddi hi ei chwestiynau yfory, a gwn y bydd hi eisiau ymateb. Hefyd, mae'n bwysig, o ran eich cwestiynau am y cyfleoedd a fydd ar gael i ddinas-ranbarth Bae Abertawe, i chi fod yn ymwybodol fy mod wedi cyfarfod â'r arweinydd yr wythnos diwethaf, y Cynghorydd Rob Stewart, o gyngor dinas Abertawe, er mwyn edrych ar y cyfleoedd o ran cytundeb dinas, sy'n rhywbeth y mae gan ddinas-ranbarth Bae Abertawe ddiddordeb mawr mewn ei hyrwyddo.

14:33 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder whether time may be made available by the Government to discuss figures released last week by the Great Britain day visits survey, which showed that day visits to Wales fell by some 19 per cent last year. Tourism is a vital part of the Welsh economy, and it would be useful to hear from the Government what steps it's going to take to respond to those figures and ensure that the number of people making day trips to Wales increases, not decreases.

Weinidog, tybed a allai amser gael ei roi ar gael gan y Llywodraeth i drafod ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan arolwg ymweliadau dydd Prydain Fawr, a oedd yn dangos bod ymweliadau dydd â Chymru wedi gostwng tua 19 y cant y llynedd. Mae twristiaeth yn rhan hanfodol o economi Cymru, a byddai'n ddefnyddiol clywed gan y Llywodraeth pa gamau y mae'n mynd i'w cymryd i ymateb i'r ffigurau hynny a sicrhau bod nifer y bobl sy'n dod ar deithiau dydd i Gymru yn cynyddu, nid yn gostwng.

Secondly, can we have a statement by the transport Minister? When tourists get here, they need to have great infrastructure. Now, we're always very pleased to welcome people to the Brecon Beacons national park, but you will be aware, on Saturday, of the traffic chaos that was caused on the A470 at Storey Arms, with many people coming to the Storey Arms area to enjoy the snow, but it actually caused incredible difficulties because of the way in which those vehicles were parked. Over 100 motorists were booked by Dyfed-Powys Police on Saturday, hardly the kind of impression we want to give people visiting the area. But something needs to be done for the infrastructure in that area, to make sure that there are proper facilities for those people wanting to visit that beautiful part of the world.

Yn ail, a allwn ni gael datganiad gan y Gweinidog trafnidiaeth? Pan fydd twristiaid yn cyrraedd yma, mae angen iddyn nhw gael seilwaith gwych. Nawr, rydym ni bob amser yn falch iawn o groesawu pobl i barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ond byddwch yn ymwybodol, ddydd Sadwrn, o'r anhrefn traffig a achoswyd ar yr A470 yn Storey Arms, wrth i lawer o bobl ddod i ardal Storey Arms i fwynhau'r eira, ond, mewn gwirionedd, achoswyd anawsterau anhygoel oherwydd y ffordd y parciwyd y cerbydau hynny. Cafodd dros 100 o fodurwyr eu cosbi gan Heddlu Dyfed-Powys ddydd Sadwrn, ac nid dyna'r math o argraff yr ydym ni eisiau ei rhoi i bobl sy'n ymweld â'r ardal. Ond mae angen gwneud rhywbeth ar gyfer y seilwaith yn yr ardal honno, i wneud yn siŵr bod cyfleusterau priodol ar gael ar gyfer y bobl hynny sydd eisiau ymweld â'r rhan brydferth honno o'r byd.

14:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In response to those questions, Kirsty Williams, I think on the first question about day visits, this isn't unique to Wales in terms of the fall in day visits; in fact, there was a fall in tourism day visits across the UK during 2015. I think it's important to see that, actually, although there might have been a fall in the number of trips, the spend is only down by 1 per cent compared to a record-breaking year in 2014. But then, you want to look at domestic overnight figures and it looks as though people are staying longer, perhaps, than just having day visits. The first nine months of 2015 show an increase of 2 per cent in the number of trips and 12 per cent in expenditure. People are staying in Wales for longer periods of time and spending more, which I know you'll agree is excellent news for the Welsh economy.

I ymateb i'r cwestiynau hynny, Kirsty Williams, rwy'n meddwl o ran y cwestiwn cyntaf am ymweliadau dydd, nad yw hyn yn unigryw i Gymru o ran y gostyngiad mewn ymweliadau dydd; yn wir, bu gostyngiad i ymweliadau dydd gan dwristiaid ledled y DU yn ystod 2015. Rwy'n credu ei bod yn bwysig gweld, a dweud y gwir, er efallai y bu gostyngiad i nifer y tripiau, dim ond 1 y cant o ostyngiad a fu yn y gwariant o'i gymharu â blwyddyn ddigynsail yn 2014. Ond yna, rydych chi eisiau edrych ar ffigurau domestig dros nos ac mae'n edrych fel pe byddai pobl yn aros yn hwy, efallai, yn hytrach na dim ond cael ymweliadau dydd. Mae naw mis cyntaf 2015 yn dangos cynnydd o 2 y cant i nifer y tripiiau a 12 y cant i wariant. Mae pobl yn aros yng Nghymru am gyfnodau hwy o amser ac yn gwario mwy, ac rwyf yn gwybod y byddwch yn cytuno bod hyn yn newyddion ardderchog i economi Cymru.

On your second point, the only snow event, probably, at the Storey Arms in the Brecon Beacons so far this winter will have attracted a great many people. Of course, this is very difficult to predict or forecast in terms of traffic management. But of course, I know that those points have been noted.

O ran eich ail bwynt, bydd yr unig achos o eira, yn ôl pob tebyg, yn y Storey Arms ym Mannau Brycheiniog hyd yn hyn y gaeaf hwn, wedi denu llawer iawn o bobl. Wrth gwrs, mae hyn yn anodd iawn ei ddarogan neu ei ragweld o ran rheoli traffig. Ond wrth gwrs, gwn y bydd y pwyntiau hynny wedi cael eu nodi.

14:36 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, you'll have heard the First Minister express concerns about the risks involved with devolving attendance allowance, and I share those concerns, particularly as we know that we're going to have increasing numbers of older people, particularly those with dementia. I'm also concerned that it's another attempt to undermine the universal welfare state in the UK, and to pass the responsibility for funding social care to Wales and to already-underfunded social services departments in England. Will you ensure that, before the UK Government is able to do that, Assembly Members here are able to have the opportunity to discuss this proposal fully?

Weinidog, byddwch wedi clywed y Prif Weinidog yn mynegi pryderon am y risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli lwfans gweini, ac rwy'n rhannu'r pryderon hynny, yn enwedig gan ein bod yn gwybod y bydd gennym nifer gynyddol o bobl hŷn, yn enwedig y rheini â dementia. Rwyf hefyd yn pryderu mai ymgais arall yw hon i danseilio'r wladwriaeth les gyffredinol yn y DU, ac i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ariannu gofal cymdeithasol i Gymru ac i adrannau gwasanaethau cymdeithasol sydd eisoes wedi'u tanariannu yn Lloegr. A wnewch chi sicrhau, cyn y gall Llywodraeth y DU wneud hynny, y gall Aelodau'r Cynulliad yma gael y cyfle i drafod y cynnig hwn yn llawn?

I would also like to ask for a statement from the Minister for Public Services on the UK Government's proposed changes to the Local Government Pension Scheme (Management and Investment of Funds) Regulations 2009. These are currently being taken through and would see local authorities' rights to divest from trade and investments that they consider to be unethical curbed. I believe that is an attack on local democracy, and will have big ramifications for us here in Wales, and I would like to ask for a statement from the Minister on that.

Hoffwn ofyn hefyd am ddatganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd a byddent yn arwain at hawliau awdurdodau lleol i ymwrthod â masnach a buddsoddiadau y maen nhw'n credu sy'n anfoesegol yn cael eu cyfyngu. Rwy'n credu bod hynny'n ymosodiad ar ddemocratiaeth leol, ac y bydd yn cael goblygiadau mawr i ni yma yng Nghymru, a hoffwn ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog ar hynny.

14:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Lynne Neagle for those questions. I think on the first question, the First Minister made the point himself that there's been absolutely no discussion with the Welsh Government about the possible transfer of attendance allowance—no forewarning. It doesn't appear in the draft Wales Bill. Actually, I think one of the most important points about the response last week was from the charities, who themselves raised questions—Carers Wales very prominently—and other major charity figures on behalf of those they serve and represent, let alone the issue that the First Minister raised about concerns about cuts that I'm sure would come our way. So, thank you again for raising that question this afternoon.

Diolchaf i Lynne Neagle am y cwestiynau yna. Rwy'n credu o ran y cwestiwn cyntaf, bod y Prif Weinidog wedi gwneud y pwynt ei hun na fu unrhyw drafodaeth o gwbl gyda Llywodraeth Cymru am y posibilrwydd o drosglwyddo lwfans gweini—dim rhybudd. Nid yw'n ymddangos yn y Bil Cymru drafft. A dweud y gwir, rwy'n credu y cafwyd un o'r pwyntiau pwysicaf am yr ymateb yr wythnos diwethaf gan yr elusennau, a gododd gwestiynau eu hunain—Gofalwyr Cymru yn amlwg iawn—a ffigyrau elusennau mawr eraill ar ran y rhai y maent yn eu gwasanaethu ac yn eu cynrychioli, heb sôn am y mater a godwyd gan y Prif Weinidog am bryderon am doriadau yr wyf yn siŵr y byddent yn dod i'n cyfeiriad ni. Felly, diolch i chi unwaith eto am godi'r cwestiwn yna y prynhawn yma.

Certainly, the Minister for Public Services will take note of your question about the local government pension regulations 2009.

Yn sicr, bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi eich cwestiwn am reoliadau pensiwn llywodraeth leol 2009.

14:38 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a single oral statement on the blue badge scheme. I note that today's order paper was amended to remove that because of pressure of business, and a written statement was produced eight minutes ago. But that statement does include matters that merit questions from Members, such as, for example, the role of GPs and clinicians in supporting applicants who may have complex medical conditions. There are further questions on something that I've been questioning the Minister positively for a number of years over, which is a blue badge for people with temporary conditions, the growing concern over some local authorities moving towards proposals for charging for blue badge parking and blue badge spaces, and, more broadly, the role of the independent advisory service as it's developed in practice since introduction, so we can look at what's working well but also what might be done differently in the future. I do feel strongly that these are important matters that many Members receive representations on, which do merit an opportunity for Members to question the Minister directly in the Chamber.

Galwaf am ddatganiad llafar sengl ar y cynllun bathodyn glas. Nodaf fod papur trefn heddiw wedi ei ddiwygio i gael gwared ar hynny oherwydd pwysau busnes, a lluniwyd datganiad ysgrifenedig wyth munud yn ôl. Ond mae'r datganiad hwnnw'n cynnwys materion sy'n haeddu cwestiynau gan yr Aelodau, fel, er enghraifft, swyddogaeth meddygon teulu a chlinigwyr o ran cefnogi ymgeiswyr a allai fod â chyflyrau meddygol cymhleth. Ceir rhagor o gwestiynau am rywbeth yr wyf i wedi bod yn holi'r Gweinidog yn ei gylch yn gadarnhaol ers nifer o flynyddoedd, sef bathodyn glas ar gyfer pobl â chyflyrau dros dro, y pryder cynyddol am rai awdurdodau lleol yn symud tuag at gynigion ar gyfer codi tâl am barcio bathodyn glas a lleoedd bathodyn glas, ac, yn fwy cyffredinol, swyddogaeth y gwasanaeth cynghori annibynnol fel y mae wedi datblygu'n ymarferol ers ei gyflwyno, fel y gallwn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, ond hefyd ar yr hyn y gellid ei wneud yn wahanol yn y dyfodol. Rwy'n teimlo'n gryf bod y rhain yn faterion pwysig y mae llawer o Aelodau yn derbyn sylwadau arnynt, sy'n haeddu cyfle i Aelodau holi'r Gweinidog yn uniongyrchol yn y Siambr.

14:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know, Mark Isherwood, you will have welcomed—I'm sure you should welcome—the fact that the Welsh Government is giving important time this afternoon to the Tata Steel statement. I know you will welcome that, but, of course, the response and questions about the blue badge scheme are very important, and the Minister is offering briefing to all political groups on the outcome of the consultation.

Gwn, Mark Isherwood, y byddwch wedi croesawu—rwy'n siŵr y dylech chi groesawu—y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn rhoi amser pwysig y prynhawn yma i ddatganiad Tata Steel. Gwn y byddwch yn croesawu hynny, ond, wrth gwrs, mae'r ymateb a chwestiynau am y cynllun bathodyn glas yn bwysig iawn, ac mae'r Gweinidog yn cynnig sesiynau briffio i bob grŵp gwleidyddol ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

14:40 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wonder if I might request a statement from the Minister for culture to explore the decision-making process around the decision not to list Old College Buildings in Splott. Correspondence released by the Welsh Government in May and June of last year suggested—and I quote the letter from the Minister—that he was 'minded to list the building'. However, the decision in November was to not list the building and, as Members may be aware, a decision was taken, given the fact that the building was not listed, to approve demolition of this really important arts and crafts movement building in the Splott area of the city. I wonder if we could request a statement underlining the reasons for that change of heart and the release of the correspondence after June regarding that particular building.

Tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog diwylliant i ystyried y broses o wneud penderfyniadau o amgylch y penderfyniad i beidio â rhestru Adeiladau'r Hen Goleg yn Sblot. Roedd gohebiaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai a Mehefin y llynedd yn awgrymu—a dyfynnaf y llythyr gan y Gweinidog—ei fod yn 'bwriadu rhestru'r adeilad'. Fodd bynnag, y penderfyniad ym mis Tachwedd oedd peidio â rhestru'r adeilad ac, fel efallai y mae'r Aelodau'n ymwybodol, gwnaed penderfyniad, o ystyried y ffaith nad oedd yr adeilad wedi'i restru, i gymeradwyo dymchwel yr adeilad mudiad celf a chrefft pwysig iawn hwn yn ardal Sblot y ddinas. Tybed a allem ni ofyn am ddatganiad yn tanlinellu'r rhesymau am y newid meddwl hwnnw a chyhoeddiad yr ohebiaeth ar ôl mis Mehefin am yr adeilad arbennig hwnnw.

14:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, this is a matter where the Minister has received advice in terms of this particular building, and I know he is very happy to clarify the terms and basis of that advice.

Yn amlwg, mae hwn yn fater lle mae'r Gweinidog wedi derbyn cyngor o ran yr adeilad penodol hwn, a gwn ei fod yn hapus iawn i egluro telerau a sail y cyngor hwnnw.

14:41 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure the Minister is aware of the very good news that broke yesterday that Dŵr Cymru Welsh Water is taking over the reservoirs of Llanishen and Lisvane in Cardiff North after a 15-year campaign by residents in that area. I'd like to thank the Minister for Natural Resources for the help that he's given with this issue. It's absolutely great news that the water will once again be used by people in Cardiff. Would it be possible to have a statement by the Minister for Natural Resources about how he believes this unique piece of green space can be used by the people of Cardiff for access and recreation? We hope that, eventually, when Dŵr Cymru has had time to assess the situation, fishing and sailing will be restored at the reservoir in due course. I think it's important to remember that Hannah Mills, who I believe was a constituent of the Minister, is going for gold in Rio and won a silver medal in London in 2012, and she trained and sailed on Llanishen reservoir.

Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r newyddion da iawn a gyhoeddwyd ddoe bod Dŵr Cymru Welsh Water yn cymryd y cronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen yng Ngogledd Caerdydd drosodd ar ôl ymgyrch o 15 mlynedd gan drigolion yn yr ardal honno. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol am y cymorth y mae wedi ei roi gyda'r mater hwn. Mae'n newyddion cwbl wych y bydd y dŵr yn cael ei ddefnyddio gan bobl yng Nghaerdydd unwaith eto. A fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar sut y mae'n credu y gall y man gwyrdd unigryw hwn gael ei ddefnyddio gan bobl Caerdydd ar gyfer mynediad a hamdden? Rydym ni'n gobeithio, yn y pen draw, pan fydd Dŵr Cymru wedi cael amser i asesu'r sefyllfa, y bydd pysgota a hwylio yn dychwelyd i'r gronfa ddŵr maes o law. Credaf ei bod yn bwysig cofio bod Hannah Mills, yr wyf yn credu sy'n etholwr i'r Gweinidog, yn mynd am y fedal aur yn Rio ac wedi ennill medal arian yn Llundain yn 2012, ac fe wnaeth hi ymarfer a hwylio ar gronfa ddŵr Llanisien.

14:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie Morgan, Member for Cardiff North, for that question. I certainly want to congratulate the Member on 15 years, if not more, of campaigning that she has led, but led with the community, with the residents and with all of the interests, which has led to this very good news that Dŵr Cymru has announced that they've secured the 999-year lease for Lisvane and Llanishen reservoirs and surrounding land. I know the Minister for Natural Resources visited yesterday and met with all of those who took part in that campaign to secure this asset for the benefit of the local community. Of course, it is important to see that this is not just an opportunity in terms of safeguarding wildlife and the varied flora and fauna protected by this decision, but also an opportunity and benefit for the environment, economy and residents of Cardiff and surrounding areas.

Diolchaf i Julie Morgan, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, am y cwestiwn yna. Rwy'n sicr eisiau llongyfarch yr Aelod ar 15 mlynedd, os nad mwy, o ymgyrchu y mae hi wedi ei arwain, ond wedi ei arwain gyda'r gymuned, gyda'r trigolion a chyda'r holl fuddiannau, sydd wedi arwain at y newyddion da iawn hyn a gyhoeddwyd gan Dŵr Cymru ei fod wedi sicrhau'r brydles 999 mlynedd ar gyfer cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien a'r tir o'u hamgylch. Gwn fod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi ymweld ddoe ac wedi cyfarfod â phawb a gymerodd ran yn yr ymgyrch honno i sicrhau'r ased hwn er budd y gymuned leol. Wrth gwrs, mae'n bwysig gweld nad yw hwn yn gyfle dim ond o ran diogelu bywyd gwyllt a'r fflora a ffawna amrywiol a ddiogelir gan y penderfyniad hwn, ond hefyd yn gyfle ac yn fudd i amgylchedd, economi a thrigolion Caerdydd a'r cyffiniau.

14:43 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to ask for two statements, please, Minister, the first from the Minister for Education and Skills with regard to what the Welsh Government is doing to safeguard adult community learning, particularly in the face of concerns expressed to me by the county branch of Unison in Carmarthenshire, which is particularly concerned about swingeing cuts proposed in that county in the adult learning sector that could potentially involve the centres at Ammanford, Carmarthen, Glanamman and Felinfoel, all with threats of closure.

Hoffwn ofyn am ddau ddatganiad, os gwelwch yn dda, Weinidog, y cyntaf gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau o ran yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu dysgu oedolion yn y gymuned, yn enwedig yn wyneb y pryderon a fynegwyd i mi gan gangen sir Unsain yn Sir Gaerfyrddin, sy'n arbennig o bryderus am doriadau llym a gynigir yn y sir honno yn y sector dysgu oedolion a allai gynnwys y canolfannau yn Rhydaman, Caerfyrddin, Glanaman a Felin-foel, pob un dan fygythiad o gau.

The second, particularly picking up the point already raised earlier by our party leader Kirsty Williams with regard to the problems in the Brecon Beacons just last weekend, is that the national park authority is currently considering informally proposals to mothball part of the iconic visitor centre at Libanus. I would appreciate a statement by the Deputy Minister for culture and sport on the importance of that facility. It could further exacerbate the problems that Kirsty Williams was referring to if these plans go forward.

Yr ail, yn dilyn yn benodol y pwynt a godwyd eisoes yn gynharach gan arweinydd ein plaid Kirsty Williams o ran y problemau ym Mannau Brycheiniog dim ond yn ystod y penwythnos diwethaf, yw bod awdurdod y parc cenedlaethol wrthi'n ystyried yn anffurfiol cynigion i roi'r gorau i ddefnyddio rhan o'r ganolfan ymwelwyr eiconig yn Libanus. Byddwn yn gwerthfawrogi datganiad gan y Dirprwy Weinidog diwylliant a chwaraeon ar bwysigrwydd y cyfleuster hwnnw. Gallai waethygu ymhellach y problemau yr oedd Kirsty Williams yn cyfeirio atynt pe byddai'r cynlluniau hyn yn mynd yn eu blaenau.

14:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank William Powell for those questions. Of course, it's a much more favourable provisional local government revenue settlement than was anticipated, and also in terms of the draft budget and, of course, safeguarding funding for further education, which all has a positive bearing, I believe, in terms of adult and continuing education.

Diolchaf i William Powell am y cwestiynau yna. Wrth gwrs, mae'n setliad refeniw llywodraeth leol rhagarweiniol llawer mwy ffafriol nag a ragwelwyd, a hefyd o ran y gyllideb ddrafft ac, wrth gwrs, diogelu cyllid ar gyfer addysg bellach, sydd i gyd yn cael effaith gadarnhaol, rwy'n credu, o ran addysg oedolion a pharhaus.

Of course, your second question and point about the mountain centre is very relevant—you know, one of the key highlights in terms of our tourism industry and what has been provided by the mountain centre for many decades, I believe. And, of course, the Minister for tourism would want to reflect on that in terms of management and the local economy.

Wrth gwrs, mae eich ail gwestiwn a'r pwynt am y ganolfan fynydd yn berthnasol iawn—wyddoch chi, un o'r uchafbwyntiau allweddol o ran ein diwydiant twristiaeth a'r hyn a ddarparwyd gan y ganolfan fynydd ers degawdau lawer, rwy'n credu. Ac, wrth gwrs, byddai'r Gweinidog twristiaeth eisiau myfyrio ar hynny o ran rheoli a'r economi leol.

14:45 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could we have a statement from the Minister for Health and Social Services about working conditions in the care sector? The Welsh Government recently unveiled its proposals to improve the quality of social care by restricting the use of zero-hours contracts, and today we hear that that is going out for consultation. It will make sure that employers pay domiciliary care workers the national minimum wage. On top of that, research by 'The Guardian' newspaper published last month did show that social workers in Wales are happier in the jobs than their colleagues across the UK. Lower caseloads, more support from managers and better integration with health were quoted as the reasons for that greater satisfaction. So, I should be interested to hear from the Minister how these developments can help boost recruitment to a sector that will, inevitably, become an ever more important branch of the welfare sector that is clearly recognised here in Wales.

Weinidog, a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am amodau gweithio yn y sector gofal? Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion i wella ansawdd gofal cymdeithasol trwy gyfyngu ar y defnydd o gontractau dim oriau, ac rydym yn clywed heddiw y bydd hyn yn destun ymgynghoriad. Bydd yn gwneud yn siŵr bod cyflogwyr yn talu'r isafswm cyflog cenedlaethol i weithwyr gofal cartref. Yn ogystal â hynny, dangosodd waith ymchwil gan bapur newydd 'The Guardian' a gyhoeddwyd fis diwethaf bod gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn hapusach yn y swyddi na'u cydweithwyr ar draws y DU. Nodwyd llwythi achosion llai, mwy o gefnogaeth gan reolwyr ac integreiddio gwell gydag iechyd fel y rhesymau am y bodlonrwydd uwch hwnnw. Felly, byddai gen i ddiddordeb mewn clywed gan y Gweinidog am sut y gall y datblygiadau hyn helpu i roi hwb i recriwtio i sector a fydd, yn anochel, yn dod yn gangen fwyfwy pwysig o'r sector lles a gydnabyddir yn amlwg yma yng Nghymru.

14:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think the commitment by the Minister for Health and Social Services to have that all-important consultation that has now been launched to demonstrate that we want to ensure that staff are paid the minimum wage and paid for time spent travelling to clients, and, of course, it's very important in terms of the links between employment conditions and quality of care delivered. It shows also that we value and care for our social care sector, and that was very clearly demonstrated in 'The Guardian' social care article, which was also brought to our attention in the First Minister's questions by Lynne Neagle this afternoon.

Wel, rwy'n meddwl bod yr ymrwymiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal yr ymgynghoriad hollbwysig yna sydd wedi ei lansio erbyn hyn i ddangos ein bod ni eisiau sicrhau bod staff yn cael eu talu yr isafswm cyflog ac yn cael eu talu am yr amser a dreulir yn teithio at gleientiaid, ac, wrth gwrs, mae'n bwysig iawn o ran y cysylltiadau rhwng amodau cyflogaeth ac ansawdd y gofal a ddarperir. Mae hefyd yn dangos ein bod yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am ein sector gofal cymdeithasol, a dangoswyd hynny'n eglur iawn yn erthygl gofal cymdeithasol 'The Guardian', y tynnwyd ein sylw ati hefyd yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog gan Lynne Neagle y prynhawn yma.

I think the clear leadership and accountability of social services through the statutory role of directors of social services is crucial. But, very constructive relationships between Welsh Government, the British Association of Social Workers and Unison, since devolution, have resulted in a cohesive policy and practice development.

Rwy'n meddwl bod arweinyddiaeth ac atebolrwydd eglur gwasanaethau cymdeithasol trwy swyddogaeth statudol cyfarwyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol yn hollbwysig. Ond, mae cysylltiadau adeiladol iawn rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain ac Unsain, ers datganoli, wedi arwain at bolisi cydlynus a datblygiad mewn ymarfer.

14:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:48 

# 3. Datganiad: Tata Steel

# 3. Statement: Tata Steel

Y Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to the next item, which is a statement by the Minister for Economy, Science and Transport on Tata Steel, and I call the Minister for Economy, Science and Transport to speak to the Chamber—Edwina Hart.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar Tata Steel, a galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i siarad â'r Siambr—Edwina Hart.

14:48

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Presiding Officer.

Diolch, Lywydd.

I know that everyone in this Chamber will have been saddened by yesterday's announcement of job losses at Tata Steel. Following such a significant announcement, many of you will want to make a contribution today. But before I go any further this afternoon, I want to say that our thoughts are very much with those affected by yesterday's announcements.

Rwy'n gwybod y bydd pawb yn y Siambr hon wedi cael eu tristáu gan gyhoeddiad ddoe am golli swyddi yn Tata Steel. Yn dilyn cyhoeddiad mor arwyddocaol, bydd llawer ohonoch yn awyddus i gyfrannu heddiw. Ond cyn imi fynd ymhellach y prynhawn yma, rwyf am ddweud ein bod yn sicr yn meddwl am y bobl hynny yr effeithiwyd arnynt gan gyhoeddiadau ddoe.

Behind each of the job losses announced is an individual, and in many cases a family, whose life has been changed by that announcement. It is a deeply distressing time for those directly concerned, for their families and for the steel-making communities in which they are based, especially at Port Talbot where the majority of job losses will be felt.

Y tu ôl i bob un swydd a gollwyd yn dilyn y cyhoeddiad, mae unigolyn, ac mewn llawer o achosion teulu, y mae eu bywydau wedi'i newid gan y cyhoeddiad hwnnw. Mae'n gyfnod gofidus iawn i'r bobl a gollodd swyddi, i'w teuluoedd ac i'r cymunedau gwneud dur lle maent wedi'u lleoli, yn enwedig ym Mhort Talbot, lle caiff y rhan fwyaf o'r colledion swyddi eu teimlo.

The company has also indicated that other areas will be affected, including Trostre. We will work closely with the company to get the full details of the jobs under threat and tailor our response accordingly. Our immediate priority therefore is to support those affected by yesterday's announcement and there is no time to lose. That is why we are taking action immediately. As the First Minister announced yesterday, we are setting up a high-level taskforce and I will chair the first meeting tomorrow. I have invited representatives from the company itself, the trade unions, and individuals to represent the local authorities, the business sector, education, health, Careers Wales and other bodies that provide careers and job advice. I have also extended an invitation to Lord Bourne, given his responsibilities at the Department of Energy and Climate Change and the Wales Office, and his experience from the Murco taskforce.

Mae'r cwmni hefyd wedi nodi y bydd hyn yn effeithio ar ardaloedd eraill, gan gynnwys Trostre. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r cwmni i gael manylion llawn y swyddi dan fygythiad ac yn teilwra ein hymateb yn unol â hynny. Ein blaenoriaeth gyntaf, felly, yw cefnogi'r bobl y mae cyhoeddiad ddoe yn effeithio arnynt ac nid oes amser i'w golli. Dyna pam yr ydym yn cymryd camau ar unwaith. Fel y cyhoeddodd y Prif Weinidog ddoe, rydym yn sefydlu tasglu lefel uchel a byddaf i'n cadeirio'r cyfarfod cyntaf yfory. Rwyf wedi gwahodd cynrychiolwyr o'r cwmni ei hun, yr undebau llafur, ac unigolion i gynrychioli'r awdurdodau lleol, y sector busnes, addysg, iechyd, Gyrfa Cymru a chyrff eraill sy'n darparu cyngor gyrfaoedd a swyddi. Rwyf hefyd wedi estyn gwahoddiad i'r Arglwydd Bourne, o gofio ei gyfrifoldebau yn yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ac yn Swyddfa Cymru, a'i brofiad o'r tasglu Murco.

The primary focus of the taskforce will be to do all it can to support the affected employees. However, the impacts are likely to be wider than just the workers being displaced. There are likely to be businesses affected in the main supply chains, as well as smaller businesses that provide local goods and services. So, the taskforce will also consider what can be done to support them as well. This work will be taken forward immediately and in parallel to our work to support displaced employees.

Prif bwyslais y tasglu fydd gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi'r gweithwyr yr effeithiwyd arnynt. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr effeithiau'n ehangach na dim ond dadleoli'r gweithwyr. Mae hyn yn debygol o effeithio ar fusnesau yn y prif gadwyni cyflenwi, yn ogystal â busnesau llai sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau lleol. Felly, bydd y tasglu hefyd yn ystyried beth ellir ei wneud i'w cefnogi hwythau. Bydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar unwaith ac ochr yn ochr â'n gwaith i gefnogi gweithwyr sydd wedi'u dadleoli.

We'll be working closely with the company throughout. We have a strong relationship with Tata, which we have developed over many years, and will continue to support them going forward. The announcement made yesterday will not have been an easy decision for the company, but they believe it is necessary to improve the competitiveness of their UK business in the face of extremely difficult market conditions. The company have indicated that a full consultation process with employee representatives will begin immediately.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r cwmni drwy gydol y broses. Mae gennym berthynas gref gyda Tata, sydd wedi'i datblygu dros nifer o flynyddoedd, a byddwn yn parhau i'w gefnogi yn y dyfodol. Ni fydd y cyhoeddiad a wnaethpwyd ddoe wedi bod yn benderfyniad hawdd i'r cwmni, ond mae'n credu ei fod yn angenrheidiol i wella cystadleurwydd ei fusnes yn y DU yn wyneb amodau marchnad anodd dros ben. Mae'r cwmni wedi nodi y bydd proses ymgynghori lawn gyda chynrychiolwyr y gweithwyr yn dechrau ar unwaith.

In its statement yesterday, the company called on the European Commission to accelerate its response to unfairly traded imports and increase the robustness of its actions. Whilst it welcomed progress on UK energy costs, it reiterated that the Government must take urgent action to increase the competitiveness of the UK for the steel sector. Action has not come soon enough. We first raised concerns about the impact of energy prices on the most energy intensive of businesses in 2011. Now, in 2016, the industry is still awaiting the full package of support promised by the UK Government. Indeed, only today has the guidance on applying for compensation for certain elements of the scheme been published.

Yn ei ddatganiad ddoe, galwodd y cwmni ar y Comisiwn Ewropeaidd i gyflymu ei brosesau ymateb i fasnachu annheg mewn mewnforion a chynyddu cadernid ei weithredoedd. Er ei fod yn croesawu'r cynnydd o ran costau ynni yn y DU, roedd yn ailadrodd bod yn rhaid i'r Llywodraeth weithredu ar frys i gynyddu cystadleurwydd y DU ar gyfer y sector dur. Nid yw'r gweithredu hwnnw wedi dod yn ddigon buan. Rydym wedi bod yn codi pryderon ynghylch effaith prisiau ynni ar y cwmnïau mwyaf ynni-ddwys ers 2011. Nawr, yn 2016, mae'r diwydiant yn dal i aros am y pecyn cefnogaeth llawn a addawyd gan Lywodraeth y DU. Yn wir, dim ond heddiw y cafodd canllawiau eu cyhoeddi ar wneud cais am iawndal ar gyfer elfennau penodol o'r cynllun.

We have raised with the UK Government the concerns of Welsh steel producers about the volume and, in some cases, the quality of certain imported steel products. We support recent EU investigations into anti-dumping measures on certain steel products, including those from China. Where evidence is found, we expect swift action and outcomes to help prevent undue harm on our indigenous producers. We also welcome the European Union's recognition that concrete actions are now required to ensure the long-term viability of a modern steel-making sector.

Rydym wedi sôn wrth Lywodraeth y DU am bryderon cynhyrchwyr dur Cymru am faint o gynhyrchion dur a fewnforir ac, mewn rhai achosion, am eu hansawdd. Rydym yn cefnogi ymchwiliadau diweddar yr UE i fesurau gwrth-ddympio ar rai cynhyrchion dur, gan gynnwys y rhai o Tsieina. Lle caiff tystiolaeth ei chanfod, rydym yn disgwyl gweithredu a chanlyniadau cyflym i helpu i atal niwed diangen i'n cynhyrchwyr cynhenid. Rydym hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd bod angen cymryd camau cadarn nawr i sicrhau hyfywedd hirdymor i sector gwneud dur modern.

As a Government, we are urgently examining all the actions we can take, which range from research and development, skills and training, aid for environmental protection and, of course, business rates. On business rates, we are examining the options closely to support the industry in Wales through the business rates regime. The timetable for change is a high priority in our examination of the options. Consideration is being given to reducing the impact of plant and machinery on business rates bills. The assessment of plant and machinery is deeply embedded in the wider valuation approach and gives rise to considerable challenges in applying a blanket reduction to plant and machinery. We are also examining whether there are options to look again at the valuation approach and are in discussion with the valuation office on the technical issues involved.

Fel Llywodraeth, rydym yn edrych fel mater o frys ar yr holl gamau gweithredu y gallwn eu cymryd; maent yn cynnwys ymchwil a datblygu, sgiliau a hyfforddiant, cymorth i ddiogelu'r amgylchedd ac, wrth gwrs, ardrethi busnes. O ran ardrethi busnes, rydym yn archwilio'r dewisiadau'n fanwl i gefnogi'r diwydiant yng Nghymru drwy'r gyfundrefn ardrethi busnes. Mae'r amserlen ar gyfer newid yn flaenoriaeth uchel wrth inni archwilio'r dewisiadau. Rydym yn ystyried lleihau effaith offer a pheiriannau ar filiau ardrethi busnes. Mae asesu offer a pheiriannau'n rhan annatod o'r dull prisio ehangach ac yn arwain at heriau sylweddol wrth ddefnyddio gostyngiad cyffredinol ar gyfer offer a pheiriannau. Rydym hefyd yn archwilio a oes dewisiadau i edrych eto ar y dull prisio ac rydym yn trafod y materion technegol dan sylw gyda'r swyddfa brisio.

Changes to plant and machinery are not the only steps that can be taken to support the sector through business rates. We are also discussing the overall approach to valuation with the valuation office, and it is important that the approach to valuation reflects rental values and the current circumstances faced by the industry. Procurement also has a key role to play. The Wales procurement policy statement published in 2012 is fully supportive of the principles of the British steel charter. Our progressive procurement policies, which are already in place, complement the aims of the charter. As an example, we are currently reviewing the model contract documents for the delivery of major transport projects to ensure the standard is considered.

Nid newidiadau i offer a pheiriannau yw'r unig gamau y gellir eu cymryd i gefnogi'r sector drwy ardrethi busnes. Rydym hefyd yn trafod yr ymagwedd gyffredinol at brisio gyda'r swyddfa brisio, ac mae'n bwysig bod y dull prisio’n adlewyrchu gwerthoedd rhentu a'r amgylchiadau presennol a wynebir gan y diwydiant. Mae gan gaffael ran allweddol i'w chwarae hefyd. Mae datganiad polisi caffael Cymru a gyhoeddwyd yn 2012 yn gwbl gefnogol i egwyddorion siarter dur Prydain. Mae ein polisïau caffael blaengar, sydd eisoes ar waith, yn ategu amcanion y siarter. Er enghraifft, rydym wrthi'n adolygu'r dogfennau contract enghreifftiol ar gyfer cyflawni prosiectau trafnidiaeth mawr i sicrhau bod y safon yn cael ei hystyried.

The Welsh Government has worked closely with Tata Steel in Wales to provide significant assistance to the company over the years. We’ll continue to engage with Tata Steel to determine further potential support and investment in these areas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Tata Steel yng Nghymru i ddarparu cymorth sylweddol i'r cwmni dros y blynyddoedd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Tata Steel i benderfynu ar gefnogaeth a buddsoddiad posibl pellach yn y meysydd hyn.

With the agreement of the First Minister, I have today written to the Chancellor of the Exchequer setting out our proposal to create an additional enterprise zone in Wales—an enterprise zone that encompasses the Port Talbot site—which would not only send an important signal to the industry, it would also create a growth environment within which other businesses and industry could flourish. However, for maximum impact, such an enterprise zone would need the full package of policy levers, including enhanced capital allowances. As advanced capital allowances are a matter for the UK Government, I have asked for the Chancellor’s early response as to whether the UK Government would be agreeable to this.

Gyda chytundeb y Prif Weinidog, rwyf wedi ysgrifennu heddiw at Ganghellor y Trysorlys i nodi ein cynnig i greu ardal fenter ychwanegol yng Nghymru—ardal fenter sy'n cwmpasu'r safle ym Mhort Talbot. Byddai hyn, yn ogystal ag anfon arwydd pwysig i’r diwydiant, hefyd yn creu amgylchedd twf lle gallai busnesau a diwydiannau eraill ffynnu. Fodd bynnag, i gael yr effaith fwyaf bosibl, byddai angen y pecyn llawn o ysgogiadau polisi mewn ardal fenter o’r fath, gan gynnwys lwfansau cyfalaf uwch. Gan mai mater i Lywodraeth y DU yw lwfansau cyfalaf uwch, rwyf wedi gofyn am ymateb cynnar y Canghellor ynghylch pa un a fyddai Llywodraeth y DU yn cytuno â hyn.

The steel industry is a fundamental cornerstone of our manufacturing sector. It sustains thousands of jobs and provides above-average salaries, often in areas of below-average income. Steel making is part of our heritage, and we are committed to ensuring it is part of our future. And the industry does have a future. On Friday, I was at Tata Steel’s Shotton plant and saw for myself the production of innovative coated steel products. We have also seen other steel companies in Wales making significant investments. Liberty Group have recently purchased many of the Caparo businesses from administration and safeguarded many jobs, including some in Wales. We will continue to champion the cause of Welsh steel at the highest levels of government, both in the UK and Europe. With the right support, we can help ensure that steel has a sustainable future in Wales.

Mae'r diwydiant dur yn un o gonglfeini sylfaenol ein sector gweithgynhyrchu. Mae'n cynnal miloedd o swyddi ac yn darparu cyflogau uwch na'r cyfartaledd, yn aml mewn ardaloedd lle mae incwm yn is na'r cyfartaledd. Mae gwneud dur yn rhan o'n treftadaeth, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn rhan o'n dyfodol. Ac mae gan y diwydiant ddyfodol. Ddydd Gwener, roeddwn yng ngwaith dur Tata Steel yn Shotton a gwelais drosof fy hun gynhyrchion dur gorchudd arloesol yn cael eu cynhyrchu. Rydym hefyd wedi gweld cwmnïau dur eraill yng Nghymru yn gwneud buddsoddiadau sylweddol. Yn ddiweddar, prynodd Grŵp Liberty lawer o'r busnesau Caparo gan weinyddwyr gan ddiogelu llawer o swyddi, gan gynnwys rhai yng Nghymru. Byddwn yn parhau i hyrwyddo achos dur Cymru ar y lefelau uchaf o lywodraeth, yn y DU ac yn Ewrop. Gyda'r gefnogaeth gywir, gallwn helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy i ddur yng Nghymru.

14:55

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I’ll just mention to the business Minister, if I may, with regret, that we didn’t receive the statement until the Minister started to speak. However, I’m thankful for your statement today, Minister, on a very important subject. Clearly, it’s a good thing that you’re going to chair the high-level taskforce. We are aware of your reputation in this matter, and you have our confidence in that matter.

Hoffwn ddweud wrth y Gweinidog busnes, os caf, yn anffodus, na chawsom y datganiad tan i’r Gweinidog ddechrau siarad. Fodd bynnag, rwy'n ddiolchgar am eich datganiad heddiw, Weinidog, ar bwnc pwysig iawn. Yn amlwg, mae'n beth da y byddwch chi’n cadeirio'r tasglu lefel uchel. Rydym yn ymwybodol o’ch enw da yn y mater hwn, ac mae gennym ffydd ynoch yn y mater hwnnw.

In terms of your statement, on business rates, the Minister will know that it will be some time before the revaluation actually takes place. We'd ask for you to clarify that, particularly the assessment of plant and machinery and how that could be brought forward at the earliest possible opportunity. We would also welcome changing the terms of the procurement policy to make sure that Welsh steel of good quality can be used at every opportunity. I remind the Minister there that, on the Crossrail project in London, over 80 per cent of the steels used were of British manufacture, and that at Hinkley Point more recently, 60 per cent used were of British manufacture. In fact, those that were not used, were no longer made in this country.

O ran eich datganiad, ar ardrethi busnes, bydd y Gweinidog yn gwybod y bydd yn cymryd cryn amser cyn i'r ailbrisio ddigwydd mewn gwirionedd. Byddem yn gofyn ichi egluro hynny, yn enwedig asesu offer a pheiriannau, a sut y gellid dwyn hynny ymlaen ar y cyfle cyntaf posibl. Byddem hefyd yn croesawu newid telerau'r polisi caffael i sicrhau y gellir defnyddio dur Cymru o ansawdd da ar bob cyfle. Atgoffaf y Gweinidog yn y fan yna, ar y prosiect Crossrail yn Llundain, bod dros 80 y cant o'r dur a ddefnyddiwyd wedi'i gynhyrchu ym Mhrydain, ac yn Hinkley Point yn fwy diweddar, bod 60 y cant o'r dur a ddefnyddiwyd wedi'i gynhyrchu ym Mhrydain. Mewn gwirionedd, yr unig rai nad oedd yn dod o'r wlad hon oedd y rhai nad ydynt yn cael eu gwneud yma mwyach.

We would support also the creation of the enterprise zone at Port Talbot, but would remind the Minister that just the creation of an enterprise zone is not a panacea in itself. For somebody who lives in a community that has suffered huge job losses over the years, Newport Unlimited was a very good example of that, and also that was extended, in part, to Ebbw Vale very necessarily. Certainly, as the Minister has touched on, our thoughts are with the families and communities affected by these losses.

Byddem hefyd yn cefnogi creu'r ardal fenter ym Mhort Talbot, ond byddem yn atgoffa'r Gweinidog nad yw creu ardal fenter yn ateb pob problem ynddo'i hun. I rywun sy'n byw mewn cymuned sydd wedi dioddef colledion swyddi aruthrol dros y blynyddoedd, roedd Newport Unlimited yn enghraifft dda iawn o hynny, a chafodd hynny ei ymestyn hefyd, yn rhannol, i Lynebwy lle'r oedd ei wir angen. Yn sicr, fel y mae'r Gweinidog wedi sôn, rydym yn meddwl am y teuluoedd a'r cymunedau y mae'r colledion hyn wedi effeithio arnynt.

But notwithstanding that, Minister, we must take a much more optimistic view of our production of steel in Wales. The European Competitiveness Council says that the use of European trade policy to ensure a global level playing field, which we'd all endorse, the use of revised state aid rules to support energy-intensive industries, and the reform of the emissions trading system, and using European investment funds to help modernise the sector—. Our five-point action plan would arise from the European Union's to deal particularly with the dumping of Chinese steel. I point out here that Chinese steel has now increased from 1 per cent of the market to 10 per cent of the market, although the majority of steel imported into the United Kingdom actually comes from Germany. We support the continued action from the United Kingdom Government to deal with Labour's legacy of high energy prices, and the business rate relief scheme, which the Minister is going to bring forward, by the Welsh Government. We also need minimum steel standards for public sector procurement and, as I mentioned before, a package of support for those staff set to lose their jobs.

Ond er gwaethaf hynny, Weinidog, mae'n rhaid inni gymryd golwg llawer mwy optimistaidd ar gynhyrchu dur yng Nghymru. Mae Cyngor Cystadleurwydd Ewropeaidd yn dweud bod defnyddio polisi masnach Ewropeaidd i sicrhau sefyllfa deg fyd-eang, y byddem i gyd yn ei gymeradwyo, defnyddio rheolau cymorth gwladwriaethol diwygiedig i gefnogi diwydiannau ynni-ddwys, a diwygio'r system masnachu allyriadau, a defnyddio cronfeydd buddsoddi Ewropeaidd i helpu i foderneiddio'r sector—. Byddai ein cynllun gweithredu pum pwynt yn codi o un yr Undeb Ewropeaidd i ymdrin yn benodol â dympio dur o Tsieina. Nodaf yma fod dur o Tsieina nawr wedi cynyddu o 1 y cant o'r farchnad i 10 y cant o'r farchnad, er bod y mwyafrif o ddur sy'n cael ei fewnforio i'r Deyrnas Unedig mewn gwirionedd yn dod o'r Almaen. Rydym yn cefnogi camau gweithredu parhaus gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ymdrin ag etifeddiaeth Llafur o brisiau ynni uchel, a'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes, y mae'r Gweinidog yn mynd i'w gyflwyno, gan Lywodraeth Cymru. Mae arnom hefyd angen safonau gofynnol ar gyfer caffael dur yn y sector cyhoeddus ac, fel y soniais o'r blaen, pecyn cymorth i'r aelodau staff hynny sy'n wynebu colli eu swyddi.

Minister, I touched on optimism. You will know that the Port Talbot plant is one of the finest in Europe. It produces steel at a competitive price, however, not at the moment, when steel prices have dropped from some £600 a metric tonne to just over £200. If the plant's losing £1 million a day, it's clearly unsustainable. We hope—and I'm sure that everybody would endorse this—that the package of proposals put in at this moment will enable the owners of Tata Steel to recognise the huge contribution to their company, both in terms of the workforce and the efforts of the Welsh and United Kingdom Governments to ensure steel production in Port Talbot.

Weinidog, fe wnes i sôn am optimistiaeth. Byddwch yn gwybod bod gwaith dur Port Talbot ymysg y goreuon yn Ewrop. Mae'n cynhyrchu dur am bris cystadleuol, er, nid ar hyn o bryd, pan fo prisiau dur wedi gostwng o tua £600 y dunnell fetrig i ychydig dros £200. Os yw'r gwaith dur yn colli £1 miliwn y dydd, mae'n amlwg yn anghynaladwy. Rydym yn gobeithio—ac rwy'n siŵr y byddai pawb yn cymeradwyo hyn—y bydd y pecyn o gynigion sydd wedi'i roi i mewn ar hyn o bryd yn galluogi perchnogion Tata Steel i gydnabod y cyfraniad enfawr i'w cwmni, o ran y gweithlu ac o ran ymdrechion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau cynhyrchu dur ym Mhort Talbot.

14:58 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I apologise to the opposition spokespeople for the fact that they didn't have my statement in advance? Obviously, they will have the opportunity, if they wish, to have private discussions on any matters with me that I can take up and that they might not have had the opportunity to raise in the Chamber today. Can I say, William, that I will start off with your optimism? Yesterday was a dreadful day, I think, for all those that lost their jobs. You almost felt, as a politician, that you could cry with the workforce, because they've given everything to that plant. Their families and their communities have given everything. We see the decision that Tata Steel took, but the decision that Tata didn't take was to close the plant. I think we've got to recognise that that plant is still there. That plant is still functioning. People will still be working in it. If we can get enough measures around to help the steel industry in the UK, we can maintain steel production in Wales. We must keep that, even in these difficult times, as being foremost in our minds. Hence why I mentioned in my statement what I'd seen in Shotton, which was really encouraging in terms of the work they were doing there. You've only got to look at Llanwern and some of the things they're doing on the automotive side on Llanwern. But I think, when we talk about steel in this Chamber, Presiding Officer, steel is in the blood of Wales, and a lot of people have had associations with the industry through family and everybody working there. I think we feel quite passionately about it.

A gaf i ymddiheuro i lefarwyr y gwrthbleidiau am y ffaith na chawsant fy natganiad ymlaen llaw? Yn amlwg, bydd ganddynt y cyfle, os ydynt yn dymuno, i gael trafodaethau preifat am unrhyw faterion gyda mi y gallaf roi sylw iddynt ac nad ydynt efallai wedi cael y cyfle i sôn amdanynt yn y Siambr heddiw. A gaf i ddweud, William, y gwnaf i ddechrau gyda'ch optimistiaeth chi? Roedd ddoe'n ddiwrnod ofnadwy, rwy'n meddwl, i bawb a gollodd eu swyddi. Rydych bron yn teimlo, fel gwleidydd, y gallech grïo gyda'r gweithlu, oherwydd maent wedi rhoi popeth i'r gwaith dur hwnnw. Mae eu teuluoedd a'u cymunedau wedi rhoi popeth. Rydym yn gweld y penderfyniad a wnaeth Tata Steel, ond y penderfyniad na wnaeth Tata oedd cau'r gwaith dur. Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni gydnabod bod y gwaith dur yn dal i fod yno. Mae'r gwaith dur yn dal i weithredu. Bydd pobl yn dal i weithio ynddo. Os gallwn gael digon o fesurau o gwmpas i helpu'r diwydiant dur yn y DU, gallwn gynnal cynhyrchu dur yng Nghymru. Mae'n rhaid inni gadw hynny, hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn, yn flaenaf yn ein meddyliau. Dyna pam y soniais yn fy natganiad am yr hyn a welais yn Shotton, a oedd yn galonogol iawn o ran y gwaith yr oeddent yn ei wneud yno. Does ond yn rhaid ichi edrych ar Lanwern a rhai o'r pethau y maent yn ei wneud ar yr ochr fodurol yn Llanwern. Ond rwy'n meddwl, pan fyddwn yn sôn am ddur yn y Siambr hon, Lywydd, mae dur yng ngwaed Cymru, ac mae llawer o bobl wedi bod yn gysylltiedig â'r diwydiant drwy deulu a phawb sy'n gweithio yno. Rwy'n meddwl ein bod yn teimlo'n eithaf angerddol am y peth.

Can I say, it is very important that we carry on with the work we've done on procurement policy? I think that William Graham is absolutely correct. The fact that the Finance Minister was alerted to these issues very early when we looked at procurement policy, and the importance of all the contracts that we have—that we can get the highest percentage of steel that is produced in the UK and Wales into projects—. When we look, hopefully, at when we see Wylfa coming online, across the way we have a producer of steel for the nuclear industry. So, it is very important that we ensure that procurement is done properly, and that there is opportunity for Welsh and British companies.

A gaf i ddweud, mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau â'r gwaith yr ydym wedi'i wneud ar y polisi caffael? Rwy'n meddwl bod William Graham yn llygad ei le. Mae'r ffaith bod y Gweinidog Cyllid wedi cael gwybod am y materion hyn yn gynnar iawn wrth inni edrych ar bolisi caffael, a phwysigrwydd yr holl gontractau sydd gennym—y gallwn gael y canran uchaf o ddur sydd wedi'i gynhyrchu yn y DU a Chymru mewn prosiectau—. Pan fyddwn yn edrych, gobeithio, ar ba bryd y byddwn yn gweld Wylfa yn dod ar-lein, dros y ffordd mae gennym gynhyrchydd dur ar gyfer y diwydiant niwclear. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod caffael yn cael ei wneud yn iawn, a bod cyfle i gwmnïau o Gymru a Phrydain.

On his point about the enterprise zone, it is not a panacea for all ills. But I do think it is important that, when we look at all the other businesses that are connected to Tata's supply chain—what further work they could find, what other companies could enhance what goes on in that area if we do establish an enterprise zone. I also think it sends out the right message to the company, in terms of Tata, that we are there to support the steel industry.

O ran ei bwynt am yr ardal fenter, nid yw'n ateb pob problem. Ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, wrth inni edrych ar yr holl fusnesau eraill sydd wedi'u cysylltu â chadwyn gyflenwi Tata—pa waith pellach y gallent ddod o hyd iddo, pa gwmnïau eraill allai wella'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal honno, os byddwn yn sefydlu ardal fenter. Rwyf hefyd yn credu ei fod yn anfon y neges gywir i'r cwmni, o ran Tata, ein bod yno i gefnogi'r diwydiant dur.

In terms of Newport Unlimited, I have no doubt that that has been successful, and I think that we would look at the report that Simon Gibson and others did as well, which has given a real kick-start in Newport. With the co-operation of the local authority, we're definitely seeing change there. So, it will be important for us to look at how we can kick-start things, and I think that the enterprise zone may be that model within that area. But it's also important to recognise what is going on globally. I think William makes the point about the dumping of Chinese steel. They are not the only people who dump steel within the UK. It's very important that we do recognise that there is a responsibility in the European Union to look at how we protect our market in Europe, to some ways. You know, America will protect; others will protect. We need to look at some of these particular issues.

O ran Newport Unlimited, nid oes gennyf amheuaeth bod hynny wedi bod yn llwyddiannus, ac rwy'n meddwl y byddem yn edrych ar yr adroddiad a wnaeth Simon Gibson ac eraill hefyd, sydd wedi rhoi cychwyn da iawn i bethau yng Nghasnewydd. Gyda chydweithrediad yr awdurdod lleol, rydym yn sicr yn gweld newid yno. Felly, bydd yn bwysig inni edrych ar sut y gallwn roi cychwyn ar bethau, ac rwy'n meddwl efallai mai'r ardal fenter yw'r model hwnnw o fewn yr ardal honno. Ond mae hefyd yn bwysig cydnabod yr hyn sy'n digwydd yn fyd-eang. Rwy'n meddwl bod William yn gwneud y pwynt am ddympio dur o Tsieina. Nid nhw yw'r unig bobl sy'n dympio dur yn y DU. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod bod gan yr Undeb Ewropeaidd gyfrifoldeb i edrych ar sut yr ydym yn diogelu ein marchnad yn Ewrop, mewn rhyw ffordd. Wyddoch chi, bydd America yn diogelu; bydd eraill yn diogelu. Mae angen inni edrych ar rai o'r materion penodol hyn.

On business rates, William Graham has a great understanding of these issues. There have been a lot of moves to remove plant and machinery from business rates, but Tata is one of the 15 organisations that actually wrote to us on these measures and to the Chancellor, and now the Treasury has actually commissioned a very comprehensive review of business rates last year, and this proposal is in their terms of reference paper. Their report is due imminently, so it will be very interesting to see what is happening in terms of the Treasury's proposals. In my view, the principle of incentivised capital investment is a sound one, and one that has been raised by other parties, including Rhun ap Iorwerth and Plaid Cymru, also within this Chamber. However, while it is devolved, we also have to look at some of the state aid issues around some of these issues in relation to steel. Therefore, the Treasury is looking at it in the context of all industry sectors, which I think is actually extremely helpful. There will be significant impacts for us in terms of yield from business rates if we do any relief, and how that affects the balances across—. Members are always saying, 'Carry on with small business rate relief. Can you do any other business rate relief?' Well, this will affect the whole pot. There is also a technical difference between plant and machinery that forms part of a property's rateable value, and the wholly different approach in valuing specialist plants through the contractor's method of valuation. Now, this is a very complex area. This is an area where the task group, and probably sub-groups, I think will have to concentrate on in terms of the advice that is coming.

O ran ardrethi busnes, mae William Graham yn deall y materion hyn yn dda iawn. Mae llawer o symudiadau wedi bod i gael gwared ar offer a pheiriannau o ardrethi busnes, ond mae Tata yn un o'r 15 o sefydliadau a ysgrifennodd atom am y mesurau hyn ac at y Canghellor, ac nawr mae'r Trysorlys wedi comisiynu adolygiad cynhwysfawr iawn o ardrethi busnes y llynedd, ac mae'r cynnig hwn yn eu papur cylch gorchwyl. Dylai fod eu hadroddiad ar gael cyn bo hir, felly bydd yn ddiddorol iawn gweld beth sy'n digwydd o ran cynigion y Trysorlys. Yn fy marn i, mae egwyddor cymell buddsoddi cyfalaf yn un cadarn, ac yn un sydd wedi ei godi gan bleidiau eraill, gan gynnwys Rhun ap Iorwerth a Phlaid Cymru, hefyd o fewn y Siambr hon. Fodd bynnag, er ei fod wedi'i ddatganoli, mae'n rhaid inni hefyd edrych ar rai o'r materion cymorth gwladwriaethol o amgylch rhai o'r materion hyn ynglŷn â dur. Felly, mae'r Trysorlys yn edrych arno yng nghyd-destun holl sectorau'r diwydiant, ac rwy'n meddwl bod hynny'n hynod ddefnyddiol mewn gwirionedd. Bydd effeithiau sylweddol i ni o ran incwm o ardrethi busnes os ydym yn gwneud unrhyw ryddhad, ac o ran sut mae hynny'n effeithio ar y balansau ar draws—. Mae Aelodau bob amser yn dweud, 'Parhewch â'r rhyddhad ardrethi busnesau bach. A allwch chi wneud unrhyw ryddhad arall rhag ardrethi busnes?' Wel, bydd hyn yn effeithio ar y pot cyfan. Mae gwahaniaeth technegol hefyd rhwng offer a pheiriannau sy'n ffurfio rhan o werth trethiannol eiddo, a'r dull hollol wahanol o brisio offer arbenigol drwy ddull prisio'r contractwr. Nawr, mae hwn yn faes cymhleth iawn. Mae hwn yn faes y bydd yn rhaid i'r grŵp gorchwyl, ac yn ôl pob tebyg is-grwpiau, rwy'n meddwl, ganolbwyntio arno o ran y cyngor sy'n dod.

If I may turn, finally, I think—. When we talk about the jobs issue here, I think we are all united: our job within the taskforce—our first priority—is to look at what jobs we can get for those individuals. In terms of the Murco taskforce, people will agree that, in many ways, it was very successful in ensuring that people went into further employment and set up their own businesses. We have to use that as an excellent model. I was delighted to ask Lord Bourne to participate because of his history there. I have indicated to Anna Soubry's office today that, when the taskforce is up and running with regular dates, if she wanted to address them about the issues around the UK Government—not be there about the devil of the detail of what we're doing, but to talk about things—I will be sending her the dates in due course.

Os caf droi, yn olaf, rwy'n meddwl—. Pan fyddwn yn sôn am y mater swyddi yn y fan yma, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn unedig: ein gwaith o fewn y tasglu—ein blaenoriaeth gyntaf—yw edrych ar ba swyddi y gallwn eu cael i'r unigolion hynny. O ran y tasglu Murco, bydd pobl yn cytuno, mewn sawl ffordd, y bu'n llwyddiannus iawn o ran sicrhau bod pobl yn mynd i mewn i gyflogaeth bellach ac yn sefydlu eu busnesau eu hunain. mae'n rhaid inni ddefnyddio hynny fel model ardderchog. Roeddwn wrth fy modd yn gofyn i Arglwydd Bourne gymryd rhan oherwydd ei hanes yno. Rwyf wedi dweud wrth swyddfa Anna Soubry heddiw, pan fydd y tasglu'n weithredol gyda dyddiadau rheolaidd, pe hoffai hi eu holi am y materion yn ymwneud â Llywodraeth y Deyrnas Unedig—nid bod yno oherwydd manylion yr hyn yr ydym yn ei wneud, ond i siarad am bethau—y gwnaf anfon y dyddiadau ati maes o law.

15:04 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Minister for her statement today and for the words with which she started off her statement? It's very easy for us to forget that there are individuals who are facing difficult times ahead of them—unknown at this point, because it's still not clear as to who will actually be losing their jobs. It's important that we focus upon that aspect for those individuals, for their families and for their communities. Those in my constituency, in which the works exists, are very fearful at the moment across the board. Could I also thank the Minister and the First Minister for actually coming along yesterday to the plant and to the town to actually talk and speak to the unions and the management? I think it is important that the communities understand that the Welsh Government takes this matter seriously, and that it is looking to do what it can to help people and help the industry. I am optimistic for the future, but I also know that there are difficult and hard times ahead for many in our communities while we get there.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw ac am eiriau cyntaf ei datganiad? Mae'n hawdd iawn inni anghofio bod rhai unigolion yn wynebu cyfnod anodd o'u blaenau—ni wyddom ar hyn o bryd, oherwydd nid yw'n glir o hyd pwy yn union fydd yn colli eu swyddi. Mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ar yr agwedd honno i'r unigolion hynny, i'w teuluoedd ac i'w cymunedau. Mae'r bobl yn fy etholaeth i, lle mae'r gweithfeydd yn bodoli, i gyd yn ofnus iawn ar hyn o bryd. A gaf i hefyd ddiolch i'r Gweinidog ac i'r Prif Weinidog am ddod draw ddoe i'r gwaith dur ac i'r dref i sgwrsio a siarad â'r undebau a'r rheolwyr? Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod y cymunedau'n deall bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mater hwn o ddifrif, a'i bod yn awyddus i wneud yr hyn y mae'n gallu ei wneud i helpu pobl a helpu'r diwydiant. Rwy'n obeithiol am y dyfodol, ond rwyf hefyd yn gwybod bod cyfnod anodd a chaled o flaen llawer o bobl yn ein cymunedau tra bod ni'n ei gyrraedd.

Minister, the record levels of production at blast furnace 4 when it came online show the works is up to standard. Actually, last month the hot mills produced record levels of rolled steel, again showing that the workforce is there and they are committed to this works. I think the previous investments by Tata also demonstrate the confidence they have in the workforce. So, I think they do believe there's a future for the workforce themselves, but, clearly, we've got to help them get there, and cross this difficult bridge that we have.

Weinidog, mae'r lefelau uchaf erioed o gynhyrchu yn ffwrnais chwyth 4 pan ddaeth ar-lein yn dangos bod y gwaith yn cyrraedd y safon. A dweud y gwir, y mis diwethaf cynhyrchodd y melinau poeth y lefelau uchaf erioed o ddur rholio, sydd unwaith eto'n dangos bod y gweithlu yno a'u bod yn ymroddedig i'r gwaith dur hwn. Rwy'n meddwl bod y buddsoddiadau blaenorol gan Tata hefyd yn dangos yr hyder sydd ganddynt yn y gweithlu. Felly, rwy'n meddwl eu bod yn credu bod dyfodol i'r gweithlu eu hunain, ond, yn amlwg, mae'n rhaid inni eu helpu i gyrraedd yno, a chroesi'r bont anodd hon sydd gennym.

In relation to the taskforce you identified, if I'm right, you are actually identifying two streams in the taskforce: one to look at the actions to take to support workers who may be losing their jobs, and the surrounding communities; and one to look at the future development of the environment in which that workforce and that work plant can actually sustain and become viable. On the first stream, can you clarify whether you'll again be doing an aspect like ReAct, and schemes like that? Perhaps beyond that, will you go for training in different career paths, which sometimes takes a lot longer than a few weeks, so that people can actually redevelop and redirect their career pathways?

O ran y tasglu y gwnaethoch ei nodi, os ydw i'n iawn, rydych mewn gwirionedd yn nodi dwy ffrwd yn y tasglu: un i edrych ar y camau i'w cymryd i gefnogi gweithwyr a allai fod yn colli eu swyddi, a'r cymunedau cyfagos; ac un i edrych ar ddatblygu'r amgylchedd yn y dyfodol lle gallai'r gweithlu a'r gwaith hwnnw gael ei gynnal mewn gwirionedd a dod yn hyfyw. Ynglŷn â'r ffrwd gyntaf, a allwch chi egluro pa un a fyddwch unwaith eto yn gwneud agwedd fel ReAct, a chynlluniau o'r fath? Efallai y tu hwnt i hynny, a fyddwch chi'n mynd am hyfforddiant mewn llwybrau gyrfa gwahanol, sydd weithiau'n cymryd llawer mwy o amser nag ychydig wythnosau, fel y gall pobl fynd ati i ailddatblygu ac ailgyfeirio eu llwybrau gyrfa mewn gwirionedd?

Can I also ask you to look at local businesses? You mentioned yourself in statements yesterday about the impact upon small businesses in the town. Port Talbot has already suffered in one sense, and you've helped it with business relief for businesses following junction 41, so can we have a similar scheme on the issues around that, so that businesses in the town who are going to have an impact upon them can be supported in that way? Of course, the local authority is important—its role and the whole way in which it supports communities is going to be vital. We are seeing local authorities struggle because of other reasons. They need that support as well.

A gaf i hefyd ofyn ichi edrych ar fusnesau lleol? Soniasoch eich hun mewn datganiadau ddoe am yr effaith ar fusnesau bach yn y dref. Mae Port Talbot eisoes wedi dioddef mewn un ystyr, ac rydych wedi ei helpu â rhyddhad busnes i fusnesau yn dilyn cyffordd 41, felly a allwn ni gael cynllun tebyg ar y materion o gwmpas hynny, er mwyn gallu cefnogi'r busnesau yn y dref a fydd yn teimlo effaith hyn yn yr un modd? Wrth gwrs, mae'r awdurdod lleol yn bwysig—bydd ei swyddogaeth ef a'r holl ffordd y mae'n cefnogi cymunedau yn hanfodol. Rydym yn gweld awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd oherwydd rhesymau eraill. Mae arnynt hwythau angen y gefnogaeth honno hefyd.

Can I also talk about the European globalisation fund in your taskforce? I think there's a role for the UK Government here to look at how we're going to get money from Europe to actually invest in the communities that are losing jobs. Finally, the Swansea bay city region wasn't mentioned in that aspect. Will you be including them in the consideration for support as well?

A gaf i hefyd sôn am y gronfa globaleiddio Ewropeaidd yn eich tasglu? Rwy'n credu bod yna le i Lywodraeth y DU yn y fan yma i edrych ar sut yr ydym yn mynd i gael arian o Ewrop i'w fuddsoddi mewn gwirionedd yn y cymunedau sy'n colli swyddi. Yn olaf, nid oedd sôn am ddinas-ranbarth Bae Abertawe yn yr agwedd honno. A fyddwch yn eu cynnwys hwy hefyd yn yr ystyriaeth ar gyfer cefnogaeth?

In relation to the way forward, I do believe there are three levels of government where that needs to take place. I believe it's the UK, Welsh Government and, of course, the EU Commission as well. I think we have to work together to look at that. You mentioned business rates and I want to repeat that aspect. But have you any ideas on how you will work with the UK Government to achieve some of the points that they have responsibility for—also because they are the nation state, and they have to take the measure to the EU. I think the aspect of anti-dumping measures have to be taken up very importantly—urgently—and, in fact, I would want them over there today, not next week, doing that, because that has to be addressed now.

O ran y ffordd ymlaen, rwy'n credu bod angen i hynny ddigwydd ar dair lefel llywodraeth. Rwy'n credu mai'r rheini yw'r DU, Llywodraeth Cymru ac, wrth gwrs, Comisiwn yr UE hefyd. Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni weithio gyda'n gilydd i edrych ar hynny. Soniasoch am ardrethi busnes a hoffwn ailadrodd yr agwedd honno. Ond a oes gennych chi unrhyw syniadau am sut yr ydych yn mynd i weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflawni rhai o'r pwyntiau y mae'n gyfrifol amdanynt—hefyd oherwydd mai hi yw'r genedl-wladwriaeth, a hi sy'n gorfod mynd â'r mesur i'r UE. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn—yn fater brys—sôn am yr agwedd ar fesurau gwrth-ddympio ac, yn wir, hoffwn iddynt fod draw yno heddiw, nid yr wythnos nesaf, yn gwneud hynny, oherwydd mae'n rhaid rhoi sylw i hynny nawr.

But also, as the First Minister pointed out earlier, I don't believe Tata Steel have received a penny yet from the measures for energy relief. We have to get that up and running quickly. This decision's been taken before those measures are in place, so if they're not done quicker we might see even worse. In relation to capital allowances, you identified the area of a plant you've looked at, but, of course, Swansea University's engineering campus is just down the road, and we may want to look at how we can incorporate possibilities for them moving in, because the skills in the workforce in Tata can work in advanced manufacturing and advanced production, which could lead to the research and development that comes from that centre at Swansea University.

Ond hefyd, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn gynharach, nid wyf yn credu bod Tata Steel wedi cael ceiniog eto o'r mesurau ar gyfer rhyddhad ynni. Mae'n rhaid inni sicrhau bod hynny ar waith yn gyflym. Mae'r penderfyniad hwn wedi cael ei wneud cyn i'r mesurau hynny fod ar waith, felly os na chânt eu gwneud yn gyflymach efallai y byddwn yn gweld gwaeth fyth. O ran lwfansau cyfalaf, fe wnaethoch enwi ardal gwaith dur yr ydych wedi edrych arno, ond, wrth gwrs, mae campws peirianneg Prifysgol Abertawe ychydig i lawr y ffordd, ac efallai yr hoffem edrych ar sut y gallwn ymgorffori posibiliadau iddynt hwy symud i mewn, oherwydd gall sgiliau gweithlu Tata weithio mewn gweithgynhyrchu uwch a chynhyrchu uwch, a allai arwain at y gwaith ymchwil a datblygu sy'n dod o'r ganolfan honno ym Mhrifysgol Abertawe.

The people in my constituency, my friends, families, neighbours, are facing difficult times and a situation where they don't know, today, whether they'll actually be in work next month. It's important that we do everything we can to reassure those that there is a future for them—those who want to work. The age range we're talking about is mixed. It's young people who've just started out on their careers and older people who are coming to the end of their careers. But all will be in a situation where they will be losing, and we have to cater for all and make sure that what we put in place delivers for them.

Mae'r bobl yn fy etholaeth i, fy ffrindiau, teuluoedd, cymdogion, yn wynebu cyfnod anodd a sefyllfa lle nad ydynt yn gwybod, heddiw, pa un a fydd ganddynt waith mewn gwirionedd y mis nesaf. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud popeth a allwn i dawelu eu meddyliau bod ganddynt ddyfodol—y rhai sydd eisiau gweithio. Mae'r ystod oedran yr ydym yn sôn amdani'n gymysg. Mae'n cynnwys pobl ifanc sydd newydd ddechrau ar eu gyrfaoedd a phobl hŷn sy'n dod at ddiwedd eu gyrfaoedd. Ond bydd pob un mewn sefyllfa lle byddant yn colli, ac mae'n rhaid inni ddarparu ar gyfer pob un ohonynt a gwneud yn siŵr bod yr hyn yr ydym yn ei roi ar waith yn darparu ar eu cyfer.

15:08

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that. Obviously, we don't know who's going to lose what jobs, and that was the subject of discussion when I actually spoke, and Alan was the main convener down there in Port Talbot yesterday. They don't know who, when or what. There was a gentleman being interviewed, and he was saying that his son was already a contractor and knew he wouldn't be part of anything. He wasn't sure about himself and he wasn't sure about other things, because they just didn't know. It's that level of uncertainty as they go into discussions that is really getting to them.

Diolch i chi am hynna. Yn amlwg, nid ydym yn gwybod pwy sy'n mynd i golli pa swyddi, ac a dweud y gwir dyna oedd testun y drafodaeth pryd y siaradais, ac Alan oedd y prif gynullydd i lawr yno ym Mhort Talbot ddoe. Nid ydynt yn gwybod pwy, pryd na beth. Roedd un gŵr bonheddig yn cael ei gyfweld, ac roedd yn dweud bod ei fab eisoes yn gontractwr ac yn gwybod na fyddai'n rhan o unrhyw beth. Nid oedd yn siŵr amdano ef ei hun ac nid oedd yn siŵr am bethau eraill, oherwydd nad oeddent yn gwybod. Yr ansicrwydd hwnnw wrth iddynt fynd i mewn i drafodaethau sydd wir yn achosi pryder iddynt.

In your contribution you alluded to the fact that there is a very skilled workforce, and it is, and that is also in itself a worry for the company, which will lose some elements of the skilled workforce who decide they do want to finish, they do want to go, and they will get another job, because of the skills issues. So, we've got to be very careful when we work through these issues. We recognise there is a highly skilled workforce there who might want to jump ship, which might not be helpful for the company in the future either. So, we will work as hard as we can, but I think you make a very good point about training. My colleague Julie James is already looking at that wide-ranging agenda as a result of what we knew was going on in the steel industry previously, and I think we've got very open minds about what we can develop in terms of training, career pathways and everything, and to do as much as we can and be as innovative as we can in this particular situation.

Yn eich cyfraniad, gwnaethoch gyfeirio at y ffaith bod yna weithlu medrus iawn, ac mae hynny'n wir, ac mae hynny hefyd ynddo'i hun yn bryder i'r cwmni, a fydd yn colli rhai elfennau o'r gweithlu medrus sy'n penderfynu eu bod eisiau gorffen, eu bod eisiau mynd, a byddant yn cael swydd arall, oherwydd y materion sgiliau. Felly, mae'n rhaid inni fod yn ofalus iawn wrth weithio drwy'r materion hyn. Rydym yn cydnabod bod gweithlu medrus yno a allai ddymuno gadael y llong, ac efallai na fyddai hynny o gymorth i'r cwmni yn y dyfodol ychwaith. Felly, byddwn yn gweithio mor galed ag y gallwn, ond rwy'n meddwl eich bod yn gwneud pwynt da iawn am hyfforddiant. Mae fy nghydweithiwr Julie James eisoes yn edrych ar yr agenda eang honno o ganlyniad i'r hyn yr oeddem yn gwybod ei fod yn digwydd yn y diwydiant dur yn flaenorol, ac rwy'n meddwl bod gennym feddyliau agored iawn am yr hyn y gallwn ei ddatblygu o ran hyfforddiant, llwybrau gyrfa a phopeth, ac i wneud cymaint ag y gallwn a bod mor arloesol ag y gallwn yn y sefyllfa benodol hon.

Can I say, you said about Tata—? I think Tata do have confidence in the plant. That plant would have gone if they didn't have confidence. They've also made a lot of investment. Can you imagine any other company that would have made that level of investment? They've been really good in terms of the investment they've made into the plant. They do appreciate their workforce. They've worked with their workforce through very difficult times before, and I think we've got to recognise that commitment from Tata and hope that Tata will see, through these times that are bad in terms of European steel, to perhaps the future and continue their confidence.

A gaf i ddweud, fe ddywedoch am Tata—? Rwy'n meddwl bod gan Tata hyder yn y gwaith dur. Byddai'r gwaith dur hwnnw wedi mynd pe na byddai ganddynt hyder. Maent hefyd wedi gwneud llawer o fuddsoddiad. A allwch chi ddychmygu unrhyw gwmni arall a fyddai wedi buddsoddi cymaint â hynny? Maent wedi bod yn dda iawn o ran y buddsoddiad y maent wedi'i wneud yn y gwaith dur. Maent yn gwerthfawrogi eu gweithlu. Maent wedi gweithio gyda'u gweithlu drwy gyfnodau anodd iawn cyn hyn, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid inni gydnabod yr ymrwymiad hwnnw gan Tata a gobeithio y bydd Tata yn gweld, drwy'r cyfnod gwael hwn o ran dur Ewropeaidd, i'r dyfodol, efallai, ac yn aros yn hyderus.

In terms of the taskforce, there are two working streams. The first one, really, about training and looking for other jobs, is probably the easiest part, sometimes, of that scheme, even though it's difficult for individuals. When we look forward into the future, we've got a lot of issues that we do need to look at. We need to know about how we enhance how we work with the UK Government. We haven't had any difficulties from working with the UK Government on these matters. How they do more, in terms of how they shout louder in Europe about some of the issues about anti-dumping, and how they access money that's available in Europe are also pretty important, I think, for the benefit of the steel industry. It's very important as well that our voice is heard at the Commission level, through our Brussels office, through the representations that we are able to make, which I think are important.

O ran y tasglu, ceir dwy ffrwd waith. Mae'r gyntaf, a dweud y gwir, yn ymwneud â hyfforddiant a chwilio am swyddi eraill, a dyna mae'n debyg, yw'r rhan hawsaf, weithiau, o'r cynllun hwnnw, er ei fod yn anodd i unigolion. Wrth inni edrych ymlaen i'r dyfodol, mae angen inni edrych ar lawer o faterion. Mae angen inni wybod am sut yr ydym yn gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU. Nid ydym wedi cael unrhyw anawsterau o weithio gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn. Mae sut y byddant yn gwneud mwy, o ran sut y maent yn gweiddi'n uwch yn Ewrop am rai o'r materion ynghylch gwrth-ddympio, a sut y maent yn cael gafael ar arian sydd ar gael yn Ewrop hefyd yn eithaf pwysig, rwy'n meddwl, er lles y diwydiant dur. Mae'n bwysig iawn hefyd bod ein llais ni'n cael ei glywed ar lefel y Comisiwn, drwy ein swyddfa ym Mrwsel, drwy'r sylwadau yr ydym yn gallu eu gwneud, sy'n bwysig yn fy nhyb i.

Can I say to you as well that the point is that they haven't had any money off their scheme yet? We've had agreement from the Commission. As I indicated in my statement, the rules are only just out. I think they are hoping they might have first payments in February. But, it would have been nice if that had been done an awful long time ago.

A gaf i ddweud wrthych hefyd mai'r pwynt yw nad ydynt wedi cael unrhyw arian o'u cynllun hyd yn hyn? Rydym wedi cael cytundeb gan y Comisiwn. Fel y nodais yn fy natganiad, dim ond newydd gael eu rhyddhau mae'r rheolau. Rwy'n meddwl eu bod yn gobeithio y gallent gael y taliadau cyntaf ym mis Chwefror. Ond, byddai wedi bod yn braf pe byddai hynny wedi'i wneud amser maith yn ôl.

You also mentioned the importance of the wider community and involvement of the local authority. The chief executive of the local authority will be a member of the taskforce and, of course, he is also as well the secretary to the city bay region. Terry Matthews has already been in contact asking what possible things they can do. They will be discussing it on their next agenda, particularly. We, too, see this as integral to the development of the region.

Soniasoch hefyd am bwysigrwydd y gymuned ehangach a chyfranogiad yr awdurdod lleol. Bydd prif weithredwr yr awdurdod lleol yn aelod o'r tasglu ac, wrth gwrs, ef hefyd yw ysgrifennydd rhanbarth bae'r ddinas. Mae Terry Matthews eisoes wedi bod mewn cysylltiad i ofyn pa bethau posibl y gallent eu gwneud. Byddant yn trafod hynny ar eu hagenda nesaf, yn benodol. Rydym ninnau, hefyd, yn gweld hyn yn rhan annatod o ddatblygiad y rhanbarth.

But, also as well, in terms of local businesses, I have been very much taken—and I think it was the leader of the Liberal Democrats who raised it about businesses—with what more we'll need to do in that area as we go forward in terms of support to keep them viable in order that they can perhaps recruit, so we can actually have more people in the workforce within the area. So, I don't underestimate the task at hand for the taskforce, but there are people on there who are prepared to give up their time and who will probably set up specialist groups to work through. I will be regularly reporting back to the Assembly on the work of the taskforce.

Ond, hefyd, yn ogystal, o ran busnesau lleol, un peth yr wyf wedi bod yn meddwl llawer amdano—ac rwy'n meddwl mai arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol a gododd hyn am fusnesau—yw beth arall y bydd angen inni ei wneud yn y maes hwnnw wrth inni fwrw ymlaen o ran eu cefnogi i'w cadw'n hyfyw er mwyn iddynt allu efallai recriwtio, fel y gallwn mewn gwirionedd gael mwy o bobl yn y gweithlu o fewn yr ardal. Felly, nid wyf yn bychanu'r dasg sy'n wynebu'r tasglu, ond mae pobl arno sy'n barod i roi o'u hamser ac a fydd yn ôl pob tebyg yn sefydlu grwpiau arbenigol i weithio drwyddynt. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad yn rheolaidd ar waith y tasglu.

Can I say, obviously, to Members, if they have any particular points they want raised, and I say particularly to opposition spokespeople—if they want any further briefing on the taskforce or want to input into any of its work, I'd be delighted to have it? Because I think it's important we recognise that the steel industry is a passion for all of us in Wales and the jobs are important to all of us in Wales.

A gaf i ddweud, yn amlwg, wrth yr Aelodau, os oes ganddynt unrhyw bwyntiau penodol yr hoffent eu codi, ac rwy'n dweud yn benodol wrth lefarwyr y gwrthbleidiau—os hoffent unrhyw friffio pellach ar y tasglu neu os hoffent gyfrannu at ei waith mewn unrhyw fodd, y byddwn yn falch iawn o gael hynny? Oherwydd rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod bod pawb ohonom yng Nghymru yn teimlo'n angerddol am y diwydiant dur a bod y swyddi'n bwysig i bawb ohonom yng Nghymru.

15:13

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The industrial decline our country has witnessed in recent decades continued this week with the devastating announcement of further job losses at Tata Steel. Our thoughts today are with the workers at Port Talbot and Llanwern and Trostre and their families, who now face uncertainty over their futures.

Mae'r dirywiad diwydiannol y mae ein gwlad wedi'i weld yn y degawdau diwethaf wedi parhau yr wythnos hon gyda'r cyhoeddiad dinistriol o golli mwy o swyddi yn Tata Steel. Mae ein meddyliau heddiw gyda'r gweithwyr ym Mhort Talbot a Llanwern a Throstre a'u teuluoedd, sydd nawr yn wynebu ansicrwydd ynglŷn â'u dyfodol.

The dire situation, though, of the industry was no secret. The First Minister said today that he hadn't been aware of the scale of the problem until late last week, while, for fear of what was to come due to contacts within the steel industry of Wales, I called a week ago for the setting up of a taskforce at a high level to look at the way forward—okay, albeit the wrong side of the jobs announcement this week—and I do welcome, of course, that there is a taskforce now. It is absolutely right, of course, that the priority is to help those who are affected to find ways forward for employment—for those directly working at Tata and, as the Minister quite rightly said, within the supply chain.

Fodd bynnag, nid oedd sefyllfa enbyd y diwydiant yn gyfrinach. Dywedodd y Prif Weinidog heddiw nad oedd yn ymwybodol o faint y broblem tan yn hwyr yr wythnos diwethaf, ond, wrth ofni'r hyn a oedd i ddod oherwydd cysylltiadau o fewn diwydiant dur Cymru, galwais wythnos yn ôl am sefydlu tasglu ar lefel uchel i edrych ar y ffordd ymlaen—iawn, er ar yr ochr anghywir i'r cyhoeddiad am y swyddi yr wythnos yma—ac rwyf yn croesawu, wrth gwrs, y ffaith bod tasglu nawr. Mae'n hollol deg, wrth gwrs, mai'r flaenoriaeth yw helpu'r bobl y mae hyn yn effeithio arnynt i ddod o hyd i ffyrdd ymlaen ar gyfer cyflogaeth—y rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol yn Tata ac, fel y dywedodd y Gweinidog yn gwbl briodol, o fewn y gadwyn gyflenwi.

But at stake here is not only the futures of those workers but the future of the steel industry in Wales. Would the Minister agree with me that we need to look at that future in its entirety and look for ways forward, and that either this taskforce or perhaps another taskforce at a high level should be looking at all the questions that need to be addressed now regarding ensuring that we have a future for steel in Wales? I have certainty that steel in Wales has a bright future if we can get through these particular problems that we now face.

Ond nid dim ond dyfodol y gweithwyr hynny sydd yn y fantol yma, ond dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno â mi bod angen inni edrych ar y dyfodol hwnnw yn ei gyfanrwydd a chwilio am ffyrdd ymlaen, ac y dylai naill ai'r tasglu hwn neu efallai dasglu arall ar lefel uchel fod yn edrych ar yr holl gwestiynau y mae angen eu hateb nawr ynglŷn â sicrhau bod gennym ddyfodol ar gyfer dur yng Nghymru? Rwy'n siŵr bod dyfodol disglair i ddur yng Nghymru os gallwn oresgyn y problemau penodol hyn sy'n ein hwynebu nawr.

## Peter Black Bywgraffiad Biography

The Government has stated, on more than one occasion, that the option of a joint venture, as proposed by Plaid Cymru, between Welsh Government and Tata—call it taking a stake in the future of Welsh steel, if you like—is out of the question, because the expense would be too great. It strikes me that one could only say that having considered the matter in detail, and it appears to me that the Government has been rather dismissive of that suggestion. Perhaps the Minister today could tell us what the Government has done to assess the practicality of Welsh Government entering into a joint venture, perhaps including the development of a new power plant, for example. All that we ask on that particular option is that Government engages fully with it. No stone should be left unturned. We're not saying, 'You must enter a joint venture. You must take a stake and renationalise'. That's not what we're saying; we're saying that every option must be considered, including taking a stake, as I said, in the future of Welsh steel.

Mae'r Llywodraeth wedi datgan, ar fwy nag un achlysur, bod y dewis o fenter ar y cyd, fel y cynigiwyd gan Blaid Cymru, rhwng Llywodraeth Cymru a Tata—galwch hynny'n gymryd budd yn nyfodol dur Cymru, os mynnwch—allan o'r cwestiwn, gan y byddai'r gost yn rhy fawr. Mae'n fy nharo i y byddai'n rhaid i rywun fod wedi ystyried y mater yn fanwl cyn gallu dweud hynny, ac mae'n ymddangos i mi bod y Llywodraeth wedi bod braidd yn ddiystyriol o'r awgrym hwnnw. Efallai y gallai'r Gweinidog ddweud wrthym heddiw beth mae'r Llywodraeth wedi'i wneud i asesu pa mor ymarferol yw hi i Lywodraeth Cymru ymrwymo i fenter ar y cyd, a allai gynnwys datblygu gorsaf drydan newydd, er enghraifft. Yr oll yr ydym yn ofyn amdano ar y dewis penodol hwnnw yw bod y Llywodraeth yn rhoi sylw llawn iddo. Ni ddylid gadael unrhyw garreg heb ei throi. Nid ydym yn dweud, 'Mae'n rhaid ichi ymrwymo i fenter ar y cyd. Mae'n rhaid ichi gymryd budd ac ail-genedlaetholi'. Nid dyna beth yr ydym yn ei ddweud; rydym yn dweud bod yn rhaid ystyried pob dewis, gan gynnwys cymryd budd, fel y dywedais, yn nyfodol dur Cymru.

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

On the application for the establishment of a new enterprise zone, that may well be a way forward. The Minister herself said that it is no panacea. It is no guarantee of results, but we shall wait to see what happens on that front—especially with the possibility of allowing enhanced capital allowances. There has been a reluctance, of course, in other enterprise zones to take advantage of that particular tool that is available in enterprise zones. I wonder if the Minister has had any initial thoughts on how that enhanced capital allowance possibility could be used if the Chancellor does agree to that.

O ran y cais i sefydlu ardal fenter newydd, mae'n bosibl iawn y gallai hynny fod yn ffordd ymlaen. Dywedodd y Gweinidog ei hun nad yw'n ateb pob problem. Nid yw'n sicrhau canlyniadau, ond byddwn yn aros i weld beth fydd yn digwydd yn hynny o beth—yn enwedig gyda'r posibilrwydd o ganiatáu lwfansau cyfalaf uwch. Bu amharodrwydd, wrth gwrs, mewn ardaloedd menter eraill i fanteisio ar yr offeryn arbennig hwnnw sydd ar gael mewn ardaloedd menter. Tybed a yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw feddyliau cychwynnol am sut y gellid defnyddio'r posibilrwydd hwnnw o lwfans cyfalaf uwch pe byddai'r Canghellor yn cytuno â hynny?

There are a number of issues. I can only emphasise the need for urgency in making representations at the right level, on ensuring that there is movement on tariffs on Chinese steel, on making sure that there is early movement on business rates. There are many issues that I could cover, but that bright future for steel in Wales, as I said, can only be achieved if we make it through these difficult few years. The steel industry is far too important to not consider every feasible and practical way forward.

Ceir nifer o faterion. Ni allaf ond pwysleisio'r angen i gyflwyno sylwadau brys ar y lefel gywir, i sicrhau y ceir symudiad ar dariffau ar ddur o Tsieina, i sicrhau y ceir symudiad cynnar ar ardrethi busnes. Gallwn sôn am nifer o faterion, ond yr unig ffordd o gyflawni'r dyfodol disglair hwnnw i ddur yng Nghymru, fel y dywedais, yw drwy lwyddo i oroesi drwy'r ychydig flynyddoedd anodd hyn. Mae'r diwydiant dur yn llawer rhy bwysig i beidio ag ystyried pob ffordd ddichonadwy ac ymarferol ymlaen.

15:17 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I say, Presiding Officer, we're not just talking about the future of steel making in Wales, we're talking about the future of steel making in the UK? This is where we are in terms of what the plant is in Port Talbot. Steel making is important to us in Wales, and it's important to the whole of the UK and manufacturing within the UK. So, we must do everything across Government, whether it's the UK or us, or whether it's the European Union, to ensure that we have a viable industry. I'm glad that you say that you think there could be a viable industry that we can get to, because that message of hope still has to be there. On days like this and days like yesterday, hope seems to disappear, and then you've sometimes got to pinch yourself and say, 'We're still there. There's still a plant. Shall we get on and see what we can do about it?'

A gaf i ddweud, Lywydd, nad ydym yn sôn am ddyfodol cynhyrchu dur yng Nghymru yn unig, rydym yn sôn am ddyfodol cynhyrchu dur yn y DU? Dyma ein sefyllfa o ran beth yw'r gwaith dur ym Mhort Talbot. Mae gwneud dur yn bwysig i ni yng Nghymru, ac mae'n bwysig i'r DU gyfan ac i weithgynhyrchu yn y DU. Felly, mae'n rhaid inni wneud popeth ar draws y Llywodraeth, boed yn y DU neu ni, neu'r Undeb Ewropeaidd, i sicrhau bod gennym ddiwydiant hyfyw. Rwy'n falch eich bod yn dweud eich bod yn meddwl y gallem gael diwydiant hyfyw, oherwydd mae'n rhaid i'r neges honno o obaith ddal i fod yno. Ar ddiwrnodau fel heddiw a diwrnodau fel ddoe, mae'n ymddangos bod gobaith yn diflannu, ac yna mae'n rhaid ichi weithiau eich pinsio eich hun a dweud, 'Rydym yn dal i fod yno. Mae gwaith dur yn dal i fod yno. Beth am inni fwrw ymlaen a gweld beth y gallwn ei wneud am y peth?'

Can I say to you there will be no stone unturned in all of this? The issue about taking a stake in Tata is in two ways: we can do several ventures with Tata on the side, with individual bids, like we've done with specifics, and developments like that. But, of course, if we're talking about taking a stake in Tata, you're talking about a £1 billion European company. So, it's not quite like paying £25 million to £30 million in an intervention. But, there are different stages in which we can do it. I think the point you made about the power plant is a discussion that is being held and has been held, because we've had extensive discussions about how that could help and assist.

A gaf i ddweud wrthych na chaiff unrhyw garreg ei gadael heb ei throi yn hyn i gyd? Mae dwy ochr i'r mater ynglŷn â chymryd budd yn Tata: gallwn wneud llawer o fentrau gyda Tata ar yr ochr, gyda chynigion unigol, fel yr ydym wedi'i wneud gyda manylion penodol, a datblygiadau o'r fath. Ond, wrth gwrs, os ydym yn sôn am gymryd budd yn Tata, rydych yn sôn am gwmni Ewropeaidd gwerth £1 biliwn. Felly, mae'n eithaf gwahanol i dalu £25 miliwn i £30 miliwn mewn ymyriad. Ond, gallwn wneud hynny mewn gwahanol gamau. Rwy'n meddwl bod y pwynt a wnaethoch am yr orsaf drydan yn drafodaeth sy'n cael ei chynnal ac sydd wedi ei chynnal, oherwydd rydym wedi cael trafodaethau helaeth am sut y gallai hynny helpu a chynorthwyo.

We're also looking at what more could be done in terms of the relationship with the port—what could be done in the broader agenda there. So, these discussions are there, and they have actually been going on. I'm not one to pooh-pooh any suggestion, because if I think a suggestion has got some legs and you can put some flesh on it, it's always worth running with it, because we might find support out there and the levers to be able to do something for it. So, I very much welcome anything that you've got in terms of this agenda that you want to input to the discussions out there.

Rydym hefyd yn edrych ar beth arall y gellid ei wneud o ran y berthynas â'r porthladd—beth y gellid ei wneud yn yr agenda ehangach yno. Felly, mae'r trafodaethau hyn yno, ac maent wedi bod yn digwydd mewn gwirionedd. Dydw i ddim yn un i wfftio wrth unrhyw awgrym, oherwydd os wyf yn meddwl bod gan awgrym goesau ac y gallwch roi rhywfaint o gnawd arno, mae bob amser yn werth edrych arno, oherwydd gallem ddod o hyd i gefnogaeth allan yna a ffyrdd o allu gwneud rhywbeth am y peth. Felly, rwy'n croesawu'n fawr unrhyw beth sydd gennych o ran yr agenda hon yr hoffech ei gyfrannu at y trafodaethau allan yno.

In terms of the Chancellor, I'll await the Chancellor's response on this. We've got time to discuss how we could use capital allowances and I will be taking it up because I've got business people as well on my taskforce who I think would be better placed to suggest to me how things could be used better and how it would benefit companies within Port Talbot. But, can I say, I very much welcome your support in terms of the taskforce, and the fact that you made it clear how supportive you are of the industry, because we will need the support of everybody in this Chamber for the industry as we go forward? This is not a time—. It's nice sometimes to play politics, but today is not a time for politics; today is the time for us to agree what action we can take jointly.

O ran y Canghellor, rwyf am aros am ymateb y Canghellor ar hyn. Mae gennym amser i drafod sut y gallem ddefnyddio lwfansau cyfalaf a byddaf yn sôn am hynny oherwydd mae gennyf bobl fusnes hefyd ar fy nhasglu ac rwy'n meddwl y byddent hwy mewn gwell sefyllfa i awgrymu wrthyf sut y gellid defnyddio pethau'n well a sut y byddai o fudd i gwmnïau ym Mhort Talbot. Ond, a gaf i ddweud, rwy'n croesawu'n fawr eich cefnogaeth o ran y tasglu, a'r ffaith eich bod wedi ei gwneud yn glir pa mor gefnogol yr ydych i'r diwydiant, oherwydd bydd arnom angen cefnogaeth pawb yn y Siambr hon i'r diwydiant wrth inni fwrw ymlaen? Nid dyma'r amser—. Mae'n braf chwarae gwleidyddiaeth weithiau, ond nid yw heddiw'n amser am wleidyddiaeth; heddiw yw'r amser inni gytuno ar ba gamau y gallwn eu cymryd ar y cyd.

15:19 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I also associate myself with those Members who have referred to the terrible difficulty that many steelworkers and their families will now be facing as a result of these job losses? And, of course, it will impact dreadfully on Port Talbot and the economy of Port Talbot, not just on the contractors, but also on other businesses there as well. I think, clearly, there is a need to take some very drastic action to try to address that particular problem.

A gaf i hefyd fy nghysylltu fy hun â'r Aelodau hynny sydd wedi cyfeirio at yr anhawster ofnadwy y bydd llawer o weithwyr dur a'u teuluoedd yn awr yn ei wynebu o ganlyniad i'r colledion swyddi hyn? Ac, wrth gwrs, bydd yn effeithio'n ofnadwy ar Bort Talbot ac economi Port Talbot, nid dim ond ar y contractwyr, ond hefyd ar fusnesau eraill yno. Rwy'n meddwl, yn amlwg, bod angen cymryd rhai camau sylweddol iawn i geisio datrys y broblem benodol honno.

Can I welcome the Minister's statement, and just refer to a couple of issues in that? Kirsty Williams, in her questions to the First Minister earlier on, referred to Newport Unlimited, and William Graham also raised that issue. Of course, when the steelworks closed in Newport in 2003, that company was set up and has been credited with bringing, I think, £230 million into the Newport area. It has been credited with working to get the Ryder Cup there, and, of course, transforming the riverfront in Newport as well. I hope you agree, Minister, that Port Talbot is crying out for that sort of initiative as well, given the need for investment there. And it seems to me that that particular sort of initiative would work very well alongside an enterprise zone, because you'd be able to make use of the capital allowances if they were forthcoming. It needs the leadership of the regeneration company, together with the capital allowances, to try to attract additional businesses into Port Talbot. So, can I ask, Minister, would you give some active consideration to setting up an urban regeneration company for Port Talbot along the lines of Newport Unlimited, and also provide the sort of support that you put into Newport Unlimited at the time for that urban regeneration company as well, in terms of being able to invest in the capital infrastructure in Port Talbot to attract those businesses? I think that would make a massive difference to that particular area.

A gaf i groesawu datganiad y Gweinidog, a dim ond cyfeirio at un neu ddau o faterion ynddo? Cyfeiriodd Kirsty Williams, yn ei chwestiynau i'r Prif Weinidog yn gynharach, at Newport Unlimited, a chododd William Graham y mater hwnnw hefyd. Wrth gwrs, pan gaeodd y gwaith dur yng Nghasnewydd yn 2003, cafodd y cwmni hwnnw ei sefydlu ac mae wedi cael y clod am ddod â, rwy'n credu, £230 miliwn i mewn i ardal Casnewydd. Mae wedi cael y clod am weithio i gael Cwpan Ryder yno, ac, wrth gwrs, am weddnewid glan yr afon yng Nghasnewydd hefyd. Rwy'n gobeithio y gwnewch gytuno, Weinidog, bod Port Talbot yn crefu am y math yna o fenter hefyd, o ystyried yr angen am fuddsoddiad yno. Ac mae'n ymddangos i mi y byddai'r math penodol honno o fenter yn gweithio'n dda iawn ochr yn ochr ag ardal fenter, oherwydd byddech yn gallu defnyddio'r lwfansau cyfalaf pe byddent ar gael. Mae angen arweinyddiaeth y cwmni adfywio, ynghyd â'r lwfansau cyfalaf, i geisio denu busnesau ychwanegol i mewn i Bort Talbot. Felly, a gaf i ofyn, Weinidog, a wnewch feddwl o ddifrif am sefydlu cwmni adfywio trefol ar gyfer Port Talbot, tebyg i Newport Unlimited, a hefyd i ddarparu'r math o gefnogaeth y gwnaethoch ei rhoi i Newport Unlimited ar y pryd i'r cwmni adfywio trefol hwnnw hefyd, o ran gallu buddsoddi yn y seilwaith cyfalaf ym Mhort Talbot i ddenu'r busnesau hynny? Rwy'n meddwl y byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth enfawr i'r ardal benodol honno.

Minister, I think we've all been critical of the UK Government in terms of how slow they've been in terms of dealing with the issue of energy costs, and also in terms of dealing with the dumping of Chinese steel there. I think we do need this taskforce, and if you can get UK Government Ministers to be members of that taskforce, it will maybe focus some minds at the UK Government on trying to make some more progress in that. But, also, of course, the Welsh Government has been slow in terms of business rates as well. You've had responsibility for business rates since April last year, and we're still talking about making concessions that would have helped Tata Steel to reduce their costs. Can I ask whether it is possible now to accelerate the Welsh Government's considerations of the business rates issues around Tata Steel, particularly around plant and machinery, to try to alleviate at least those costs in terms of the one cost that the Welsh Government does have influence over, and maybe we can make a bit more progress in terms of that? And also, Minister, in terms of the taskforce, I'm pleased that you've invited the UK Government to be involved in that, but can I ask whether the taskforce will be looking to the UK Government to make a contribution to investment in the Port Talbot area as well, to see whether—? You know, if we have a Government Minister as part of that taskforce, they should also take some responsibility for investment in that area.

Weinidog, rwy'n meddwl ein bod i gyd wedi bod yn feirniadol o Lywodraeth y DU o ran pa mor araf y maent wedi bod o ran ymdrin â mater costau ynni, a hefyd o ran ymdrin â dympio dur o Tsieina yno. Rwy'n meddwl bod angen y tasglu hwn arnom, ac os gallwch chi gael Gweinidogion Llywodraeth y DU i fod yn aelodau o'r tasglu hwnnw, efallai y gwnaiff ganolbwyntio rhai meddyliau yn Llywodraeth y DU ar geisio gwneud ychydig mwy o gynnydd yn hynny o beth. Ond, hefyd, wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn araf o ran ardrethi busnes hefyd. Rydych wedi bod yn gyfrifol am ardrethi busnes ers mis Ebrill y llynedd, ac rydym yn dal i siarad am wneud consesiynau a fyddai wedi helpu Tata Steel i leihau eu costau. A gaf i ofyn a yw'n bosibl nawr cyflymu ystyriaethau Llywodraeth Cymru o'r materion ardrethi busnes o gwmpas Tata Steel, yn enwedig o ran offer a pheiriannau, i geisio lleddfu'r costau hynny o leiaf o ran yr un gost y mae gan Lywodraeth Cymru ddylanwad drosti, ac efallai y gallwn wneud ychydig mwy o gynnydd o ran hynny? A hefyd, Weinidog, o ran y tasglu, rwy'n falch eich bod wedi gwahodd Llywodraeth y DU i fod yn rhan o hynny, ond a gaf i ofyn a fydd y tasglu'n gofyn i Lywodraeth y DU wneud cyfraniad at fuddsoddi yn ardal Port Talbot, hefyd, i weld a—? Wyddoch chi, os oes gennym Weinidog y Llywodraeth yn rhan o'r tasglu hwnnw, dylent hefyd gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am fuddsoddi yn yr ardal honno.

Finally, Minister, you will know, of course, that Derek Vaughan, the Labour Member of European Parliament for Wales, has raised the issue of the European globalisation adjustment fund as a means of seeking support for retraining. I know this is a state issue and one that the UK Government needs to take up, but what representations have the Welsh Government made to the UK Government about accessing that fund and taking advantage of it? And if you have not yet made representations, can I ask that you do so urgently, because that is a fund that can be used to bring additional resources to Port Talbot, and we do need to access it as soon as possible? Thank you.

Yn olaf, Weinidog, byddwch yn gwybod, wrth gwrs, bod Derek Vaughan, Aelod Llafur Senedd Ewrop dros Gymru, wedi codi mater y gronfa addasiad globaleiddio Ewropeaidd fel modd o geisio cymorth ar gyfer ailhyfforddi. Rwy'n gwybod mai mater i'r wladwriaeth yw hwn ac mai Llywodraeth y DU sy'n gorfod ymdrin ag ef, ond pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU am gael gafael ar y gronfa honno a manteisio arni? Ac os nad ydych wedi gwneud sylwadau hyd yn hyn, a gaf i ofyn ichi wneud hynny ar frys, oherwydd mae honno'n gronfa y gellir ei defnyddio i ddod ag adnoddau ychwanegol i Bort Talbot, ac mae angen inni allu cael gafael arni cyn gynted ag y bo modd? Diolch.

15:23

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. If I may deal, Presiding Officer, with the last point first, this will be an issue that my colleague, Julie James, will be looking at in terms of how we're now going to deal with some of the training and other agendas, and we will update you about progress on this. You are quite right—we do need to take up that fund. We need to take advantage of what's available in Europe, not criticise Europe, and we must ensure that people realise that Europe can be a help in very difficult times in terms of the access to money. Can I say that you make a good point about the UK Government and what investment they'd be prepared to put in Port Talbot? Following on from the letter I've written to the Chancellor about enterprise zone capital allowances and everything, I think that's a discussion that does need to be held and that does need to be dealt with in many ways.

Gwnaf. Os caf ymdrin, Lywydd, â'r pwynt olaf yn gyntaf, bydd hwn yn fater y bydd fy nghyd-Aelod, Julie James, yn edrych arno o ran sut yr ydym yn awr yn mynd i ymdrin â rhywfaint o'r hyfforddiant ac agendâu eraill, a byddwn yn eich diweddaru am gynnydd ar hyn. Rydych yn llygad eich lle—mae angen inni fanteisio ar y gronfa honno. Mae angen inni fanteisio ar yr hyn sydd ar gael yn Ewrop, nid beirniadu Ewrop, ac mae'n rhaid inni sicrhau bod pobl yn sylweddoli y gall Ewrop helpu mewn cyfnod anodd iawn o ran cael gafael ar arian. A gaf i ddweud eich bod yn gwneud pwynt da am Lywodraeth y DU a pha fuddsoddiad y byddent yn fodlon ei wneud ym Mhort Talbot? Yn dilyn y llythyr yr wyf wedi'i ysgrifennu at y Canghellor am lwfansau cyfalaf ardaloedd menter a phopeth, rwy'n meddwl bod angen cael y drafodaeth honno a bod angen ymdrin â hynny mewn sawl ffordd.

Can I also say to you that the Newport Unlimited point isn't lost on me, because I've had involvement with Newport Unlimited? It is something that I will refer to the taskforce, not in their first couple of meetings, but when we get to grips with what we're doing in the future about the development of other business: if they wanted to look at that model, did they want to recommend something, could they look at the success? Because I think it is for the taskforce particularly to take some of those issues forward, which I think will be enormously helpful in terms of the broader issues. Because you're quite right when you said that this isn't actually just a Port Talbot town issue—this is a wider issue for the region. There are contractors and businesses all across that area that do business into Port Talbot that are going to be impacted, and it'll be very important to look at the economic impact assessment of this on the area, in terms of the loss of wages and all these types of things in order that we get a clear picture as we go forward, particularly in some of those areas. It is a question, I think, of leaving no stone unturned and a question of ensuring that we have the right people on the taskforce. I will issue to Members a list of the taskforce once people have accepted who is on there, and if Members have any suggestions at all about any additional membership that they might think is useful in terms of the main taskforce or any groups that might emerge, I'd be delighted to take it on board.

A gaf i hefyd ddweud wrthych fy mod yn deall yn iawn y pwynt am Newport Unlimited, gan fy mod wedi ymwneud â Newport Unlimited? Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei gyfeirio at y tasglu, nid yn eu un neu ddau gyfarfod cyntaf, ond pan fyddwn yn ymdrin â'r hyn yr ydym yn ei wneud yn y dyfodol am ddatblygu busnes arall: os oeddent am edrych ar y model hwnnw, a oeddent am argymell rhywbeth, a allent edrych ar y llwyddiant? Oherwydd rwy'n meddwl mai lle'r tasglu yn arbennig yw bwrw ymlaen â rhai o'r materion hynny, ac rwyf yn meddwl y bydd hynny o gymorth mawr o ran y materion ehangach. Oherwydd rydych yn llygad eich lle wrth ddweud nad dim ond mater i dref Port Talbot yw hyn mewn gwirionedd—mae'n fater ehangach i'r rhanbarth. Bydd hyn yn effeithio ar gontractwyr a busnesau ledled yr ardal honno sy'n cynnal busnes i mewn i Bort Talbot, a bydd yn bwysig iawn edrych ar yr asesiad o effaith economaidd hyn ar yr ardal, o ran colli cyflog a'r holl fathau hyn o bethau er mwyn inni gael darlun clir wrth inni symud ymlaen, yn enwedig yn rhai o'r ardaloedd hynny. Mae'n fater, rwy'n meddwl, o wneud yn siŵr nad ydym yn gadael unrhyw garreg heb ei throi ac yn fater o sicrhau bod gennym y bobl iawn ar y tasglu. Byddaf yn cyhoeddi rhestr o'r tasglu i'r Aelodau cyn gynted â bod pobl wedi derbyn pwy sydd arno, ac os oes gan yr Aelodau unrhyw awgrymiadau o gwbl am unrhyw aelodau ychwanegol y maent yn meddwl y byddent yn ddefnyddiol o ran y prif dasglu neu unrhyw grwpiau a allai ddeillio ohono, byddwn wrth fy modd o gael yr awgrymiadau hynny.

15:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We've had a speaker from each party now, and that's taken us 37 minutes. I have another eight speakers, so can I ask Members to concentrate on the Minister's statement and try not to cover points that have already been covered in depth? I don't want to curtail anyone too much. Altaf Hussain.

Diolch. Rydym wedi cael siaradwr o bob plaid nawr, ac mae hynny wedi cymryd 37 munud inni. Mae gen i wyth o siaradwyr arall, felly a gaf i ofyn i'r Aelodau ganolbwyntio ar ddatganiad y Gweinidog a cheisio peidio â sôn am bwyntiau sydd eisoes wedi cael sylw manwl? Ni hoffwn gyfyngu gormod ar neb. Altaf Hussain.

15:26 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement, Minister. The job losses are a devastating blow for my constituents, not just in Port Talbot, but across the whole South Wales West region. Tata is still a huge employer, and we must all work together and ensure it remains so. While we'll urge the European Union to do more to tackle the influx of cheap steel being dumped on our markets, we must accept that Chinese steel is not of inferior quality. It is just made with little or no concern for the environment or workers' safety. Minister, will you work with the UK Government to develop quality assurance standards that take these things into account and insist that the standards are a requirement for all future public procurement projects?

Diolch am eich datganiad, Weinidog. Mae'r colli swyddi'n ergyd drom i fy etholwyr, nid dim ond ym Mhort Talbot, ond ledled rhanbarth Gorllewin De Cymru. Mae Tata yn dal i fod yn gyflogwr enfawr, ac mae'n rhaid inni i gyd weithio gyda'n gilydd a sicrhau ei fod yn parhau i fod felly. Er y byddwn yn annog yr Undeb Ewropeaidd i wneud mwy i ymdrin â'r mewnlifiad o ddur rhad sy'n cael ei ddympio ar ein marchnadoedd, mae'n rhaid inni dderbyn nad yw dur o Tsieina o ansawdd israddol. Y broblem yw ei fod yn cael ei wneud heb lawer neu ddim pryder am yr amgylchedd na diogelwch y gweithwyr. Weinidog, a wnewch chi weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu safonau sicrhau ansawdd sy'n ystyried y pethau hyn ac yn mynnu bod y safonau'n ofyniad ar gyfer pob prosiect caffael cyhoeddus yn y dyfodol?

While we must work together to develop a level playing field, there are other steps we can take to support the Welsh steel industry. The Welsh steel industry needs to innovate. They need to develop new products and new markets for those products. In order to do so, they have to be equipped with the best engineers and researchers. I was disappointed to learn that the Welsh Government refused grant funding for Tata to develop an industry dragons programme that would have enabled Tata to work with local schools to develop the next generation of engineers. Minister, will you look again at the scheme?

Er bod yn rhaid inni gydweithio i ddatblygu tegwch i bawb, mae camau eraill y gallwn eu cymryd i gefnogi diwydiant dur Cymru. Mae angen i ddiwydiant dur Cymru arloesi. Mae angen iddo ddatblygu cynhyrchion newydd a marchnadoedd newydd ar gyfer y cynhyrchion hynny. I wneud hynny, mae'n rhaid iddo allu galw ar y peirianwyr a'r ymchwilwyr gorau. Roeddwn yn siomedig o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod arian grant i Tata i ddatblygu rhaglen dreigiau diwydiant a fyddai wedi galluogi Tata i weithio gydag ysgolion lleol i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr. Weinidog, a wnewch chi edrych eto ar y cynllun?

Finally, Minister, the steel industry is totally dependent on coal—something we have an abundance of in South Wales West. What consideration have you given to allowing Tata access to that coal? Thank you once again for your statement, and I look forward to working with you to support those who have lost their jobs and to ensure that the steelworkers at Port Talbot can thrive in a difficult economic climate. Thank you.

Yn olaf, Weinidog, mae'r diwydiant dur yn hollol ddibynnol ar lo—rhywbeth y mae gennym ddigonedd ohono yng Ngorllewin De Cymru. A ydych chi wedi ystyried caniatáu i Tata ddefnyddio'r glo hwnnw? Diolch unwaith eto am eich datganiad, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi i gefnogi'r bobl hynny sydd wedi colli eu swyddi ac i sicrhau y gall y gweithwyr dur ym Mhort Talbot ffynnu mewn hinsawdd economaidd anodd. Diolch.

15:28 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I could deal with some of the issues around coal and energy et cetera, we've worked very hard with Tata. They were once considering, of course, having a pit on their site next to it. Of course, the costs were a massive issue there. We're now working with them in terms of what other developments we can do with a power plant, but there will also have to be an involvement with the UK Government there. This is all currently under discussion. With regard to public procurement, I think we've done an excellent job in the fact that we changed our procurement rules very early on to make sure that we could give advantage in these areas. I know that this is something that Jane will constantly look at—how we can improve in terms of public procurement. If there are any suggestions from Members about what further we can do in regulation et cetera on this, I know that we will be pleased to have those particular issues.

Os caf i ymdrin â rhai o'r materion sy'n ymwneud â glo ac ynni ac ati, rydym wedi gweithio'n galed iawn gyda Tata. Roeddent unwaith yn ystyried, wrth gwrs, cael pwll glo ar eu safle y drws nesaf iddo. Wrth gwrs, roedd y costau'n fater enfawr yno. Rydym nawr yn gweithio gyda nhw o ran pa ddatblygiadau eraill y gallwn eu gwneud gyda ffatri drydan, ond bydd rhaid i Lywodraeth y DU gymryd rhan yn hynny hefyd. Mae hyn i gyd yn destun trafodaeth ar hyn o bryd. O ran caffael cyhoeddus, rwy'n meddwl ein bod wedi gwneud gwaith ardderchog o ran y ffaith ein bod wedi newid ein rheolau caffael yn gynnar iawn i wneud yn siŵr y gallem roi mantais yn y meysydd hyn. Rwy'n gwybod bod hyn yn rhywbeth y bydd Jane yn edrych arno'n gyson —sut y gallwn wella o ran caffael cyhoeddus. Os oes gan yr Aelodau unrhyw awgrymiadau am beth arall y gallwn ei wneud mewn rheoliadau ac ati am hyn, rwy'n gwybod y byddwn yn falch o glywed y materion penodol hynny.

Can I say that Tata is actually very innovative anyway in terms of what it does with its products? I've never seen such innovation as I saw last week up in Shotton with what they were doing on those lines. Also, as well, it's unfair to criticise us as a Government about decisions we've taken to support Tata. Tata will tell you how supportive we've been on a lot of innovation and projects with them. They will also tell you how supportive we've been in supporting them with the education sector. David, in his contribution as the Member for Aberavon, alluded to the links with Swansea University, which we've been keen to enhance. The chief scientific adviser's been keen to enhance engineering skills that can help cases like Tata. There are no criticisms of us on these issues. But, there is one issue I would raise because of your previous background. We have also taken the opportunity on the taskforce to have health officials involved, because we are very concerned about the health and welfare of those employees who have been made redundant. We thought it was important that health had a key role on the taskforce in dealing with some of those underlying issues.

A gaf i ddweud bod Tata mewn gwirionedd yn arloesol iawn beth bynnag o ran yr hyn y maent yn ei wneud â'u cynnyrch? Nid wyf erioed wedi gweld y fath arloesedd ag a welais yr wythnos diwethaf i fyny yn Shotton gyda'r hyn yr oeddent yn ei wneud ar y llinellau hynny. Hefyd, yn ogystal, mae'n annheg ein beirniadu ni fel Llywodraeth am benderfyniadau yr ydym wedi eu gwneud i gefnogi Tata. Bydd Tata yn dweud wrthych pa mor gefnogol yr ydym wedi bod ar lawer o arloesi a phrosiectau gyda hwy. Byddant hefyd yn dweud wrthych pa mor gefnogol yr ydym wedi bod drwy eu cefnogi gyda'r sector addysg. Cyfeiriodd Dafydd, yn ei gyfraniad fel Aelod Aberafan, at y cysylltiadau â Phrifysgol Abertawe, yr ydym wedi bod yn awyddus i'w gwella. Mae'r prif gynghorydd gwyddonol wedi bod yn awyddus i wella sgiliau peirianneg a all helpu achosion fel Tata. Nid oes unrhyw feirniadaeth ohonom ni ar y materion hyn. Ond, hoffwn godi un mater oherwydd eich cefndir blaenorol. Rydym hefyd wedi cymryd y cyfle ar y tasglu i gynnwys swyddogion iechyd, oherwydd rydym yn bryderus iawn am iechyd a lles y gweithwyr hynny sydd wedi colli eu swyddi. Roeddem yn meddwl ei bod yn bwysig bod gan iechyd ran allweddol i'w chwarae ar y tasglu wrth ymdrin â rhai o'r materion sylfaenol hynny.

15:30 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, obviously I'm very concerned with the position of Llanwern within the general situation, given that that falls within my constituency of Newport East, and, as Members have referred to already today, Llanwern has suffered considerable cuts to jobs, and indeed capacity and operations, in the past. I think it's unclear, Minister, exactly what the position is with regard to Llanwern and Llanwern employees at the moment, and I know many are anxious with regard to their own future, and, by extension, the future of their communities and their families. So, I wonder if you would be able to seek greater clarity from Tata as to the position of Llanwern in particular. I know that Llanwern is often seen as one unit, as it were, with Port Talbot, but the specific position of Llanwern obviously is of great interest to me and those I represent. So, I would be grateful for that greater clarity.

Weinidog, yn amlwg rwy'n bryderus iawn ynglŷn â sefyllfa Llanwern o fewn y sefyllfa gyffredinol, o gofio ei fod o fewn fy etholaeth i yn Nwyrain Casnewydd, ac, fel y mae Aelodau wedi cyfeirio ato eisoes heddiw, mae Llanwern wedi dioddef toriadau sylweddol i swyddi, ac yn wir i gapasiti a gweithrediadau, yn y gorffennol. Rwy'n meddwl ei bod yn aneglur, Weinidog, beth yn union yw'r sefyllfa o ran Llanwern a gweithwyr Llanwern ar hyn o bryd, ac rwy'n gwybod bod llawer yn bryderus am eu dyfodol eu hunain, ac, o'i ymestyn, dyfodol eu cymunedau a'u teuluoedd. Felly, tybed a allech chi geisio mwy o eglurder gan Tata ynglŷn â sefyllfa Llanwern yn arbennig. Gwn fod Llanwern yn aml yn cael ei ystyried yn un uned, fel petai, gyda Phort Talbot, ond mae sefyllfa benodol Llanwern yn amlwg o ddiddordeb mawr i mi a'r bobl yr wyf yn eu cynrychioli. Felly, byddwn yn ddiolchgar am fwy o eglurder am hynny.

Also, Minister, in terms of the enterprise zone that you've mentioned, there is interest and it has been raised with me as to whether Llanwern might be designated as an enterprise zone. Obviously, there is still strong production on the Llanwern site, and potential and capacity with regard to steel. The Zodiac plant is very productive and important, and there is very useful, I think, and promising capacity in terms of rolling and treatment of steel. But there is a lot of the existing site at the moment that isn't currently being utilised, and, of course, it is quite a substantial site, notwithstanding that much of it was hived off for housing, industrial and other purposes in the recent past. But, in terms of what remains, Minister, I wonder if you could have a look at the possibility of designating an enterprise zone. It has been raised with me, and I think the logic that applies to Port Talbot is very much applicable to Llanwern as well, so I'd be grateful for your response to those issues.

Hefyd, Weinidog, o ran yr ardal fenter yr ydych wedi sôn amdani, mae diddordeb ac mae wedi ei godi gyda mi ynghylch a ellid dynodi Llanwern fel ardal fenter. Yn amlwg, mae cynhyrchu cryf o hyd ar safle Llanwern, a'r potensial a'r capasiti o ran dur. Mae'r gwaith dur Zodiac yn gynhyrchiol ac yn bwysig iawn, a cheir capasiti defnyddiol iawn, rwy'n meddwl, ac addawol o ran rholio a thrin dur. Ond mae llawer o'r safle presennol ar hyn o bryd nad yw'n cael ei defnyddio, ac, wrth gwrs, mae'n safle eithaf sylweddol, er bod llawer ohono wedi ei waredu at ddibenion tai, diwydiant a dibenion eraill yn y gorffennol diweddar. Ond, o ran yr hyn sydd ar ôl, Weinidog, tybed a allech chi edrych ar y posibilrwydd o ddynodi ardal fenter. Mae hyn wedi ei godi gyda mi, ac rwy'n meddwl bod y rhesymeg sy'n berthnasol i Bort Talbot yn berthnasol iawn i Lanwern hefyd, felly byddwn yn ddiolchgar am eich ymateb i'r materion hynny.

15:32

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much. I know that there isn't clarity about the position on the workforce because it is regarded almost as the one unit. I will, certainly, in my discussions with the company—ongoing discussions with the company; probably daily discussions with the company—raise these issues particularly for you, in order that the workforce has an understanding, but I think that those will unravel in the next few days as discussions get going with the trade unions about what jobs, where and when, and what is happening with that issue.

Diolch yn fawr. Rwy'n gwybod nad oes eglurder ynghylch y sefyllfa o ran y gweithlu gan ei fod yn cael ei ystyried bron fel yr un uned. Byddaf, yn sicr, yn fy nhrafodaethau gyda'r cwmni—trafodaethau parhaus gyda'r cwmni; trafodaethau dyddiol gyda'r cwmni yn ôl pob tebyg—yn codi'r materion hyn yn benodol ar eich cyfer, fel bod y gweithlu'n deall, ond rwy'n meddwl y bydd y rheini'n ymddatod yn y dyddiau nesaf wrth i drafodaethau fynd rhagddynt gyda'r undebau llafur am ba swyddi, ble a phryd, a beth sy'n digwydd â'r mater hwnnw.

You raise very interesting points about Llanwern. The Zodiac line is, effectively, an automotive plant, and sometimes there is an issue about the way companies organise their business themselves. Of course, Tata as a whole is a European steel-making company, but are there parts of it that could actually be designated as different types of companies, like automotive, et cetera? Because the Zodiac line is extremely successful.

Rydych yn codi pwyntiau diddorol iawn ynghylch Llanwern. Gwaith modurol yw'r llinell Zodiac, i bob diben, ac weithiau ceir problem ynghylch y ffordd y mae cwmnïau'n trefnu eu busnes eu hunain. Wrth gwrs, cwmni gwneud dur Ewropeaidd yw Tata yn ei gyfanrwydd, ond a oes rhannau ohono a allai fod mewn gwirionedd wedi'u dynodi fel gwahanol fathau o gwmnïau, fel modurol, ac ati? Oherwydd mae'r llinell Zodiac yn hynod o lwyddiannus.

Can I say, in terms of the enterprise zone, it has been raised over the years about doing something in terms of Llanwern? Llanwern is in a slightly different position in terms of where it's located, where its border is, what jobs other people can access and what could be done. I'm not saying that I won't look at it, but it won't be the major thing I'll be asking the taskforce to look at, because you can only limit the number of enterprise zones that you've got, and, if you're going to go for enhanced capital allowances, you've got to concentrate your efforts particularly in one area. But can I say I will attempt to get the information that is required, but I'm sure that Tata will be engaging the workforce on those detailed issues as well? But I think we do have to have further discussions with Tata, because they're very discrete businesses within businesses, and, if they were allowed to function somewhat differently, have their head a bit more, do certain things and market, what more business could they bring in by doing things like that? So, there is a discussion to be had with the company, perhaps not immediately, but certainly in the next few months, in order to improve their business base more generally within Wales.

A gaf i ddweud, o ran yr ardal fenter, bod hyn wedi cael ei godi dros y blynyddoedd ynglŷn â gwneud rhywbeth am Lanwern? Mae Llanwern mewn sefyllfa ychydig yn wahanol o ran lle mae wedi'i leoli, lle mae ei ffin, pa swyddi sydd ar gael i bobl eraill a beth y gellid ei wneud. Dydw i ddim yn dweud na wnaf edrych arno, ond nid dyna fydd y prif beth y byddaf yn gofyn i'r tasglu edrych arno, oherwydd y cyfan y gallwch ei wneud yw cyfyngu ar nifer yr ardaloedd menter sydd gennych, ac, os ydych yn mynd i fynd am lwfansau cyfalaf uwch, mae'n rhaid ichi ganolbwyntio eich ymdrechion yn benodol mewn un ardal. Ond a gaf i ddweud y byddaf yn ceisio cael y wybodaeth sydd ei hangen, ond rwy'n siŵr y bydd Tata yn ymgysylltu â'r gweithlu ar y materion manwl hynny hefyd? Ond rwy'n meddwl bod yn rhaid inni gael trafodaethau pellach gyda Tata, oherwydd maent yn fusnesau cwbl ar wahân o fewn busnesau, a, phe byddent yn cael gweithredu ychydig bach yn wahanol, ac yn cael ychydig mwy o ryddid, gwneud rhai pethau a marchnata, pa fusnes ychwanegol y gallent ei ddenu drwy wneud pethau o'r fath? Felly, mae trafodaeth i'w chael gyda'r cwmni, efallai nid ar unwaith, ond yn sicr o fewn yr ychydig fisoedd nesaf, er mwyn gwella eu sylfaen busnes yn fwy cyffredinol o fewn Cymru.

15:34 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the statement, Minister. I think what's important to me, more than saying that we have thoughts with the families, is what we can do now to be active to help those people in those areas. And, for me, I wouldn't want to say, 'Let's just accept that those jobs are going.' They may have said that there are 600, 700, 1,000 jobs: let's try and campaign here in Wales against those jobs being lost at Tata Steel. Yes, some of them will be voluntary redundancies—well, let's make sure that every job that isn't a voluntary redundancy we can retain here in Wales, for the UK and for the wider world.

Diolch am y datganiad, Weinidog. Rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n bwysig i mi, yn fwy na dweud ein bod yn meddwl am y teuluoedd, yw'r hyn y gallwn ei wneud nawr i fod yn weithgar i helpu'r bobl hynny yn yr ardaloedd hynny. Ac, i mi, hoffwn i ddim dweud, 'Gadewch inni wneud dim ond derbyn bod y swyddi hynny'n mynd.' Efallai eu bod wedi dweud bod yna 600, 700, 1,000 o swyddi: gadewch inni geisio ymgyrchu yma yng Nghymru yn erbyn colli'r swyddi hynny yn Tata Steel. Ie, diswyddiadau gwirfoddol fydd rhai ohonynt—wel, gadewch inni wneud yn siŵr y gallwn gadw pob swydd nad yw'n ddiswyddiad gwirfoddol yma yng Nghymru, ar gyfer y DU ac ar gyfer y byd ehangach.

There's no doubt, as you have said, Minister, that the fabric of the works remains and is capable of producing almost 5 million tonnes a year. Everyone in the industry knows, and Assembly Members for the area know, that, if the blast furnaces had shut, and if investment hadn't been put into those blast furnaces, it would've been a matter of time before we were discussing closure here.

Does dim amheuaeth, fel yr ydych wedi'i ddweud, Weinidog, bod ffabrig y gwaith dur yn dal i fod yno ac yn gallu cynhyrchu bron i 5 miliwn tunnell y flwyddyn. Mae pawb yn y diwydiant yn gwybod, ac mae Aelodau'r Cynulliad dros yr ardal yn gwybod, pe byddai'r ffwrneisi chwyth wedi cau, a phe na byddai buddsoddiad wedi ei roi yn y ffwrneisi chwyth hynny, mai mater o amser a fyddai cyn inni fod yn trafod cau yma.

I would welcome your opinions on what the media has been saying today, Minister, with regard to Port Talbot being defined as a 'dying' or a 'dead' town. I think it's wrong of the media at this stage to be saying something like this, considering that we're all working here together to try and build the industry and make it robust for the future.

Byddwn yn croesawu eich barn am yr hyn y mae'r cyfryngau wedi bod yn ei ddweud heddiw, Weinidog, ynglŷn â diffinio Port Talbot fel tref 'sy'n marw' neu 'sydd wedi marw'. Rwy'n meddwl ei bod yn anghywir i'r cyfryngau ddweud rhywbeth fel hyn ar hyn o bryd, ac ystyried ein bod i gyd yn gweithio yma gyda'n gilydd i geisio adeiladu'r diwydiant a'i wneud yn gadarn ar gyfer y dyfodol.

But that's entirely why Plaid Cymru have been putting forward ideas for part-investment into Tata Steel by the Welsh Government—by any Government that is willing to listen to new ideas. I welcome the fact that you, yourself, have said that you will listen to those ideas, because I listened to the First Minister earlier and we have never talked about £1 billion—it's three times the value of the site. We would be saying—. Well, let's look at the power plant, for example. It would cost between £120 million and £150 million, around a tenth of the Welsh Government's annual capital budget. If you're not to put all the money into creating that new power plant, how about part-investment in something like that, which would help the industry? It would halve the site's annual deficit, deliver savings in emissions costs, safeguard and create jobs. Perhaps more significantly, the company will need to spend between £60 million and £100 million just to keep the current grandfather power station going if this new power plant does not go ahead. So, at what stage does the Indian board say, 'We've lost patience with Port Talbot? Do we want to take that risk—over £60 million—when the Welsh Government could actually make a difference or part of a difference towards helping that industry?'

Ond dyna'n union pam mae Plaid Cymru wedi bod yn cyflwyno syniadau am i Lywodraeth Cymru fuddsoddi'n rhannol yn Tata Steel—neu unrhyw Lywodraeth sy'n fodlon gwrando ar syniadau newydd. Rwy'n croesawu'r ffaith eich bod chi, eich hun, wedi dweud y gwnewch wrando ar y syniadau hynny, oherwydd roeddwn yn gwrando ar y Prif Weinidog yn gynharach ac nid ydym erioed wedi sôn am £1 biliwn—mae hynny dair gwaith gwerth y safle. Byddem ni'n dweud—. Wel, gadewch inni edrych ar yr orsaf drydan, er enghraifft. Byddai'n costio rhwng £120 miliwn a £150 miliwn, tua degfed rhan o gyllideb cyfalaf blynyddol Llywodraeth Cymru. Os nad ydych chi'n mynd i roi'r holl arian i mewn i greu'r orsaf drydan newydd honno, beth am fuddsoddi'n rhannol mewn rhywbeth felly, a fyddai'n helpu'r diwydiant? Byddai'n haneru diffyg ariannol blynyddol y safle, yn sicrhau arbedion mewn costau allyriadau, ac yn diogelu a chreu swyddi. Efallai yn fwy arwyddocaol, bydd angen i'r cwmni wario rhwng £60 miliwn a £100 miliwn dim ond i gadw'r nain-orsaf drydan bresennol i fynd os nad yw'r orsaf drydan newydd hon yn digwydd. Felly, ar ba gam y mae'r bwrdd Indiaidd yn dweud, 'Rydym wedi colli amynedd gyda Phort Talbot? A ydym am gymryd y risg hwnnw—dros £60 miliwn—pan allai Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd wneud gwahaniaeth neu ran o wahaniaeth tuag at helpu'r diwydiant hwnnw?'

I'd also like to hear your view, Minister, on whether the Welsh Government would take on this project and incorporate the idea that I've had locally around creating it as a feature of world-class architectural design for the area, so that we could see it as something that would be beneficial for the area in that regard, also.

Hoffwn hefyd glywed eich barn, Weinidog, ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r prosiect hwn ac yn ymgorffori'r syniad yr wyf wedi'i gael yn lleol ynglŷn â'i greu fel nodwedd o ddyluniad pensaernïol o safon fyd-eang ar gyfer yr ardal, fel y gallem ei weld fel rhywbeth a fyddai o fudd i'r ardal yn hynny o beth, hefyd.

I'd like to finish by saying that we need to do more than manage decline for this industry. We can talk about the history of steel, we can talk about the history of coal mining here in Wales, but let's talk about the future and how we can invest in this particular industry for the future generations of those living in that area and for future generations of Wales.

Hoffwn orffen drwy ddweud bod angen inni wneud mwy na rheoli dirywiad y diwydiant hwn. Gallwn siarad am hanes dur, gallwn siarad am hanes cloddio am lo yma yng Nghymru, ond gadewch inni siarad am y dyfodol a sut y gallwn fuddsoddi yn y diwydiant penodol hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn yr ardal honno ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

15:37

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say it's always important in these discussions—? It's not that you're being sanguine, it's not that you don't want to fight, but when you speak to workers who say to you, 'We're surprised we're even still open, because of the losses that have been made and that Tata have continued to put in investment', you recognise there's a reality in there, however unpleasant this reality is, that these job losses, however awful they are—and we would want to manage them through redundancies, through voluntary redundancies; the company would want to ensure then that those made redundant perhaps could go immediately to other jobs. We've got to have a realistic approach to some of these areas and we can't build up false hopes about what we can do as a Government, even what the UK Government can do and what Europe can do, because the steel industry in Europe is in crisis—there's a global crisis in steel as a result of what's happening across the world.

A gaf i ddweud ei bod bob amser yn bwysig yn y trafodaethau hyn—? Nid am eich bod yn ffyddiog, nid am nad ydych yn awyddus i ymladd, ond pan fyddwch yn siarad â gweithwyr sy'n dweud wrthych, 'Rydym yn synnu ein bod yn dal ar agor hyd yn oed, oherwydd y colledion sydd wedi'u gwneud a bod Tata wedi parhau i fuddsoddi', rydych yn cydnabod mai realiti'r peth yw, pa mor annymunol bynnag yw'r realiti hwn, bod y colledion swyddi hyn, pa mor ofnadwy bynnag yr ydynt—a hoffem eu rheoli drwy ddiswyddiadau, drwy ddiswyddiadau gwirfoddol; byddai'r cwmni'n awyddus i sicrhau wedyn y gallai'r bobl sy'n cael eu diswyddo o bosibl fynd yn syth i swyddi eraill. Mae angen dull realistig ar gyfer rhai o'r ardaloedd hyn ac ni allwn adeiladu gobeithion ffug am yr hyn y gallwn ei wneud fel Llywodraeth, hyd yn oed yr hyn y gall Llywodraeth y DU ei wneud a'r hyn y gall Ewrop ei wneud, oherwydd mae'r diwydiant dur yn Ewrop mewn argyfwng—mae'n argyfwng dur byd-eang o ganlyniad i'r hyn sy'n digwydd ledled y byd.

Can I say, I think I'm probably the only person in this Chamber, as a Member, and I don't mean this as disrespectful, who has actually dealt, as a trade union official, with large-scale redundancies and had to actually look in the whites of the eyes of—we're talking a lot of—employees, and say, 'Sorry, there's nothing we can do; the banks are letting you go'? We're talking about losses that occurred in some industries of thousands and thousands of people. One thing we mustn't do is build up expectations that something can be done that can't be done. Now, that's not to say that I wouldn't say to Tata, 'Can you minimise this? Can you do this?' This is what their trade unions have been saying: 'Can we make it less? Can we tuck? Can we do that?' That is the role of the trade union and it'll be the role of Government here to support what we can do.

A gaf i ddweud, rwy'n meddwl yn ôl pob tebyg mai fi yw'r unig un yn y Siambr hon, fel Aelod, ac nid wyf yn golygu hyn mewn ffordd amharchus, sydd mewn gwirionedd wedi ymdrin, fel swyddog undeb llafur, â diswyddiadau ar raddfa fawr ac wedi gorfod edrych yng nghanol llygaid—rydym yn sôn am lawer o—gweithwyr, a dweud, 'Mae'n ddrwg gennym, does dim byd y gallwn ei wneud; mae'r banciau'n gadael ichi fynd'? Rydym yn sôn am golledion a ddigwyddodd mewn diwydiannau o filoedd ar filoedd o bobl. Un peth y mae'n rhaid inni beidio â'i wneud yw adeiladu disgwyliadau y gellir gwneud rhywbeth na ellir ei wneud. Nawr, nid yw hynny'n golygu na fyddwn yn dweud wrth Tata, 'A allwch chi leihau hyn? A allwch chi wneud hyn?' Dyma beth mae eu hundebau llafur wedi bod yn ei ddweud: 'A allwn ni ei wneud yn llai? A allwn ni gwtogi? A allwn ni wneud hynny?' Dyna yw swyddogaeth yr undeb llafur a swyddogaeth y Llywodraeth yma fydd cefnogi'r hyn y gallwn ei wneud.

In terms of the power plant agenda, I think I've already answered that we'll look at everything that we can do to assist Tata. We've assisted them every way we can; we discuss every issue with them, and there's a lot of dialogue that goes on with the company. We have a good relationship with the company and an honest approach with the company. Now, at the end of the day, I think the Tata board in Mumbai have shown what they think. We've had this thing here; it's now our duty to ensure that we work with them in Europe so that Mumbai know that we're absolutely committed to a steel industry.

O ran agenda'r orsaf drydan, rwy'n meddwl fy mod eisoes wedi ateb y byddwn yn edrych ar bopeth y gallwn ei wneud i gynorthwyo Tata. Rydym wedi eu cynorthwyo ym mhob ffordd y gallwn; rydym yn trafod pob mater gyda hwy, ac mae llawer o ddeialog yn digwydd gyda'r cwmni. Mae gennym berthynas dda â'r cwmni ac ymagwedd onest â'r cwmni. Nawr, yn y pen draw, rwy'n meddwl bod bwrdd Tata ym Mumbai wedi dangos beth yw eu barn. Rydym wedi cael y peth hwn yma; ein dyletswydd ni nawr yw sicrhau ein bod yn gweithio gyda hwy yn Ewrop fel bod Mumbai yn gwybod ein bod wedi ymrwymo'n llwyr i ddiwydiant dur.

The important thing, I think, for us to recognise is that it's a sad day for these individuals. We've got to do the best we can for them, we need to fight for what jobs we can keep there, but we also need to fight for the survival in the long term of that plant and put energies into that. I'm not a defeatist on this, but, when I talk to people, they say to me—. You know, the company, if you look at it purely commercially, could've made a very different decision about what was happening in Port Talbot. I'm not defending Tata on this; I'm not defending anybody. My job is to ensure that I do what we can in Government and I encourage the UK Government to do what they can, and we all encourage Europe to do what they can, the trade unions work to get the best deals that are available on this and that we ensure that that plant, which has not closed—. Rhun ap Iorwerth, your spokesperson, said, 'You know, we've got that plant.' We've got to work on that plant and we've got to go forward and help and assist it. That's how I feel about this; I feel that we've got to support individuals as best we can and look towards the future.

Y peth pwysig, rwy'n meddwl, inni ei gydnabod yw bod hwn yn ddiwrnod trist i'r unigolion hyn. Mae'n rhaid inni wneud y gorau y gallwn drostynt, mae angen inni ymladd dros unrhyw swyddi y gallwn eu cadw yno, ond mae angen inni hefyd ymladd dros oroesiad hirdymor y gwaith dur hwnnw a rhoi egni i mewn i hynny. Nid wyf yn wangalon ar hyn, ond, pan wyf yn siarad â phobl, maent yn dweud wrthyf—. Wyddoch chi, gallai'r cwmni, os edrychwch ar y peth yn fasnachol yn unig, fod wedi gwneud penderfyniad gwahanol iawn am yr hyn oedd yn digwydd ym Mhort Talbot. Nid wyf yn amddiffyn Tata ar hyn; nid wyf yn amddiffyn neb. Fy ngwaith i yw sicrhau fy mod yn gwneud yr hyn y gallwn yn y Llywodraeth ac rwy'n annog Llywodraeth y DU i wneud yr hyn y gallant hwythau, ac rydym i gyd yn annog Ewrop i wneud yr hyn a allant, mae'r undebau llafur yn gweithio i gael y bargeinion gorau sydd ar gael ar hyn ac rydym yn sicrhau bod y gwaith dur hwnnw, nad yw wedi cau—. Dywedodd Rhun ap Iorwerth, eich llefarydd, 'Wyddoch chi, mae'r gwaith dur hwnnw gennym.' Mae'n rhaid inni weithio ar y gwaith dur hwnnw ac mae'n rhaid inni fwrw ymlaen a'i helpu a'i gynorthwyo. Dyna sut yr wyf innau'n teimlo am hyn; rwy'n teimlo bod yn rhaid inni gefnogi unigolion cystal ag y gallwn ac edrych tuag at y dyfodol.

15:40

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement today here, Minister, and also to the First Minister for his statement yesterday. Port Talbot is a special place. I used to live in Bridgend, 30 or 40 years ago, and most of the people in the village I lived in worked in Port Talbot. At that time, they called it 'Treasure Island' and there were 20,000 people working in Port Talbot then. It's still, as far as I'm concerned, a treasure island.

Diolch am eich datganiad yma heddiw, Weinidog, a hefyd i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad ddoe. Mae Port Talbot yn lle arbennig. Roeddwn yn arfer byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 30 neu 40 mlynedd yn ôl, ac roedd y rhan fwyaf o'r bobl yn y pentref lle'r oeddwn i'n byw yn gweithio ym Mhort Talbot. Ar y pryd, roeddent yn ei alw'n 'Ynys y Trysor' ac roedd 20,000 o bobl yn gweithio ym Mhort Talbot bryd hynny. Mae'n dal i fod, cyn belled ag yr wyf fi yn y cwestiwn, yn ynys drysor.

Now, one of the issues I want to know—I mean, you've got the taskforce now working, and I think it's going to look at support for the communities, the workforce and, obviously, the supply businesses all around. But there is a big research centre in Port Talbot, and I know, in my time, two professors of maths who were working in Port Talbot and are now professors of maths in Welsh universities. Swansea University—the new campus works very closely with Port Talbot, and all these engineering students have that opportunity to do their doctorate or whatever at Swansea University and Port Talbot research centre. So, I don't know what the effect of losing these jobs, where they're going to be lost, will be in Port Talbot, and I hope that the taskforce will look at that.

Nawr, un o'r materion yr wyf eisiau ei wybod—hynny yw, mae gennych y tasglu ar waith nawr, ac rwy'n meddwl y bydd yn edrych ar gefnogaeth i'r cymunedau, y gweithlu ac, yn amlwg, y busnesau cyflenwi o'i gwmpas i gyd. Ond mae canolfan ymchwil fawr ym Mhort Talbot, ac rwy'n adnabod, yn fy amser i, dau athro mathemateg a oedd yn gweithio ym Mhort Talbot ac sydd bellach yn athrawon mathemateg ym mhrifysgolion Cymru. Prifysgol Abertawe —mae'r campws newydd yn cydweithio'n agos iawn â Phort Talbot, ac mae'r myfyrwyr peirianneg hyn i gyd yn cael y cyfle hwnnw i wneud eu doethuriaeth neu beth bynnag ym Mhrifysgol Abertawe a chanolfan ymchwil Port Talbot. Felly, nid wyf yn gwybod beth fydd effaith colli'r swyddi hyn, lle maent yn mynd i gael eu colli, ym Mhort Talbot, ac rwy'n gobeithio y gwnaiff y tasglu edrych ar hynny.

Obviously, I'm concerned about Trostre. The jobs are being lost in Llanwern, in Port Talbot and in Trostre, and I just wondered—following John Griffiths now in saying, you know, if we can have an enterprise zone in Newport, can't we have an enterprise zone in Swansea bay, and that the Trostre works and the Port Talbot works, together, will be part of that?

Yn amlwg, rwy'n pryderu am Drostre. Mae'r swyddi'n cael eu colli yn Llanwern, ym Mhort Talbot ac yn Nhrostre, ac roeddwn yn meddwl tybed—i ddilyn John Griffiths yn awr wrth ddweud, wyddoch chi, os gallwn gael ardal fenter yng Nghasnewydd, oni allwn gael ardal fenter ym mae Abertawe, a bod gweithfeydd Trostre a Phort Talbot, gyda'i gilydd, yn rhan o hynny?

My other major concern, of course, is that our Government, the UK Government and European administrations need to work together to look at the crisis in world steel, because it seems to me, I have to say, that Westminster haven't really done much. You said it earlier, Minister, and I know that Nia Griffith and I were in Trostre four years ago, talking about the problem with energy. Dr Carol Bell was on the radio this week, and she said that British manufacturers pay 5p more per kilowatt hour than the European average. Well, what is the British Government doing about that, then? They've got the green levies on energy-intensive industries and they haven't changed them. It seems to me that the British Government has to make a few changes to how it looks at supporting the steel industry. If we look at the anti-competitive measures, if we look at energy—it can't be left to us here just in Cardiff; it's got to be wider than that.

Fy mhryder mawr arall, wrth gwrs, yw bod angen i'n Llywodraeth ni, Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau Ewrop gydweithio i edrych ar argyfwng dur y byd, oherwydd mae'n ymddangos i mi, mae'n rhaid imi ddweud, nad yw San Steffan wedi gwneud rhyw lawer. Dywedasoch yn gynharach, Weinidog, ac rwy'n gwybod y bu Nia Griffith a minnau yn Nhrostre bedair blynedd yn ôl, yn siarad am y broblem gydag ynni. Roedd Dr Carol Bell ar y radio yr wythnos hon, a dywedodd hi fod cynhyrchwyr Prydain yn talu 5c yn fwy y cilowat awr na'r cyfartaledd Ewropeaidd. Wel, beth mae Llywodraeth Prydain yn ei wneud am hynny, felly? Mae ganddynt yr ardollau gwyrdd ar ddiwydiannau ynni-ddwys ac nid ydynt wedi eu newid. Mae'n ymddangos i mi bod rhaid i Lywodraeth Prydain wneud newidiadau i'r ffordd y maent yn edrych ar gefnogi'r diwydiant dur. Os edrychwn ar y mesurau gwrth-gystadleuol, os edrychwn ar ynni—ni ellir gadael hyn i ni yma yng Nghaerdydd yn unig; mae'n rhaid iddo fod yn ehangach na hynny.

15:43

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, obviously, Trostre is also part of this particular equation. Trostre has already been adversely affected and will be by the closure of Metalbox Crown Packaging, because that was a major customer. I took the opportunity of visiting Trostre, as I did Llanwern, before Christmas, so there are issues within Trostre that we've also got to look at as part of the wider empire of Tata.

Wel, yn amlwg, mae Trostre hefyd yn rhan o'r hafaliad penodol hwn. Mae Trostre eisoes wedi teimlo effaith andwyol a bydd yn teimlo un arall wrth i Metalbox Crown Packaging gau, oherwydd roedd hwnnw'n gwsmer mawr. Achubais ar y cyfle i ymweld â Throstre, fel Llanwern, cyn y Nadolig, felly mae materion o fewn Trostre y mae'n rhaid inni edrych arnynt hefyd yn rhan o ymerodraeth ehangach Tata.

But I think one of the important points you made was about the supply chain, which we have to protect across the piece, in Welsh terms. Also, the other point you made was about R&D. One of the areas where we do support Tata, and will continue to support, is in R&D, because the R&D is actually crucial to what's going on for the development of new products, new things we can do, and that relationship with further and higher education, I think, is fundamentally important. That is one area where we work very well with Tata, and we'll continue to support them.

Ond rwy'n meddwl mai un o'r pwyntiau pwysig a wnaethoch oedd yr un am y gadwyn gyflenwi; mae'n rhaid inni ddiogelu'r gadwyn gyflenwi ym mhob ffordd y gallwn yng Nghymru. Hefyd, roedd y pwynt arall a wnaethoch yn ymwneud ag ymchwil a datblygu. Un o'r meysydd lle'r ydym yn cefnogi Tata, ac y byddwn yn parhau i'w gefnogi, yw ymchwil a datblygu, oherwydd mae'r ymchwil a datblygu mewn gwirionedd yn hanfodol i'r hyn sy'n digwydd ar gyfer datblygu cynnyrch newydd, pethau newydd y gallwn eu gwneud, ac mae'r berthynas honno ag addysg bellach ac uwch, rwy'n meddwl, yn sylfaenol bwysig. Mae hwnnw'n un maes lle'r ydym yn gweithio'n dda iawn gyda Tata, a byddwn yn parhau i'w gefnogi.

In terms of Llanelli, I knew, once Llanwern was mentioned in the context of having an enterprise zone, that, somewhere along the line, Llanelli would come up. That is always the issue about enterprise zones: what you do that is best. So, I've indicated where my thought process is at the moment and, obviously, I will look at other opportunities and how I can enhance and do things as a result of what's happening within Tata.

O ran Llanelli, roeddwn yn gwybod, cyn gynted ag y cafodd Llanwern ei grybwyll yng nghyd-destun cael ardal fenter, y byddai Llanelli, ar ryw bryd, yn cael ei grybwyll. Mae hynny bob amser yn wir am ardaloedd menter: yr hyn yr ydych yn ei wneud orau. Felly, rwyf wedi nodi lle mae fy mhroses o feddwl ar hyn o bryd ac, yn amlwg, byddaf yn edrych ar gyfleoedd eraill a sut y gallaf wella a gwneud pethau o ganlyniad i'r hyn sy'n digwydd o fewn Tata.

But you are right: there's a crisis in world steel, and I don't think we've woken up. I think it was a real knock when Scunthorpe came on that really went to the heart, in the UK, of what was going on in terms of steel. We are all close to communities with steel, and it's something I think we've seen and we've known. In all fairness, Members across the Chamber have raised their concerns about the whole industry and what's been going on for years. We've all seen it. Slowly, we've been worried; you've heard rumours about this and that that was going on. I think we've always comforted ourselves that, as large-scale investment had gone in, there wouldn't be a problem. But of course, as the pound has gone up, as all these issues have occurred, and as there's been more dumping, we've seen the problems that are really coming to a head. I do think it's right that you raise the point that we've got to look at this as a world crisis in steel, a European crisis in steel, and how we are going to deal with it. You can't have first-world nations that don't have steel manufacturing. What happens then to manufacturing in general if we don't have steel?

Ond rydych yn iawn: mae'n argyfwng dur i'r byd, ac nid wyf yn meddwl ein bod wedi deffro. Rwy'n credu y bu'n ergyd wirioneddol pan ddaeth y newyddion am Scunthorpe a aeth wir at galon, yn y DU, yr hyn oedd yn digwydd o ran dur. Rydym i gyd yn agos at gymunedau â dur, ac mae'n rhywbeth yr wyf yn ei gredu ein bod wedi'i weld ac wedi'i adnabod. I fod yn deg, mae'r Aelodau ar draws y Siambr wedi mynegi eu pryderon am y diwydiant cyfan a'r hyn sydd wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd. Rydym i gyd wedi ei weld. Yn araf, rydym wedi bod yn poeni; rydych wedi clywed sibrydion am yr hyn a'r llall sydd wedi bod yn digwydd. Rwy'n meddwl ein bod wedi cysuro ein hunain erioed, gan fod buddsoddiad ar raddfa fawr wedi mynd i mewn, na fyddai problem. Ond wrth gwrs, gan fod y bunt wedi codi, gan fod yr holl faterion hyn wedi digwydd, a gan y bu mwy o ddympio, rydym wedi gweld y problemau'n cronni go iawn. Rwy'n meddwl ei bod yn ddigon teg eich bod yn codi'r pwynt bod yn rhaid inni edrych ar hwn fel argyfwng dur i'r byd, argyfwng dur i Ewrop, a sut yr ydym yn mynd i ymdrin ag ef. Ni allwch gael cenhedloedd byd cyntaf nad ydynt yn cynhyrchu dur. Beth sy'n digwydd wedyn i weithgynhyrchu yn gyffredinol os nad oes gennym ddur?

15:45 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement, Minister, and for the responses you've given to other Members in the Chamber, which have covered some of the questions that I wanted to ask. I share your optimism for the recovery of steel in Port Talbot particularly, but even if we get a full recovery of the steel industry, once again, we've had the exposure of the vulnerability of a community—a part of Wales whose economy and social fabric relies on one wealth provider. While there are other quite big industries on that part of the Swansea Bay seafront there, they're only a small part of building resilience into that community against major job losses at any time in the future. So, I'd like to hear, in the very small amount of time we've got left, quite where your taskforce fits into that longer-term vision of a diverse economy in the Port Talbot area; and more importantly, whether your preliminary remarks regarding an enterprise zone accommodate the possibility of working outside your sector approach to things at the moment. Because obviously we've got enterprise zones in Wales already, which are responding to the sector-based approach in Wales, but Port Talbot might need something different from what's already in the skills base. I'm only throwing the thought out there, because you're right: it's a very skilled workforce, but their particular skills at the moment may not be relevant in 20 years, even. So, it's a general question about the longer-term view on that, particularly with how conversations with the European Union might help form that vision.

Diolch am eich datganiad, Weinidog, ac am yr ymatebion yr ydych wedi eu rhoi i Aelodau eraill yn y Siambr, sydd wedi cwmpasu rhai o'r cwestiynau yr oeddwn i eisiau eu gofyn. Rwy'n rhannu eich optimistiaeth i adennill dur ym Mhort Talbot yn arbennig, ond hyd yn oed pe byddem yn adfer y diwydiant dur yn llawn, unwaith eto, rydym wedi gweld bregusrwydd cymuned yn cael ei amlygu —rhan o Gymru y mae ei heconomi a'i gwead cymdeithasol yn dibynnu ar un darparwr cyfoeth. Er bod diwydiannau eithaf mawr eraill ar y rhan honno o lan môr Bae Abertawe yn y fan honno, dim ond rhan fach ydynt o adeiladu cadernid y gymuned honno yn erbyn colli swyddi sylweddol ar unrhyw adeg yn y dyfodol. Felly, hoffwn glywed, yn yr amser byr iawn sydd ar ôl gennym, sut yn union y mae eich tasglu'n cyd-fynd â'r weledigaeth fwy hirdymor o economi amrywiol yn ardal Port Talbot; ac yn bwysicach, a yw eich sylwadau rhagarweiniol ynghylch ardal fenter yn caniatáu'r posibilrwydd o weithio y tu allan i'ch dull sectorau o wneud pethau ar hyn o bryd. Oherwydd yn amlwg mae gennym ardaloedd menter yng Nghymru eisoes, sy'n ymateb i'r dull seiliedig ar sectorau yng Nghymru, ond efallai y bydd angen rhywbeth gwahanol ym Mhort Talbot i'r hyn sydd eisoes yn y sylfaen sgiliau. Dim ond taflu'r syniad allan ydw i, oherwydd rydych yn gywir: mae'n weithlu medrus iawn, ond efallai na fydd eu sgiliau penodol ar hyn o bryd yn berthnasol ymhen 20 mlynedd, hyd yn oed. Felly, mae'n gwestiwn cyffredinol am y farn fwy hirdymor am hynny, yn enwedig o ran sut y gallai sgyrsiau gyda'r Undeb Ewropeaidd helpu i ffurfio'r weledigaeth honno.

15:47 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I say that you actually make a very good point, because we need diversity and resilience in what industries we bring into an area? The trouble is, there has been a reliance on some big industries in Wales—it was coal and is now steel—because of history. It's very interesting when you see what's happened in terms of Newport, Newport Unlimited and the work that was done by Simon Gibson about how they've looked at different types of industries coming in and different skills bases. I will be asking, in the long term, the taskforce to look at diversity and resilience issues, to look at the skills that are available within the area, how those skills are being enhanced to attract other types of industries in, and then what financial mechanisms you need in place to attract those other industries in. We also need to remember that, in the Swansea bay region, which includes Port Talbot, we have been very successful in getting creative in and also looking at information and communications technology. I think we'll get more of an emphasis on the financial services sector jobs as well, because we're getting a lot into Cardiff, we've had some diversity in Swansea and we're doing more. So, you're absolutely right; that group will have to eventually consider how we do that. Julie's skills group will actually have to consider how they do that in terms of what we're offering. I think this will be a long-term discussion. It can't be too long-term, but I think you are right; we've got to change the basis of the Welsh economy, as the world changes, to ensure that we have the diversity of people wanting to come in and the skills to get them in.

A gaf i ddweud eich bod mewn gwirionedd yn gwneud pwynt da iawn, oherwydd mae angen amrywiaeth a chydnerthedd arnom yn y diwydiannau yr ydym yn eu cyflwyno i ardal? Y drafferth yw, y bu dibyniaeth ar rai diwydiannau mawr yng Nghymru—glo o'r blaen, a nawr dur—oherwydd hanes. Mae'n ddiddorol iawn pan eich bod yn gweld yr hyn sydd wedi digwydd yng Nghasnewydd, Newport Unlimited a'r gwaith a wnaethpwyd gan Simon Gibson am sut y maent wedi edrych ar wahanol fathau o ddiwydiannau'n dod i mewn a gwahanol gronfeydd sgiliau. Byddaf yn gofyn, yn yr hirdymor, i'r tasglu edrych ar faterion amrywiaeth a chydnerthedd, edrych ar y sgiliau sydd ar gael o fewn yr ardal, sut y mae'r sgiliau hynny'n cael eu gwella i ddenu mathau eraill o ddiwydiannau i mewn, ac yna pa fecanweithiau ariannol sydd eu hangen arnoch i ddenu'r diwydiannau eraill hynny i mewn. Mae angen inni gofio hefyd, yn rhanbarth bae Abertawe, sy'n cynnwys Port Talbot, ein bod wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth fod yn greadigol a hefyd wrth edrych ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Rwy'n meddwl y bydd gennym fwy o bwyslais ar y swyddi yn y sector gwasanaethau ariannol hefyd, oherwydd rydym yn cael llawer i mewn i Gaerdydd, rydym wedi cael rhywfaint o amrywiaeth yn Abertawe ac rydym yn gwneud mwy. Felly, rydych yn llygad eich lle; bydd yn rhaid i'r grŵp ystyried yn y pen draw sut yr ydym yn gwneud hynny. Bydd yn rhaid i grŵp sgiliau Julie ystyried o ddifrif sut y mae'n gwneud hynny o ran yr hyn yr ydym yn ei gynnig. Rwy'n meddwl y bydd hon yn drafodaeth hirdymor. Ni all fod yn rhy hirdymor, ond rwy'n meddwl eich bod yn iawn; mae'n rhaid inni newid sail economi Cymru, wrth i'r byd newid, er mwyn sicrhau bod gennym amrywiaeth o bobl sydd eisiau dod i mewn a bod gennym y sgiliau i ddod â hwy i mewn.

15:48 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. My thoughts, of course, are with my many constituents and all who are affected by this news. It is a real blow, of course, to them all and, indeed, to Neath Port Talbot and the wider economy. Unfortunately, I'm worried that the same global economic forces that have led to this announcement could bring further misfortune to my constituency. I'm told by my constituents working in the scrap steel and scrap metal business that scrap prices are also at a catastrophic low. As we know, this section of the steel industry not only affords substantial employment but also plays a part in protecting our environment. Minister, we know how much you have done and are doing to support the manufacture of steel in Wales. Is there anything that the Welsh Government can do to support the scrap metal industry with its links to the steel industry?

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Mae fy meddyliau, wrth gwrs, gyda fy llawer o'm hetholwyr a phawb y mae'r newyddion hyn wedi effeithio arnynt. Mae'n ergyd wirioneddol, wrth gwrs, i bob un ohonynt ac, yn wir, i Gastell-nedd Port Talbot a'r economi ehangach. Yn anffodus, rwy'n poeni y gallai'r un grymoedd economaidd byd-eang sydd wedi arwain at y cyhoeddiad hwn ddod ag anffawd bellach i fy etholaeth. Mae fy etholwyr sy'n gweithio yn y busnes dur sgrap a metel sgrap yn dweud wrthyf fod prisiau sgrap hefyd yn drychinebus o isel. Fel y gwyddom, mae'r adran hon o'r diwydiant dur, yn ogystal â rhoi cyflogaeth sylweddol, hefyd yn chwarae rhan wrth ddiogelu ein hamgylchedd. Weinidog, rydym yn gwybod faint yr ydych wedi'i wneud ac yr ydych yn ei wneud i gefnogi cynhyrchu dur yng Nghymru. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi'r diwydiant metel sgrap gyda'i gysylltiadau â'r diwydiant dur?

15:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank Gwenda Thomas for raising a very new point in terms of the discussion in the Chamber today? It is obviously an issue that I will discuss with my officials. It might be possible, perhaps, for me, at official level, to get a group together to discuss the problems, because I am well aware of the rock-bottom prices that are being paid and the impact that they're having on their businesses. I don't think they're the only business to be impacted upon by the changes that are going on within Tata Steel, and I think we'll have to individually look at sectors and align sectors about what further work we can do with them.

Hoffwn ddiolch i Gwenda Thomas am godi pwynt newydd iawn o ran y drafodaeth yn y Siambr heddiw. Mae'n amlwg yn fater y byddaf yn ei drafod â'm swyddogion. Efallai y byddai'n bosibl i mi, ar lefel swyddogol, gael grŵp at ei gilydd i drafod y problemau, oherwydd rwy'n ymwybodol iawn o'r prisiau isel iawn sy'n cael eu talu a'r effaith y maent yn ei chael ar eu busnesau. Nid wyf yn meddwl mai dyma'r unig fusnes sy'n teimlo effaith y newidiadau sy'n digwydd o fewn Tata Steel, ac rwy'n meddwl y bydd yn rhaid inni edrych yn unigol ar sectorau a sicrhau bod sectorau yn gydnaws â'i gilydd o ran pa waith pellach y gallwn ei wneud gyda nhw.

15:50 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n credu ei bod yn bwysig inni gofnodi bod colli swyddi—yn Nhrostre, ie, ond yn bennaf ym Margam—yn golygu effaith ar y gorllewin yn gyffredinol. Mae nifer fawr o weithwyr yn byw i'r gorllewin i'r Llwchwr ac yn teithio i Bort Talbot i weithio. Byddai colli swyddi pellach yn andwyol iawn i ddiwydiant ac i'r economi yn gyffredinol y tu fewn i ddinas-ranbarth bae Abertawe. Yn y cyd-destun hwnnw, roeddwn yn gweld nad oeddech chi, o leiaf, wedi cau eich wyneb yn llwyr yn erbyn y syniad bod gan y Llywodraeth rôl i'w chwarae ar y cyd â Tata. Gadewch inni fod yn glir: dim ond un gwleidydd sydd wedi cynnig gwladoli'r diwydiant dur, gyda chost o £1 biliwn, yn ynysoedd Prydain, a'ch arweinydd chi, Jeremy Corbyn, yw hwnnw. Yr hyn y mae Plaid Cymru yn ei awgrymu, a'r hyn yr ydym am i chi edrych arno, fel Gweinidog, yw ffordd o gydweithio gyda'r cwmni ar bethau sy'n gyffredin i ni. Mae 'plant' ynni yn bosibiliad. A yw'n bosibl edrych eto ar y pwll glo, er bod hwnnw wedi cael ei roi i'r neilltu am resymau cost yn y gorffennol? Mae pob un ohonom yn y Siambr hon yn cofio'r Prif Weinidog yn dod yn ôl o Mumbai gyda'r addewid o fuddsoddiad o £800 i mewn i Tata. Rwy'n gwybod bod peth o'r arian hwnnw wedi'i fuddsoddi i gadw'r ffwrneisi ac ati. Ond, gan fod y penderfyniad a wnaed yr wythnos hon yn benderfyniad a fydd yn effeithio ar y prif gwmni yn ôl yn India, i ddangos iddyn nhw bod camau'n cael eu cymryd yng Nghymru i gadw Port Talbot yn llwyddiannus, a yw'n briodol i chi neu i'r Prif Weinidog ystyried mynd yn ôl i India, i Tata, i Mumbai, cyn y cyfarfod y mis nesaf, i ddweud wrthyn nhw am bob cam yr ydych chi'n eu cymryd fan hyn i sicrhau'r diwydiant, fel ein bod ni'n gallu dangos, o leiaf, bod Llywodraeth Cymru'n gwneud popeth o fewn ei gallu i ddiogelu swyddi yma, ond yn fwy pwysig na hynny—fel mae nifer wedi dweud—diogelu dur ar gyfer yr economi fodern?

I do think it's important that we put on record that job losses—in Trostre, yes, but mainly in Margam—do have an impact on west Wales in general. There are a number of people working to the west of the Loughor who come in and work in Port Talbot. Further job losses would be very detrimental to industry and the economy more generally within the Swansea bay city region. In that context, I noted that you haven't actually turned your face against the possibility of the Government having a role to play jointly with Tata. Let's be clear: there's only politician that's proposed the nationalisation of the British steel industry at a cost of £1 billion, and that's your leader, Jeremy Corbyn. What Plaid Cymru is suggesting, and what we want you to consider as a Minister, is some sort of joint venture with the company on things that we have in common. An energy plant is a possibility. Would it be possible to look at the coal reserves, although that has been put to one side because of cost issues in the past? Each of us in this Chamber will recall the First Minister returning from Mumbai with a pledge of an £800 million investment in Tata. I know that some of that has been invested to keep the furnaces working and so on. However, as the decision taken this week is a decision that will impact on the headquarters in India, to show them that steps are being taken in Wales to keep Port Talbot competitive, is it appropriate for you or the First Minister now to return to India, to speak to Tata in Mumbai prior to next month's meeting, to tell them everything that you are doing to ensure a future for the industry, so that we can at least demonstrate that the Welsh Government is doing everything within its ability to safeguard these jobs, but more importantly—as many have said—to safeguard steel production for a modern economy?

15:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I assure the Member that everything that he's indicating about Mumbai at the highest level, et cetera, is of course being considered? We do have an excellent relationship with the company at that level, and there will be no stone unturned, as I indicated to Rhun ap Iorwerth, about any dealings that we have with the company about the future, to ensure the continuing production of steel in Port Talbot. You are right to raise the wider point. There is a big travel-to-work issue with some of the plants, where they come from, in terms of west Wales and further to the east of Port Talbot—about how people come in to work. It's important to recognise that that will, of course, directly impact on firms that work with Tata that are further west, et cetera. It is very important that we look at the supply chain issues and the knock-on effect into other businesses, as Gwenda Thomas has illustrated, and others. Can I say, in terms of—. Thank you very much for the way you clarified the point about joint ventures with Tata. On the face of it, it seemed like working with a giant corporation taking a stake would have cost billions. If you are talking about individual ventures, we are happy to work with Tata on ventures like that, as we've done historically, and look at parts that we can help with and assist, because they are also to our advantage in terms of the work that we can undertake. Certainly, there's an open-book policy with regard to what you said in the clarification of the point.

A gaf i sicrhau'r Aelod bod popeth y mae'n ei nodi am Mumbai ar y lefel uchaf, ac ati, wrth gwrs yn cael ei ystyried? Mae gennym berthynas ardderchog â'r cwmni ar y lefel honno, ac ni fydd unrhyw garreg heb ei throi, fel y dywedais wrth Rhun ap Iorwerth, ynghylch unrhyw drafodion a gawn â'r cwmni am y dyfodol, i sicrhau bod cynhyrchu dur yn parhau ym Mhort Talbot. Rydych yn gywir i godi'r pwynt ehangach. Mae problem fawr â theithio i'r gwaith yn rhai o'r gweithfeydd, o ble maent yn dod, o ran y gorllewin ac ymhellach i'r dwyrain o Bort Talbot—am sut y mae pobl yn teithio i'r gwaith. Mae'n bwysig cydnabod y bydd hynny, wrth gwrs, yn effeithio'n uniongyrchol ar gwmnïau sy'n gweithio gyda Tata sydd ymhellach i'r gorllewin, ac ati. Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar y materion cadwyn gyflenwi a'r sgil-effaith ar fusnesau eraill, fel y mae Gwenda Thomas wedi'i dangos, ac eraill. A gaf i ddweud, o ran—. Diolch yn fawr am y ffordd yr ydych wedi egluro'r pwynt ynghylch mentrau ar y cyd gyda Tata. Ar yr olwg gyntaf, roedd yn ymddangos y byddai gweithio gyda chorfforaeth fawr a chymryd budd wedi costio biliynau. Os ydych yn sôn am fentrau unigol, rydym yn hapus i weithio gyda Tata ar fentrau felly, fel yr ydym wedi'i wneud yn hanesyddol, ac edrych ar fannau lle gallwn helpu a chynorthwyo, oherwydd mae hynny hefyd o fantais i ni o ran y gwaith y gallwn ei wneud. Yn sicr, mae'n bolisi llyfr agored o ran yr hyn a ddywedasoch wrth egluro'r pwynt.

15:53 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If I could put a personal interest on the record, my brother works in the steel industry. Minister, many of us, of course, who represent constituencies that have seen steel closures in the past recognise, understand and see every day the impact that those closures have had on the community and the local economy. Clearly, representing Ebbw Vale, we are all too aware of the impact of these decisions on the people we serve and represent. Many people in Blaenau Gwent continue to work in the steel industry—they will travel to Llanwern, will travel to Port Talbot, and will work locally and elsewhere. The instability in the industry is something that affects those people and their families and communities—but also, our economy as a whole. I think one of the great disappointments over the last few months and recent weeks is that we've seen a very real comparison between an activist Government here in Cardiff, where yourself, the First Minister and other Ministers have proactively taken decisions and sought to support the industry, and a Government in London that sits back and allows closures to take place, allows people to be made redundant, and sees no future for manufacturing or an industrial policy in our wider economy. That is something that I think all of us will regret. Minister, can you ensure that we continue to make representations to the European Commission and to the United Kingdom Government to ensure that all steps are taken in order to provide support for the industry today, tomorrow and over the coming weeks to enable the industry to come through this period, but also to ensure that we have a fair market for products and a fair market for our goods? One of the issues that was raised with me by Caparo some years ago was the issue of dumping. In that case it was from Turkey, and we're all aware of the issues from China. In an international, globalised market, it is absolutely essential that our industries are able to compete on a level playing field, and it is through our international alliances, through our membership of the European Union, through the potential strength of the United Kingdom Government, that we're able to achieve this. I think it's absolutely essential we use—and you have used already—the influence that we do have, and the powers that we do have, to ensure that fair access to market.

Os caf roi diddordeb personol ar y cofnod, mae fy mrawd yn gweithio yn y diwydiant dur. Weinidog, mae llawer ohonom, wrth gwrs, sy'n cynrychioli etholaethau sydd wedi gweld cau gweithfeydd dur yn y gorffennol yn cydnabod, yn deall ac yn gweld bob dydd yr effaith y mae cau'r gweithfeydd wedi ei chael ar y gymuned a'r economi leol. Yn amlwg, wrth gynrychioli Glynebwy, rydym yn ymwybodol iawn o effaith y penderfyniadau hyn ar y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu ac yn eu cynrychioli. Mae llawer o bobl ym Mlaenau Gwent yn dal i weithio yn y diwydiant dur—byddant yn teithio i Lanwern, yn teithio i Bort Talbot, ac yn gweithio'n lleol ac mewn mannau eraill. Mae'r ansefydlogrwydd yn y diwydiant yn rhywbeth sy'n effeithio ar y bobl hynny a'u teuluoedd a'u cymunedau—ond hefyd, ar ein heconomi yn ei chyfanrwydd. Rwy'n meddwl mai un o'r siomedigaethau mawr dros y misoedd diwethaf a'r wythnosau diwethaf yw ein bod wedi gweld cymhariaeth wirioneddol rhwng Llywodraeth o actifyddion yma yng Nghaerdydd, lle'r ydych chi, y Prif Weinidog a Gweinidogion eraill wedi gwneud penderfyniadau rhagweithiol ac wedi ceisio cefnogi'r diwydiant, a Llywodraeth yn Llundain sy'n eistedd yn ôl ac yn caniatáu i weithfeydd gau, yn eu caniatáu i ddiswyddo pobl, ac nad yw'n gweld unrhyw ddyfodol i weithgynhyrchu na pholisi diwydiannol yn ein heconomi ehangach. Mae hynny'n rhywbeth y credaf y bydd pob un ohonom yn edifar amdano. Weinidog, a allwch chi sicrhau ein bod yn parhau i gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn Ewropeaidd ac i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod pob cam yn cael ei gymryd er mwyn rhoi cymorth i'r diwydiant heddiw, yfory ac yn ystod yr wythnosau nesaf i alluogi'r diwydiant i ddod drwy'r cyfnod hwn, ond hefyd i sicrhau bod gennym farchnad deg ar gyfer cynnyrch a marchnad deg ar gyfer ein nwyddau? Un o'r materion a godwyd gyda mi gan Caparo rai blynyddoedd yn ôl oedd mater dympio. Yn yr achos hwnnw roedd yn dod o Dwrci, ac rydym i gyd yn ymwybodol o'r materion o Tsieina. Mewn marchnad ryngwladol, fyd-eang, mae'n gwbl hanfodol bod ein diwydiannau'n gallu cystadlu yn deg, a'n cynghreiriau rhyngwladol, ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, cryfder posibl Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n ein galluogi i gyflawni hyn. Rwy'n credu ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn defnyddio—ac rydych wedi ei ddefnyddio eisoes—y dylanwad sydd gennym, a'r pwerau sydd gennym, i sicrhau'r mynediad teg hwnnw i'r farchnad.

15:55 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I say I don't disagree with a word that you said on this particular issue? I think particularly about increasing our efforts, and all our efforts, regarding the European Commission and the UK Government, because that's all that everybody's asking for—an even playing field. That's the important thing to recognise, because we've got the skills in the workforce, we've got the ability of companies to make the best products, and we need to recognise we can compete as long as we don't have our hands tied behind our back. I think that is a fundamental issue.

A gaf i ddweud nad wyf yn anghytuno â gair a ddywedasoch am y mater penodol hwn? Rwy'n meddwl yn benodol am gynyddu ein hymdrechion, a'n hymdrechion i gyd, ynghylch y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU, oherwydd dyna'r cyfan y mae pawb yn gofyn amdano—tegwch i bawb. Dyna'r peth pwysig i'w gydnabod, oherwydd mae gennym y sgiliau yn y gweithlu, mae gennym allu cwmnïau i wneud y cynhyrchion gorau, ac mae angen inni gydnabod y gallwn gystadlu cyn belled nad yw ein dwylo wedi'u clymu y tu ôl i'n cefn. Rwy'n meddwl bod hynny'n fater sylfaenol.

I think it's important for us to recognise in a Welsh context that we are a Government and these are our people. That's what makes us want to fight in Wales for our people and our jobs and our industry, because we feel it's part of our existence. When you mentioned Ebbw Vale, I could remember the day it was announced in Ebbw Vale—all the streets of south Wales and everywhere couldn't believe that in Ebbw Vale the steel plant was closing. Nobody could believe it, because it was something that everybody knew about, everybody understood, and every child for a generation knew it was there. I think we feel the same now about what's happening here. So, our duty is really to put our sad thoughts to the side and get on and do some work to see if we can protect the industry for the future.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod yng nghyd-destun Cymru ein bod ni'n Llywodraeth ac mai'r rhain yw ein pobl. Dyna beth sy'n ein gwneud yn awyddus i frwydro yng Nghymru dros ein pobl a'n swyddi a'n diwydiant, oherwydd rydym yn teimlo ei fod yn rhan o'n bodolaeth. Pan soniasoch am Lynebwy, gallwn gofio'r diwrnod y cafodd ei gyhoeddi yng Nglynebwy—holl strydoedd de Cymru a phobman yn methu credu bod y gwaith dur yng Nglynebwy yn cau. Ni allai neb gredu'r peth, oherwydd roedd yn rhywbeth yr oedd pawb yn gwybod amdano, yr oedd pawb yn ei ddeall, ac yr oedd pob plentyn ers cenhedlaeth yn gwybod ei fod yno. Rwy'n meddwl ein bod yn teimlo yr un fath yn awr am yr hyn sy'n digwydd yma. Felly, a dweud y gwir, ein dyletswydd ni yw rhoi ein meddyliau trist o'r neilltu a bwrw ymlaen a gwneud rhywfaint o waith i weld a allwn amddiffyn y diwydiant ar gyfer y dyfodol.

15:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And finally, Mark Isherwood.

Ac yn olaf, Mark Isherwood.

15:57 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

At the start of my building society career we took over Shotton Steel—John Summers Building Society—and that was the beginning of my association with that plant. I welcome your reference to Shotton in your statement. Can you please provide assurance—and I know that you will—that there has been no suggestion in the announcement of job losses there, notwithstanding your mention in your statement?

Ar ddechrau fy ngyrfa mewn cymdeithas adeiladu, fe wnaethom gymryd drosodd Shotton Steel—John Summers Building Society—a dyna ddechrau fy nghysylltiad â'r gwaith dur hwnnw. Rwy'n croesawu eich cyfeiriad at Shotton yn eich datganiad. A allwch chi roi sicrwydd—ac rwy'n gwybod y gwnewch—na fu unrhyw awgrym yn y cyhoeddiad am golledion swyddi yno, er ichi sôn amdano yn eich datganiad?

Last March, I supported and spoke in an individual Member's debate on the steel industry in Wales, noting the economic contribution of the industry, the jobs it supports, regretting the overseas imports flooding the market, which created an uneven playing field, and calling for the Welsh Government to adopt the charter for British sustainable steel, which will see all Government procurement of carbon steel rebar meeting the BSE 6001 responsible sourcing standard.

Fis Mawrth diwethaf, bûm yn cefnogi ac yn siarad mewn dadl Aelod unigol am y diwydiant dur yng Nghymru, gan nodi cyfraniad economaidd y diwydiant, y swyddi y mae'n eu cefnogi, gresynu am y mewnforion tramor a oedd yn boddi'r farchnad, ac yn creu annhegwch, a galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu siarter dur cynaliadwy Prydain, a fydd yn mynnu bod yr holl rebar dur carbon y mae'r Llywodraeth yn ei gaffael yn bodloni'r safon cyrchu cyfrifol BSE 6001.

Your statement says you're supportive of the principles of the British sustainable steel charter and that you're reviewing the model contract for major transport projects to ensure the standard is considered. But that's somewhat short of adoption, although that motion was passed without any opposition. Therefore, what action is the Welsh Government taking to adopt that charter? Or can you share with us any legal or other barriers that might prevent full adoption at a devolved level?

Mae eich datganiad yn dweud eich bod yn gefnogol i egwyddorion siarter dur cynaliadwy Prydain a'ch bod yn adolygu'r contract enghreifftiol ar gyfer prosiectau trafnidiaeth mawr i sicrhau bod y safon yn cael ei hystyried. Ond mae hynny braidd yn brin o fabwysiadu, er bod y cynnig hwnnw wedi'i basio heb ddim gwrthwynebiad. Felly, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fabwysiadu'r siarter hwnnw? Ynteu a allwch chi rannu â ni unrhyw rwystrau cyfreithiol neu eraill a allai eich atal rhag ei fabwysiadu'n llawn ar lefel ddatganoledig?

Secondly and finally, the UK business Secretary called for the EU talks on the steel industry crisis held last November, which led to commitments to speed up the European Commission's work on unfair trade practices and to ensure the effectiveness of state-aid rules. However, the EU council and European Commission failed to grasp the urgent need for measures to better protect steel producers from the dumping of cheap steel. Following that summit in November, what direct communication has the Welsh Government had with the European Commission regarding that specific concern, voiced by many at the time, in the industry and the unions?

Yn ail ac yn olaf, ysgrifennydd busnes y DU a alwodd am drafodaethau'r UE am argyfwng y diwydiant dur a gynhaliwyd fis Tachwedd diwethaf, ac arweiniodd hynny at ymrwymiadau i gyflymu gwaith y Comisiwn Ewropeaidd ar arferion masnachu annheg ac i sicrhau bod rheolau cymorth gwladwriaethol yn effeithiol. Fodd bynnag, methodd cyngor yr UE a'r Comisiwn Ewropeaidd â deall yr angen dybryd am fesurau i amddiffyn cynhyrchwyr dur yn well rhag dympio dur rhad. Ar ôl yr uwchgynhadledd honno ym mis Tachwedd, pa gyfathrebu uniongyrchol sydd wedi digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y pryder penodol hwnnw, a leisiwyd gan lawer ar y pryd, yn y diwydiant a'r undebau?

15:59 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say that our officials have been actively engaged in all those workstreams, which include that resulting from the summit with the UK Government? We know what representations are being made in Europe. But I think we need to redouble our efforts by using our Brussels office, et cetera, within Europe, to start having more and more discussions out there. We are doing that currently, but we need to have more.

A gaf i ddweud bod ein swyddogion wedi ymwneud yn weithredol â'r holl ffrydiau gwaith hynny, sy'n cynnwys y rhai sy'n deillio o'r uwchgynhadledd gyda Llywodraeth y DU? Rydym yn gwybod pa sylwadau sy'n cael eu gwneud yn Ewrop. Ond rwy'n meddwl bod angen inni gynyddu ein hymdrechion drwy ddefnyddio ein swyddfa ym Mrwsel, ac ati, o fewn Ewrop, i ddechrau cael mwy a mwy o drafodaethau allan yno. Rydym yn gwneud hynny ar hyn o bryd, ond mae angen mwy arnom.

With regard to the charter, there was an issue that Jane Hutt looked at. We've got it in its reality, but you're asking about that commitment, and I will have to check what reason was given why we couldn't do it, because I recall there was something. The reality of what we've done is included in our procurement policy the reality of the charter.

O ran y siarter, roedd yn fater yr edrychodd Jane Hutt arno. Mae hwnnw gennym yn ei realiti, ond rydych yn holi am yr ymrwymiad hwnnw, a bydd yn rhaid imi wirio pa reswm a roddwyd pam na allem wneud hynny; achos rwy'n cofio bod yna rywbeth. Mae realiti'r hyn yr ydym wedi'i wneud wedi'i gynnwys yn ein polisi caffael realiti'r siarter.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*

15:59

## 4. Datganiad: Y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys

## 4. Statement: Emergency Medical Retrieval and Transfer Service

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 4 is a statement by the Deputy Minister for Health on the emergency medical retrieval and transfer service. Vaughan Gething.

Eitem 4 yw datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd ar y gwasanaeth adalw a throsglwyddo meddygol brys. Vaughan Gething.

15:59 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Last week, I highlighted the excellent work by staff across the NHS in Wales and social services to manage winter pressures in the first week of January—traditionally the busiest time of year. The NHS coped well with the surge in demand from people seeking help with injuries and serious medical conditions.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yr wythnos diwethaf, tynnais sylw at y gwaith gwych gan aelodau staff ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru, a'r gwasanaethau cymdeithasol, i reoli pwysau'r gaeaf yn wythnos gyntaf mis Ionawr—amser prysuraf y flwyddyn yn draddodiadol. Ymdopodd y GIG yn dda gyda'r cynnydd yn y galw gan bobl yn chwilio am gymorth gydag anafiadau a chyflyrau meddygol difrifol.

People who have suffered life-threatening injuries or are critically ill need fast emergency care at the scene to improve their chances of survival and recovery to enable them to return to their normal life. We call this pre-hospital care. International research has shown that if critically ill or injured patients receive advanced resuscitation close to the time of an incident or accident, they have an improved chance of survival and better long-term outcomes. Our beautiful and unique Welsh landscape can make providing pre-hospital care challenging, especially in remote parts of our country. Clinicians do not have the immediate support of a fully equipped hospital when they are responding to an emergency; they work in poor weather and difficult terrain; they liaise with other emergency services and with family members or the public who have witnessed an accident.

Mae pobl sydd wedi dioddef anafiadau lle mae eu bywydau yn y fantol neu sy'n ddifrifol wael angen gofal brys yn gyflym yn y fan a'r lle er mwyn gwella eu cyfleodd o oroesi a gwella er mwyn eu galluogi i fynd yn ôl i'w bywyd arferol. Gelwir hyn yn ofal cyn mynd i'r ysbyty. Mae ymchwil rhyngwladol wedi dangos os bydd cleifion sy'n ddifrifol wael neu wedi'u hanafu'n ddrwg yn derbyn triniaeth dadebru uwch yn agos i adeg y digwyddiad neu ddamwain, bydd ganddynt well cyfle o oroesi yn ogystal â chanlyniadau gwell yn y tymor hir. Mae ein tirwedd brydferth ac unigryw yng Nghymru yn gallu gwneud darparu gofal cyn mynd i'r ysbyty yn heriol, yn enwedig yn y rhannau anghysbell o'n gwlad. Nid oes gan glinigwyr y gefnogaeth uniongyrchol o ysbyty llawn offer pan fyddant yn ymateb i argyfwng; maent yn gweithio mewn tywydd gwael ac ar dirwedd anodd; maent yn cysylltu â gwasanaethau brys eraill a gydag aelodau o'r teulu neu'r cyhoedd sydd wedi bod yn dyst i ddamwain.

The innovative emergency medical retrieval and transfer service Cymru, more commonly known as Wales's flying doctor service, was launched last year by the First Minister. It is the first national service of its kind in the world and is a unique collaboration between NHS Wales and the Wales Air Ambulance charity. Doctors work alongside paramedics on the Wales air ambulance helicopters and in a fleet of 4x4 rapid-response vehicles. The Welsh Government is providing almost £5 million this year for the service.

Lansiwyd gwasanaeth adalw meddygol a throsglwyddo brys arloesol Cymru, a adnabyddir yn fwy cyffredin fel gwasanaeth meddyg awyr Cymru, gan y Prif Weinidog y llynedd. Dyma'r gwasanaeth cenedlaethol cyntaf o'i fath yn y byd ac mae'n destun cydweithio unigryw rhwng y GIG yng Nghymru ac elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Mae meddygon yn gweithio ochr yn ochr â pharafeddygon ar yr hofrenyddion ambiwlans awyr Cymru ac mewn fflyd o gerbydau 4x4 ymateb cyflym. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu bron i £5 miliwn ar gyfer y gwasanaeth eleni.

Ninety-five per cent of the Welsh population is now covered by doctor-led, pre-hospital emergency care within 30 minutes by air. The rapid response vehicles can reach almost half of the Welsh population by road. It is estimated the service contributes to at least a 40 per cent improvement in survival rates from major trauma and reduces transfer times to specialist hospital care by more than 40 per cent. This service was conceived by Welsh clinicians and draws on evidence from the best of leading civilian and military medical practice. The service has a high profile in the community and rescues have featured in the news, local press and on a network television series. It has generated significant interest from as far afield as the United States and New Zealand.

Mae naw deg pump y cant o boblogaeth Cymru bellach yn gallu cael gwasanaeth gofal brys cyn mynd i'r ysbyty o fewn 30 munud drwy ambiwlans awyr. Gall y cerbydau ymateb cyflym gyrraedd bron i hanner poblogaeth Cymru ar y ffordd. Amcangyfrifir bod y gwasanaeth yn cyfrannu at o leiaf 40 y cant o welliant mewn cyfraddau goroesi yn dilyn trawma mawr ac mae'n lleihau amseroedd trosglwyddo i ofal ysbyty arbenigol gan fwy na 40 y cant. Lluniwyd y gwasanaeth hwn gan glinigwyr yng Nghymru ac mae'n tynnu ar dystiolaeth o arfer meddygol gorau yn y meysydd sifil a milwrol blaenllaw. Mae gan y gwasanaeth broffil uchel yn y gymuned ac mae'r gwaith achub wedi ymddangos yn y newyddion, y wasg leol ac ar gyfres deledu rhwydwaith. Mae wedi creu cryn ddiddordeb o leoedd mor bell â'r Unol Daleithiau a Seland Newydd.

Since its launch, Wales's flying doctor service has played an increasingly important role in medical retrieval, especially in cases where access to hospital care by more traditional land transport is difficult, time-consuming or dangerous for the patient. In its first year, so far, it has attended 634 calls—the majority with the Wales air ambulance. It has pioneered the use of blood and clotting products at the scene of an accident, the use of the latest diagnostic equipment, including portable blood-testing devices and ultrasound scanners, as well as an advanced incubator system, which controls the temperature and oxygen levels of seriously ill babies. It has also introduced an innovative bridge system, which is a mechanism attached to the patient's stretcher that allows portable medical equipment to be mounted around the patient, making the most efficient use of space while in transit.

Ers ei lansio, mae gwasanaeth meddyg awyr Cymru wedi chwarae rhan gynyddol bwysig mewn adalw meddygol, yn enwedig mewn achosion lle y mae cael gafael ar ofal ysbyty ar gludiant tir mwy traddodiadol yn anodd, yn cymryd llawer o amser neu'n beryglus i'r claf. Yn ei flwyddyn gyntaf, hyd yn hyn, mae wedi ymateb i 634 o alwadau—y rhan fwyaf gydag ambiwlans awyr Cymru. Mae wedi arloesi y defnydd o waed a chynhyrchion ceulo yn safle'r ddamwain, y defnydd o'r offer diagnostig diweddaraf, gan gynnwys dyfeisiau profi gwaed cludadwy a sganwyr uwchsain, yn ogystal â system deorydd uwch, sy'n rheoli tymheredd a lefelau ocsigen babanod sy'n difrifol wael. Mae hefyd wedi cyflwyno system pont arloesol, sef mecanwaith a roddir ar wely cludo'r claf sy'n caniatáu gosod offer meddygol symudol o amgylch y claf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithlon o le wrth deithio.

The flying doctor service is, of course, about more than doctors. It brings together highly skilled critical care clinicians to provide very ill and sick people with life-saving care before they reach hospital. It provides opportunities for consultants in emergency medicine, anaesthetics and intensive care to develop their skills in a pre-hospital and transfer setting, and is helping to boost recruitment to emergency medicine posts in Wales. I'm going to highlight three examples of the care provided by Wales's flying doctor service.

Mae'r gwasanaeth meddyg awyr, wrth gwrs, yn ymwneud â mwy na meddygon. Mae'n dwyn ynghyd clinigwyr gofal critigol tra medrus i ddarparu gofal sy'n achub bywyd i bobl sy'n wael iawn ac yn sâl cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty. Mae'n darparu cyfleoedd i ymgynghorwyr mewn meddygaeth frys, anestheteg a gofal dwys i ddatblygu eu sgiliau mewn sefyllfa cyn mynd i'r ysbyty a throsglwyddo, ac mae'n helpu i roi hwb i recriwtio i swyddi meddygaeth frys yng Nghymru. Rwyf yn mynd i dynnu sylw at dair enghraifft o'r gofal a ddarperir gan wasanaeth meddyg awyr Cymru.

In the first, an 11-year-old boy suffered serious head injuries when he fell from a bike in a road accident in Denbighshire. Doctors on board the air ambulance provided him with an emergency anaesthetic before he was transferred directly to Alder Hey hospital in Liverpool for specialist care. He has since been discharged home and is recovering well.

Yn gyntaf, dioddefodd bachgen 11 mlwydd oed anafiadau difrifol i'w ben pan syrthiodd oddi ar feic mewn damwain ffordd yn Sir Ddinbych. Rhoddodd meddygon ar yr ambiwlans awyr anesthetig brys iddo cyn iddo gael ei drosglwyddo yn uniongyrchol i Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl ar gyfer gofal arbenigol. Ers hynny mae wedi ei ryddhau i fynd adref ac mae'n gwella'n dda.

In the second example, flying doctors were called to the scene of a road accident in Monmouthshire after a young woman collided with a tree and became trapped in her car. When the emergency services reached the scene, she was suspended by her seatbelt and crushed by the steering wheel. She was released by the fire and rescue service but was in a life-threatening condition. She was unconscious with a serious head injury, liver laceration and collapsed lung. The new flying doctor team provided an emergency blood and plasma transfusion at the scene and an emergency anaesthetic and surgery at the scene to treat the punctured lung. She was flown to University Hospital of Wales and she received specialist care. She has now made a full recovery and is back at work.

Yn yr ail enghraifft, cafodd meddygon awyr eu galw i leoliad damwain ffordd yn Sir Fynwy ar ôl i ferch ifanc gael gwrthdarawiad â choeden a methu â dod allan o'i char. Pan gyrhaeddodd y gwasanaethau brys, roedd hi'n hongian wrth ei gwregys diogelwch ac wedi ei mathru gan lyw y car. Cafodd ei rhyddhau gan y gwasanaeth tân ac achub, ond roedd hi mewn cyflwr lle'r oedd ei bywyd yn y fantol. Roedd hi'n anymwybodol gydag anaf difrifol i'w phen, rhwygiad i'r iau a'i hysgyfaint wedi ei ddatchwyddo. Darparodd y tîm meddygon awyr newydd drallwysiad gwaed a phlasma brys yn y fan a'r lle ac anesthetig brys a llawfeddygaeth yn ogystal i drin y twll yn yr ysgyfaint. Cafodd ei chludo yn yr awyr i Ysbyty Athrofaol Cymru a derbynodd ofal arbenigol. Mae hi bellach wedi gwella'n gyfan gwbl ac mae hi wedi dychwelyd i'w gwaith.

In the third example, of a baby born prematurely at home in Rhondda Cynon Taf, a flying doctor attended the scene by air within 30 minutes. On arrival, they provided advanced support and intervention, with the south-Wales neonatal retrieval service. The baby was taken straight to the neonatal intensive care unit at the Royal Gwent Hospital and the baby is now doing well. In all of these cases, the new flying doctor crew made a significant difference by delivering medical interventions that were not possible before the start of the service. This included emergency anaesthetics, blood product transfusions, as well as complex surgical procedures. They identified the appropriate specialist treatment required and transported the patient to the most appropriate specialist care provider. This saved crucial time and avoided secondary transfers that would have delayed the provision of care and placed the patient at increased risk.

Yn y drydedd enghraifft, sef baban a anwyd yn rhy gynnar yn ei gartref yn Rhondda Cynon Taf, cyrhaeddodd meddyg awyr yno o fewn 30 munud. Ar ôl cyrraedd, rhoddwyd cymorth ac ymyrraeth uwch gan y meddyg, gyda gwasanaeth adalw newyddenedigol de Cymru. Cafodd y baban ei gludo yn syth i'r uned gofal dwys newyddenedigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac mae'r baban bellach yn gwneud yn dda. Ym mhob un o'r achosion hyn, gwnaeth y criw meddyg awyr newydd wahaniaeth sylweddol drwy gyflawni ymyriadau meddygol nad oedd yn bosibl cyn i'r gwasanaeth dechrau. Roedd hyn yn cynnwys anestheteg brys, trallwysiadau cynnyrch gwaed, yn ogystal â thriniaethau llawfeddygol cymhleth. Nodwyd y driniaeth arbenigol briodol oedd ei hangen ganddynt a throsglwydwyd y claf at y darparwr gofal arbenigol mwyaf priodol. Arbedodd hyn amser hollbwysig gan osgoi trosglwyddiadau eilradd a fyddai wedi oedi darparu gofal a rhoi'r claf mewn mwy o berygl.

The flying doctor service is only one part of the pre-hospital care story. The majority of pre-hospital care in Wales is provided, of course, by the Wales ambulance service. Over the last 12 months, the Welsh Government has been working closely with NHS Wales and the Welsh Ambulance Services NHS Trust to transform ambulance services into a modern and clinically led service. At the heart of this transformation has been the launch of the 12-month pilot of the new clinical response model. The purpose of the new model is to ensure that patients get the right response and the most appropriate care for their condition, whether that is an emergency ambulance or telephone advice about how to manage their illness or ailment. In the second month of the pilot, the Welsh ambulance service responded to 70.8 per cent of red calls within eight minutes. The first set of detailed ambulance quality indicators will be published later this month.

Rhan yn unig o'r o'r stori gofal cyn mynd i'r ysbyty yw'r gwasanaeth meddyg awyr. Mae'r rhan fwyaf o ofal cyn mynd i'r ysbyty yng Nghymru yn cael ei ddarparu, wrth gwrs, gan wasanaeth ambiwlans Cymru. Dros y 12 mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â GIG Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i weddnewid gwasanaethau ambiwlans yn wasanaeth modern a arweinir yn glinigol. Wrth wraidd y gweddnewid hwn roedd lansiad cynllun prawf 12 mis y model ymateb clinigol newydd. Diben y model newydd yw sicrhau bod cleifion yn cael yr ymateb cywir a'r gofal mwyaf priodol ar gyfer eu cyflwr, boed hynny'n ambiwlans brys neu gyngor dros y ffôn am sut i reoli eu salwch neu afiechyd. Yn ail fis y cynllun arbrofol, ymatebodd y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru i 70.8 y cant o alwadau coch o fewn wyth munud. Bydd y gyfres gyntaf o ddangosyddion ansawdd ambiwlans manwl yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn.

I also announced last week wide-ranging plans to modernise non-emergency patient transport services, including enhanced services for cancer and kidney dialysis patients. These plans, which will be phased in from March, will deliver significant benefits for patients and NHS Wales.

Cyhoeddais hefyd yr wythnos diwethaf gynlluniau eang i foderneiddio gwasanaethau cludo cleifion nad ydynt yn achosion brys, gan gynnwys gwasanaethau gwell i gleifion canser a dialysis yr arennau. Bydd y cynlluniau hyn, a gyflwynir yn raddol o fis Mawrth ymlaen, yn sicrhau manteision sylweddol i gleifion ac i GIG Cymru.

Our prudent healthcare agenda is unambiguously focused on improving outcomes, and innovation is at the heart of our approach. Our ambition is to provide seamless care from the roadside to the bedside and through the recovery and rehabilitation journey of each patient. We remain focused on delivering effective care and improving patient outcomes, ensuring people get the right care at the right time, from the right service and the right clinician.

Mae ein hagenda gofal iechyd darbodus yn canolbwyntio yn ddiamwys ar wella canlyniadau, ac mae arloesi wrth wraidd ein dull o weithredu. Ein huchelgais yw darparu gofal di-dor o ochr y ffordd i erchwyn y gwely a thrwy daith adfer ac adsefydlu pob claf. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gofal effeithiol a gwella canlyniadau cleifion, gan sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir, gan y gwasanaeth cywir a'r clinigydd cywir.

I look forward to seeing Wales's flying doctor service develop, expand and improve. It is part of the ongoing transformation of ambulance services to a modern and responsive clinical service. We will continue to be led by the best clinical evidence and advice, and our citizens will see the benefits of the changes that we have made as more lives are saved here in Wales.

Edrychaf ymlaen at weld gwasanaeth meddyg awyr Cymru yn datblygu, yn ehangu ac yn gwella. Mae'n rhan o'r gweddnewid parhaus o wasanaethau ambiwlans i wasanaeth clinigol modern ac ymatebol. Byddwn yn parhau i gael ein harwain gan y dystiolaeth a'r cyngor clinigol gorau, a bydd ein dinasyddion yn gweld manteision y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud wrth i fwy o fywydau gael eu hachub yma yng Nghymru.

16:07

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for the statement. If there's one tremendous innovation in the ambulance service, it is the development of the flying doctor service across Wales, and it's certainly something that my party supports. You'll be aware, Minister, that my party has also been calling for extra investment in the Wales air ambulance service in order that it can expand its fleet of helicopters so that we can allow more people to benefit from these sorts of services in the future, and I do hope that the Welsh Government will consider those requests as things move forward and as people continue to see the benefits that you've described today.

Diolch, Weinidog, am y datganiad. Os oes un arloesedd aruthrol yn y gwasanaeth ambiwlans datblygu'r gwasanaeth meddyg awyr ledled Cymru yw hwnnw, ac mae'n sicr yn rhywbeth y mae fy mhlaid yn ei gefnogi. Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, fod fy mhlaid wedi bod yn galw am fuddsoddiad ychwanegol yng ngwasanaeth ambiwlans awyr Cymru er mwyn iddo allu ehangu ei fflyd o hofrenyddion fel y gallwn ganiatáu i fwy o bobl elwa ar y mathau hyn o wasanaethau yn y dyfodol, ac rwyf yn mawr obeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ceisiadau hynny wrth i bethau symud ymlaen ac wrth i bobl barhau i weld y buddion a ddisgrifiwyd gennych chi heddiw.

You've made mention of the fact that this particular innovation is helping to attract new recruits into the emergency services. Of course, that is wonderful, but this is a very small element of the recruitment picture across the whole of Wales. As we heard earlier on, in the First Minister's question time, these are at odds with the findings of the Royal College of Emergency Medicine, which is expressing a great deal of concern about recruitment in some of our emergency departments. But I don't want to take away from the fact that, yes, of course, when we provide exciting opportunities for people to engage in the NHS in these sorts of ways, then it will attract new blood, fresh blood and enthusiastic people to want to get involved in these sorts of cutting-edge services.

Rydych chi wedi sôn am y ffaith fod yr arloesedd penodol hwn yn helpu i ddenu recriwtiaid newydd i'r gwasanaethau brys. Wrth gwrs, mae hynny'n wych, ond dim ond elfen fach iawn o'r darlun recriwtio ar draws Cymru gyfan yw hyn. Fel y clywsom yn gynharach, yn ystod y sesiwn cwestiynau i'r Prif Weinidog, mae hyn yn mynd yn groes i ganfyddiadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, sydd yn mynegi cryn dipyn o bryder am recriwtio mewn rhai o'n hadrannau achosion brys. Ond nid wyf yn dymuno dilorni dim ar y ffaith y byddwn, wrth gwrs, pan ein bod yn cynnig cyfleoedd cyffrous i bobl i gymryd rhan yn y GIG yn y mathau hyn o ffyrdd, y bydd hynny'n denu gwaed newydd, gwaed ffres a phobl frwdfrydig a fydd yn awyddus i gymryd rhan yn y mathau hyn o wasanaethau arloesol.

I was very interested to hear you make reference to the fact that this service had been developed using military experience and expertise as well, and I wonder to what extent the Welsh Government is continuing to work with the armed forces to look at whether there may be scope for further collaboration in the future in the development of new service models. We know that, certainly, some of the acute and emergency medicine that has been available in the field in places like Afghanistan has been something that has been absolutely tremendous in terms of the trauma care that's been delivered, and I wonder whether there may be some lessons also from those sorts of experiences that might be learned by the national health service.

Roedd yn ddiddorol iawn eich clywed yn cyfeirio at y ffaith bod y gwasanaeth hwn wedi ei ddatblygu gan ddefnyddio profiad ac arbenigedd milwrol hefyd, ac rwyf yn meddwl tybed i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r lluoedd arfog i edrych ar ba un a allai fod posibilrwydd o gydweithio ymhellach yn y dyfodol wrth ddatblygu modelau gwasanaeth newydd. Gwyddom, yn sicr, bod rhai o'r feddygaeth acíwt ac achosion brys sydd wedi bod ar gael yn y maes mewn lleoedd megis Affganistan wedi bod yn rhywbeth hynod wych o ran y gofal trawma sydd wedi'i ddarparu, ac rwyf yn meddwl tybed a allai fod rhai gwersi hefyd o'r mathau hynny o brofiadau y gallai'r gwasanaeth iechyd gwladol fod yn dysgu oddi wrthynt.

You referred more widely, of course, in your statement, quite rightly, to some of the other transformations that are taking place within the Welsh ambulance service, and one of those things has been to shift to a different clinical performance indicator model, something that I've been quite upfront about welcoming, actually, for quite some time, provided that we can still have some benchmarks to compare with other parts of the UK. But we also know that there are still lots of problems in the Welsh ambulance service. The Health and Social Care Committee, of course, has been taking some evidence on some of the improvements that have been made, but there are still some shortcomings in things like consistency of handover arrangements, some of the impact on the workforce of some of the changes and the impact that that's having on some the morale of some staff. And we also know, of course, that there are some recruitment challenges within the service, particularly in some parts of the country where there is no paramedic training that can be done in those regions. And I know that this is something that I've discussed with the health Minister in the past and that he's keen to address. Perhaps you can provide us with an update on paramedic training in Wales, and whether there will be the opportunity for people from north Wales to train, for example, in that region, so that they can stay and work in that region whilst they are taking part in that training.

Cyfeiriasoch yn ehangach, wrth gwrs, yn eich datganiad, yn gwbl briodol, at rai o'r gweddnewidiadau eraill sy'n digwydd o fewn gwasanaeth ambiwlans Cymru, ac un o'r pethau hynny fu'r newid i fodel dangosydd perfformiad clinigol gwahanol, rhywbeth yr wyf wedi bod yn eithaf cefnogol o ran ei groesawu, mewn gwirionedd, ers peth amser, ar yr amod ein bod yn gallu parhau i gael rhai meincnodau er mwyn cymharu â rhannau eraill o'r DU. Ond rydym hefyd yn gwybod bod llawer o broblemau yn dal i fodoli yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wrth gwrs, wedi bod yn cymryd rhywfaint o dystiolaeth ar rai o'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud, ond mae rhai diffygion yn parhau o ran pethau fel cysondeb trefniadau trosglwyddo, rhai o'r effeithiau ar y gweithlu oherwydd rhai o'r newidiadau a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar ysbryd rhai aelodau staff. Ac rydym hefyd yn gwybod, wrth gwrs, bod rhai heriau recriwtio o fewn y gwasanaeth, yn enwedig mewn rhai rhannau o'r wlad lle nad oes hyfforddiant parafeddygol y gellir ei wneud yn y rhanbarthau hynny. A gwn fod hyn yn rhywbeth yr wyf wedi ei drafod gyda'r Gweinidog iechyd yn y gorffennol a'i fod ef yn awyddus i fynd i'r afael â' hynny. Efallai y gallwch chi roi diweddariad ar hyfforddiant parafeddygol yng Nghymru, ac os fydd cyfle i bobl o'r gogledd i dderbyn hyfforddiant, er enghraifft, yn y rhanbarth hwnnw, fel y gallant aros a gweithio yn y rhanbarth hwnnw tra eu bod yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwnnw.

I wonder also whether you could provide us with a little bit of an update—we did have a written statement on some of the non-clinical transport services from you last week. Again, some of that I very much welcome. I know that there was a commitment some two and a half years ago, or back in July 2013, about the need to disaggregate the non-emergency transport arrangements from the Welsh ambulance service, but that's not happening nearly quickly enough. And I wonder, Minister, whether you can provide us with an update on the timeline by which you hope that those services will be completely disaggregated from the emergency service.

Tybed hefyd a allech chi roi rhywfaint o ddiweddariad—cawsom ddatganiad ysgrifenedig gennych ar rai o'r gwasanaethau cludiant nad ydynt yn rhai clinigol yr wythnos diwethaf. Unwaith eto, rwyf yn croesawu rhywfaint o hynny yn fawr iawn. Gwn y bu ymrwymiad tua dwy flynedd a hanner yn ôl, neu yn ôl ym mis Gorffennaf 2013, ynglŷn â'r angen i ddadgyfuno'r trefniadau cludiant nad ydynt yn rhai brys gan wasanaeth ambiwlans Cymru, ond nid yw hynny'n digwydd yn ddigon cyflym. A tybed, Weinidog, a allwch chi roi diweddariad ar yr amserlen o ran erbyn pryd yr ydych yn gobeithio y bydd y gwasanaethau hynny wedi'u dadgyfuno'n llwyr odddi wrth y gwasanaeth brys.

Just finally, it's been a long time since we've had any update whatsoever on the health courier services that the Welsh ambulance service deliver. I know that this was something which was touched upon in the McClelland review, and these are very vital and important services, very often taking not just stuff like mail and laundry around the Welsh NHS estate, but also important medical records, important drugs, blood on occasions, and indeed some of the waste that's produced by our hospitals and clinicians. And I wonder whether you could provide us with an update on that as to whether that is something that the Welsh ambulance service is still going to completely own, or whether there's been consideration of other providers perhaps taking on that particular role. Thank you.

Ac yn olaf, mae cryn amser wedi mynd heibio ers i ni gael unrhyw ddiweddariad o gwbl ar y gwasanaethau cludwr iechyd y mae gwasanaeth ambiwlans Cymru yn eu darparu. Gwn fod hyn yn rhywbeth a gafodd ei grybwyll yn adolygiad McClelland, ac mae'r rhain yn wasanaethau hanfodol a phwysig iawn, sydd yn aml iawn yn cymryd nid yn unig pethau fel post a dillad glân o amgylch ystad y GIG yng Nghymru, ond hefyd cofnodion meddygol pwysig, cyffuriau pwysig, gwaed ar adegau, ac yn wir ychydig o'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan ein hysbytai a'n clinigwyr. Ac rwyf yn meddwl tybed a allech chi roi diweddariad ar hynny o ran a yw hynny'n rhywbeth y mae gwasanaeth ambiwlans Cymru yn mynd i fod yn berchen cyfan gwbl arno, neu a yw darparwyr eraill efallai wedi eu hystyried i ymgymrryd â'r swyddogaeth benodol honno. Diolch.

16:13 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the series of questions. I'll start by recognising and welcoming what you have to say about the service overall—being a positive innovation and a step forward. It's as a result of a very good and effective working relationship with the Wales Air Ambulance, and I had a very constructive meeting with the head of the charity just before the new year break.

Diolch i chi am y gyfres o gwestiynau. Rwyf am ddechrau drwy gydnabod a chroesawu yr hyn sydd gennych i'w ddweud am y gwasanaeth yn gyffredinol—ei fod yn arloesedd cadarnhaol ac yn gam ymlaen. Mae hyn o ganlyniad i berthynas waith dda iawn ac effeithiol gydag Ambiwlans Awyr Cymru, a chefais gyfarfod adeiladol iawn gyda phennaeth yr elusen ychydig cyn toriad y flwyddyn newydd.

I take your point on recruitment. This service is a material factor for a number of staff who have come to Wales who would not have otherwise considered working in Wales. So, it is a matter of some significance. Some of the sites, Bangor in particular, have had a real benefit. It's a very effective team there already, and they've certainly gained from the new service being introduced. So, I'm very pleased to see that, not just for emergency medicine consultants but a whole range of other people who are opting into this service because it will help the standard service, as well as this particular form of it.

Derbyniaf eich pwynt ar recriwtio. Mae'r gwasanaeth hwn yn ffactor perthnasol ar gyfer nifer o aelodau staff sydd wedi dod i Gymru na fyddent wedi ystyried gweithio yng Nghymru fel arall. Felly, mae'n fater eithaf pwysig. Mae rhai o'r safleoedd, Bangor yn arbennig, wedi elwa'n helaeth. Mae'r tîm sydd yno yn effeithiol iawn eisoes, ac maent yn sicr wedi elwa yn dilyn cyflwyno'r gwasanaeth newydd. Felly, rwyf yn falch iawn o weld hynny, nid yn unig o ran ymgynghorwyr meddygaeth frys ond o ran ystod eang o bobl eraill sy'n dewis y gwasanaeth hwn gan y bydd yn helpu'r gwasanaeth safonol, yn ogystal â'r math arbennig hwn ohono.

I'll deal with the courier service. We've already made a range of measures to improve the way that the courier service is organised. I visited a range of people from Velindre NHS Trust and they showed me the work they're already doing and how the courier service has been made more effective and is more uniquely organised in Wales.

Rwyf am ymdrin â'r gwasanaeth cludwr. Crëwyd amrywiaeth o fesurau gennym i wella'r ffordd y mae'r gwasanaeth cludwr yn cael ei drefnu. Ymwelais ag ystod o bobl o Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac fe wnaethant hwy ddangos y gwaith y maent yn ei wneud eisoes i mi a sut y mae'r gwasanaeth cludwr wedi ei wneud yn fwy effeithiol ac wedi ei drefnu mewn modd mwy unigryw yng Nghymru.

On non-emergency patient transport, I attended a launch event last week. I issued a written statement last week. What I think is particularly impressive about this is the complexity of the organisation in the service between the Welsh ambulance trust and the work they will do on a properly separate reorganised business unit within the ambulance trust. That's got the support of the workforce, which is particularly important; it's got buy-in from local authorities and buy-in from the third sector, so St John Ambulance, the Red Cross and community patient transport. They're all very positive about the new organisation, and the fact that they all signed up to the way that it's now configured. There are real opportunities to improve that service over the coming months. In my written statement, I set out that this would start from March and that we'd see a range of new services in place by September this year, with a whole full suite of expanded services by September 2017. So, there will be steps; patients will start to notice a difference. In fact, I met this morning with a group of renal dialysis patients and people from the ambulance trust and the renal clinical network, and they're particularly positive and they welcome the new service that we're introducing and they're interested in how that patient voice will be part of understanding whether the service is delivering the improvements that we all expect it to in the future.

O ran cludiant cleifion nad yw'n gludiant brys, bûm mewn digwyddiad lansio yr wythnos diwethaf. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf. Yr hyn yr wyf yn ei ystyried yn arbennig o nodedig am hyn yw cymhlethdod y sefydliad o ran y gwasanaeth rhwng ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru a'r gwaith y bydd yn ei wneud ar uned fusnes wedi'i hadrefnu sydd yn briodol ar wahân o fewn yr ymddiriedolaeth ambiwlans. Mae'r gweithlu yn cefnogi hynny, sy'n arbennig o bwysig; ceir ymrwymiad iddo gan awdurdodau lleol ac ymrwymiad gan y trydydd sector, felly hefyd Ambiwlans Sant Ioan, y Groes Goch a chludiant cleifion cymunedol. Maen nhw i gyd yn gadarnhaol iawn am y sefydliad newydd, a'r ffaith bod pob un ohonynt wedi cytuno â'r ffordd y mae bellach wedi ei drefnu. Mae cyfleoedd gwirioneddol i wella'r gwasanaeth hwnnw dros y misoedd nesaf. Yn fy natganiad ysgrifenedig, nodais y byddai hyn yn dechrau o fis Mawrth ac y byddem yn gweld amrywiaeth o wasanaethau newydd ar waith erbyn mis Medi eleni, a chyfres lawn o wasanaethau estynedig erbyn mis Medi 2017. Felly, fe fydd camau; bydd cleifion yn dechrau sylwi ar wahaniaeth. A dweud y gwir, cyfarfûm y bore yma gyda grŵp o gleifion dialysis arennol a phobl o'r ymddiriedolaeth ambiwlans a'r rhwydwaith clinigol arennol, ac maen nhw'n arbennig o gadarnhaol ac yn croesawu'r gwasanaeth newydd yr ydym yn ei gyflwyno ac mae ganddynt ddiddordeb yn y modd y bydd llais y claf yn rhan o ddeall a yw'r gwasanaeth yn cyflawni'r gwelliannau yr ydym i gyd yn disgwyl iddo eu cyflawni yn y dyfodol.

On your point about training opportunities for paramedics, we will always want to look at how we can positively and proactively support training opportunities right across Wales, including in the north. I visited a number of trainees in Swansea before Christmas who were particularly keen on staying in Wales after their training because of the new clinical model, because they recognise that it makes sense for the patient and that it's a more effective way to work. They want to see more people come to Wales and stay in Wales—people from England, from Ireland, as well as within Wales who are really proud of the changes that we're making and a whole staff cohort that is buying in to doing that.

O ran eich pwynt ynglŷn â chyfleoedd hyfforddiant ar gyfer parafeddygon, byddwn bob amser yn awyddus i edrych ar sut y gallwn ni gefnogi cyfleoedd hyfforddiant yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol ledled Cymru gyfan, gan gynnwys y gogledd. Ymwelais â nifer o hyfforddeion yn Abertawe cyn y Nadolig a oedd yn arbennig o awyddus i aros yng Nghymru ar ôl eu hyfforddiant oherwydd y model clinigol newydd, gan eu bod yn cydnabod ei fod yn gwneud synnwyr i'r claf ac yn ffordd fwy effeithiol o weithio. Maent yn dymuno gweld mwy o bobl yn dod i Gymru ac yn aros yng Nghymru—pobl o Loegr, o Iwerddon, yn ogystal ag oddi mewn i Gymru sydd yn wirioneddol falch o'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud a'r garfan staff gyfan sydd yn ymrwymo i wneud hynny .

On handover, I recognise what you have to say that there are real challenges still in some parts of Wales, and it certainly occupies a range of my own time and attention. I make it clear to health boards that they have a very obvious role in improving the way that the whole service works. What I would say though is that, whilst there is still clearly much more that could and should be done to improve handover times, it's interesting to look back to compare last winter to this one. Handover times are better. There is still more to do, but the number of hours lost as a result of handover delays is still much better than last year, so that gives us some encouragement that the inconsistency that exists is something that could and should be worked at.

O ran trosglwyddo, rwyf yn cydnabod yr hyn sydd gennych i'w ddweud bod heriau gwirioneddol o hyd mewn rhai rhannau o Gymru, ac mae'n sicr yn cymryd llawer o'm hamser a'm sylw. Rwyf yn ei wneud yn glir i fyrddau iechyd bod ganddynt swyddogaeth amlwg iawn wrth wella'r ffordd y mae'r gwasanaeth cyfan yn gweithio. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud er hynny yw, er ei fod yn dal i fod yn amlwg bod llawer mwy y gellid ac y dylid ei wneud i wella amseroedd trosglwyddo, mae'n ddiddorol edrych yn ôl i gymharu'r gaeaf diwethaf â gaeaf eleni. Mae amseroedd trosglwyddo yn well. Mae llawer mwy i'w wneud o hyd, ond mae nifer yr oriau a gollwyd o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo cleifion yn dal i fod yn llawer gwell na'r llynedd, felly mae hynny'n calonogi rhywfaint arnom bod yr anghysondeb sy'n bodoli yn rhywbeth y gellid ac y dylid gweithio arno.

Finally, dealing with your point about military medicine and how it's actually transferred into the service. You make a point about Afghanistan. In fact, we're taking on board lessons learnt from Afghanistan in the new service. The example I gave about blood clotting and blood products is directly transferred in from military practice. There's lots of significant learning from Iraq and Afghanistan in particular, and it's helping to improve the civilian service. We are the first country in the UK and across the world to have this service, and this is very much part of the unique and innovative way forward that is already helping to save lives here in Wales.

Yn olaf, o ran eich pwynt am feddygaeth filwrol a sut y mae'n cael ei throsglwyddo i'r gwasanaeth mewn gwirionedd. Rydych yn gwneud pwynt am Affganistan. Mewn gwirionedd, rydym yn rhoi ystyriaeth i'r gwersi a ddysgwyd o Affganistan yn y gwasanaeth newydd. Mae'r enghraifft a roddais am geulo gwaed a chynnyrch gwaed wedi ei drosglwyddo yn uniongyrchol o ymarfer milwrol. Mae llawer o ddysgu arwyddocaol o Irac ac o Affganistan yn arbennig, ac mae'n helpu i wella'r gwasanaeth sifil. Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU ac ar draws y byd i fod â'r gwasanaeth hwn, ac mae wir yn rhan bwysig o'r ffordd ymlaen unigryw ac arloesol sydd eisoes yn helpu i achub bywydau yma yng Nghymru.

16:17 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Minister for the statement on the flying doctors today? I think it's important that we congratulate the Welsh Government when we see something like this, which is providing an excellent service to our communities. I think that perhaps it's not too often that we do that and we should do it more often when it happens. A couple of points, Deputy Minister, on this point: clearly, the number of incidents you report in your statement—625, I think you identified—. Can you actually break that down by region and provide details to us to see how that works? There is not one air ambulance; there's more than one, of course. I'd like to see how that works in different regions because it affects the model of deployment that may be used and how that model of deployment is actually working in different areas. I think it goes back to this issue of consistency. So, I would be grateful if you could provide us with that detail to see how we can then compare the work of the ambulance service as we know it on the ground to how the air ambulance is actually supplementing that work.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad am y meddygon awyr heddiw? Credaf ei fod yn bwysig ein bod yn llongyfarch Llywodraeth Cymru pan yr ydym yn gweld rhywbeth fel hyn, sydd yn darparu gwasanaeth ardderchog i'n cymunedau. Credaf efallai nad ydym yn gwneud hynny'n ddigon aml, a dylem ei wneud yn fwy aml pan fydd yn digwydd. Un neu ddau o bwyntiau, Ddirprwy Weinidog, ar y pwynt hwn: yn amlwg, mae nifer y digwyddiadau yr ydych yn eu nodi yn eich datganiad—625, rwyf yn credu a nodwyd gennych—. A allwch chi ddangos hynny mewn gwirionedd yn ôl rhanbarth a darparu manylion i ni i weld sut y mae hynny'n gweithio? Nid un ambiwlans awyr sydd; mae mwy nag un, wrth gwrs. Hoffwn weld sut y mae hynny'n gweithio mewn rhanbarthau gwahanol gan ei fod yn effeithio ar y model o leoli y gellir ei ddefnyddio a sut y mae'r model hwnnw o leoli mewn gwirionedd yn gweithio mewn gwahanol ardaloedd. Credaf ei fod yn mynd yn ôl at y mater hwn o gysondeb. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r manylion hynny i ni i weld sut y gallwn wedyn gymharu gwaith y gwasanaeth ambiwlans fel yr ydym yn ei adnabod ar lawr gwlad â sut y mae'r ambiwlans awyr yn ychwanegu mewn gwirionedd at y gwaith hwnnw.

Could you also perhaps look at the—. Again, handovers have been highlighted. I think the evidence that the committee received—. The letter's on its way to you, by the way, so you'll be receiving that very shortly. Consistency was an issue. Have you seen any issues with consistency as a consequence of the introduction of the flying doctors? Has that actually improved as a consequence? I think we need to look at the impact of that on the traditional services as well, to ensure that, as we are delivering this new, innovative—. There are 625 people who are now deemed to be better because of the service, but we want to make sure that it hasn't actually impacted upon the other service, and consistency is important there as well. So, can you provide us with those figures?

A allech chi hefyd o bosibl edrych ar y —. Unwaith eto, amlygwyd y trosglwyddiadau. Rwyf yn meddwl bod y dystiolaeth a dderbyniodd y pwyllgor—. Mae'r llythyr ar ei ffordd i chi, gyda llaw, felly byddwch yn derbyn hwnnw yn fuan iawn. Roedd cysondeb yn broblem. A ydych chi wedi gweld unrhyw faterion o ran cysondeb o ganlyniad i gyflwyno'r meddygon awyr? A yw hynny wedi gwella mewn gwirionedd o ganlyniad? Rwy'n credu bod angen inni edrych ar effaith hynny ar y gwasanaethau traddodiadol yn ogystal, er mwyn sicrhau, gan ein bod yn darparu'r gwasanaeth newydd, arloesol—. Mae 625 o bobl yr ystyrir eu bod yn well erbyn hyn oherwydd y gwasanaeth, ond rydym yn dymuno sicrhau nad yw wedi effeithio mewn gwirionedd ar y gwasanaeth arall, ac mae cysondeb yn bwysig yno hefyd. Felly, a wnewch chi roi'r ffigurau hynny i ni?

16:19 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for all the questions and in particular the congratulations. It's always nice to hear a 'well done'. We don't often hear that for Government Ministers, but I would say that the real congratulations, as I said, should go to the staff who conceived the idea and who then delivered it. It was a range of people right across the health service and the air ambulance charity who were hugely important in seeing the idea take off as one that wasn't just a good idea, but a practical one that really could be delivered. As I say, I'm really proud of the fact that, in Wales, we can really say, 'This is a world-leading service covering the whole country and really saving lives'. It's actually 634 people who have had an interaction with the new flying doctors service. I don't have to hand the regional breakdown figures, but I'll happily provide an update for Members of the regional breakdown between different sites. I think that's a fair point.

Diolch i chi am yr holl gwestiynau ac yn arbennig am y llongyfarchiadau. Mae bob amser yn braf clywed 'da iawn'. Nid ydym yn aml yn clywed hynny ar gyfer Weinidogion y Llywodraeth, ond byddwn yn dweud y dylai'r gwir longyfarchiadau, fel y dywedais, fynd i'r staff a luniodd y syniad ac a gyflawnodd ef wedyn. Roedd amrywiaeth o bobl ledled y gwasanaeth iechyd a'r elusen ambiwlans awyr a oedd yn hynod o bwysig o ran sicrhau bod y syniad yn llwyddo nid yn unig fel syniad da, ond fel un ymarferol y gellid ei gyflawni mewn gwirionedd. Fel y dywedais, rwyf yn falch iawn o'r ffaith, yng Nghymru, ein bod yn gallu dweud mewn gwirionedd, 'Mae hwn yn wasanaeth o'r radd flaenaf sy'n gwasanaethu'r wlad gyfan ac wir yn achub bywydau'. Mae 634 o bobl sydd wedi cael cysylltiad â'r gwasanaeth meddygon awyr newydd mewn gwirionedd. Nid oes rhaid i mi roi'r ffigyrau dadansoddiad rhanbarthol, ond byddaf yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau o'r dadansoddiad rhanbarthol rhwng gwahanol safleoedd. Rwyf yn credu bod hwnnw'n bwynt teg.

Obviously, as part of this, to make sure the service can be generally national, not just a population coverage, we've also invested in a range of air ambulance landing pads around different hospital sites in Wales to make sure they can accept an air ambulance arriving with a patient, if that's the appropriate place for them to arrive.

Yn amlwg, yn rhan o hyn, er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth fod yn genedlaethol yn gyffredinol, ac nid yn unig ar gyfer rhan o'r boblogaeth, rydym hefyd wedi buddsoddi mewn ystod o badiau glanio ambiwlans awyr o amgylch safleoedd gwahanol ysbytai yng Nghymru i wneud yn siŵr eu bod yn gallu derbyn ambiwlans awyr sy'n cyrraedd gyda chlaf, os mai dyna'r lle priodol iddo gyrraedd.

In terms of your point about the impact that this is having on the services, I don't think there's any evidence that the new flying doctor service is having an adverse impact on the traditional emergency ambulance service; we actually think it's making Wales a more attractive place to work for a range of people right across the healthcare system. But I would expect that any impact on the services around would be something that we could properly measure and understand when we come to the end of the 12-month pilot for the new clinical response model, in terms of whether there has been an adverse impact, and, of course, there will also be a separate evaluation of the new flying doctors service.

O ran eich pwynt am yr effaith y mae hyn yn ei chael ar y gwasanaethau, nid wyf yn credu bod unrhyw dystiolaeth bod y gwasanaeth meddyg awyr newydd yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaeth ambiwlans brys traddodiadol; rydym mewn gwirionedd yn credu ei fod yn gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i weithio ynddo i amrywiaeth o bobl ledled y system gofal iechyd. Ond byddwn yn disgwyl y byddai unrhyw effaith ar y gwasanaethau sy'n bodoli yn rhywbeth y gallem fesur yn briodol a'i ddeall pan fyddwn yn dod i ddiwedd yr arbrawf 12 mis ar gyfer y model ymateb clinigol newydd, o ran pa un a fu effaith niweidiol iawn , ac, wrth gwrs, bydd hefyd werthusiad ar wahân o'r gwasanaeth meddygon awyr newydd.

Interestingly, it's not just going to be able to understand how many people have actually taken part in or been helped by the service; we'll be able to track their outcomes. Because of the way in which we've developed the system, and the investment we're making in IT systems in particular, we'll be able to track them from the point at which they interact with the service, when they first start receiving their care, what their outcomes are in terms of their medical outcomes at the time, but also their recovery and rehabilitation. So, we'll be able to understand something about whether this really is having the improved recovery and rehabilitation outcomes we expect it to, and that will be done through a proper academic exercise and it won't be simply a Government-run exercise, where we internally look at it. So, there'll be some external advice for Members to rely upon, as well as this 12-month evaluation of the new response model for the emergency ambulance service.

Yn ddiddorol, ni fydd hyn yn golygu mai dim ond faint o bobl sydd wedi cymryd rhan neu wedi eu helpu gan y gwasanaeth mewn gwirionedd y byddwn yn ei ddeall; byddwn yn gallu olrhain eu canlyniadau hefyd. Oherwydd y ffordd y datblygwyd y system gennym, a'r buddsoddiad yr ydym yn ei wneud o ran systemau TG yn benodol, byddwn yn gallu eu holrhain o'r pwynt y maent yn cysylltu â'r gwasanaeth, pan fyddant yn dechrau derbyn eu gofal am y tro cyntaf, beth fydd eu canlyniadau o ran eu canlyniadau meddygol ar y pryd, ond hefyd eu hadferiad a'u hadsefydliad. Felly, byddwn yn gallu deall rhywbeth ynghylch pa un a yw hyn mewn gwirionedd yn cyflawni'r adferiad a'r canlyniadau adsefydlu gwell yr ydym yn eu disgwyl ganddo, a chaiff hynny ei wneud drwy ymarfer academaidd priodol ac nid yn unig ymarfer sy'n cael ei redeg gan y Llywodraeth fydd hwn, pryd yr ydym yn edrych arno yn fewnol. Felly, bydd rhywfaint o gyngor allanol i Aelodau ddibynnu arno, yn ogystal â'r gwerthusiad 12 mis o'r model ymateb newydd ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans brys.

16:21

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am y datganiad. Fel eraill, rwy'n croesawu hefyd y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflawni gan y gwasanaeth yma, a hynny bob dydd o'r wythnos a gan nifer o staff gwahanol—y rhai sy'n hedfan hofrenyddion, y doctoriaid a'r 'paramedics' sy'n gweithio i wella a thrin y cleifion hefyd. Mae'n wasanaeth, wrth gwrs, sydd yn arbennig o berthnasol a phwysig i ardaloedd gwledig, fel rwy'n eu cynrychioli.

Thank you, Deputy Minister, for the statement. Like others, I also welcome the important work that's being done by this service every day of the week, by a number of different staff—those who fly the air ambulances and the doctors and paramedics who work to treat patients. It is, of course, a very important and relevant service to rural areas such as those that I represent.

Rŷch chi wedi dweud yn eich datganiad fod yr ambiwlans awyr yn ymateb i'r mwyafrif o alwadau. Mae'r ambiwlans awyr, wrth gwrs, yn annibynnol o'r Llywodraeth ac yn gorff elusennol. Sonioch chi eich bod chi wedi cwrdd â'u cynrychiolwyr nhw jest cyn calan. Felly, yn eich cyfarfod chi, a ydych chi'n gallu cadarnhau o'r cyfarfod hwnnw fod yr ambiwlans awyr yn derbyn yr holl gefnogaeth y maen nhw'n teimlo sy'n angenrheidiol iddyn nhw fod yn ei derbyn oddi wrth y Llywodraeth, fel y gallan nhw gyflawni'r gwaith yma yn llawn, ac nad oes yna unrhyw beth arall y maen nhw wedi gofyn ichi amdano i roi i mewn i'r gwasanaeth er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau posib?

You said in your statement that the air ambulance responds to the majority of calls. The air ambulance, of course, is independent of the Government and is a charitable body. You mentioned that you'd met their representatives just before the new year. So, in the light of that meeting, can you confirm that the air ambulance receives all of the support that they feel is required from Government so that they can fulfil their roles to the fullest extent, and that there is nothing else that they have asked you for in relation to providing the best possible service that has not been forthcoming?

O feddwl am y camau nesaf i'r gwasanaeth yma, a meddwl efallai hefyd am y gwaith isadeiledd, o bosib, sydd angen ei ddatblygu yn rhai o'r ysbytai sydd yn derbyn cleifion a lle mae'r hofrenyddion yn glanio, a oes gennych chi raglen o waith cyfalaf er mwyn sicrhau, ar gyfer y broses yna o hedfan a derbyn cleifion i mewn i ysbytai arbenigol, fod yr isadeiledd ar ei wedd fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cyrraedd yr ysbyty yn y lleiafswm o amser?

In thinking about the next steps for this service, and thinking perhaps about the infrastructure that needs to be developed in some hospitals that receive patients, and where these helicopters land, do you have a programme of capital work to ensure, for the process of landing at hospitals and transferring patients to specialist hospitals, that the infrastructure is as effective as it can be in order to ensure that patients reach hospital in the briefest possible time?

Mae'r mater o gapasiti yn y sector 'paramedic' wedi cael ei godi sawl gwaith eisoes, yn dilyn y gwaith mae'r pwyllgor iechyd wedi'i wneud yn ddiweddar gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans a'r gwasanaeth ambiwlans. O ran hyfforddi 'paramedics' i'r dyfodol, fe ofynnodd Darren Millar y cwestiwn i chi ynglŷn â sicrhau bod hyfforddiant yn digwydd yn y mannau hynny sydd yn gallu denu'r nifer mwyaf o 'paramedics' o wahanol gymunedau yng Nghymru, ac yn enwedig, yn meddwl am y canolbarth a'r gogledd, ateboch chi drwy sôn am Abertawe, ond wrth gwrs rwy'n siŵr bod prifysgol fel Bangor, er enghraifft, â diddordeb, hefyd, fel lleoliad ar gyfer hyfforddi 'paramedics'. Efallai y gallech chi sôn wrthym ni a oes gennych chi unrhyw drafodaethau gyda phrifysgolion eraill o ran hyrwyddo hyfforddiant 'paramedics' mewn gwahanol fannau yng Nghymru.

It's a matter of capacity in the paramedic sector, as has been raised several times already, following the work that the health committee has done recently with the ambulance trust and the ambulance service. In terms of training paramedics for the future, Darren Millar asked a question about ensuring that training does happen in those places that can attract the greatest number of paramedics from different communities in Wales, and especially thinking about mid Wales and north Wales, you responded by referring to Swansea, but I'm sure that Bangor University, for example, has an interest as a location for the training of paramedics. Perhaps you could mention whether you've had any discussions with other universities in terms of promoting the training of paramedics in different places in Wales.

Un ffactor a oedd yn ddiddorol o ran capasiti'r gwasanaeth ambiwlans yn y gwaith a wnaeth y pwyllgor yn ddiweddar, wrth gwrs, yw'r twf gweddol o syfrdanol sydd wedi bod yn y defnydd o ambiwlansys dydd-i-ddydd o'r sector preifat, o gwmnïau preifat yn enwedig. Efallai y gallech chi ddweud wrthyf am y trafodaethau rŷch chi'n eu cael gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans i weld sut maen nhw'n cynyddu eu capasiti nhw i beidio â gorfod bod yn ddibynnol ar brynu i mewn gan gwmnïau preifat. Yn sicr, yr oedden nhw o'r farn na fydden nhw eisiau gweld hynny yn 'trend' arferol iddyn nhw i fod yn gwneud hynny. Ond, wrth gwrs, mae hynny'n gofyn cwestiwn wedyn o ran faint o gapasiti a faint o arian sydd gyda nhw i fod yn datblygu'r gwasanaeth yn y sector cyhoeddus yn llawn. Ond, diolch i chi am eich datganiad y prynhawn yma.

One interesting factor in terms of ambulance service capacity, arising from the work undertaken by the committee recently, was the significant growth in the use of ambulances on a daily basis from the private sector, from private companies especially. Perhaps you could tell us about the discussions that you're having with the ambulance trust to see how they're increasing their capacity so that they don't have to be so reliant on buying in from private companies. Certainly, they were of the opinion that they wouldn't want to see that being a continuing trend for them, but that does raise the question then in terms of how much capacity and funding they have to be able to develop that service in the public sector to its fullest extent. But, thank you very much for your statement this afternoon.

16:25 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Elin Jones for the series of questions that she asks. I'll start with the final point about workforce matters, because every Member in this Chamber will know, of course, that there are UK-wide pressures and challenges for recruitment for paramedics in every part of the country. So, we're not alone in wanting to recruit and retain extra paramedic staff. How we train those staff is, of course, an important part of it, but, you know, paramedics are particularly valuable people, and they have options to go into a range of careers and not simply in emergency ambulance-based paramedicine. But we have invested extra money in the training of paramedics here in Wales, which is, of course, the right thing to do, and it is a matter of conversation that takes place with officials and WAST about whether the training centres that we have are actually delivering the numbers that we want. I'm more than happy, and for officials to do so, to engage with Bangor on the prospect of training taking place in north Wales as well.

Diolch i Elin Jones am y gyfres o gwestiynau y mae'n eu gofyn. Rwyf am ddechrau gyda'r pwynt olaf am faterion y gweithlu, gan y bydd pob Aelod yn y Siambr hon yn gwybod, wrth gwrs, y ceir pwysau a heriau ledled y DU o ran recriwtio parafeddygon ym mhob rhan o'r wlad. Felly, nid ydym ar ein pennau ein hunain o ran eisiau recriwtio a chadw staff parafeddygol ychwanegol. Mae sut yr ydym yn hyfforddi'r aelodau staff hynny, wrth gwrs, yn rhan bwysig o hyn, ond, wyddoch chi, mae parafeddygon yn bobl arbennig o werthfawr, ac mae ganddynt ddewisiadau i fynd i mewn i amrywiaeth o yrfaoedd ac nid yn unig i barafeddygaeth sy'n seiliedig ar ambiwlans brys. Ond rydym wedi buddsoddi arian ychwanegol i hyfforddi parafeddygon yma yng Nghymru, a dyna, wrth gwrs, yw'r peth iawn i'w wneud, ac mae'n fater o sgwrs sy'n digwydd rhwng swyddogion ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ynghylch a yw'r canolfannau hyfforddi sydd gennym yn darparu'r niferoedd y dymunwn eu cael. Rwy'n fwy na pharod i ymgysylltu, ac i swyddogion wneud hynny hefyd, â Bangor ar y posibilrwydd o gynnal hyfforddiant yn y gogledd hefyd.

But, what I would say on your point about private ambulances is that it's been a matter that's been raised with us by a number of people, people in the Chamber and outside, and, particularly, the trade unions. The three main trade unions have, obviously, had concerns about whether resource is being used appropriately. I can honestly say that, over the last 15 to 18 months, there has been a significant change in the way that WAST uses its resources and the way that it talks to its own workforce about how and where those resources are being used. We now have a much more even spread of resource throughout the week, and it's not an issue that was raised with me at my very recent meeting with the three trade unions about the use of private ambulances.

Ond, yr hyn y byddwn yn ei ddweud ar eich pwynt am gerbydau ambiwlans preifat yw ei fod yn fater sydd wedi ei godi gyda ni gan nifer o bobl, pobl yn y Siambr a'r tu allan, ac, yn enwedig, yr undebau llafur. Mae'r tri phrif undeb llafur, yn amlwg, wedi cael pryderon ynghylch pa un a yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol. Gallaf ddweud yn onest, dros y 15 i 18 mis diwethaf, y bu newid sylweddol yn y ffordd y mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn defnyddio ei hadnoddau a'r ffordd y mae'n siarad â'i gweithlu ei hun am sut a ble y mae'r adnoddau hynny yn cael eu defnyddio. Erbyn hyn mae gennym ledaeniad llawer mwy cyfartal o adnoddau drwy gydol yr wythnos, ac nid yw'n fater a godwyd gennyf i yn fy nghyfarfod diweddar iawn gyda'r tri undeb llafur ynglŷn â defnyddio ambiwlansys preifat.

There are still concerns about resource allocation and resource use, which you would expect in pretty much any organisation, but I think that the fact that it's not an issue that gets raised is important. I know that the ambulance services trust and the Emergency Ambulance Services Committee itself are looking at the way in which those staff resources are being used, both in terms of how effectively staff resource is being used as well as how the resource itself—the financial resource—is being deployed, whether that's in overtime, or whether that's in recruiting in private cover to cover gaps in rotas. So, it is a point that still features in discussions and one that I certainly haven't forgotten about.

Ceir pryderon o hyd ynghylch neilltuo adnoddau a defnyddio adnoddau, y byddech yn disgwyl eu gweld ym mhob sefydliad mwy neu lai, ond credaf fod y ffaith nad yw'n fater sy'n cael ei godi yn bwysig. Gwn fod yr ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans a'r Cyd-Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ei hun yn edrych ar y ffordd y mae'r adnoddau staff hynny yn cael eu defnyddio, o ran pa mor effeithiol yw'r defnydd o adnoddau staff yn ogystal â sut y mae'r adnodd ei hun—yr adnodd ariannol—yn cael ei ddefnyddio, boed hynny mewn goramser, neu wrth gyflenwi drwy ddefnyddio gweithwyr preifat i lenwi bylchau mewn rotâu. Felly, mae'n bwynt sy'n dal i fod yn rhan o drafodaethau ac mae'n un nad wyf i'n sicr wedi anghofio amdano.

I'd already announced last year a range of sites across Wales where investment is being made, on the helipads point that you asked for. I'm happy to reiterate where that is, and provide an update on where the investment has taken place and is going to take place in the future, to make sure that hospital sites across Wales, as I said to David Rees earlier, are properly equipped and able to accept the Wales Air Ambulance, and not simply in one part of the country.

Roeddwn eisoes wedi cyhoeddi ystod o safleoedd ledled Cymru y llynedd lle y gwneir buddsoddiad, ar y pwynt helipads y gofynasoch amdano. Rwyf yn hapus i ailadrodd ble y mae hynny, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ble y mae'r buddsoddiad wedi ei wneud a ble y bydd yn cael ei wneud yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod gan safleoedd ysbytai ledled Cymru, fel y dywedais wrth David Rees yn gynharach, yr adnoddau priodol a'u bod yn gallu derbyn Ambiwlans Awyr Cymru, ac nid yn unig mewn un rhan o'r wlad.

In terms of your opening point about the air ambulance charity, it was a properly constructive meeting, and, of course, part of their job is to keep on asking questions of the Government and finding new asks they wish to make. But, I don't think there was any unhappiness from the charity about the level of support that they receive in practical or financial terms. We do, of course, have to bear in mind that part of the reason why it's a partnership with the air ambulance is that they are a charity, and they want to protect their charitable status and their ability to raise funds through a variety of sources. But, we are having a number of discussions with them about developing some of their own infrastructure and how we can be practically supportive. I certainly don't have any impression from my own meeting with them that they have a lack of rigour in the relationship or indeed a lack of response. So, it's a properly constructive relationship with them, and it's really helping to deliver a groundbreaking service here in Wales.

O ran eich pwynt agoriadol am yr elusen ambiwlans awyr, roedd yn gyfarfod adeiladol iawn, ac, wrth gwrs, rhan o'u gwaith nhw yw parhau i ofyn cwestiynau i'r Llywodraeth a dod o hyd i gwestiynau newydd yr hoffent eu gofyn. Ond, nid wyf yn credu bod yr elusen yn anhapus mewn unrhyw ffordd ynghylch lefel y cymorth y mae'n ei dderbyn yn ymarferol nac yn ariannol. Mae'n rhaid inni, wrth gwrs, gofio mai rhan o'r rheswm pam mae'n bartneriaeth gyda'r ambiwlans awyr yw ei fod yn elusen, ac mae'n awyddus i ddiogelu ei statws elusennol a'i allu i godi arian trwy amrywiaeth o ffynonellau. Ond, rydym yn cynnal nifer o drafodaethau â hwy am ddatblygu peth o'u seilwaith ei hunain a sut y gallwn fod yn ymarferol gefnogol. Yn sicr, ni chefais unrhyw argraff o'm cyfarfod fy hun â nhw bod ganddynt ddiffyg trylwyredd yn y berthynas nac yn wir ddiffyg ymateb. Felly, mae'n berthynas adeiladol iawn â hwy, ac mae wir yn helpu i ddarparu gwasanaeth arloesol yma yng Nghymru.

16:29 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I thank the Minister for his statement this afternoon, and, indeed, thank all of those involved in the flying doctor programme for their service and care for the people of Wales? If I could turn to the substance of the statement, the Minister says that he has an expectation that the service is to expand and improve. I wonder if he could outline what his expectations are. When he talks about expansion, is that in terms of geographical coverage or is he talking about the interventions that may be available in the future that currently aren't available as a result of that service? So, if he could outline what he means by 'expand and improve', I would be grateful.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma, ac, yn wir, diolch i bawb o'r rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen meddyg awyr am eu gwasanaeth a'u gofal i bobl Cymru? Os caf droi at sylwedd y datganiad, mae'r Gweinidog yn dweud ei fod yn disgwyl y bydd y gwasanaeth yn ehangu ac yn gwella. Tybed a allai amlinellu beth yw ei ddisgwyliadau. Pan mae'n sôn am ehangu, a yw hynny o ran cwmpas daearyddol neu a yw'n sôn am yr ymyriadau a allai fod ar gael yn y dyfodol nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yn sgil y gwasanaeth hwnnw? Felly, pe gallai amlinellu'r hyn y mae'n ei olygu wrth 'ehangu a gwella', byddwn yn ddiolchgar.

The Minister talked about the 634 calls that were undertaken by the flying doctors. It's very difficult to know whether that's a lot or is not a lot when we have nothing to judge it by. So, is the Minister able to provide us with any details of the percentage that that represents in calls that could have been responded to by this particular service—so, what's the availability; do the 634 calls represent 100 per cent of the calls that this crew could have assisted with; is it 50 per cent—just so that we can have a better understanding of what that 634 looks like in terms of potential demand on this service?

Soniodd y Gweinidog am y 634 o alwadau a wnaed gan y meddygon awyr. Mae'n anodd iawn gwybod a yw hynny'n llawer o bobl ai peidio pan nad oes unrhyw beth gennym i farnu ynglŷn â hynny. Felly, a yw'r Gweinidog yn gallu rhoi unrhyw fanylion am y ganran mae hynny'n ei gynrychioli mewn galwadau y gallai'r gwasanaeth penodol hwn fod wedi ymateb iddynt—felly, beth sydd ar gael; a yw'r 634 o alwadau yn cynrychioli 100 y cant o'r galwadau y gallai'r criw hwn fod wedi ymateb iddynt; a yw'n 50 y cant—dim ond er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o sut y mae 634 yn ymddangos o ran y galw posibl am y gwasanaeth hwn?

Of course, when the service was established by Welsh Government, it had quite a wide remit. I understand—and it's human nature—that the more dramatic calls are the ones that the Minister has focused in on today: the ambulance swooping down on a road traffic accident or a riding accident, which I know they've responded to in my own constituency. Indeed, one evening I was even woken up with the air ambulance landing on the mountain behind my house to retrieve a mountain bike rider who had come off his mountain bike, only to watch it fly away, down to Cardiff. But obviously the service was also intended to retrieve patients from district general hospitals who needed to go to specialist centres. The service was also designed to retrieve neonatal teams to deal with very sick babies and mothers, and also to deal with paediatric retrieval. I wonder if the Minister is able to give us a split as to what actually those 634 calls represent. Is it the exciting headline-grabbing responses to accidents, or—? How many of the other services that were supposed to be attached to the new project is the ambulance using its time for?

Wrth gwrs, pan sefydlwyd y gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru, roedd ganddo gylch gwaith eithaf eang. Rwyf yn deall—a natur ddynol yw hyn—mai'r galwadau mwy dramatig y mae'r Gweinidog wedi canolbwyntio arnynt heddiw: yr ambiwlans yn cyrraedd ar frys i ddamwain ffordd neu ddamwain beicio, a gwn eu bod wedi ymateb i hynny yn fy etholaeth i fy hun. Yn wir, cefais hyd yn oed fy neffro gan yr ambiwlans awyr yn glanio ar y mynydd y tu ôl i fy nhŷ i adfer beiciwr mynydd a oedd wedi dod oddi ar ei feic mynydd, ac wedyn fe'i gwyliais yn hedfan i ffwrdd, i lawr i Gaerdydd. Ond yn amlwg y bwriad hefyd oedd y byddai'r gwasanaeth yn adalw cleifion o ysbytai cyffredinol dosbarth yr oedd angen iddynt fynd i ganolfannau arbenigol. Cynlluniwyd y gwasanaeth hefyd i adalw timau newyddenedigol i ymdrin â babanod a mamau sâl iawn, a hefyd i ymdrin ag adalw pediatrig. Tybed a yw'r Gweinidog yn gallu rhannu'r 634 o alwadau hynny i'r hyn y maent yn ei gynrychioli mewn gwirionedd. A yw'n cynrychioli'r ymateb cyffrous i ddamweiniau sydd wedi cipio'r penawdau, neu—? Faint o'r gwasanaethau eraill a oedd i fod yn gysylltiedig â'r prosiect newydd y mae'r amser ambiwlans yn cael ei ddefnyddio ar eu cyfer?

The Minister quite rightly says that it's quite early days in terms of the project, but I'd be interested to see whether any work has been undertaken to date to look at whether the service has resulted in an improvement in retrieval times, especially for those people who are looking to be retrieved from one hospital to another. Is there any evidence to show that this service is actually improving those? Because the Minister may be aware of activity on social media at the very beginning of this year, which has sparked yet another petition from the Withybush area, with almost 5,000 people signing it since the beginning of January, that reported delays in retrieving a child from Withybush hospital to another hospital for them to receive services. The parent has posted a wait of six hours in one instance, and a wait of eight hours in another instance. Obviously, those kinds of stories create considerable concern within a local area. I'm just wondering, whilst I understand why we focus on the exciting bit of this service, whether the impact on retrieving people from district general hospitals to more specialised services is also being impacted upon favourably by the introduction of this service.

Mae'r Gweinidog yn gwbl iawn i ddweud mai dyddiau eithaf cynnar yw'r rhain o ran y prosiect, ond byddai gennyf ddiddordeb mewn gweld a oes unrhyw waith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i weld a yw'r gwasanaeth wedi arwain at welliant mewn amserau adalw, yn enwedig ar gyfer y rhai a fyddai angen eu hadalw o un ysbyty i'r llall. A oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth hwn mewn gwirionedd yn gwella hynny? Gan y bydd y Gweinidog o bosib yn ymwybodol o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol ddechrau cyntaf y flwyddyn hon, sydd wedi ysgogi deiseb arall eto o ardal Llwynhelyg, gyda bron i 5,000 o bobl wedi ei harwyddo ers dechrau mis Ionawr, a adroddodd oedi wrth adalw plentyn o Ysbyty Llwynhelyg i ysbyty arall er mwyn iddo dderbyn cymorth. Mae'r rhiant wedi nodi amser aros am chwe awr mewn un achos, ac aros am wyth awr mewn achos arall. Yn amlwg, mae'r mathau hynny o straeon yn creu pryder sylweddol o fewn ardal leol. Rwyf yn meddwl, er fy mod yn deall pam yr ydym yn canolbwyntio ar rannau cyffrous y gwasanaeth hwn, tybed a yw'r effaith ar adalw pobl o ysbytai cyffredinol dosbarth i wasanaethau mwy arbenigol hefyd yn cael ei heffeithio mewn modd ffafriol drwy gyflwyno'r gwasanaeth hwn.

16:33 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Kirsty Williams for the questions, and in particular recognition for the staff who have delivered and continue to deliver this new service. I'm looking at expansion. In fact, the service expects to be able to expand progressively its operation, and that includes the range of interventions available and the hours of operation as well. I look forward to myself, or any other person in this privileged position in the future, being able to report back to Members as that service does so.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiynau, ac yn arbennig am gydnabod y staff sydd wedi darparu ac sy'n parhau i ddarparu y gwasanaeth newydd hwn. Rwyf yn edrych ar ehangu. Mewn gwirionedd, mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd yn gallu ehangu ei weithrediad yn raddol, ac mae hynny'n cynnwys yr ystod o ymyriadau sydd ar gael a'r oriau gweithredu hefyd. Edrychaf ymlaen at weld fy hun, neu unrhyw berson arall yn y sefyllfa freintiedig hon yn y dyfodol, yn gallu adrodd yn ôl i'r Aelodau wrth i'r gwasanaeth hwnnw wneud hynny.

In terms of the breakdown of the 634 cases, I'm more than happy to provide more information to Members on the breakdown of the types of interventions that have been undertaken, and, as I say, we'll get to a proper evaluation point at which there'll be a properly robust understanding of what that's done in terms of recovery, retrieval, and outcomes for those individuals. I think that that is part of this, in that to be able to properly understand what those outcomes are is one of the things that I think will make this not just a unique service to introduce, but then to see how it could and should be improved in the future. I think that is a very good place for us to be.

O ran y dadansoddiad o'r 634 o achosion, rwyf yn fwy na hapus i roi rhagor o wybodaeth i'r Aelodau ar y dadansoddiad o'r mathau o ymyriadau sydd wedi'u gwneud, ac, fel y dywedais, byddwn yn cyrraedd pwynt gwerthusiad priodol lle y bydd dealltwriaeth gadarn iawn o'r hyn sy'n cael ei wneud o ran adferiad, adalw, a chanlyniadau ar gyfer yr unigolion hynny. Rwyf yn credu bod hynny'n rhan o hyn, o ran bod gallu deall yn iawn beth yw'r canlyniadau hynny yn un o'r pethau y credaf y bydd yn gwneud hyn nid yn unig yn wasanaeth unigryw i'w gyflwyno, ond gweld wedyn sut y gallai ac y dylai gael ei wella yn y dyfodol. Credaf fod hynny'n lle da iawn i ni fod ynddo.

On your point about paediatric retrieval, there's a point here that says the normal paediatric retrieval service, where there's been a re-engineering of a service to provide a greater level of cover. In any instance where parents have a problem or a concern about how quickly that retrieval is undertaken, I would of course expect parents to be understandably concerned and want to know why that's taken place. I don't want to comment on the individual issues raised, but it is something that, I think, every health board takes seriously—and they should do. They should think about not only what happens in incidents where it goes right, but also, when things don't work as they should do, about what they could and should do better—the health board, the Welsh ambulance service, the paediatric retrieval service—and if there is a role for the flying doctor service.

O ran eich pwynt ynghylch adalw pediatrig, mae pwynt yma sy'n dweud y gwasanaeth adalw pediatrig arferol, lle y bu ad-drefnu gwasanaeth er mwyn darparu lefel uwch o wasanaeth wrth gefn. Mewn unrhyw achos lle y mae gan rieni broblem neu bryder ynghylch pa mor gyflym y gwneir yr adalw hwnnw, byddwn, wrth gwrs, yn disgwyl i rieni fod yn bryderus ac yn awyddus i wybod pam mae hynny wedi digwydd. Nid wyf am wneud sylwadau ar y materion unigol a godwyd, ond mae'n rhywbeth , rwyf yn credu, bod pob bwrdd iechyd yn ei gymryd o ddifrif—a dylent wneud hynny. Dylent feddwl am, nid yn unig yr hyn sy'n digwydd mewn digwyddiadau lle y mae pethau'n mynd yn iawn, ond hefyd, pan na fydd pethau'n gweithio fel y dylent, dylent feddwl am yr hyn y gallent ac y dylent ei wneud yn well—y bwrdd iechyd, gwasanaeth ambiwlans Cymru, y gwasanaeth adalw pediatrig—a pha un a oes rhan i'r gwasanaeth meddyg awyr ei chwarae.

One of the points where there have been developments since the launch is actually the neonatal service. That capability wasn't there initially. They had to get approval to have the neonatal equipment available in the air ambulance, and that is now there. So, already, since it's been developed, there's been an improvement and expansion in the service. That's what I expect to see over time as more and more people are able to benefit and we are able to provide more of the detail that you—quite rightly—ask for, both through the evaluation and as we publish regular figures and statistics on the number people interacting with the service and receiving a benefit from it.

Un o'r pwyntiau lle y bu datblygiadau ers y lansiad mewn gwirionedd yw'r gwasanaeth newyddenedigol. Nid oedd y gallu hwnnw ar gael ar y dechrau. Roedd yn rhaid iddynt gael cymeradwyaeth i gael y cyfarpar newyddenedigol yn yr ambiwlans awyr, ac mae hynny bellach yno. Felly, eisoes, ers iddo gael ei ddatblygu, bu ehangu a gwella yn y gwasanaeth. Dyna yw'r hyn y disgwyliaf ei weld dros amser wrth i fwy a mwy o bobl allu elwa a'n bod ni yn gallu darparu mwy o'r manylion yr ydych chi—yn ddigon teg—yn gofyn amdanynt, drwy'r gwerthuso ac wrth i ni gyhoeddi'r ffigurau ac ystadegau rheolaidd ar nifer y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ac yn elwa arno.

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

16:35

## 5. Datganiad: Prentisiaethau

## 5. Statement: Apprenticeships

Senedd.tv [Fideo] [Video]

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Item 5 is a statement by the Deputy Minister for Skills and Technology on apprenticeships. Julie James.

Eitem 5 yw datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar brentisiaethau. Julie James.

16:35

## Julie James [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Our policy statement on skills sets out how we need to rebalance the Welsh economy and better meet the specific needs of business to obtain a highly skilled workforce in Wales. The jobs of tomorrow will require higher levels of competence than those in the past. Consequently, further education and apprenticeships will need to evolve to meet these challenges. The Welsh Government believes that learning, contextualised within the workplace, is an effective formula that ensures the acquisition of skills, knowledge and competence, benefitting learners and employers alike. The earning and learning programme approach, centred around skills development within a working environment, is now core to our future plans for skills training. This is why the Welsh Government has announced an additional £5 million for apprenticeships next year. The Welsh Government believes that broadening the scope and the reach of apprenticeships is one of the best ways to expand the earning and learning approach. We also believe that it will help Wales to remain internationally competitive throughout this decade and into the next.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae ein datganiad polisi ar sgiliau yn nodi sut y mae angen i ni ail-gydbwyso'r economi yng Nghymru a bodloni anghenion penodol busnes yn well i gael gweithlu medrus iawn yng Nghymru. Bydd swyddi'r dyfodol angen lefelau uwch o gymhwysedd na rhai'r gorffennol. O ganlyniad, bydd angen i addysg bellach a phrentisiaethau esblygu er mwyn cyflawni'r heriau hyn. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod dysgu, yng nghyd-destun y gweithle, yn fformiwla effeithiol sy'n sicrhau caffael sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd, a fydd yn fanteisiol i ddysgwyr a chyflogwyr fel ei gilydd. Mae'r dull rhaglen ennill a dysgu, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau mewn amgylchedd gwaith, bellach yn greiddiol i'n cynlluniau ar gyfer hyfforddiant sgiliau yn y dyfodol. Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £5 miliwn ychwanegol ar gyfer prentisiaethau y flwyddyn nesaf. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod ehangu cwmpas a chyrhaeddiad prentisiaethau yn un o'r ffyrdd gorau o ehangu'r dull ennill a dysgu. Rydym hefyd yn credu y bydd yn helpu Cymru i barhau i fod yn gystadleuol yn rhyngwladol trwy gydol y ddegawd hon ac i mewn i'r nesaf.

In order to deliver on commitments within the skills implementation plan, we consulted on the apprenticeship programme in early 2015. This provided us with an array of evidence that underpins our future delivery priorities for Wales. Apprenticeship delivery priorities for 2016 to 2020 include a focus on growth of apprenticeship numbers for 16 to 18-year-olds by raising the number of school leavers going on to high-quality apprenticeships; building up apprenticeships in engineering and manufacturing in line with priorities determined by regional learning partnerships; a focus on level 3 and above, where returns on investment tend to be higher and where the most successful European countries focus—this will continue the phased reduction across specific sectors of foundation, or level 2, apprenticeships up to 2020—to continue to accelerate growth in the number of technical and professional opportunities in higher apprenticeships; and to focus on working with businesses, harnessing their potential to recruit apprentices and build awareness of the opportunities the programme has to offer.

Er mwyn cyflawni ymrwymiadau o fewn y cynllun gweithredu sgiliau, buom yn ymgynghori ar y rhaglen brentisiaeth yn gynnar yn 2015. Darparodd hyn amrywiaeth o dystiolaeth i ni sy'n sail i'n blaenoriaethau darparu ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Mae'r blaenoriaethau darparu prentisiaethau ar gyfer 2016-2020 yn cynnwys pwyslais ar dwf yn nifer y prentisiaethau ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed trwy gynyddu nifer y rhai sy'n gadael ysgol sy'n mynd ymlaen i brentisiaethau o ansawdd uchel; datblygu prentisiaethau mewn peirianneg a gweithgynhyrchu yn unol â blaenoriaethau a bennir gan bartneriaethau dysgu rhanbarthol; pwyslais ar lefel 3 ac uwch, lle mae adenillion ar fuddsoddiad yn tueddu i fod yn uwch a dyna lle y mae pwyslais gwledydd mwyaf llwyddiannus Ewrop—bydd hyn yn parhau y lleihau graddol ar draws sectorau penodol o brentisiaethau sylfaen, neu lefel 2, hyd at 2020—i barhau i gyflymu'r twf yn nifer y cyfleoedd technegol a phroffesiynol mewn prentisiaethau uwch; ac i ganolbwyntio ar weithio gyda busnesau, gan harneisio eu potensial i recriwtio prentisiaid a datblygu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd gan y rhaglen i'w cynnig.

We are already working closely with the three regional skills partnerships—in north Wales, south-west and central, and south-east Wales—to ensure regional skills needs are identified on the basis of a strong evidence base, informed by employers based in the regions. Although vocational learning, in the form of apprenticeships, is often seen as the second-best option compared to traditional academic routes, there is growing recognition that we may need to more actively shape our programmes. We have a clearly defined and well-understood pathway that supports young people from the age of 14 through GCSEs, A-levels and then on to university. However, many of our young people do not go to university, and for them the pathway is less clear. We want to change this and ensure that young people, and those who influence them, understand the benefits that starting an apprenticeship can bring.

Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda'r tair partneriaeth sgiliau rhanbarthol—yn y gogledd, y de-orllewin a'r canolbarth, ac yn y de-ddwyrain—i sicrhau bod anghenion sgiliau rhanbarthol yn cael eu nodi ar sail sylfaen tystiolaeth gref, a'u llywio gan gyflogwyr yn y rhanbarthau. Er bod dysgu galwedigaethol, ar ffurf prentisiaethau, yn aml yn cael ei ystyried fel y dewis ail orau o'i gymharu â llwybrau academaidd traddodiadol, mae cydnabyddiaeth gynyddol y gallai fod angen i ni lunio ein rhaglenni yn fwy gweithredol. Mae gennym lwybr sydd wedi'i ddiffinio'n glir a'i ddeall yn dda sy'n cefnogi pobl ifanc o 14 oed trwy gymwysterau TGAU, Safon Uwch ac yna ymlaen i'r brifysgol. Fodd bynnag, mae llawer o'n pobl ifanc nad ydynt yn mynd i'r brifysgol, ac ar eu cyfer nhw mae'r llwybr yn llai eglur. Rydym ni eisiau newid hyn a sicrhau bod pobl ifanc, a'r rhai sy'n dylanwadu arnynt, yn deall manteision dechrau prentisiaeth.

Skills competitions play a vital role in raising standards, esteem and levels of expertise in further education and apprenticeships. Through skills competition activities, we will take on and benchmark ourselves against the best in the UK and, indeed, the rest of the world. We have been looking at skills excellence in other countries, and it is clear that the strongest vocational systems offer a wide range of opportunities to apprentices and young people leaving sixth forms. Historically, the apprenticeship programme has been constrained to level 3. This has prevented young people from progressing into higher level skills and progressing through the career ranks. We intend to break through that glass ceiling. Higher apprenticeships support employer needs and provide an aspirational pathway for people who want to earn and learn at the same time. They present an opportunity for a more demanding alternative to traditional, full-time higher education, where employers adopt apprenticeships as an alternative to graduate recruitment. I have asked my officials to take steps to develop a range of new higher level technical apprenticeships. We know that higher apprenticeships are considered as alternatives to university. At present, they represent only 10 per cent of all apprenticeships commenced in Wales. We anticipate that businesses will increasingly require skills at levels 4 and above, and the apprenticeship programme must respond to this need.

Mae cystadlaethau sgiliau yn chwarae rhan hanfodol wrth godi safonau, parch a lefelau arbenigedd ym maes addysg bellach a phrentisiaethau. Trwy weithgareddau cystadleuaeth sgiliau, byddwn yn cystadlu, ac yn meincnodi ein hunain, yn erbyn y goreuon yn y DU ac, yn wir, gweddill y byd. Rydym wedi bod yn edrych ar ragoriaeth sgiliau mewn gwledydd eraill, ac mae'n amlwg bod y systemau galwedigaethol cryfaf yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i brentisiaid a phobl ifanc sy'n gadael y chweched dosbarth. Yn hanesyddol, mae'r rhaglen brentisiaeth wedi bod yn cael ei chyfyngu i lefel 3. Mae hyn wedi atal pobl ifanc rhag symud ymlaen i sgiliau lefel uwch a symud ymlaen drwy'r rhengoedd gyrfa. Rydym yn bwriadu torri trwy’r nenfwd gwydr hwnnw. Mae prentisiaethau uwch yn cefnogi anghenion cyflogwyr ac yn darparu llwybr uchelgeisiol ar gyfer pobl sy'n dymuno ennill a dysgu ar yr un pryd. Maent yn cynnig cyfle i gael dewis arall mwy heriol i addysg uwch llawn amser draddodiadol, lle mae cyflogwyr yn mabwysiadu prentisiaethau fel dewis arall i recriwtio graddedigion. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion gymryd camau i ddatblygu ystod o brentisiaethau technegol lefel uwch newydd. Rydym yn gwybod bod prentisiaethau uwch yn cael eu hystyried yn ddewisiadau amgen i brifysgol. Ar hyn o bryd, dim ond 10 y cant o'r holl brentisiaethau y dechreuir arnynt yng Nghymru y maent yn ei gynrychioli. Rydym yn rhagweld y bydd busnesau yn gofyn yn gynyddol am sgiliau ar lefelau 4 ac uwch, ac mae'n rhaid i'r rhaglen brentisiaeth ymateb i'r angen hwn.

We have had some success in this area already. In 2014, there were 41 published higher apprenticeship frameworks, mainly in the care, management, financial and engineering sectors. However, occupational coverage needs to be extended, for example, to the construction industry and all of the STEM sectors. To push forward I have put plans in place to look at the content of what is delivered across further education and apprenticeships. We intend to focus on six key areas over the next two years, identified via regional skills partnerships and linking in directly to Qualifications Wales’s future work and their sectorial reviews. These new skills tracks will provide young people with attractive, high-quality earn-whilst-you-learn opportunities.

Rydym wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn y maes hwn eisoes. Yn 2014, roedd 41 o fframweithiau prentisiaeth uwch wedi’u cyhoeddi, yn bennaf yn y sectorau gofal, rheoli, ariannol a pheirianneg. Fodd bynnag, mae angen ymestyn yr ystod o alwedigaethau, er enghraifft, i'r diwydiant adeiladu a phob un o'r sectorau STEM. I wthio pethau ymlaen rwyf wedi rhoi cynlluniau ar waith i edrych ar gynnwys yr hyn a ddarperir ar draws addysg bellach a phrentisiaethau. Rydym yn bwriadu canolbwyntio ar chwe maes allweddol dros y ddwy flynedd nesaf, a nodwyd drwy bartneriaethau sgiliau rhanbarthol a chysylltu yn uniongyrchol â gwaith Cymwysterau Cymru yn y dyfodol a’u hadolygiadau o’r sectorau. Bydd y llwybrau sgiliau newydd hyn yn darparu cyfleoedd ennill wrth ddysgu deniadol o ansawdd uchel i bobl ifanc.

In order to do this we will need greater synergies between academic higher education and higher level vocational learning. Academic and vocational routes currently remain fairly distinctive, but our new higher apprenticeships will blend together these two areas leading to the highest levels of educational attainment and workplace competence. Further education also has its part to play as it has sites and provision available in every county across Wales. Colleges are remitted to reach out and provide opportunities to young people and adults in order to improve their knowledge and skills, whether they are progressing to further study, entering the workforce for the first time, or learning new skills later in life. This is why we have protected the further education budgets in 2016-17.

Er mwyn gwneud hyn, bydd angen mwy o synergedd arnom rhwng addysg uwch academaidd a dysgu galwedigaethol lefel uwch. Mae llwybrau academaidd a galwedigaethol ar hyn o bryd yn parhau i fod yn dra gwahanol i’w gilydd, ond bydd ein prentisiaethau uwch newydd yn asio'r ddau faes hwn at ei gilydd gan arwain at y lefelau uchaf o gyrhaeddiad addysgol a chymhwysedd yn y gweithle. Mae gan addysg bellach ei rhan i'w chwarae hefyd gan fod safleoedd a darpariaeth ar gael ym mhob sir ledled Cymru. Cylch gwaith colegau yw estyn allan a rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau, pa un a ydynt yn symud ymlaen i astudiaethau pellach, yn ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf, neu’n dysgu sgiliau newydd yn nes ymlaen yn eu bywydau. Dyma pam yr ydym wedi diogelu cyllidebau addysg bellach yn 2016-17.

With the fresh employer demand created by the apprenticeship levy we need to take action to sensitise our further education system more to the needs of employers. The Public Policy Institute for Wales's recently published report on the quality of vocational further education recommends the building of greater connectivity between colleges and employers. It also recognises the importance of dual professional status for practitioners, who need both occupational and educational expertise.

Gyda'r galw newydd gan gyflogwyr a grëwyd gan yr ardoll prentisiaeth mae angen i ni gymryd camau i wneud ein system addysg bellach yn fwy addas i anghenion cyflogwyr. Mae adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar ansawdd addysg bellach alwedigaethol yn argymell datblygu mwy o gysylltedd rhwng colegau a chyflogwyr. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd statws proffesiynol deuol ar gyfer ymarferwyr, y mae angen arbenigedd galwedigaethol ac addysgol arnynt.

I want to take this opportunity to highlight the Welsh Government's view on the proposed apprenticeship levy outlined in the UK Government's spending review speech in November 2015. We strongly believe that the apprenticeship levy is nothing more than a tax on employers across the UK, and we question whether Welsh budget settlements will receive any positive benefits after its introduction. We are concerned that the core skills budgets in England will be reduced and simply be replaced by levy contributions. In reality, the apprenticeship levy is putting additional pressure on large private sector organisations. It will also have a big impact on public sector organisations, as they are unlikely to fully utilise apprenticeships as part of their training offer and this will result in money returning to Westminster.

Rwyf am achub ar y cyfle hwn i dynnu sylw at farn Llywodraeth Cymru ar yr ardoll prentisiaeth arfaethedig a amlinellwyd yn araith adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2015. Rydym yn credu'n gryf nad yw'r ardoll prentisiaeth yn ddim mwy na threth ar gyflogwyr ledled y DU, ac rydym yn amau a fydd setliadau cyllideb Cymru yn derbyn unrhyw fanteision cadarnhaol ar ôl ei gyflwyno. Rydym yn pryderu y bydd y cyllidebau sgiliau craidd yn Lloegr yn cael eu lleihau a ddim ond yn cael eu disodli gan gyfraniadau ardoll. Mewn gwirionedd, mae'r ardoll prentisiaeth yn rhoi pwysau ychwanegol ar sefydliadau mawr yn y sector preifat. Bydd hefyd yn cael effaith fawr ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus, gan eu bod yn annhebygol o wneud defnydd llawn o brentisiaethau yn rhan o'u cynnig hyfforddiant a bydd hyn yn arwain at arian yn dychwelyd i San Steffan.

This statement provides the broad policy direction for the apprenticeship programme in Wales between 2016 and 2020. The planned resulting action aims to evolve key areas of the programme whilst building on proven good practice. We believe it challenges our providers and employers to look forward regarding recruitment of the next generation of apprentices and apprentice technicians. Thank you.

Mae'r datganiad hwn yn rhoi'r cyfeiriad polisi eang ar gyfer y rhaglen brentisiaeth yng Nghymru rhwng 2016 a 2020. Nod y camau gweithredu sy'n deillio yw esblygu meysydd allweddol o'r rhaglen gan adeiladu ar arfer da profedig. Rydym yn credu ei fod yn herio ein darparwyr a'n cyflogwyr i edrych ymlaen o ran recriwtio'r genhedlaeth nesaf o brentisiaid a thechnegwyr prentis. Diolch.

16:42 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Deputy Minister for her statement today. We all know that apprenticeships and job-based learning play a vital role in developing individual skills for the future, while simply helping businesses to expand. They allow young people to initiate their careers and provide those who are older with opportunities to retrain or to follow a different career path, earning and learning at the same time. I regret, Minister, that you appear to have overlooked the positive recommendations detailed in the Enterprise and Business Committee's report on employment opportunities for people over 50. You've referred to your priorities and to the budget baseline, and I note that that has conjured an increase in the work-based departmental expenditure limit for next year, but there's no clarification in your statement of how much will be allocated for apprenticeships or the outcomes this additional funding will achieve. You refer to protecting the FE budget, but we all know that those budgets have been cut in the last few years.

Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad heddiw. Rydym i gyd yn gwybod bod prentisiaethau a dysgu yn y gwaith yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu sgiliau unigol ar gyfer y dyfodol, gan helpu busnesau i ehangu. Maent yn caniatáu i bobl ifanc ddechrau eu gyrfaoedd ac yn rhoi cyfleoedd i bobl sy'n hŷn ailhyfforddi neu ddilyn llwybr gyrfa gwahanol, gan ennill a dysgu ar yr un pryd. Gresynaf, Weinidog, yr ymddengys eich bod wedi anwybyddu'r argymhellion cadarnhaol a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar gyfleoedd cyflogaeth i bobl dros 50 oed. Rydych chi wedi cyfeirio at eich blaenoriaethau ac at linell sylfaen y gyllideb, a nodaf fod hynny wedi creu cynnydd yn y terfyn gwariant adrannol yn y gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond nid oes unrhyw eglurhad yn eich datganiad ynglŷn â faint fydd yn cael ei ddyrannu ar gyfer prentisiaethau na'r canlyniadau y bydd yr arian ychwanegol hwn yn eu cyflawni. Rydych yn cyfeirio at ddiogelu'r gyllideb addysg bellach, ond yr ydym i gyd yn gwybod bod y cyllidebau hynny wedi'u torri yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Would the Minister also outline the impact of reduced funding upon the remit and services of Careers Wales, and how young people who are not in education, employment or training are included within the proposals outlined in your statement? Businesses throughout Wales continue to struggle to recruit highly skilled workers. Eradicating this matter has been an aspiration of this Assembly since its inception. I have little confidence that the proposals outlined here will necessarily deliver on this aspiration.

A wnaiff y Gweinidog hefyd amlinellu effaith llai o gyllid ar gylch gwaith a gwasanaethau Gyrfa Cymru, a sut y mae pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cael eu cynnwys yn y cynigion a amlinellir yn eich datganiad? Mae busnesau ar hyd a lled Cymru yn parhau i gael trafferth i recriwtio gweithwyr medrus iawn. Mae dileu'r broblem hon wedi bod yn uchelgais i'r Cynulliad hwn ers ei sefydlu. Nid oes gennyf fawr o hyder y bydd y cynigion a amlinellir yma o reidrwydd yn cyflawni'r dyhead hwn.

I'm also concerned, if I may, Minister, about your comments about the apprenticeship levy. I don't think you're fully aware of how this levy will actually work. The key driver of the levy is to increase the number of high-quality and relevant apprenticeships that lead to long-term employment. You seem to have raised a chimera here that the money is returned to Westminster. Well, it's not going to be returned to Westminster. It'll be redistributed to provide further support for those key industries that require a high-quality workforce.

Rwyf hefyd yn pryderu, os caf, Weinidog, am eich sylwadau am yr ardoll prentisiaeth. Nid wyf yn credu eich bod yn gwbl ymwybodol o sut y bydd yr ardoll hon yn gweithio mewn gwirionedd. Sbardun allweddol yr ardoll yw cynyddu nifer y prentisiaethau o ansawdd uchel a pherthnasol sy'n arwain at gyflogaeth hirdymor. Mae'n ymddangos eich bod yn codi bwganod yma bod yr arian yn cael ei ddychwelyd i San Steffan. Wel, nid yw'n mynd i gael ei ddychwelyd i San Steffan. Bydd yn cael ei ailddosbarthu i roi rhagor o gefnogaeth i'r diwydiannau allweddol hynny y mae angen gweithlu o ansawdd uchel arnynt.

16:44 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those questions and comments. Just dealing with the apprenticeship levy last, the Member may have the advantage of me in knowing more about it than the Welsh Government. But, at this point in time, we are not clear what the redistribution method will be. We're not clear whether it will be Barnettised or whether some other mechanism will be used. We're not clear how it's being collected. We know the mechanism for collecting it from employers, but we don't know how it will be distributed and collected inside Government. We don't know whether it's a like-for-like replacement for the cuts announced to the BIS budget. We don't know what line of the Barnett formula it will be contained within. So, I'm afraid I don't share his optimism about whether or not it will produce more money for Wales. I will say, though, that, if it does, I will be delighted. Obviously, we'd love to have the money here in Wales. But I don't share his confidence on that at the moment.

Diolch i chi am y cwestiynau a'r sylwadau yna. I ymdrin â'r ardoll prentisiaeth yn olaf, efallai bod gan yr Aelod fantais drosof o ran gwybod mwy amdani na Llywodraeth Cymru. Ond, ar hyn o bryd, nid ydym yn glir beth fydd y dull ailddosbarthu. Nid ydym yn glir a fydd yn cael ei Farnetteiddio neu a fydd rhyw fecanwaith arall yn cael ei ddefnyddio. Nid ydym yn gwybod sut y mae'n cael ei gasglu. Rydym yn gwybod am y mecanwaith ar gyfer ei gasglu gan gyflogwyr, ond nid ydym yn gwybod sut y bydd yn cael ei ddosbarthu a'i gasglu o fewn y Llywodraeth. Nid ydym yn gwybod a yw'n cyfateb i'r toriadau a gyhoeddwyd i'r gyllideb Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Nid ydym yn gwybod pa linell o fformiwla Barnett y bydd yn cael ei gynnwys ynddi. Felly, yn anffodus nid wyf yn rhannu ei optimistiaeth ynghylch pa un a fydd yn cynhyrchu mwy o arian i Gymru ai peidio. Byddwn yn dweud, fodd bynnag, os bydd yn gwneud hynny, byddaf wrth fy modd. Yn amlwg, byddem wrth ein boddau yn cael yr arian yma yng Nghymru. Ond nid wyf yn rhannu ei hyder ar hynny ar hyn o bryd.

Indeed, the Member will remember—as all Members will remember—that we stopped the results of our consultation exercise when this was announced. We feel very strongly that our programme has been held back for several months by these announcements and, actually, we aren't any further forward in terms of clarity for funding or anything else. So, whilst I endorse his optimism in terms of what it might bring, I remain, I'm afraid, a little bit pessimistic about the way that the money might be distributed, and then our ability to meet the increased employer expectation without increased money to go with it.

Yn wir, bydd yr Aelod yn cofio—fel y bydd pob Aelod yn cofio—ein bod yn rhoi'r gorau i ganlyniadau ein hymarfer ymgynghori pan gyhoeddwyd hwn. Rydym yn teimlo'n gryf iawn bod ein rhaglen wedi cael ei dal yn ôl am sawl mis gan y cyhoeddiadau hyn ac, mewn gwirionedd, nid ydym gam ymhellach ymlaen o ran eglurder ar gyfer cyllid nac unrhyw beth arall. Felly, er fy mod yn cymeradwyo ei optimistiaeth o ran yr hyn a allai ei gyflawni, mae arnaf ofn fy mod yn dal ychydig yn besimistaidd am y ffordd y gallai'r arian gael ei ddosbarthu, ac yna ein gallu i fodloni'r cynnydd yn nisgwyliadau cyflogwyr heb fwy o arian i fynd gydag ef.

I think that is a real problem for us because we have a well-resected apprenticeship system—well-supported right across all areas of the Welsh economy—and everyone I've spoken to has expressed concern to me that that will be disrupted by the imposition of the levy and, indeed, the way that the levy works with already-existing levies, like that for the CITB, for example, which I know the Member is very well aware of.

Credaf fod hyn yn broblem wirioneddol i ni oherwydd bod gennym system brentisiaeth a berchir yn fawr—sy'n cael ei chefnogi'n dda ym mhob rhan o economi Cymru—ac mae pawb yr wyf wedi siarad â nhw wedi mynegi pryder wrthyf y bydd gosod yr ardoll yn amharu ar hynny ac, yn wir, ar y ffordd y mae'r ardoll yn gweithio gydag ardollau sydd eisoes yn bodoli, fel yr un ar gyfer y CITB, er enghraifft, y gwn fod yr Aelod yn ymwybodol iawn ohono.

Turning to a couple of the other points that you made, unfortunately, we have had to cut the budget of Careers Wales one more time. However, I'm not clear at this moment that that actually leads to further redundancies. There are other considerations still at play. We have had a huge amount of co-operation from the staff and leadership teams in Careers Wales, for which I'm hugely grateful. They have done enormously good work in our youth engagement and progression framework, for example. Indeed, our record on NEETs is, as a result, one of the best in Europe. I'm very proud of their work and very grateful for it as well.

Gan droi at un neu ddau o'r pwyntiau eraill a wnaethoch, yn anffodus, bu'n rhaid i ni dorri cyllideb Gyrfa Cymru unwaith eto. Fodd bynnag, nid wyf yn glir ar hyn o bryd bod hynny mewn gwirionedd yn arwain at ddiswyddiadau pellach. Mae ystyriaethau eraill yn dal i fod yn berthnasol. Rydym wedi cael llawer iawn o gydweithrediad gan staff a thimau arweinyddiaeth Gyrfa Cymru, ac rwy'n hynod ddiolchgar am hynny. Maent wedi gwneud gwaith aruthrol o dda yn ein fframwaith ymgysylltu a dilyniant pobl ifanc, er enghraifft. Yn wir, mae ein hanes ar NEETs, o ganlyniad i hynny, ymhlith y gorau yn Ewrop. Rwy'n falch iawn o'u gwaith ac yn ddiolchgar iawn amdano hefyd.

However, we think that Careers Wales can morph into a far more twenty-first century offer, which utilises a great deal more of the digital tools available to us these days than were available when Careers Wales was first put together. That's not to take away from the value of face-to-face interviews for people at all ages who have more complex needs, and we will be ensuring that those stay, alongside the digital agenda. So, I hope that reassures the Member.

Fodd bynnag, rydym yn credu y gall Gyrfa Cymru droi yn gynnig llawer mwy addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sy'n defnyddio llawer iawn mwy o'r offer digidol sydd ar gael i ni y dyddiau hyn nag a oedd ar gael pan gafodd Gyrfa Cymru ei ffurfio i ddechrau. Nid yw hynny'n disodli gwerth cyfweliadau wyneb yn wyneb ar gyfer pobl o bob oed sydd ag anghenion mwy cymhleth, a byddwn yn sicrhau bod y rhai hynny'n aros, ochr yn ochr â'r agenda ddigidol. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n tawelu meddwl yr Aelod.

In terms of opportunities for people over 50, we are trying to get more 16 to 18-year-olds to go onto the apprenticeship framework straight from school; that's true. But, the idea is to ensure that they can do that all of their lives. Higher-level apprenticeships are not restricted age wise and we are announcing more money for them. So, actually, I see that as a really valuable opportunity for people over 50 to upskill or indeed reskill if they have access to these programmes. So, I'd like to reassure the Member that we very much have that and the recommendation of the committee in mind.

O ran cyfleoedd i bobl dros 50, rydym yn ceisio cael mwy o bobl ifanc 16 i 18 oed i fynd ar y fframwaith prentisiaeth yn syth o'r ysgol; mae hynny'n wir. Ond, y syniad yw sicrhau y gallant wneud hynny trwy eu bywydau. Nid yw prentisiaethau lefel uwch yn cael eu cyfyngu o ran oedran ac rydym yn cyhoeddi mwy o arian ar eu cyfer. Felly, mewn gwirionedd, rwyf yn ystyried hynny yn gyfle gwerthfawr iawn i bobl dros 50 oed i uwchsgilio neu yn wir ailsgilio os ydynt yn gallu cael mynediad at y rhaglenni hyn. Felly, hoffwn dawelu meddwl yr Aelod ein bod yn rhoi llawer iawn o ystyriaeth i hynny ac i argymhelliad y pwyllgor.

16:48 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y datganiad heddiw, Weinidog. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos ymroddiad cryf tuag at brentisiaethau a nawr yn sôn am bwysigrwydd ennill arian a dysgu. Ond, yn sesiynau tystiolaeth ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i helpu pobl ifanc i gael gwaith, gwnaeth nifer o dystion ddweud bod cynlluniau fel prentisiaethau yn werthfawr iawn ond, yn ôl Comisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau, dim ond 15 y cant o gyflogwyr Cymru sy'n cynnig prentisiaethau ar hyn o bryd. Fy nghwestiwn yw: a ydych yn mynd i'w gwneud yn haws i fusnesau bach a chanolig gynnig rhaglenni prentisiaethau? Dyna fy nghwestiwn cyntaf.

Thank you for the statement today, Deputy Minister. I'm pleased that the Welsh Government is continuing to show a strong commitment to apprenticeships and is now talking about the importance of earning and learning. But in evidence sessions of the Enterprise and Business Committee's inquiry into helping young people into employment, a number of witnesses said that plans such as apprenticeships are very important, but according to the UK Commission for Employment and Skills, only 15 per cent of employers in Wales offer apprenticeships at present. The question that I have, therefore, is: are you going to make it easier for small and medium-sized businesses to offer apprenticeships? That is my first question.

Yr ail gwestiwn yw—wrth edrych ar y bwlch rhwng bechgyn a merched mewn prentisiaethau, yn 2011-12, roedd merched yn cyfrif am ddim ond 3.1 y cant o brentisiaethau peirianneg a 96.2 o brentisiaethau gofal plant. A ddylai fod cysylltiadau cryfach rhwng addysgwyr, gweithwyr proffesiynol gyrfaoedd a chyflogwyr i daclo'r stereoteipiau rhyw hyn?

The second question is—in looking at the gap between boys and girls in apprenticeships, in 2011-12, girls accounted for only 3.1 per cent of engineering apprenticeships and 96.2 per cent of apprenticeships in childcare. Shouldn't there be stronger links between educators, careers professionals and employers to tackle these gender stereotypes?

Hoffwn groesawu hefyd eich ymrwymiad i ddatblygu amrywiaeth o brentisiaethau uwch neu dechnegol newydd. Ond, fy nghwestiwn yw: ar y brentisiaeth lefel 4 uwch, sut mae hynny'n mynd i gymharu, a beth fydd yn digwydd pan rydych yn sôn am yr ardoll brentisiaeth? A yw hwnnw'n mynd i effeithio ar beth mae'r cwmnïau mawr fel Tata ac Airbus fel Tata ac Airbus yn ei wneud? Yn y pwyllgor, fe ddaeth dau fachgen ifanc o'n blaenau ni a oedd wedi penderfynu, ar ôl bod yn llwyddiannus yn eu lefel A, peidio â mynd i'r brifysgol. Aethon nhw ar brentisiaeth gydag Airbus, a beth ddigwyddodd? Mewn llai na blwyddyn, roedd y ddau yn cael mynd i'r brifysgol a gwneud gradd. Felly, a yw'r prentisiaeth lefel 4 yn mynd i gysylltu â hynny, neu a fydd yn erbyn y peth?

I would also like to welcome your commitment to developing a variety of higher apprenticeships and technical apprenticeships. But the question I have is: on the level 4 higher apprenticeship, how is that going to compare, and what about the apprenticeship levy that you mentioned? Is it going to affect what the larger companies such as Tata and Airbus are doing? At the committee, two young men appeared who had decided, after being successful in their A-levels, that they would not go to university. They went on an apprenticeship with Airbus, and what happened? In less than a year, the two were able to go to university to do a degree. So, is the level 4 apprenticeship going to link up with that, or is it going to be contrary to that process?

Y peth olaf roeddwn eisiau ei ofyn i chi oedd: wrth edrych ar brentisiaethau nawr, os ydych yn edrych ar beth y mae pobl, neu blant, yn ei wneud wrth ddilyn y brentisiaeth, fel arfer, nid ydynt yn dysgu dim am fusnes. Felly, os ydynt wedi llwyddo yn y brentisiaeth, ac os ydyn nhw eisiau agor eu cwmnïau eu hunain, nid ydynt yn gwybod sut i'w redeg e. Ond, a ydy cyflogwyr yn mynd i dderbyn prentisiaethau sydd efallai, yn y pen draw, yn mynd i weld y bobl yn eu gadael nhw ar ôl iddynt eu hyfforddi nhw a sefydlu eu busnesau eu hunain? Diolch.

The final issue that I wanted to mention was: if you look at apprenticeships now, and if you look at what young people do in pursuing these apprenticeships, usually, they don't learn anything about business. So, if they've succeeded in an apprenticeship, if they want to open their own business, they don't know how to run it. But are employers going to accept apprentices who are then ultimately going to leave those companies after being trained and then establish their own businesses? Thank you.

16:51

## Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, thank you very much for that series of really interesting questions. Dealing with that last one first, I share your concern that we train—particularly in construction crafts—apprentices who often become freelancers afterwards. Indeed, actually, that's the case in the creative industries as well—cameramen, and all those interesting jobs you always see at the end of films. And, yes, indeed, hairdressing is another one, which is actually very often a young woman's only route into self-employment—not necessarily as a hairdresser, I have to say. So, I share your concern with that, and actually, that's one of the reasons why we want to break this glass ceiling, because those sorts of apprentices tend to be up to level 2, actually, and it's when you allow them to go to level 3 that they get the business skills, and so on. But, we are in discussions with quite a lot of the training providers about including business models, particularly self-employed business models, in quite a few of the apprentice frameworks, where that's a commonplace method of employment. Employers are not reluctant to take apprentices on in those circumstances, because actually they know that that's what the model looks like for the indstry that they're in. So, we haven't had that problem that I'm aware of, and I've had lots of discussions with the industry to that effect.

Wel, diolch yn fawr iawn i chi am y gyfres yna o gwestiynau diddorol iawn. Gan ymdrin â'r un olaf yn gyntaf, yr wyf yn rhannu eich pryder ein bod yn hyfforddi—yn enwedig mewn crefftau adeiladu—prentisiaid sy'n aml yn dod yn weithwyr llawrydd wedyn. Mewn gwirionedd, mae hynny'n wir yn y diwydiannau creadigol hefyd—dynion camera, a'r holl swyddi diddorol hynny yr ydych bob amser yn eu gweld ar ddiwedd ffilmiau. Ac, ie, yn wir, mae trin gwallt yn un arall, sydd, mewn gwirionedd, yn aml iawn yr unig lwybr i fenyw ifanc fod yn hunangyflogedig—nid o reidrwydd fel triniwr gwallt, mae'n rhaid i mi ddweud. Felly, rwyf yn rhannu eich pryder ynglŷn â hynny, ac mewn gwirionedd, dyna un o'r rhesymau pam yr ydym am dorri'r nenfwd gwydr hwn, gan fod y mathau hynny o brentisiaid yn tueddu i fod hyd at lefel 2, mewn gwirionedd, a phan fyddwch yn caniatáu iddynt fynd i lefel 3 byddant yn cael y sgiliau busnes, ac yn y blaen. Ond, rydym yn cynnal trafodaethau gyda chryn dipyn o'r darparwyr hyfforddiant am gynnwys modelau busnes, yn enwedig modelau busnes hunangyflogedig, mewn sawl un o'r fframweithiau prentisiaeth, pan fo hynny'n ddull cyffredin o gyflogaeth. Nid yw cyflogwyr yn amharod i dderbyn prentisiaid o dan yr amgylchiadau hynny, oherwydd mewn gwirionedd maent yn gwybod mai dyna yw natur y model ar gyfer eu diwydiant hwy. Felly, nid ydym wedi cael y broblem honno, cyn belled ag yr wyf i'n gwybod, ac rwyf wedi cael llawer o drafodaethau gyda'r diwydiant i'r perwyl hwnnw.

In terms of the gender gap, I couldn't agree more that we need to address this very firmly. Obviously, a large part of this is about socialisation, and Christine Chapman had a very interesting short debate very recently, where we discussed some parts of the wider social aspects about why girls are put off science subjects and boys are put off caring, and so on. So, that's something we need to do all the way through the education system, not just at the point in time you choose an apprenticeship. We have a large number of initiatives ongoing, which I don't have time to go into today, but which I would just reference, and the Member, I know, knows about them. We are monitoring it very carefully, and we are encouraging providers to make sure that they take those gender issues into account.

O ran y bwlch rhwng y rhywiau, rwyf yn cytuno'n llwyr bod angen i ni fynd i'r afael â hyn yn gadarn iawn. Yn amlwg, mae rhan fawr o hyn yn ymwneud â chymdeithasoli, ac roedd gan Christine Chapman ddadl fer ddiddorol iawn yn ddiweddar iawn, lle buom ni'n trafod rhai rhannau o'r agweddau cymdeithasol ehangach ynglŷn â pham nad yw merched yn cael eu denu at bynciau gwyddoniaeth a bechgyn at feysydd gofalu, ac yn y blaen. Felly, mae hynny'n rhywbeth y mae angen i ni wneud yr holl ffordd drwy'r system addysg, nid dim ond ar yr adeg y byddwch yn dewis prentisiaeth. Mae gennym nifer fawr o fentrau parhaus, nad oes gennyf amser i sôn amdanynt heddiw, ond rwyf am gyfeirio atynt, ac mae'r Aelod, rwyf yn gwybod, yn gwybod amdanynt. Rydym yn monitro hyn yn ofalus iawn, ac rydym yn annog darparwyr i sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth i'r materion hynny sy'n ymwneud â'r bwlch rhwng y rhywiau.

In terms of making it easier for smaller businesses, we have a number of shared apprenticeship schemes running now, which have been very successful, and which allow businesses to share an apprentice where they can't take one on themselves because they're so small. There's a particualrly good one in Blaenau Gwent, where I attended the other day with Alun Davies, which I was very impressed by. We're going to roll that sort of initiative out as well to make sure that smaller firms can benefit from this. And, we have a big, enhanced employer engagement initiative running at the moment in conjunction with Business in the Community, in schools and through the regional skills partnerships with other businesses to encourage the take-up of these apprenticeships. One of the issues that I raised in my statement was the issue about transparency of paths, and that goes for businesses as well. We want to make it much easier to figure out how to do this, so people engage more readily with it.

O ran ei gwneud yn haws i fusnesau llai, mae gennym nifer o gynlluniau prentisiaeth ar y cyd ar waith ar hyn o bryd, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac sy'n galluogi busnesau i rannu prentis pan na allant gymryd un eu hunain gan eu bod mor fach. Mae un hynod o dda ym Mlaenau Gwent, lle y bûm i y diwrnod o'r blaen gydag Alun Davies, a gwnaeth gryn argraff arnaf. Rydym yn mynd i gyflwyno'r math hwnnw o fenter yn ogystal â sicrhau y gall cwmnïau llai elwa ar hyn. Ac, mae gennym fenter fawr, well, ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr ar waith ar hyn o bryd ar y cyd â Busnes yn y Gymuned, mewn ysgolion a thrwy'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol gyda busnesau eraill i annog pobl i fanteisio ar y prentisiaethau hyn. Un o'r materion a godais yn fy natganiad oedd y mater ynglŷn â thryloywder llwybrau, ac mae hynny'n wir am fusnesau hefyd. Rydym am ei gwneud yn llawer haws i ddeall sut i wneud hyn, fel bod pobl yn ymgysylltu'n fwy parod ag ef.

16:54

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Fe fydd Plaid Cymru yn cyhoeddi ein polisi ni ar gyfer prentisiaethau ar gyfer etholiad cyffredinol Cymru yfory, ac felly nid wyf yn mynd i ddweud unrhyw beth pellach am hynny, gan fod y cyhoeddiad yn dod yfory. Hefyd, nid wyf yn mynd i ailadrodd y cwestiynau sydd eisoes wedi cael eu gofyn, achos rwyf am rannu'r un pryderon o gwmpas Gyrfa Cymru, prentisiaethau mewn busnesau bach, a'r ffordd rydym yn agor y drysau i ferched i fynd i mewn i alwedigaethau sydd yn draddodiadol i ddynion, fel petai, a vice versa, hefyd. Mae'n bwysig ein bod ni'n gweld mwy o fechgyn, er enghraifft, yn ymarfer sgiliau cynorthwywyr dosbarth a gofal, a phethau felly. Felly, ni wnaf ailadrodd hynny.

Thank you, Minister, for your statement this afternoon. Plaid Cymru will be announcing our policy on apprenticeships for the Welsh general election tomorrow, so I'm not going to say anything further about that, as that announcement is to be made tomorrow. Neither am I going to rehearse the questions that have already been asked, because I share some of the same concerns around Careers Wales, apprenticeships in smaller business and the way we open the doors for young women to go into more traditionally-male areas, and vice versa too. It's important that we see more young men getting involved as classroom assistants and carers and so on. Therefore, I won't rehearse any of those issues.

Gwnaf jest dau bwynt a gofyn un cwestiwn penodol. Yn gyntaf oll, mae'n hynod bwysig ein bod yn cydnabod gwerth prentisiaethau i'r economi yn gyffredinol. Mae'r rhaglen gyfredol yn werth rhywbeth fel £1 biliwn i economi Cymru, ac mae hefyd yn wir i ddweud fod pob punt sy'n cael ei buddsoddi mewn prentisiaeth yn gallu elwa ar rywbeth fel £74, yn ôl Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru; fel rydych yn gwybod, dros fywyd cyfan yw hynny. Ond, beth sy'n ddiddorol yw ei fod yn cymharu'n ffafriol iawn â'r rhywbeth fel £57 y cewch chi nôl o bob punt rydych yn ei buddsoddi mewn addysg uwch, ac mewn gradd yn benodol.

I will make two points and ask one specific question. First of all, it's extremely important that we recognise the value of apprenticeships to the economy in general. The current programme is worth something in the region of £1 billion to the Welsh economy, and it's also true to say that every pound that is invested in an apprenticeship can bring benefits of up to £74, according to the National Training Federation for Wales; that's over a whole lifetime, of course. But what's interesting is that there is a very favourable comparison with something like the £57 that you will get in investing in higher education, or in a degree more specifically.

Felly, rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn tanlinellu heddiw pa mor bwysig yw prentisiaethau uwch—lefel 4 ac uwch, fel rydych wedi sôn, Weinidog. Hoffwn i ofyn yn benodol: a fydd gennych chi, yn eich rhaglen, darged penodol ar gyfer y nifer neu'r canran o brentisiaethau o'r math y byddech yn dymuno eu gweld? Rwy'n credu yn y cyd-destun hwnnw fod unrhyw darged neu amcan yn dangos sut mae'r prentisiaethau yma yn mynd i fod ar gael i ferched a bechgyn yn gyfartal, ond hefyd i bobl anabl. Ac hefyd, un agwedd arall sydd wedi ei thangynrychioli yn y broses yma yw'r rhai sy'n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg; dim ond 3 y cant sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd, ac mae'r bwlch rhwng y 3 y cant sy'n gwneud prentisiaeth dipyn yn uwch—mae'r nifer sy'n gwneud lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg yn uwch o lawer. Felly, rydym yn colli rhywbeth o ran dilyniant iaith yn y maes mwy galwedigaethol yma.

So, I think it's important that we highlight today how important higher level apprenticeships are—level 4 and up, as you've already mentioned, Minister. I'd like to ask specifically: will you, as part of your programme, have a specific target for the number or percentage of these apprenticeships that you would wish to see? In that context, I think it's important that any target or objective does demonstrate how these apprenticeships will be available to women and men equally, but also to disabled people. Also, another area that is under-represented in this area is those training through the medium of Welsh; only 3 per cent undertake that at present, and the gap between the 3 per cent in apprenticeships is a lot higher—they number undertaking Welsh-medium A-levels is much higher. So, we are losing something in terms of these vocational apprenticeships.

Y pwynt olaf rydym am ei godi gyda chi yw'r ardoll prentisiaethau. Rwy'n derbyn y feirniadaeth sydd gyda chi o bolisi y Ceidwadwyr—bod hon yn fath o dreth ar fusnesau a chwmnïau; yn dreth ar gyflogaeth, os liciwch chi—ond mae'n dod. Nawr, nid ydym yn gwybod—wel, nid ydych wedi datgelu, hyd yn oed os ydych chi yn gwybod—ym mha ffordd mae'n mynd i weithio yng Nghymru. Mae'n wir i ddweud bod y datganiad gan y Canghellor wedi dweud yn glir y bydd rhywbeth fel £3 biliwn yn cael ei godi; £2.5 biliwn yn mynd i Loegr a'r gweddill yn cael ei rannu yn ôl canran deg. Dyna'r geiriau—'a fair share'. Rwy'n derbyn nad ydym yn gwybod eto y manylion hynny, ond fe fyddwn i yn licio gwybod, os digwydd hynny, beth sydd gan y Llywodraeth mewn golwg i ddefnyddio'r arian yma ar ei gyfer. Achos os cawn ni ein canran deg, a dweud y gwir mae hynny'n cynrychioli mwy nag rydym yn ei haeddu, mewn ffordd, achos nid yw'r cwmnïau mawr wedi eu lleoli yng Nghymru. Efallai eu bod yn gweithio yng Nghymru, ond mae'r ardoll yn mynd i gael ei godi ar gwmnïau sy'n dueddol o fod yn Lloegr, ac mae'n bosibl y byddwn yn elwa, neu o leiaf fyddwn ni ddim ar ein gwaethaf. Er fy mod yn derbyn y sinigiaeth wleidyddol sydd gyda chi tuag at y cymhellion y tu ôl i hyn, byddwn yn licio clywed mwy am rai o'r cynlluniau sydd gyda chi bellach i ddefnyddio'r arian yma pan fydd ar gael i Gymru.

The final thing I wanted to raise with you was the apprenticeship levy. I accept your criticism of the Conservative policy—that this is some kind of tax on businesses and a tax on employment, if you like—but it is coming our way. We don't know—or you haven't revealed, even if you do know—how it's going to work in Wales. It is true to say that the Chancellor's statement made it clear that something in the region of £3 billion will be raised; £2.5 billion going to England and the rest distributed according to a fair percentage, or a 'fair share'—those are the exact words. I accept that we don't yet know what those details are, but I would like to know, if that is the case, what the Government intends to do in using these funds. Because if we do receive our fair share, then in reality this represents more than we deserve, perhaps, because major companies aren't generally located in Wales. They may be working in Wales, but it's going to be charged on companies that tend to be in England, and we may benefit, or at least we won't lose out as a result of this levy. Although I accept the political cynicism that you've displayed towards the objectives of this, I would like to hear more about how you plan to use this money when it's available in Wales.

16:58

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that series of remarks and questions. Just on the apprenticeship levy, I'm sorry to be cynical about it; I'd really like to embrace fully the idea that we really will have an additional £3 billion to spend on apprenticeships across the UK and some share of that here in Wales, but we haven't seen any evidence of that. We've not been told how it is to be distributed, although we've been told it will be. It might be Barnettised, and you know as well as I do, rehearsing all the foibles of the Barnett formula, that how something is Barnettised makes an enormous difference to whether it represents more or less money. So, as I said in response to William Graham, I don't yet know whether it will just balance off the cuts to BIS in the Barnett formula, and therefore it won't look like anything to us. I hope that's not the case, but that might happen. And so, until we know, I don't want to spend it in advance. What I do know is that it has raised a lot of employer expectation which we can't necessarily meet.

Diolch i chi am y gyfres yna o sylwadau a chwestiynau. Ynglŷn â'r ardoll prentisiaeth, mae'n ddrwg gen i fod yn sinigaidd amdani; byddwn wir yn hoffi derbyn yn llawn y syniad y bydd gennym mewn gwirionedd £3 biliwn ychwanegol i'w wario ar brentisiaethau ledled y DU a chyfran o hynny yma yng Nghymru, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o hynny. Nid ydym wedi cael gwybod sut y bydd yn cael ei dosbarthu, er ein bod wedi cael gwybod y bydd hynny'n digwydd. Gallai gael ei Farnetteiddio, a gwyddoch cystal â minnau, wrth ymarfer holl fannau gwan fformiwla Barnett, bod y ffordd y mae rhywbeth yn cael ei Farnetteiddio yn gwneud gwahaniaeth enfawr i ba un a yw'n fwy neu lai o arian. Felly, fel y dywedais wrth ymateb i William Graham, nid wyf yn gwybod eto a fydd ond yn cydbwyso'r toriadau i Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn fformiwla Barnett, ac felly ni fydd yn edrych fel unrhyw beth i ni. Gobeithio nad yw hynny'n wir, ond gallai hynny ddigwydd. Ac felly, hyd y byddwn yn gwybod, nid wyf eisiau ei wario ymlaen llaw. Yr hyn yr wyf yn ei wybod yw ei fod wedi codi llawer o ddisgwyliadau cyflogwyr na allwn o reidrwydd eu cyflawni.

We have a number of other issues arising from it as well. Apparently, it's going to be administered in England via some kind of voucher system. Various things have been announced; they announced the composition of an apprenticeship board today, which looks suspiciously like something that they've just abolished, but that's another story. We don't know whether those vouchers can be spent in Wales, for example. So, if you take the example of Airbus, who do most of their training up in north Wales, if they can't spend those vouchers there, they'll simply move it to Filton in Bristol. We just don't know; I don't know. If I knew, I would tell you, but I really don't.

Mae gennym nifer o faterion eraill sy'n codi o hynny hefyd. Yn ôl pob tebyg, mae'n mynd i gael ei weinyddu yn Lloegr trwy ryw fath o system talebau. Mae amryw o bethau wedi eu cyhoeddi; cyhoeddwyd cyfansoddiad bwrdd prentisiaeth heddiw, sy'n edrych yn debyg iawn i rywbeth y maent newydd ei ddiddymu, ond stori arall yw honno. Nid ydym yn gwybod a oes modd i'r talebau hynny gael eu gwario yng Nghymru, er enghraifft. Felly, os byddwch chi'n cymryd enghraifft Airbus, sy'n gwneud y rhan fwyaf o'u hyfforddi i fyny yng ngogledd Cymru, os na allant wario'r talebau hynny yno, byddant yn ei symud i Filton ym Mryste. Nid ydym yn gwybod; nid wyf i'n gwybod. Pe byddwn yn gwybod, byddwn yn dweud wrthych chi, ond dydw i ddim.

We are in the process of having meetings, though, it's fair to say; we are engaged at official level and I'm meeting with the Minister, along with the other devolved nations, on 4 February, so I do hope to know more soon. That's well enough in advance of their budget statement, so that we can have some input into it, we hope, and that's why the meeting is being arranged, and the Finance Minister and officials are also meeting.

Rydym yn y broses o gael cyfarfodydd, ond, mae'n deg dweud; rydym yn ymwneud ar lefel swyddogol ac rwy'n cwrdd â'r Gweinidog, ynghyd â'r gwledydd datganoledig eraill, ar 4 Chwefror, felly rwy'n gobeithio y byddaf yn gwybod mwy cyn bo hir. Mae hynny'n ddigon o amser ymlaen llaw cyn eu datganiad cyllideb, fel y gallwn gael rhywfaint o fewnbwn iddo, gobeithio, a dyna pam y mae'r cyfarfod yn cael ei drefnu, ac mae'r Gweinidog Cyllid a'r swyddogion yn cwrdd hefyd.

I genuinely mean what I said to William Graham. It may be that it's fine and we're all very happy, and I'd be very happy to have that, but I'm afraid we haven't got any indication of that yet. There has been some talk of Barnettisation—not officially—and, until you see the detail of that, I just don't know. And what I'm cross about about all of that is not the ambition of the UK Government for apprentices. I'm very grateful for that and embrace it. What I'm cross about though is that it cuts across the devolution settlement completely. They announced it right in the middle of our consultation. I'm afraid it clearly didn't occur to them that it was devolved—I mean, I'm not saying anything that's news here—and they took no account of it. Then, when we complained at that time, they said, 'Oh well, that's not happening until 2017; don't worry about it.' We said, 'Well, it's happening here in Wales now and you've messed it up.' So, that's why I sound cross, because I am cross about it. So, we've decided to just go ahead with ours on the basis that the Barnett formula will produce something similar to what we have now and that we have a system that is robust and well thought of, that our employers love, that our economic sectors all embrace, and that has worked well for us in the past, and we've decided to build on that. So, that's where we are at the moment. If something very extraordinary happens with the levy then I may be back in front of you saying that that's not possible, but that's how we've decided to take it forward from where we are.

Rwyf wir o ddifrif ynglŷn â'r hyn a ddywedais wrth William Graham. Gallai fod yn iawn a'n bod i gyd yn hapus iawn, a byddwn yn hapus iawn i gael hynny, ond rwy'n ofni nad oes gennym unrhyw arwydd o hynny eto. Bu rhywfaint o sôn am Farnetteiddio—ddim yn swyddogol—a, hyd nes y byddwch yn gweld manylion hynny, nid wyf yn gwybod. A'r hyn rwy'n flin amdano, ynghylch yr holl beth, ac nid uchelgais Llywodraeth y DU i brentisiaid yw hynny, rwy'n ddiolchgar iawn am hynny ac yn ei groesawu. Yr hyn yr wyf yn flin amdano er hynny yw ei fod yn torri ar draws y setliad datganoli yn llwyr. Maent wedi ei gyhoeddi yng nghanol ein hymgynghoriad. Rwy'n ofni ei fod yn amlwg nad ydynt wedi ystyried ei fod wedi'i ddatganoli—wyddoch chi,nid wyf yn dweud unrhyw beth newydd yn y fan yma—ac ni wnaethon nhw gymryd unrhyw sylw o hynny. Wedyn, pan wnaethom ni gwyno ar y pryd, dywedwyd, 'O wel, nid yw hynny'n digwydd tan 2017; peidiwch â phoeni am y peth. ' Dywedasom ni, 'Wel, mae'n digwydd yma yng Nghymru nawr ac rydych chi wedi tarfu ar hynny.' Felly, dyna pam yr wyf yn swnio'n flin, oherwydd fy mod yn flin am y peth. Felly, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n gwaith ni ar y sail y bydd fformiwla Barnett yn cynhyrchu rhywbeth tebyg i'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd a bod gennym system sy'n gadarn ac sy'n cael ei pharchu, y mae ein cyflogwyr wrth eu bodd â hi, y mae ein sectorau economaidd i gyd yn ei chofleidio, ac mae hynny wedi gweithio'n dda i ni yn y gorffennol, ac rydym wedi penderfynu adeiladu ar hynny. Felly, dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd. Os bydd rhywbeth rhyfeddol iawn yn digwydd gyda'r ardoll, yna efallai y byddaf yn ô ger eich bron yn dweud nad yw hynny'n bosibl, ond dyna sut yr ydym ni wedi penderfynu symud hyn ymlaen o'r fan lle yr ydym ni.

Going on to the target, we haven't got a specific target. The £5 million we've announced produces around 2,500 apprenticeships. It's not exact, because it sort of depends how long they are and how costly. So, obviously, the more costly they are, the fewer you get and so on. So, that's why it's not exact. I'm more than happy to continue to update Members as we know more about that, and a lot depends on what the provider network can go with and what employers we have to take it up and so on. So, we don't have a specific target because we're constrained by the money, really. So, that's where we're going with that.

Gan symud ymlaen at y targed, nid oes gennym darged penodol. Mae'r £5 miliwn yr ydym wedi'i gyhoeddi yn cynhyrchu tua 2,500 o brentisiaethau. Dyw hynny'n fanwl gywir, gan ei fod yn dibynnu ar ba mor hir a pha mor gostus yr ydynt. Felly, yn amlwg, y mwyaf costus ydynt, y lleiaf a gewch chi ac yn y blaen. Felly, dyna pam nad yw'n fanwl gywir. Rwy'n fwy na hapus i barhau i ddiweddaru'r Aelodau wrth i ni gael gwybod mwy am hynny, ac mae llawer yn dibynnu ar yr hyn y gall y rhwydwaith darparwyr ei gyflenwi a pha gyflogwyr sydd gennym i'w dderbyn ac yn y blaen. Felly, nid oes gennym darged penodol oherwydd ein bod wedi ein cyfyngu gan yr arian, mewn gwirionedd. Felly, dyna lle yr ydym yn mynd â hynny.

I take your point about disability and Welsh. We are also looking at enhanced provision in those areas. I spoke at a meeting at lunchtime today here in the Senedd about how we can ensure that the pathway to apprenticeships and so on is smoothed for disabled applicants, and the same goes for Welsh speakers. I entirely concur with your concerns there, and we are looking very seriously at what we can do to bolster that. I don't disagree with any of the remarks you made about the value to the economy. We know that; we know that the returns are good. We know, actually, that, in these days of a very expensive higher education system, many young people would choose an apprenticeship where otherwise they might have gone to university, and that's no bad thing. But what we're trying to do here is make sure that they can continue on their learning pathway right up to postgraduate level and beyond, regardless of where they came from in the first place. That's the main aim of what I am announcing today, really. I hope to be able to show Members the sort of tube map that we've come up with that shows people how that works, and you'll see that they all sort of go back into the same point of highly skilled individuals at this end, regardless of the route that you go by, and there are various steps in between for how to swap paths if you've hit the wrong one. I will just make that last point: that's one of the other issues—if you make a mistake, we want you to be able to reverse without too much cost to us and without irreversible cost to yourself. So, we want people to be able to swap between the streams if at all possible, and I think Keith Davies highlighted a case where you start a level 4 apprenticeship and end up doing a degree full-time perhaps for a short period of time, but returning to the same employer rather than as a sandwich course and so on.

Rwy'n derbyn eich pwynt am anabledd a Chymraeg. Rydym ni hefyd yn edrych ar ddarpariaeth well yn y meysydd hynny. Siaradais mewn cyfarfod amser cinio heddiw yma yn y Senedd ynghylch sut y gallwn sicrhau bod y llwybr i brentisiaethau ac ati yn cael ei wneud yn haws ar gyfer ymgeiswyr anabl, ac mae'r un peth yn wir ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Rwy'n cytuno'n llwyr â'ch pryderon chi, ac rydym yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'r hyn y gallwn ei wneud i hybu hynny. Nid wyf yn anghytuno ag unrhyw un o'r sylwadau a wnaethoch am y gwerth i'r economi. Rydym ni'n gwybod hynny; rydym ni'n gwybod bod yr adenillion yn dda. Rydym ni'n gwybod, mewn gwirionedd, yn y dyddiau pan fo gennym system addysg uwch ddrud iawn, y byddai llawer o bobl ifanc yn dewis prentisiaeth pryd y byddent fel arall efallai wedi mynd i brifysgol, ac nid yw hynny'n beth gwael. Ond yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yma yw gwneud yn siŵr eu bod yn gallu parhau ar eu llwybr dysgu hyd at lefel ôl-raddedig a thu hwnt, o ba bynnag le y daethant i ddechrau. Dyna brif nod yr hyn yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw, mewn gwirionedd. Yr wyf yn gobeithio gallu dangos i'r Aelodau y math o fap tiwb yr ydym wedi ei greu sy'n dangos i bobl sut mae hynny'n gweithio, a byddwch yn gweld eu bod i gyd yn mynd yn ôl i'r un pwynt sef unigolion medrus iawn yn y pen hwn , waeth beth yw'r llwybr yr ydych wedi ei ddilyn, ac mae camau amrywiol yn y canol ar gyfer sut i newid llwybr os ydych chi wedi mynd ar yr un anghywir. Rwyf am ddweud rhywfaint am y pwynt olaf: dyna un o'r materion eraill—os ydych chi'n gwneud camgymeriad, rydym am i chi fod yn gallu newid llwybr heb ormod o gost i ni ac na ellir ei hadfer i chithau. Felly, rydym am i bobl allu newid rhwng y ffrydiau os yw hynny'n bosibl, ac rwyf yn credu bod Keith Davies wedi tynnu sylw at achos lle byddwch yn dechrau prentisiaeth lefel 4 ac yn y pen draw yn gwneud gradd llawn amser, efallai am gyfnod byr o amser, ond yn dychwelyd at yr un cyflogwr yn hytrach nag fel cwrs rhyngosod ac yn y blaen.

So, I think it's very exciting and I concur with a lot of what you say, and I look forward to your announcement tomorrow.

Felly, rwyf yn meddwl bod hyn yn gyffrous iawn ac rwy'n cytuno â llawer o'r hyn yr ydych yn ei ddweud, ac edrychaf ymlaen at eich cyhoeddiad yfory.

17:03 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad.

Thank you, Minister, for the statement.

I want to focus really on the apprenticeship levy because this is a key consideration for many businesses. The big question really is how this is going to fit around the announcements that you’re making today and have already made and how it’s going to fit around Welsh Government policy. Before I do that, I just wanted to query whether the additional £5 million you’re talking about today is additional money or whether it is the £5 million that was agreed in the budget negotiations between our parties previously.

Rwyf eisiau canolbwyntio ar yr ardoll prentisiaeth oherwydd bod hon yn ystyriaeth allweddol i lawer o fusnesau. Y cwestiwn mawr mewn gwirionedd yw sut mae hyn yn mynd i gyd-fynd â’r cyhoeddiadau yr ydych chi'n eu gwneud heddiw a’r rhai yr ydych eisoes wedi'u gwneud a sut mae'n mynd i gyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru. Cyn imi wneud hynny, roeddwn eisiau holi a yw’r £5 miliwn ychwanegol yr ydych yn sôn amdano heddiw yn arian ychwanegol neu ai’r £5 miliwn y cytunwyd arno yn y trafodaethau cyllidebol rhwng ein pleidiau yn flaenorol yw hwn.

But, returning to this issue of the levy, as I say, I think we do now have a little bit more detail on who’s going to pay but not on what the impact is on those devolved competencies. I absolutely recognise that you don’t have any certainty yet. You’ll know, Minister, that I have made a freedom of information request for the correspondence between the two Governments to find out if there is any indication of what is going on there. Certainly, if the opposition spokesperson has information, it’s not anything that I’ve seen in the correspondence. But I wonder if you could maybe talk about some of the principles that you will use to decide how any such redistribution is going to be used once it gets to Wales. There does seem to be the suggestion within that correspondence, if not confirmation, that what we’re looking at is some kind of Barnett consequential as a result of this, perhaps. How will we develop that? Is it something that’s going to be firmly hypothecated to further education and training and to apprenticeships? Also, if that’s going to be hypothecated to specific areas—those high-level apprenticeships that we value so greatly—but also to those areas where, for our economy, we want to see that—. Of course, the alternative to that is that we look to who’s been paying the levy and it’s going to tend to be the bigger employers in Wales. We know that the levy will only apply when the pay bill is greater than £3 million per year, and I wonder how many employers in Wales actually meet that threshold. Will we be punished in a redistribution formula for having an economy that has more smaller businesses, I wonder? Have you done any preparatory work? Have you done any analysis of who it is in Wales who will be paying this levy, and which sectors it is likely to be? Clearly, if we’re looking at the big employers in Wales, we’re looking at retail being a very strong employer, but they’re not traditionally an employer that takes forward an awful lot of apprenticeships. ‘Will they get the value out of the investment they’re making?’ is a question that we ought to consider.

Ond, gan ddychwelyd at y mater hwn o'r ardoll, fel y dywedais, rwyf yn meddwl nawr bod gennym ychydig mwy o fanylion ynglŷn â phwy sy'n mynd i dalu, ond nid ynglŷn â’r effaith ar y cymwyseddau datganoledig hynny. Rwyf yn cydnabod yn llwyr nad oes gennych unrhyw sicrwydd eto. Byddwch yn gwybod, Weinidog, fy mod wedi gwneud cais rhyddid gwybodaeth am yr ohebiaeth rhwng y ddwy Lywodraeth i weld a oes unrhyw arwydd o'r hyn sy'n mynd ymlaen yno. Yn sicr, os oes gan lefarydd yr wrthblaid wybodaeth, nid yw'n rhywbeth yr wyf i wedi ei weld yn yr ohebiaeth. Ond tybed a allech chi efallai siarad am rai o'r egwyddorion y byddwch yn eu defnyddio i benderfynu sut y mae unrhyw ailddosbarthu o'r fath yn mynd i gael ei ddefnyddio pan fydd yn cyrraedd Cymru. Mae'n ymddangos bod awgrym yn yr ohebiaeth honno, os nad cadarnhad, mai’r hyn yr ydym yn ei ystyried yw rhyw fath o swm canlyniadol Barnett yn sgil hyn, efallai. Sut byddwn ni'n datblygu hynny? A yw'n rhywbeth sy'n mynd i gael ei neilltuo yn gadarn i addysg bellach a hyfforddiant ac i brentisiaethau? Hefyd, os yw hynny'n mynd i gael ei neilltuo i feysydd penodol—y prentisiaethau lefel uchel hynny yr ydym yn eu gwerthfawrogi cymaint—ond hefyd i’r meysydd hynny lle, ar gyfer ein heconomi ni, yr ydym yn dymuno gweld hynny—. Wrth gwrs, y dewis arall i hynny yw ein bod yn edrych i weld pwy sydd wedi bod yn talu'r ardoll a bydd yn tueddu i fod y cyflogwyr mwy yng Nghymru. Rydym yn gwybod y bydd yr ardoll ond yn berthnasol pan fydd y bil cyflog yn fwy na £3 miliwn y flwyddyn, a tybed faint o gyflogwyr yng Nghymru mewn gwirionedd sy’n cyrraedd y trothwy hwnnw. A fyddwn ni’n cael ein cosbi mewn fformiwla ailddosbarthu am gael economi sydd â mwy o fusnesau llai, tybed? A ydych chi wedi gwneud unrhyw waith paratoi? A ydych chi wedi gwneud unrhyw ddadansoddiad o bwy yng Nghymru fydd yn talu'r ardoll hon, a ac ym mha sectorau y mae'n debygol o fod? Yn amlwg, os ydym yn edrych ar y cyflogwyr mawr yng Nghymru, mae manwerthu yn gyflogwr cryf iawn, ond dydyn nhw ddim yn draddodiadol yn gyflogwyr sy'n derbyn llawer iawn o brentisiaethau. Mae ‘a fyddant yn cael y gwerth o'r buddsoddiad y maent yn ei wneud?’ yn gwestiwn y dylem ei ystyried.

You talked in your statement a little bit about an increase in demand being anticipated, that employers will want to get some benefit back from what they're investing, and I think that that's true. But what are you going to do to maintain the quality of the apprenticeship experience that young people are going for? Clearly, to gain the parity of esteem and to maintain the usefulness of that qualification and the value of that qualification, we need to make sure that it isn't watered down and doesn't become a stapling together of some work-based learning that previously happened but wasn't called an apprenticeship. We need to make sure that we hold firm to that quality. I wonder whether you've also talked to organisations such as the Construction Industry Training Board that already have a levy system to help support apprenticeships in their industry.

Soniasoch ychydig bach yn eich datganiad am y disgwyliad y bydd cynnydd yn y galw, y bydd cyflogwyr yn dymuno cael rhywfaint o fudd yn ôl o'r hyn y maent yn ei fuddsoddi, a chredaf fod hynny'n wir. Ond beth ydych chi'n mynd i'w wneud i gynnal ansawdd y profiad prentisiaeth y mae pobl ifanc yn mynd amdano? Yn amlwg, i ennill y parch cyfartal ac i gynnal defnyddioldeb y cymhwyster hwnnw a gwerth y cymhwyster hwnnw, mae angen i ni wneud yn siŵr nad yw'n cael ei lastwreiddio ac nad yw'n sefyllfa o styffylu rhyw waith dysgu yn y gwaith at ei gilydd, a oedd yn digwydd o'r blaen ond na alwyd yn brentisiaeth. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn dal yn gadarn at y safon honno. Tybed a ydych chi hefyd wedi siarad â sefydliadau megis Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu sydd eisoes â system ardoll i helpu i gefnogi prentisiaethau yn eu diwydiant hwy.

Finally, I just wanted to ask about consultation with businesses. You say in those letters, which I made a freedom of information request for, to Nick Boles that the UK Government have been consulting with businesses in England but not in Wales, I believe. I wonder if the Welsh Government has conducted any of its own consultations with those employers who are likely to be paying this levy.

Yn olaf, roeddwn eisiau gofyn am ymgynghori â busnesau. Rydych yn dweud yn y llythyrau hynny, y gwnes gais rhyddid gwybodaeth amdanynt, wrth Nick BOLES bod Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgynghori â busnesau yn Lloegr ond nid yng Nghymru, rwy'n credu. Tybed a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw ymgynghoriad ei hun gyda'r cyflogwyr hynny sy'n debygol o fod yn talu'r ardoll hon.

17:07

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Starting with that one first, the answer is 'no', because we were in the middle of our own consultation about our own process when this was sprung upon us. We didn't know anything about it, so obviously they haven't consulted about it. You've seen that the English consultation—well, to be fair, some of the employers in Wales responded to that because they cross borders and so on, but it wasn't widespread in Wales, that's for sure. We're very concerned about that really.

Gan ddechrau gyda hynny yn gyntaf, yr ateb yw 'na', oherwydd roeddem ar ganol ein hymgynghoriad ein hunain ynglŷn â'n proses ein hunain pan ddaeth hyn yn ddisymwth arnom. Nid oeddem yn gwybod unrhyw beth amdano, felly yn amlwg nid ydynt wedi ymgynghori yn ei gylch. Rydych chi wedi gweld bod yr ymgynghoriad yn Lloegr—wel, i fod yn deg, mae rhai o'r cyflogwyr yng Nghymru wedi ymateb i hwnnw oherwydd eu bod yn croesi ffiniau ac yn y blaen, ond nid oedd yn eang yng Nghymru, mae hynny'n sicr. Rydym yn bryderus iawn am hynny mewn gwirionedd.

The quality thing is a really pivotal thing in the apprenticeship levy proposals, because my understanding —. There really isn't enough—. I mean, I don't have very much information—you have as much as I have—but our understanding is that the English Government would have to make somewhere in the region of 660,000 apprenticeships a year to make their target. We know that, actually, making a quality apprenticeship framework takes a long time and you have to have the employer agree that. They've come off what's called the national occupational standards, so they don't have the base level piece of work to go on, about what all apprenticeships should contain. It's now employer-specific. Many of the big employers are not happy about that; they want people to be able to move around sectors and so on. So, I think there's a lot of work to do with this new apprenticeship board in England, and I don't want to sound overly cynical or pessimistic, because I genuinely do hope it will work, but it seems like a big hurdle to me and a hurdle that's not necessary, because you could've gone about this in a rather different way. Our apprenticeship system works perfectly well; we'd love to have more money for it, of course, but it works perfectly well and we'd just have liked to have seen an expansion of that.

Mae'r mater o ansawdd yn rhywbeth gwirioneddol ganolog yn y cynigion am ardoll prentisiaeth, oherwydd rwyf ar ddeall—. Does yn wir ddim digon—. Hynny yw, nid oes gennyf fawr iawn o wybodaeth—mae gennych chi gymaint ag sydd gennyf i—ond ein dealltwriaeth ni yw y byddai'n rhaid i Lywodraeth Lloegr greu tua 660,000 o brentisiaethau y flwyddyn i gyrraedd ei tharged. Gwyddom, mewn gwirionedd, bod gwneud fframwaith prentisiaeth o safon uchel yn cymryd amser hir ac mae'n rhaid i chi gael y cyflogwr i gytuno i hynny. Mae wedi dod o'r hyn a elwir yn safonau galwedigaethol cenedlaethol, felly nid oes ganddynt y darn lefel sylfaenol o waith i'w ddefnyddio, ynglŷn â'r hyn y dylai pob prentisiaeth ei gynnwys. Mae'n benodol i gyflogwyr bellach. Nid yw llawer o'r cyflogwyr mawr yn fodlon ar hynny; maent eisiau i bobl allu symud o gwmpas sectorau ac yn y blaen. Felly, rwyf yn meddwl bod llawer o waith i'w wneud â'r bwrdd prentisiaeth newydd hwn yn Lloegr, ac nid wyf eisiau swnio'n rhy sinigaidd na phesimistaidd, oherwydd rwyf wir yn gobeithio y bydd yn gweithio, ond mae'n ymddangos yn rhwystr mawr i mi ac yn rhwystr diangen, oherwydd y gallech chi fod wedi gwneud hyn mewn ffordd wahanol iawn. Mae ein system brentisiaethau ni yn gweithio'n berffaith iawn; byddem wrth ein boddau yn cael mwy o arian ar ei chyfer, wrth gwrs, ond mae'n gweithio'n iawn a byddem wedi hoffi ei gweld yn cael ei hymestyn.

In terms of that expansion, the £5 million is additional to the Liberal Democrat agreement with us, so it's £10 million additional from the base budget, but that was already in the budget, of course, because it's a two-year deal. So, it's £5 million in addition to that, just to reassure you that that's the case. So, it will be somewhere between 2,000 and 3,000 new starts, and it does rather depend on whether they're two or three-year apprenticeships and so on, so I can't give specific figures.

O ran yr ymestyn hwnnw, mae'r £5 miliwn yn ychwanegol i gytundeb y Democratiaid Rhyddfrydol gyda ni, felly mae'n £10 miliwn ychwanegol ar y gyllideb sylfaenol, ond roedd hwnnw eisoes yn y gyllideb, wrth gwrs, gan ei fod yn gytundeb dwy flynedd. Felly, mae'n £5 miliwn ychwanegol at hynny, dim ond i'ch sicrhau chi bod hynny'n wir. Felly, bydd rhywle rhwng 2,000 a 3,000 o brentisiaethau newydd yn dechrau, ac mae'n dibynnu ar ba un a ydynt yn brentisiaethau dwy neu dair blynedd ac yn y blaen, felly ni allaf roi ffigurau penodol.

We are concerned that it raises an expectation in the retail sector, for example of a return on their 'investment' that they wouldn't otherwise have got. But they look at level 2-type work-based learning training. We are very concerned to protect the brand 'apprentice' in meaning a long-term piece of study, around two years to three, usually, which leads to a specific qualification that allows you to do something, and isn't just a diploma, you know, or that you don't show up at a ceremony only to discover you've been an apprentice for the last three years, unknown to your good self. So, I await with interest to see how they're going to actually manage that. We're determined that that won't happen here, so we won't be mirroring anything of that sort. We want our system to stay as it is, but expand out, if at all possible.

Rydym yn pryderu ei fod yn codi disgwyliad yn y sector manwerthu, er enghraifft o gael adenillion ar eu 'buddsoddiad' na fyddent fel arall wedi eu cael. Ond maent yn edrych ar hyfforddiant dysgu yn y gwaith o fath lefel 2. Mae'n bwysig iawn i ni amddiffyn y brand 'prentis' o ran ei fod yn golygu darn o astudio hirdymor, tua dwy i dair blynedd, fel arfer, sy'n arwain at gymhwyster penodol sy'n eich galluogi i wneud rhywbeth, ac nad yw ond yn ddiploma, wyddoch chi, neu nad ydych yn dod i seremoni ac yn darganfod wedyn eich bod wedi bod yn brentis am y tair blynedd diwethaf, heb yn wybod i chi eich hunan. Felly, rwyf yn disgwyl yn eiddgar i weld sut y maent yn mynd i reoli hynny mewn gwirionedd. Rydym yn benderfynol na fydd hynny'n digwydd yma, felly ni fyddwn yn adlewyrchu unrhyw beth o'r fath. Rydym eisiau i'n system ni aros fel ag y mae, ond gan ehangu, os yn bosibl.

In terms of the distribution, I mean, I only repeat what I said before—I have no idea. So, I hope we get additional money, but I've absolutely no idea how that's going to work, and I do hope that these ministerial meetings and official meetings produce some more clarity. As soon as I have that clarity, I am happy to share it with Members.

O ran y dosbarthu, wyddoch chi, gallaf ond ailadrodd yr hyn a ddywedais o'r blaen—nid oes gennyf unrhyw syniad. Felly, rwyf yn gobeithio y byddwn yn cael arian ychwanegol, ond nid oes gennyf unrhyw syniad sut mae hynny'n mynd i weithio, ac rwy'n gobeithio y bydd y cyfarfodydd gweinidogol a'r cyfarfodydd swyddogol hyn yn creu mwy o eglurder. Cyn gynted ag y bydd gennyf yr eglurder hwnnw, yr wyf yn fodlon iawn ei rannu gyda'r Aelodau.

17:10

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement and the extra £5 million. My questions were about the levy, about encouraging businesses and the gender gap, and I think those have all been pretty well covered so far. But just on the gender issue, before Christmas I met one of my constituents who had been an apprentice engineer with British Gas—a very inspiring young woman to meet. I just wondered what opportunity you had to use role models to encourage women like her to move forward.

Rwyf yn croesawu'r datganiad a'r £5 miliwn ychwanegol. Roedd fy nghwestiynau i yn ymwneud â'r ardoll, annog busnesau a'r bwlch rhwng y rhywiau, ac rwyf yn meddwl bod hynny i gyd wedi cael sylw eithaf da hyd yn hyn. Ond ar fater y gwahaniaeth rhwng y rhywiau, cyn y Nadolig cefais gyfarfod gydag un o fy etholwyr a oedd wedi bod yn beiriannydd prentis gyda Nwy Prydain—merch ifanc ysbrydoledig iawn i'w chyfarfod. Roeddwn yn meddwl tybed pa gyfle yr ydych wedi ei gael i ddefnyddio enghreifftiau o esiampl dda i annog menywod fel hi i symud ymlaen.

17:10 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, we do use role models very extensively, actually, and what we really like to do is to get the apprentices to go back to their old schools and talk to the people who are coming just behind them about, you know, how they got into apprenticeships and all the rest of it. We do that quite extensively, and it's always nice to see young women doing that, especially in STEM subject areas. I do have a slight concern that, if you're a woman in a STEM area, you end up being the spokesperson, even if that's not what you went into it for. Sometimes, you see a young woman desperately trying to hide at the back of the crowd. She doesn't want to, yet again, be singled out. But that said, you know, where they're happy to be role models, we make full use of them. We wouldn't make somebody do it if they didn't want to. But, actually, it's important to get it at all levels. It's not just about the big high-flyers in the world being a role model, is it? It's somebody just above you, in chronological terms, who can encourage you to take a path that you might not otherwise have thought of.

Ydym, rydym yn defnyddio enghreifftiau o esiampl dda yn helaeth iawn, mewn gwirionedd, a'r hyn yr ydym wir yn hoffi ei wneud yw cael y prentisiaid i fynd yn ôl i'w hen ysgolion a siarad â'r bobl sy'n dod yn union y tu ôl iddynt, wyddoch chi, am sut y gwnaethant ddechrau mewn prentisiaeth ac yn y blaen. Rydym yn gwneud hynny yn eithaf helaeth, ac mae bob amser yn braf gweld menywod ifanc yn gwneud hynny, yn enwedig mewn meysydd pwnc STEM. Mae gennyf rhywfaint o bryder, os ydych yn fenyw mewn maes STEM, rydych yn dod yn llefarydd, hyd yn oed os nad dyna'r rheswm yr aethoch i'r maes hwnnw i ddechrau. Weithiau, byddwch yn gweld menyw ifanc yn ceisio cuddio yng nghefn y dorf. Nid yw hi eisiau i rywun dynnu sylw ati unwaith eto. Ond wedi dweud hynny, wyddoch chi, pan fyddant yn hapus i fod esiampl dda, rydym yn gwneud defnydd llawn ohonynt. Ni fyddem yn gwneud i rywun wneud hynny os na fyddent yn dymuno gwneud hynny. Ond, mewn gwirionedd, mae'n bwysig cael hyn ar bob lefel. Nid dim ond y bobl fwyaf llwyddiannus yn y byd ddylai fod yn esiampl dda. Mae'n rhywun sydd ychydig o'ch blaen chi, yn gronolegol, sy'n gallu eich annog i gymryd llwybr na fyddech wedi ei ystyried fel arall.

We also do a lot of work on engagement activities with parents and grandparents, because we know they're very influential in what their children take up. I hope that all Members will have seen our new skills gateway offer, which has a lot of information about careers that you might not have thought of otherwise, because one of the things I know you've all heard me say many times is that I feel very strongly you can't want to be something you don't know about. So, the idea there is to have little vignettes of what people do in the locality—you know, what opportunities there are, for example, in the agri-industry sectors, and Rebecca and I did a piece of work on that very recently—that people might not otherwise know about. Joyce Watson has worked very hard in the construction sector to make sure that the word 'construction' doesn't mean 'bricklayer' to everybody. There's nothing wrong with being a bricklayer, but many other opportunities, you know, present themselves that perhaps are a little bit more typical for women, like quantity surveyors, accounts and all the rest of it, and are still in the construction sector. That's not to say that I haven't met some splendid bricklayers who are female, because I certainly have.

Rydym hefyd yn gwneud llawer o waith ar weithgareddau ymgysylltu â rhieni a neiniau a theidiau, oherwydd ein bod yn gwybod eu bod yn ddylanwadol iawn yn yr hyn y mae eu plant yn ei wneud. Rwyf yn gobeithio y bydd pob Aelod wedi gweld ein cynnig porth sgiliau newydd, sydd â llawer o wybodaeth am yrfaoedd na fyddech wedi eu hystyried fel arall, oherwydd un o'r pethau yr wyf yn gwybod eich bod i gyd wedi fy nghlywed yn ei ddweud droeon yw fy mod yn teimlo'n gryf iawn nad ydych yn gallu eisiau bod yn rhywbeth nad ydych yn gwybod amdano. Felly, y syniad yw cael cipolwg ar yr hyn y mae pobl yn ei wneud yn yr ardal—wyddoch chi, pa gyfleoedd sydd ar gael, er enghraifft, yn y sectorau diwydiant amaeth, a gwnaeth Rebecca a minnau ddarn o waith ar hynny yn ddiweddar iawn—na fyddai pobl fel arall yn gwybod amdano efallai. Mae Joyce Watson wedi gweithio'n galed iawn yn y sector adeiladu i wneud yn siŵr nad yw'r gair 'adeiladu' yn golygu 'briciwr' i bawb. Nid oes dim byd o'i le ar fod yn friciwr, ond mae llawer o gyfleoedd eraill, wyddoch chi, ar gael, sydd efallai ychydig yn fwy nodweddiadol ar gyfer menywod, fel syrfewyr meintiau, cyfrifon ac yn y blaen, ond sy'n dal i fod yn y sector adeiladu. Nid wyf yn dweud nad wyf wedi cyfarfod bricwyr gwych sy'n fenywod, oherwydd rwyf wedi gwneud hynny, yn sicr.

So, we've worked very hard on that, I think it's fair to say, and that's why we're cross that our well-regarded programme has been a little bit up-ended by the levy.

Felly, rydym wedi gweithio'n galed iawn ar hynny, rwyf yn credu ei bod yn deg i ddweud, a dyna pam yr ydym yn flin bod yr ardoll wedi tarfu braidd ar ein rhaglen sydd ag enw da iddi.

17:12 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Deputy Minister for her statement? A number of my questions have already been answered, so I won't go over those again, particularly around Careers Wales. Again, I had some concerns around the potential budget cuts, because I think Careers Wales is so vital in being the gateway for young people to look at apprenticeships.

A gaf i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad? Mae nifer o fy nghwestiynau eisoes wedi cael eu hateb, felly ni fyddaf yn sôn am yr un pethau eto, yn enwedig o ran Gyrfa Cymru. Unwaith eto, roedd gen i rai pryderon ynglŷn â'r toriadau posibl i'r gyllideb, oherwydd credaf fod Gyrfa Cymru mor hanfodol o ran bod yn borth i bobl ifanc i ystyried prentisiaethau.

I just want to come back on the gender issue, which, again, I know other Members have talked about. Obviously, the figures that other Members have talked about—you know, the disproportionate numbers of men and women in different sectors—I think, if nothing else, it's a waste of talent, and Wales desperately needs that talent. I think part of the challenge is around accessing good gender-disaggregated data, and I just wonder, Deputy Minister, how we can actually change this. I was very pleased when we had the short debate, because you did send me a letter regarding the fair foundations programme, so I just wonder whether we could have more information on what actually is working and what, perhaps, is not working. We've had these discussions for many, many years and, you know, some good ideas, but I think we need to go a bit deeper, and I just wondered whether you had any reflections, since you've been in office, as to what you think is really working and what is, perhaps, not working—what sort of initiatives, you know, within schools. Thank you.

Rwyf eisiau dod yn ôl at fater y rhywiau, ac, unwaith eto, rwyf yn gwybod bod Aelodau eraill wedi sôn am hyn. Yn amlwg, mae'r ffigurau y mae Aelodau eraill wedi sôn amdanynt—wyddoch chi, y niferoedd anghymesur o ddynion a menywod mewn gwahanol sectorau—rwy'n credu, os dim byd arall, ei fod yn wastraff talent, ac mae gwir angen y dalent honno ar Gymru. Rwy'n credu mai rhan o'r her yw cael data da sy'n dangos faint o ddynion a faint o fenywod sydd mewn gwahanol swyddi, a tybed, Ddirprwy Weinidog, sut y gallwn ni newid hyn, mewn gwirionedd. Roeddwn yn falch iawn pan gawsom y ddadl fer, oherwydd fe wnaethoch anfon llythyr ataf ynghylch y rhaglen sylfeini teg, felly tybed a allem ni gael mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio mewn gwirionedd a'r hyn, efallai, nad yw'n gweithio. Rydym wedi cael y trafodaethau hyn ers blynyddoedd lawer a, wyddoch chi, rhai syniadau da, ond rwyf yn credu bod angen i ni fynd ychydig yn ddyfnach, ac roeddwn yn meddwl tybed a ydych chi wedi cael unrhyw fyfyrdodau, ers i chi fod yn y swydd, ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio mewn gwirionedd a'r hyn, efallai, nad yw'n gweithio—pa fath o fentrau, hynny yw, mewn ysgolion. Diolch.

17:14 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think it's an excellent point. We do have some very interesting data, because if you look at apprenticeships data from the top end, it looks like there is an equal number of women and men in it. It's only when you go down a level you realise that that's because a large number of the men are in traditional male roles and a large number of women are in traditional female roles, which is not good. There's a little bit of cross-over, but not much.

Rwy'n credu ei fod yn bwynt ardderchog. Mae gennym rywfaint o ddata diddorol iawn, oherwydd os edrychwch ar y data prentisiaethau o'r pen uchaf, mae'n edrych fel bod nifer cyfartal o fenywod a dynion ynddo. Dim ond pan fyddwch yn mynd i lawr lefel y byddwch yn sylweddoli bod hynny oherwydd bod nifer fawr o'r dynion mewn swyddi sy'n draddodiadol wrywaidd a nifer fawr o fenywod mewn swyddi sy'n draddodiadol fenywaidd, ac nid yw hynny'n beth da. Mae ychydig o eithriadau, ond dim llawer.

We do a lot of things with individuals in order to encourage them into different routes and so on, but one of the things we're looking at as well is actually working with businesses. So, I'm frequently approached by employers who say, 'Woe is me' when they cannot get a skilled whoever. I've taken to going through their human resources advertisements with them. Honestly, some of the language they use, it's no wonder women don't apply. I'm sure that in the care sector—although I haven't looked at that specifically—you get a similar thing. So, you know, 'We want an able man who can do blah'. Well, you know, I wouldn't have applied for that. So, we're going to do a piece of work about enabling businesses to have a better sense of how to get the best out of their HR strategies. Actually, a lot of that is around unconscious bias and so on. They don't mean to do that; it's just not been thought through. Also, a lot of businesses, I think, do seek to replace the person who just left rather than have a slightly wider view about who might be trainable in a short time into that role. So, we're doing a little bit of work around—. I've just got a project looking at what we could do to support small and medium-sized enterprises to develop some of those softer skills. So, it's about coming at it from both ends, it seems to me.

Rydym yn gwneud llawer o bethau gydag unigolion er mwyn eu hannog i wahanol lwybrau ac yn y blaen, ond un o'r pethau yr ydym yn ei ystyried hefyd yw gweithio gyda busnesau. Felly, mae cyflogwyr yn aml yn cysylltu â mi ac yn dweud, 'Gwae fi' pan nad ydynt yn gallu cael gweithwyr medrus. Rwyf wedi bod yn edrych ar eu hysbysebion adnoddau dynol gyda nhw. Yn wir, o ystyried peth o'r iaith y maent yn ei defnyddio, nid yw'n syndod nad yw menywod yn gwneud cais. Rwy'n siŵr yn y sector gofal—er nad wyf wedi edrych ar hynny yn benodol—bod rhywbeth tebyg yn digwydd. Felly, wyddoch chi, 'Rydym eisiau dyn galluog sy'n gallu gwneud hyn neu'r llall'. Wel, wyddoch chi, fyddwn i ddim wedi gwneud cais am y swydd yna. Felly, rydym yn mynd i wneud darn o waith yn ymwneud â galluogi busnesau i gael gwell syniad o sut i gael y gorau allan o'u strategaethau adnoddau dynol. Mewn gwirionedd, mae llawer o hynny'n rhagfarn ddiarwybod ac yn y blaen. Nid ydynt yn bwriadu gwneud hynny; dydy'r peth heb gael ei ystyried yn iawn. Hefyd, mae llawer o fusnesau, rwy'n meddwl, yn ceisio cymryd lle'r person sydd newydd adael yn hytrach na chael safbwynt ychydig yn ehangach ynglŷn â phwy y byddai'n bosibl ei hyfforddi mewn amser byr i wneud y swydd honno. Felly, rydym yn gwneud ychydig bach o waith ynglŷn â—. Mae gen i brosiect yn edrych ar yr hyn y gallem ei wneud i gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint i ddatblygu rhai o'r sgiliau meddalach hynny. Felly, mae'n ymwneud â dod at hyn o'r ddau ben, mae'n ymddangos i mi.

I will come back to him. I might be able to write to all Members, actually, about what we're doing about monitoring the whole programme across and then trying to make some sense out of it. We do seem to have a lot of successful pilots, but have not necessarily rolled them out. So, I'll be looking to see what we can do about that as well.

Byddaf yn dod yn ôl ato. Efallai y byddaf yn gallu ysgrifennu at yr holl Aelodau, mewn gwirionedd, am yr hyn yr ydym yn ei wneud ynglŷn â monitro'r rhaglen gyfan ac yna ceisio gwneud rhywfaint o synnwyr allan o hynny. Mae'n ymddangos bod gennym lawer o gynlluniau arbrofol llwyddiannus, ond nad ydym o reidrwydd wedi eu cyflwyno yn gyffredinol. Felly, byddaf yn edrych i weld beth y gallwn ei wneud am hynny hefyd.

17:16 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Deputy Minister for her statement this afternoon? I must declare an interest as a member of the executive board of the National Training Federation Wales. Apprenticeships, Deputy Minister, are of course a vital part of our skills policy in Wales as we seek to ensure that our learners are equipped with the necessary qualifications and skills to get the right jobs and compete in an increasingly competitive and globalised labour market. Can I agree with you, Deputy Minister, that the restructured careers service is truly effective, especially in terms of its use of new technologies for providing, for example, face-to-face advice? So, Deputy Minister, would you agree with me that a balanced partnership-based approach between employers, training providers and the Welsh Government is key to delivering a quality apprenticeship programme; and, as reported by the online journal of the Chartered Institute of Personnel and Development, that this goes hand in hand with tailored careers advice to ensure that young people are aware of the opportunities available to them through apprenticeships and other forms of work-based learning; and finally, of course, that apprenticeships are one of the best examples of the effective use of European structural funds in Wales, thus demonstrating a key benefit of European Union membership?

A gaf i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad y prynhawn yma? Mae'n rhaid imi ddatgan buddiant fel aelod o fwrdd gweithredol Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. Mae prentisiaethau, Ddirprwy Weinidog, wrth gwrs yn rhan hanfodol o'n polisi sgiliau yng Nghymru wrth i ni geisio sicrhau bod ein dysgwyr yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau angenrheidiol i gael y swyddi iawn a chystadlu mewn marchnad lafur sy'n fwyfwy cystadleuol a byd-eang. A gaf i gytuno â chi, Ddirprwy Weinidog, bod y gwasanaeth gyrfaoedd a ailstrwythurwyd yn wirioneddol effeithiol, yn enwedig o ran ei ddefnydd o dechnolegau newydd ar gyfer darparu, er enghraifft, cyngor wyneb yn wyneb? Felly, Ddirprwy Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi bod dull sy'n seiliedig ar bartneriaeth gytbwys rhwng cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a Llywodraeth Cymru yn allweddol i gyflwyno rhaglen prentisiaeth o ansawdd; ac, fel yr adroddwyd gan gylchgrawn ar-lein y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, mae hyn yn mynd law yn llaw â chyngor gyrfaoedd sydd wedi ei deilwra i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt drwy brentisiaethau a mathau eraill o ddysgu yn y gwaith; ac yn olaf, wrth gwrs, bod prentisiaethau yn un o'r enghreifftiau gorau o'r defnydd effeithiol o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru, a thrwy hynny yn dangos un o fuddion allweddol bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd?

17:17 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you so much for making those very important comments. We all know that your dedication to vocational training has been second to none, Jeff. I couldn't agree with you more. It's an excellent use of ESF funding. It enhances the economy; it helps the individual as well as the businesses; and it is, indeed, a partnership between the training providers, the individual and ourselves. And I would add another, which is the supporters of the people doing the apprenticeships. One of the biggest pleasures of the job—and I know that you thought so too—is awarding the final certificates to a number of apprentices that have completed really rigorous programmes. One of the comments that were made at a recent ceremony at GE Aviation, for example, was that it was harder to get onto a GE Aviation apprenticeship than it was to get into most courses in Oxford or Cambridge universities. I think it's about making people understand the level of learning that you get on these courses, and indeed the boost to your career that you get. Various pieces of academic research have shown that people who have come up the apprenticeship route go further and faster in their career than people who come in from academia—it takes them a little while to gain the softer skills or the more specific skills that their apprenticeship counterparts have got as they've gone along. So, I couldn't agree with you more, and we're looking forward to enhancing our offer right across that spectrum as we go forward.

Wel, diolch yn fawr am wneud y sylwadau pwysig iawn yna. Rydym i gyd yn gwybod bod eich ymroddiad i hyfforddiant galwedigaethol wedi bod yn rhagorol, Jeff. Ni allwn gytuno mwy â chi. Mae'n ddefnydd ardderchog o gyllid cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Mae'n gwella'r economi; mae'n helpu'r unigolyn yn ogystal â'r busnesau; ac y mae, yn wir, yn bartneriaeth rhwng y darparwyr hyfforddiant, yr unigolyn a ni ein hunain. A byddwn yn ychwanegu un arall, sef cefnogwyr y bobl sy'n gwneud y prentisiaethau. Un o bleserau mwyaf y swydd—ac yr wyf yn gwybod eich bod chithau'n credu hynny hefyd—yw dyfarnu'r tystysgrifau terfynol i nifer o brentisiaid sydd wedi cwblhau rhaglenni manwl iawn. Un o'r sylwadau a wnaethpwyd mewn seremoni ddiweddar yn GE Aviation, er enghraifft, oedd ei bod yn fwy anodd cael eich derbyn ar brentisiaeth gyda GE Aviation nag yr oedd i gael eich derbyn ar y rhan fwyaf o'r cyrsiau ym mhrifysgolion Rhydychen neu Gaergrawnt. Rwy'n credu bod hyn yn ymwneud â chael pobl i ddeall y lefel o ddysgu yr ydych yn ei gael ar y cyrsiau hyn, ac yn wir yr hwb i'ch gyrfa yr ydych yn ei gael. Mae gwahanol ddarnau o ymchwil academaidd wedi dangos bod pobl sydd wedi dilyn y llwybr prentisiaeth yn mynd ymhellach ac yn gyflymach yn eu gyrfa na phobl sy'n dod i mewn o'r byd academaidd—mae'n cymryd ychydig o amser iddynt ddysgu'r sgiliau meddalach neu'r sgiliau mwy penodol y mae eu cymheiriaid ar brentisiaeth wedi eu dysgu yn ystod eu cyfnod astudio. Felly, ni allwn gytuno mwy â chi, ac rydym yn edrych ymlaen at wella ein cynnig ar draws y sbectrwm wrth inni symud ymlaen.

17:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

17:19

## 6. Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Agenda Diwygio Gwasanaethau Datganoledig

## 6. Statement: Update on the Devolved Services Reform Agenda

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 6 is a statement by the Minister for Public Services: an update on the devolved services reform agenda. I call Leighton Andrews.

Eitem 6 yw datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: yr wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda ddiwygio gwasanaethau sydd wedi'u datganoli. Galwaf ar Leighton Andrews.

17:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

The reports from the Williams and the Silk commissions provided us with an opportunity to set a new reform agenda for public services in Wales. This was set out in July 2014 in our publication 'Devolution, Democracy and Delivery: Improving public services for people in Wales'. We continue to support the Silk commission's conclusions, as set out in their second report, and regret that the St David's Day White Paper and the Wales Bill do not give full effect to them. We continue to work with the Wales Office to seek improvements to the Bill, and we will expect the Secretary of State for Wales to take full account of the Assembly's views.

Mae'r adroddiadau gan gomisiynau Williams a Silk wedi rhoi cyfle i ni osod agenda ddiwygio newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nodwyd hyn ym mis Gorffennaf 2014 yn ein cyhoeddiad 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflenwi: Gwella gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru'. Rydym yn parhau i gefnogi casgliadau comisiwn Silk, fel y nodir yn eu hail adroddiad, ac yn gresynu nad yw'r Papur Gwyn Dydd Gŵyl Dewi a Bil Cymru yn rhoi effaith lawn iddynt. Rydym yn parhau i weithio gyda Swyddfa Cymru i geisio cael gwelliannau i'r Bil, a byddwn yn disgwyl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ystyried barn y Cynulliad yn llawn.

The devolution of new borrowing and tax powers is a significant step forward. The Tax Collection and Management (Wales) Bill provides a clear and strong tax governance framework, starting with the establishment of the Welsh revenue authority, which will have the responsibility for tax collection and the management of Welsh devolved taxes from April 2018.

Mae datganoli pwerau benthyca a threth newydd yn gam sylweddol ymlaen. Mae'r Bil Casglu a Rheoli'r Dreth (Cymru) yn darparu fframwaith llywodraethu clir a chryf ynghylch treth, gan ddechrau gyda sefydlu awdurdod refeniw Cymru, a fydd yn gyfrifol am gasglu trethi a rheoli trethi datganoledig Cymru o fis Ebrill 2018.

Our reform agenda for public services was informed by the Williams recommendations, but not limited to them. We are implementing 60 out of the 62 recommendations. The Local Government (Wales) Act 2015 provided the powers necessary to enable important preparatory work for local government mergers and reform. In February 2015, we published the 'Power to Local People' White Paper, which set out our vision for activist councils working with communities to improve outcomes and deliver modern, accessible, high-quality public services. In June 2015, we published the Welsh Government's preferred map for local authority mergers. We are formally consulting upon this proposal through the draft Local Government (Wales) Bill, published last November. The draft Bill also sets out a range of provisions to increase the openness, transparency and democratic accountability of local government—an important part of our strategy to deal with the financial, structural and performance issues facing public services.

Cafodd ein hagenda ddiwygio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ei llywio gan argymhellion Williams, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Rydym yn gweithredu 60 allan o'r 62 o argymhellion. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn darparu'r pwerau angenrheidiol er mwyn galluogi gwaith paratoi pwysig ar gyfer uno a diwygio llywodraeth leol. Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddwyd y Papur Gwyn 'Pŵer i Bobl Leol', a oedd yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer cynghorau gweithredol sy'n gweithio gyda chymunedau i wella canlyniadau a darparu gwasanaethau modern, hygyrch, o ansawdd uchel i'r cyhoedd. Ym mis Mehefin 2015, cyhoeddwyd y map a ffafrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer uno awdurdodau lleol. Rydym yn ymgynghori yn ffurfiol ar y cynnig hwn drwy'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf. Mae'r Bil drafft hefyd yn nodi ystod o ddarpariaethau i gynyddu didwylledd, tryloywder ac atebolrwydd democrataidd llywodraeth leol—rhan bwysig o'n strategaeth ni i ymdrin â'r materion ariannol, strwythurol a pherfformiad sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus.

Public services in Wales are being transformed. The challenging financial situation will continue to mean that there are hard choices to make. New models of delivery are being developed and rolled out across Wales, but we need to ensure that these models are appropriate, sustainable and have the interests of citizens and the workforce at their heart. We are clear that public services delivered by public servants are best, and we advocate co-operative, mutual and related alternative delivery models only as an alternative to ceasing or privatising services. We consulted on 'Alternative delivery models in public service delivery: An action plan for consultation'.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu trawsnewid. Bydd y sefyllfa ariannol heriol yn parhau i olygu bod dewisiadau anodd yn gorfod cael eu gwneud. Mae modelau darparu newydd yn cael eu cyflwyno ar draws Cymru, ond mae angen i ni sicrhau bod y modelau hyn yn briodol, yn gynaliadwy a bod buddiannau dinasyddion a'r gweithlu yn ganolog iddynt. Rydym yn glir mai gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan weision cyhoeddus sydd orau, ac rydym yn argymell modelau darparu amgen cydweithredol, cydfuddiannol a chysylltiedig dim ond fel dewis arall i roi'r gorau i wasanaethau neu eu preifateiddio. Gwnaethom ymgynghori ar 'Modelau darparu amgen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus: Cynllun gweithredu ar gyfer ymgynghori'.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 establishes public service boards to bring together local service delivery partners to work together to improve the wellbeing of their area. As a first step, they will assess the state of economic, social, environmental and cultural wellbeing in their areas. This assessment will then inform the actions taken to improve their locality, and enable the streamlining of services through more effective partnerships, as recommended by Williams. Williams was clear that achieving the right leadership, culture and values is essential to improve performance and public service delivery for users. We have brought public service leaders together to take forward this agenda, through the public services summit held last November. We have established a Public Services Staff Commission to consider public service workforce issues, with the workforce partnership council as its primary reference point.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus i ddod â phartneriaid cyflenwi gwasanaethau lleol at ei gilydd i gydweithio er mwyn gwella lles eu hardal. Fel cam cyntaf, byddant yn asesu cyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd. Bydd yr asesiad hwn wedyn yn llywio'r camau a gymerir i wella eu hardal leol, ac yn galluogi gwasanaethau i gael eu symleiddio drwy bartneriaethau mwy effeithiol, fel yr argymhellwyd gan Williams. Roedd Williams yn glir bod cyflawni'r arweinyddiaeth, y diwylliant a'r gwerthoedd cywir yn hanfodol er mwyn gwella perfformiad a darparu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr. Rydym wedi dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd i ddatblygu'r agenda hon, drwy'r uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus a gynhaliwyd fis Tachwedd diwethaf. Rydym wedi sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried materion gweithlu gwasanaethau cyhoeddus, gyda chyngor partneriaeth y gweithlu fel ei bwynt cyfeirio sylfaenol.

The Welsh Government is also working to ensure that senior salaries in local government are managed in a strategic way. The Local Government (Wales) Act 2015 extends the current role of the independent remuneration panel to include all local authority senior officers. I am taking forward the recommendations of the expert group on diversity in local government, and I am pleased to announce that a mentoring scheme is now up and running, with 46 mentees being supported by existing elected members to stand as candidates in 2017. We agreed with the assessment of the Williams commission that effective performance management can significantly improve service quality. We want to ensure that organisations have a clear understanding of what is expected of them, rather than a long list of performance targets. That is why we are reviewing the way in which we monitor the performance of local government to create a simpler system, focused on driving improvement through benchmarking and real-time data. We've moved funding out of specific grants and into unhypothecated funding, with £190 million moving into the RSG, and we continue to explore the scope to do more on this.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio i sicrhau bod uwch gyflogau mewn llywodraeth leol yn cael eu rheoli mewn modd strategol. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn ymestyn rôl bresennol y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol i gynnwys pob uwch swyddog awdurdodau lleol. Rwy'n datblygu argymhellion y grŵp arbenigol ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol, ac rwy'n falch o gyhoeddi bod cynllun mentora bellach ar waith, gyda 46 o'r rhai sy'n cael eu mentora yn cael eu cefnogi gan aelodau etholedig presennol i sefyll fel ymgeiswyr yn 2017. Roeddem yn cytuno ag asesiad comisiwn Williams y gall rheoli perfformiad effeithiol wella ansawdd gwasanaeth yn sylweddol. Rydym am sicrhau bod sefydliadau yn deall yn glir yr hyn a ddisgwylir ganddynt, yn hytrach na rhestr hir o dargedau perfformiad. Dyna pam ein bod yn adolygu'r modd yr ydym yn monitro perfformiad llywodraeth leol i greu system symlach, sy'n canolbwyntio ar ysgogi gwelliant trwy feincnodi a data amser real. Rydym wedi symud cyllid allan o grantiau penodol ac i mewn i gyllid heb ei neilltuo, gyda £190 miliwn yn symud i'r Grant Cynnal Refeniw, ac rydym yn parhau i edrych ar y posibilrwydd o wneud rhagor ar hyn.

The administrative costs review set out the potential for savings in back-office functions in local authorities. The resource efficiency group has been established to support authorities to realise savings, but also to consider where shared services or collective action by authorities can reduce costs, defend services and enable different ways of working. The prudent health and care agenda provides one example of policy here to reshape the relationship between people and public services. The draft budget announcement confirmed £50 million for the intermediate care fund in 2016-17, to continue to integrate health and social care. This funding will allow us to build on the service in place and to develop this agenda further. An additional £21 million has also been made available for social services. This will enable local authorities to focus on the service transformation required for implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.

Mae'r adolygiad o gostau gweinyddol yn nodi'r potensial ar gyfer arbedion mewn swyddogaethau cefn swyddfa awdurdodau lleol. Sefydlwyd y grŵp effeithlonrwydd adnoddau i gefnogi awdurdodau i sicrhau arbedion, ond hefyd i ystyried lle gall gwasanaethau a rennir neu weithredu ar y cyd gan awdurdodau leihau costau, amddiffyn gwasanaethau a galluogi ffyrdd gwahanol o weithio. Mae'r agenda iechyd a gofal darbodus yn rhoi un enghraifft o bolisi yma i ail-lunio'r berthynas rhwng pobl a'r gwasanaethau cyhoeddus. Cadarnhaodd y cyhoeddiad cyllideb ddrafft £50 miliwn ar gyfer y gronfa gofal canolraddol yn 2016-17, er mwyn parhau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i adeiladu ar y gwasanaeth sydd ar waith ac i ddatblygu'r agenda hon ymhellach. Mae £21 miliwn yn ychwanegol hefyd ar gael ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar y trawsnewid gwasanaeth sydd ei angen ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Digital delivery can ensure better and smarter services for people. 'Digital First' outlines the steps the Welsh Government is taking to drive excellence in digital services for the people and businesses of Wales. In November, I launched the £250,000 digital innovation fund to support public service organisations wishing to use digital technology to trial smarter and more efficient ways of working. The purpose of our reforms is ultimately to improve the lives of the people of Wales. Our reform agenda sets out a compelling vision for change to create the high-quality public services we deserve.

Gall cyflenwi digidol sicrhau bod gwasanaethau gwell a challach ar gael i bobl. Mae 'Digidol yn Gyntaf' yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu rhagoriaeth yn y gwasanaethau digidol ar gyfer pobl a busnesau Cymru. Ym mis Tachwedd, lansiais y gronfa arloesi digidol gwerth £250,000 i gefnogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n dymuno defnyddio technoleg ddigidol i dreialu ffyrdd mwy deallus ac effeithlon o weithio. Diben ein diwygiadau yn y pen draw yw gwella bywydau pobl Cymru. Mae ein hagenda ddiwygio yn cyflwyno gweledigaeth gref ar gyfer newid er mwyn creu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel yr ydym yn ei haeddu.

17:25 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In welcoming the report, I have to say I'm not quite sure just how much this report will mean to the many who work in our public services across Wales, and particularly those hard-working, front-line deliverers of our vital services in our local authorities. You've made particular reference to the Williams commission, and I think I'm not alone among Members here in feeling that the Williams commission was indeed a lost opportunity. Would the Minister just confirm whether he did actually say that he's implemented 60 of the 62 recommendations, or did I just—? I can always check the Record, but I'd like you to confirm whether you did in fact just say that. If you have, then I think some of us missed that along the way. [Interruption.]

Wrth groesawu'r adroddiad, rhaid i mi ddweud nad ydw i'n hollol siŵr yn union faint y bydd yr adroddiad hwn yn ei olygu i'r nifer sy'n gweithio yn ein gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, ac yn enwedig y darparwyr rheng flaen hynny sy'n gweithio'n galed ar ein gwasanaethau hanfodol yn ein hawdurdodau lleol. Rydych chi wedi cyfeirio'n benodol at gomisiwn Williams, ac rwy'n meddwl nad wyf ar fy mhen fy hun ymysg Aelodau yma yn teimlo bod comisiwn Williams yn gyfle a gollwyd yn wirioneddol. A fyddai'r Gweinidog yn cadarnhau a ddywedodd mewn gwirionedd ei fod wedi gweithredu 60 o'r 62 o argymhellion, neu a wnes i—? Gallaf bob amser edrych ar y Cofnod, ond hoffwn i chi gadarnhau a wnaethoch mewn gwirionedd ddweud hynny. Os gwnaethoch, yna rwy'n credu bod rhai ohonom wedi colli hynny ar hyd y ffordd. [Torri ar draws.]

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. You will have your turn.

Trefn. Byddwch yn cael eich tro.

17:26 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think really the disappointment with this is that there's a lot of rhetoric in here, Minister, and there's certainly a great deal of spin, but there is very little—in fact, no mention—as to how public services are delivered in our rural communities, and the difficulties facing those. Of course, your recent settlement has actually just proved once again that you really are not a Government that supports our rural areas.

Rwy'n credu mewn gwirionedd mai'r siom gyda hyn yw bod llawer o rethreg yma, Weinidog, ac mae yn sicr lawer iawn o sbin, ond ychydig iawn sydd—mewn gwirionedd, dim sôn—o ran sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn ein cymunedau gwledig, a'r anawsterau sy'n wynebu hynny. Wrth gwrs, mae eich setliad diweddar wedi profi unwaith eto nad ydych mewn gwirionedd yn Llywodraeth sy'n cefnogi ein hardaloedd gwledig.

We talk about the local government reorganisation as being a key, instrumental way of involving and improving our public services, but, again, those plans are in complete disarray. As we stand here today, you have no democratic mandate, there is no guarantee that you're going to have a democratic mandate after the Assembly elections, and so really it's fair to say that it's almost like the blind leading the blind on a document like this.

Rydym yn siarad am ad-drefnu llywodraeth leol fel bod yn ffordd allweddol, hanfodol o gynnwys a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus, ond, unwaith eto, mae'r cynlluniau hynny mewn anhrefn llwyr. Wrth i ni sefyll yma heddiw, nid oes gennych fandad democrataidd, nid oes sicrwydd eich bod yn mynd i gael mandad democrataidd ar ôl etholiadau'r Cynulliad, ac felly mewn gwirionedd mae'n deg dweud ei fod bron fel y dall yn arwain y dall ar ddogfen fel hon.

I can't disagree about the openness, transparency and democratic accountability that is so important. The Welsh Conservatives have made it very clear—[Interruption.]

Ni allaf anghytuno ynghylch didwylledd, tryloywder ac atebolrwydd democrataidd sydd mor bwysig. Mae Ceidwadwyr Cymru wedi ei gwneud yn glir iawn— [Torri ar draws.]

17:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. The Member is making her contribution.

Trefn. Mae'r Aelod yn gwneud ei chyfraniad.

17:27 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. But certainly, where transparency, accountability and financial probity are concerned, you have a great deal of work to do on that—I would say some authorities more than others, and we all know who those are.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ond yn sicr, lle mae tryloywder, atebolrwydd a chywirdeb ariannol yn y cwestiwn, mae gennych lawer iawn o waith i'w wneud ar hynny—byddwn yn dweud mewn rhai awdurdodau yn fwy nag eraill, ac rydym i gyd yn gwybod pwy yw'r rheini.

17:28 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Go on, tell us.

Ewch ymlaen, dywedwch wrthym.

17:28 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I've been scribbling away here.

Rwyf wedi bod yn sgriblo yn fan hyn.

You mentioned that public services delivered by public servants are best. Now, I would challenge you, Minister, on that statement, because here in Wales, unless our public bodies work more with the third sector, the voluntary sector and indeed the private sector, then I'm afraid that you are literally going to be going around in circles. Public services, with the cuts that you have imposed, cannot continue in the way that they've been doing it—spinning around, as my colleague to my left has said.

Soniasoch mai gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan weision cyhoeddus sydd orau. Yn awr, byddwn yn eich herio, Weinidog, ar y datganiad hwnnw, oherwydd yma yng Nghymru, oni bai bod ein cyrff cyhoeddus yn gweithio'n fwy gyda'r trydydd sector, y sector gwirfoddol ac yn wir y sector preifat, yna mae gen i ofn eich bod yn llythrennol yn mynd i fod yn mynd rownd mewn cylchoedd. Ni all gwasanaethau cyhoeddus, gyda'r toriadau yr ydych wedi'u gosod, barhau yn y ffordd y maent wedi bod yn ei wneud—yn troi o gwmpas, fel mae fy nghydweithiwr ar fy chwith wedi ei ddweud.

You spoke of the alternative delivery model in the public service delivery action plan, which mentions the potential for asset or service transfer to a not-for-profit or community group, yet you are so reluctant as a Government to adopt the Localism Act in its full measure, and actually adopt the community right to bid—something that would make a great deal of difference to our local communities, empowering members of the community and allowing local assets, instead of falling into disrepair, to actually remain thriving areas where people can meet and carry out other kinds of work.

Soniasoch am y model darparu amgen yn y cynllun gweithredu darparu gwasanaethau cyhoeddus, sy'n sôn am y potensial ar gyfer trosglwyddo asedau neu wasanaethau i grŵp dielw neu gymunedol, ac eto rydych mor amharod fel Llywodraeth i fabwysiadu'r Ddeddf Lleoliaeth yn ei mesur llawn, a mabwysiadu'r hawl cymunedol i wneud cais—rhywbeth a fyddai'n gwneud llawer o wahaniaeth i'n cymunedau lleol, gan rymuso aelodau o'r gymuned a chaniatáu i asedau lleol, yn hytrach na mynd i gyflwr gwael, mewn gwirionedd barhau i fod yn ardaloedd ffyniannus lle gall pobl gwrdd ac ymgymryd â mathau eraill o waith.

In terms of senior salaries, you mentioned that the Welsh Government will manage these in the run-up to mergers in a strategic way, and yet, what did you do in your Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013? You voted against us and you would not allow any of our amendments when we said we wanted to roll it out more across the senior managers, and now you say you want to do that.

O ran cyflogau uwch, soniasoch y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r rhain yn y cyfnod yn arwain at uno mewn ffordd strategol, ac eto i gyd, beth wnaethoch chi yn eich Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013? Pleidleisioch chi yn ein herbyn ac nid oeddech yn fodlon caniatáu unrhyw un o'n gwelliannau ni pan oeddem yn dweud ein bod am ei gyflwyno yn fwy ar draws yr uwch reolwyr, ac yn awr rydych yn dweud eich bod am wneud hynny.

I do welcome, Minister, that you intend to look at moving away from hypothecated grants for local authority budgets, because for many years now, over the border, they've been way ahead of you in terms of actually cutting down on a lot of the administrative costs for some of these grants. For some of them, actually, the administrative costs are actually larger than the actual grants themselves, which is ridiculous.

Rwy'n croesawu, Weinidog, eich bod yn bwriadu ystyried symud oddi wrth grantiau wedi'u neilltuo i gyllidebau awdurdodau lleol, oherwydd ers blynyddoedd lawer bellach, dros y ffin, o ran torri i lawr mewn gwirionedd ar lawer o gostau gweinyddol ar gyfer rhai o'r grantiau hyn. I rai ohonynt, fel mae'n digwydd, mae'r costau gweinyddol yn fwy na'r grantiau gwirioneddol eu hunain, sydd yn chwerthinllyd.

I do still have concerns that your draft budget allocations do fail to take into account the unique pressures on our rural authorities and no measure of the support for our rural infrastructure.

Rwy'n dal yn bryderus bod eich dyraniadau cyllideb drafft yn methu ag ystyried y pwysau unigryw sydd ar ein hawdurdodau gwledig a dim mesur o'r gefnogaeth ar gyfer ein seilwaith gwledig.

Finally, you mentioned that you will review the way in which the Welsh Government monitors the performance of local government, and, indeed, I think that there are other public service bodies that need to be monitored. But it's not about that, is it, Minister? It's one thing to monitor them, it's one thing to guide them, but what we need here in Wales is true leadership from the Welsh Government and true leadership from the Minister who actually has the responsibility for delivering our public services across Wales. Thank you.

Yn olaf, soniasoch y byddwch yn adolygu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad llywodraeth leol, ac, yn wir, rwy'n meddwl bod cyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill y mae angen eu monitro. Ond nid yw'n ymwneud â hynny, nac ydyw, Weinidog? Un peth yw eu monitro, mae'n beth arall i'w harwain, ond yr hyn yr ydym ei angen yma yng Nghymru yw gwir arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru a gwir arweinyddiaeth gan y Gweinidog sydd mewn gwirionedd yn gyfrifol am ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Diolch.

17:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to say, I wonder whether the Member actually listened to a word I said in the statement, because the statement outlined a whole host of actions that this Government has taken to strengthen public services in Wales since the publication of the Williams commission and the Silk commission reports. I'm not going to repeat that, Dirprwy Lywydd, I'm sure you'll be glad to hear. Let me just pick up a couple of the points that the Member has made that are worth responding to.

Rhaid i mi ddweud, tybed a wnaeth yr Aelod mewn gwirionedd wrando ar unrhyw beth a ddywedais yn y datganiad, oherwydd roedd y datganiad yn amlinellu llu o gamau gweithredu y mae'r Llywodraeth hon wedi'u cymryd i gryfhau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ers cyhoeddi adroddiadau comisiwn Williams a chomisiwn Silk. Dydw i ddim yn mynd i ailadrodd hynny, Ddirprwy Lywydd, rwy'n siŵr y byddwch yn falch o glywed. Gadewch i mi godi un neu ddau o bwyntiau y mae'r Aelod wedi'u gwneud sy'n werth ymateb iddynt.

In respect of the Williams commission, I said we are implementing 60 out of the 62 recommendations and that is well under way. In respect of having a democratic mandate, I might remind the Member that, in the autumn, this Assembly passed the local government paving Bill. So, it's very clear that we have a mandate backed by this Assembly. We're currently consulting on the draft local government Bill and on the preferred map, and we will have the consultation responses in by the middle of February and we'll report back to the Assembly subsequently on that.

O ran y comisiwn Williams, dywedais ein bod yn gweithredu 60 allan o'r 62 o argymhellion a bod hynny ar y gweill. O ran cael mandad democrataidd, hoffwn atgoffa'r Aelod, yn yr hydref, fod y Cynulliad hwn wedi pasio Bil ymbaratoi llywodraeth leol. Felly, mae'n glir iawn bod gennym fandad a gefnogir gan y Cynulliad hwn. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar y Bil drafft llywodraeth leol ac ar y map a ffafrir, a bydd gennym yr ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn canol mis Chwefror a byddwn yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar hynny wedyn.

In respect of alternative delivery models, the Minister for Economy, Science and Transport and I actually commissioned the work in this area to identify what can be done, the best practice that's out there, what can be done to assist community groups, and what can be done to assist local authorities in the delivery of alternative delivery models where they are appropriate.

O ran modelau darparu amgen, gwnaeth y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a minnau mewn gwirionedd gomisiynu'r gwaith yn y maes hwn i nodi beth y gellir ei wneud, yr arfer gorau sydd ar gael, beth y gellir ei wneud i helpu grwpiau cymunedol, a beth y gellir ei wneud i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth gyflwyno modelau darparu amgen lle maent yn briodol.

In respect of senior manager salaries—well, I said in the statement that the Act that we passed obviously strengthens the role of the independent remuneration panel in that area. In respect of monitoring local government, well, again, as I gave evidence on this to committee last week, we have moved to make a raft of information available on the Welsh Government's website that allows comparison in terms of performance between local authorities, and I think the provision of data and transparency in that area is key.

O ran cyflogau uwch reolwyr—wel, dywedais yn y datganiad fod y Ddeddf a basiwyd gennym yn amlwg yn cryfhau rôl y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol yn y maes hwnnw. O ran monitro llywodraeth leol, wel, unwaith eto, fel y rhoddais dystiolaeth ar hyn i'r pwyllgor yr wythnos diwethaf, rydym wedi symud i sicrhau bod llawer iawn o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n caniatáu cymharu perfformiad rhwng awdurdodau lleol, ac rwy'n meddwl bod darparu data a thryloywder yn y maes hwnnw yn allweddol.

In respect of the local government settlement, which she spoke about, I will state again, for the record, that the formula that is in place is one that is agreed with local government. There are representatives of local authorities on the distribution sub-group, representatives of Welsh Government, and there are independent Members. That formula has been agreed with local government. I have to say, in respect of rural authorities, it's important to remember that an authority like Powys, for example, is funded, on a per-head basis, more than authorities such as Cardiff or Swansea. So, we're clear about the formula.

O ran y setliad llywodraeth leol, y siaradodd hi amdano, byddaf yn datgan unwaith eto, ar gyfer y cofnod, bod y fformiwla sydd ar waith yn un sy'n cael ei chytuno â llywodraeth leol. Mae cynrychiolwyr o awdurdodau lleol ar yr is-grŵp dosbarthu, cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, ac mae Aelodau annibynnol. Cytunwyd ar y fformiwla honno â llywodraeth leol. Rhaid i mi ddweud, o ran awdurdodau gwledig, mae'n bwysig cofio bod awdurdod fel Powys, er enghraifft, yn cael ei ariannu, ar sail fesul pen, yn fwy nag awdurdodau fel Caerdydd neu Abertawe. Felly, rydym yn glir ynghylch y fformiwla.

Let's be clear about what the Welsh Conservatives are actually talking about. I see my colleague, the Member for Cardiff North, in her place: the Welsh Conservatives are talking about taking money away from Thornhill, from Llanishen, from Whitchurch and from Gabalfa. I see my colleague, the Member for the Vale of Glamorgan, in her place: the Welsh Conservatives are talking about taking money away from Barry. I see my colleague, the Member for Gower, in her place: the Welsh Conservatives are talking about taking money away from Gower. That's the implication of what the Welsh Conservatives are saying here today.

Gadewch i ni fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'r Ceidwadwyr Cymreig mewn gwirionedd yn sôn amdano. Rwy'n gweld fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, yn ei lle: mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn sôn am gymryd arian oddi wrth y Ddraenen/Thornhill, oddi wrth Lanisien, oddi wrth Eglwys Newydd ac oddi wrth Gabalfa. Rwy'n gweld fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Fro Morgannwg, yn ei lle: mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn sôn am gymryd arian oddi wrth y Barri. Rwy'n gweld fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Benrhyn Gŵyr, yn ei lle: mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn sôn am gymryd arian oddi wrth Benrhyn Gŵyr. Dyna oblygiad yr hyn y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei ddweud yma heddiw.

17:33

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased to have the opportunity to raise further questions on the devolved service-reform agenda. I believe everyone wants high-quality public services provided in a cost-efficient manner. I believe that public service provided by directly employed staff is the best model. I do not believe that privatisation or fragmentation of services improves service delivery, where personal profit is more important than public service. Whilst I and the Minister disagree regarding the efficacy of the Williams commission report, what I do agree with is the complexity of service partnerships and regional working.

Rwy'n falch o gael y cyfle i godi cwestiynau pellach ar yr agenda diwygio gwasanaethau datganoledig. Rwy'n credu bod pawb eisiau gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel a ddarperir mewn modd cost-effeithiol. Rwy'n credu mai gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan staff a gyflogir yn uniongyrchol yw'r model gorau. Nid wyf yn credu bod preifateiddio neu ddarnio gwasanaethau yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau, lle mae elw personol yn bwysicach na gwasanaeth cyhoeddus. Er fy mod i a'r Gweinidog yn anghytuno ynghylch effeithiolrwydd adroddiad comisiwn Williams, yr hyn yr wyf yn cytuno ag ef yw cymhlethdod partneriaethau gwasanaeth a gweithio rhanbarthol.

In Swansea, we look, Janus-like, eastwards to Bridgend for some services and westwards to Pembrokeshire for others. I believe that the two city regions and the north and mid Wales are the right structures for regional collaboration of public services and need to be used for all public services, rather than having the confusion that we have in Swansea—and I could add Neath Port Talbot as well—where sometimes we are part of south Wales and sometimes we are part of mid and west Wales. It doesn't make for good governance within those areas. Does the Minister agree that we do need to base it on those structures?

Yn Abertawe, rydym yn edrych, megis Ianws, tua'r dwyrain i Ben-y-bont ar Ogwr ar gyfer rhai gwasanaethau a thua'r gorllewin i Sir Benfro ar gyfer eraill. Credaf mai'r ddau ddinas-ranbarth a gogledd a chanolbarth Cymru yw'r strwythurau cywir ar gyfer cydweithredu rhanbarthol rhwng gwasanaethau cyhoeddus ac mae angen iddynt gael eu defnyddio ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus, yn hytrach na chael y dryswch sydd gennym yn Abertawe—a gallwn ychwanegu Castell-nedd Port Talbot hefyd—lle weithiau rydym yn rhan o dde Cymru ac weithiau rydym yn rhan o ganolbarth a gorllewin Cymru. Nid yw'n ffafriol ar gyfer llywodraethu da yn yr ardaloedd hynny. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod angen i ni ei seilio ar y strwythurau hynny?

Regarding senior salaries in local government, I warmly welcome the extension of the independent remuneration panel to include all local government senior officers. I look back to the good old days when senior officers' salaries—. When you were looking at somebody, you'd pick the chief executive's point by seeing what your population was and just taking it across, and you'd see the starting salary and the top of the salary. That made life very, very easy, and then every senior officer under that would get a percentage of the chief executive's salary—60 per cent, 80 per cent, 90 per cent. It made life very easy for local councillors, and made life very easy for everyone involved. Unfortunately, we had a Government in the 1980s that sought to change that, and I don't think it's changed it for the better.

O ran cyflogau uwch mewn llywodraeth leol, croesawaf yn gynnes ymestyn y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol i gynnwys pob uwch swyddog llywodraeth leol. Rwy'n edrych yn ôl at y dyddiau da pan oedd cyflogau uwch swyddogion—. Pan oeddech yn edrych ar rywun, byddech yn dewis pwynt y prif weithredwr drwy weld beth oedd eich poblogaeth a dim ond mynd ag ef ar draws, a byddech yn gweld y cyflog cychwynnol a phen y cyflog. Roedd hynny'n gwneud bywyd yn hawdd iawn, iawn, ac yna byddai bob uwch swyddog o dan hynny yn cael canran o gyflog y prif weithredwr—60 y cant, 80 y cant, 90 y cant. Roedd yn gwneud bywyd yn hawdd iawn i gynghorwyr lleol, ac yn gwneud bywyd yn hawdd iawn i bawb oedd yn gysylltiedig. Yn anffodus, cawsom Lywodraeth yn yr 1980au a geisiodd newid hynny, ac nid wyf yn credu ei fod wedi newid er gwell.

I also welcome the administrative costs review. Does the Minister agree that, where a local authority cannot bring back-office costs down to that of the best, it should look to share services and have them provided by the more efficient authorities? If you can't do it as well as somebody else, let somebody else do it for you.

Rwyf hefyd yn croesawu'r adolygiad o gostau gweinyddol. A yw'r Gweinidog yn cytuno, pan fo awdurdod lleol yn methu â dod â chostau cefn swyddfa i lawr i'r un gorau, y dylai ystyried rhannu gwasanaethau a'u cael wedi eu darparu gan yr awdurdodau mwy effeithlon? Os na allwch wneud hynny cystal â rhywun arall, gadewch i rywun arall wneud hynny ar eich rhan.

17:36

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say I agree with nearly all that my colleague, the Member for Swansea East, has said? He's absolutely right—let me start from the end there—I think that local authorities have got to look for who in their sector is providing the most efficient services, the best value for money. The KPMG administrative costs review that we published indicated potential savings on a per-annum basis of £151 million if local authorities in Wales were operating to the best that is available in the UK. My colleague is absolutely right to draw attention to that. I welcome his support for the extension of the role of the independent remuneration panel. I'm grateful to him for that point, and I welcome also what he said about the general point about collaboration and the need for clear footprints for public service delivery. At the end of the day, what we are seeking to do is to assist in the modernisation of our public services here in Wales, and I'm very grateful to my colleague, the Member for Swansea East, for his support in that.

A gaf i ddweud fy mod yn cytuno gyda bron pob dim y mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, wedi'i ddweud? Mae e' yn llygad ei le—gadewch i mi ddechrau o'r diwedd yn y fan yna—rwy'n meddwl bod yn rhaid i awdurdodau lleol edrych am bwy yn eu sector sy'n darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon, y gwerth gorau am arian. Roedd yr adolygiad o gostau gweinyddol KPMG a gyhoeddwyd gennym yn nodi arbedion posibl ar sail fesul blwyddyn o £151 miliwn pe byddai awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu cystal â'r gorau sydd ar gael yn y DU. Mae fy nghydweithiwr yn llygad ei le i dynnu sylw at hynny. Rwy'n croesawu ei gefnogaeth i ymestyn rôl y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol. Rwy'n ddiolchgar iddo am y pwynt hwnnw, ac rwy'n croesawu hefyd yr hyn a ddywedodd am y pwynt cyffredinol am gydweithredu a'r angen am olion troed clir ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ar ddiwedd y dydd, yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw helpu i foderneiddio ein gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru, ac rwy'n ddiolchgar iawn i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, am ei gefnogaeth yn hynny.

17:37

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae'n ddatganiad 'portmanteau', mae'n deg i ddweud, rwy'n meddwl, sy'n cynnwys nifer o wahanol bethau sy'n pasio am bolisi o ran gwasanaethau cyhoeddus. Rwy'n falch o'r datganiad, serch hynny. Mae'n rhoi cyfle i mi atgoffa'r Cynulliad fod o leiaf tri o'r pethau sydd wedi cael eu clodfori yn y datganiad gan y Gweinidog heddiw wedi deillio o bolisi Plaid Cymru neu welliannau y mae Plaid Cymru wedi eu cynnig wrth i'r broses yma fynd yn ei blaen: pwerau codi trethi, rheolaeth dros gyflogau uwch swyddogion ac, wrth gwrs, y gronfa gofal canolraddol. Felly, diolch, Weinidog, am y cyfle i ailadrodd bod syniadau Plaid Cymru yn cael eu gweld yn cael eu harddel gan y Llywodraeth.

Thank you to the Minister for his statement today. It's a portmanteau statement, it's fair to say, I think, including a great number of different things that pass for policy on public services. I'm pleased to receive the statement, nonetheless. It gives me an opportunity to remind the Assembly that at least three of things that have been lauded in the statement by the Minister today have stemmed from Plaid Cymru policy or amendments Plaid Cymru has put forward as this process gone on: tax-raising powers, control over senior staff pay, and, of course, the intermediate care fund. So, thank you, Minister, for the opportunity to repeat the fact that Plaid Cymru ideas have been taken up by the Government.

Wedi dweud hynny, nid wyf yn glir o'r adroddiad lle yn union mae'r Gweinidog bellach yn gweld y trawsnewid y mae ef a minnau eisiau ei weld mewn gwasanaethau cyhoeddus. Beth yr ydym yn cytuno arno, rwy'n meddwl, yw'r angen i ddiwygio, yr angen i drawsnewid, a'r angen i baratoi a bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Beth nad yw'n glir yw'r ffordd y mae'r Gweinidog nawr am weld gwelliant sylweddol yn dod o'r broses yma. Ai drwy ad-drefnu—un o'r pethau sydd, wrth gwrs, o fewn y Mesur drafft sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd—neu drwy weithio yn fwy effeithlon a thrwy ddulliau cyllido mwy cynaliadwy?

Having said that, I'm not clear from the report where the Minister currently sees this transformation that he and I want to see in public services. What we agree on, I think, is the need for reform and to transform and the need to prepare and to be sustainable for the future. What isn't clear is how the Minister now wants to see this significant improvement through this process. Is it through reorganisation—one of the things, of course, that's within the draft Bill that is being considered at present—or is it through working more efficiently and through more sustainable funding methods?

Un o’r pethau, rwy’n credu, y cododd Mike Hedges yn dda iawn oedd y ffordd yr oedd Williams wedi cydnabod y cymhlethdod a’r ffaith bod ôl-troed daearyddol amrywiol i’w gael yng Nghymru. Nid wyf yn meddwl bod y cynlluniau sydd gan y Llywodraeth ar ad-drefnu awdurdodau lleol yn ateb yr her yna gan Williams. Rwy’n credu bod Mike Hedges wedi awgrymu hynny, a dweud y gwir. Wrth gwrs, un o’r problemau pan ydych chi’n sôn am Janus yw bod yn rhaid ichi osgoi edrych yn ddauwynebog ar rai o’r pethau yma. Felly, rwyf am ofyn i’r Gweinidog, gan ei fod yn cydnabod mai etholiad nawr fydd yn penderfynu beth fydd patrwm ad-drefnu llywodraeth leol ar ôl yr etholiad: beth mae’n bwriadu ei wneud cyn yr etholiad ynglŷn â’r Mesur drafft, ac a yw’n bwriadu cyhoeddi unrhyw beth pellach yn sgil yr ymgynghoriad sy’n cael ei gynnal ar hyn o bryd? Mae Plaid Cymru yn dal i fod o’r farn bod modd ateb yr her sydd wedi cael ei gosod gan Williams a’r her sydd wedi cael ei chodi gan Mike Hedges drwy gydweithio â’r awdurdodau lleol presennol ar ffurf awdurdodau ar y cyd neu awdurdodau cyfun—rhywbeth y byddem ni am weld os yw pobl Cymru yn ei gyhoeddi yn yr etholiad.

One of the things, I think, that Mike Hedges raised very well was the way that Williams acknowledged the complexity and the fact that the geographical footprint in Wales is very varied. I don’t think that the Government schemes in terms of reform and reorganisation in local authorities respond to that challenge that Williams outlined. I think that Mike Hedges suggested that, if truth be told, in his contribution. Of course, one of the things when you talk about Janus is that you have avoid looking two-faced on some of these issues. So, I want to ask the Minister, because he acknowledges that it’s the election that will decide what the pattern of local government reorganisation will be after the election: what does he intend to do before the election in relation to the draft Bill, and does he intend to publish anything further following the consultation that is currently being held? Plaid Cymru is still of the opinion that we can respond to the challenge that has been laid by Williams and raised by Mike Hedges through collaborating with the current local authorities in the form of joint or combined authorities—something we would want to see if the people of Wales state their opinions on in the election.

Byddem ni hefyd eisiau clywed gan y Gweinidog a oes gyda fe unrhyw ymateb hyd yma i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ‘Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015’. Roedd yr adroddiad yna yn dweud bod diffyg yn y modd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, yn dweud nad oeddent yn gynaliadwy, ac yn dweud bod cynnydd ar integreiddio iechyd a gwasanaethau gofal yn araf, a bod angen llawer mwy o gomisiynu rhanbarthol ar y lefel yma. Dyna, wrth gwrs, sydd y tu ôl i bolisi Plaid Cymru o uno gwasanaethau gofal ac iechyd ar y lefel yna, ac er nad yw’r Llywodraeth yn cytuno â’r polisi yna—rwy’n deall hynny—mae’r archwilydd yn gosod her ynglŷn â’r comisiynydd a mwy o gynnydd yn y fan yna, a hoffwn i ofyn i’r Gweinidog: pa ymateb sydd gyda fe hyd yma i’r adroddiad yna?

We’d also want to hear from the Minister whether he has any response thus far to the auditor general’s recently published report, ‘A Picture of Public Services 2015’. That report stated that there was a deficiency in how social services are being maintained at present, that they weren’t sustainable and said that progress in integrating health and care services was slow, and that a great deal more regional commissioning needs to happen. That, of course, is what’s behind the Plaid Cymru policy of merging care services and health on that level, and even though the Government doesn’t agree with that policy—I understand that—the auditor general does lay that challenge in terms of the commissioner and progress in that regard, and I’d like to ask the Minister what response he has at present to that report.

Mae’r cwestiwn olaf yn un ar gyllid. Gwnawn ni roi o’r neilltu am y tro y gyllideb bresennol, y setliad drafft sydd gerbron y Cynulliad hwn—fe ddaw hynny i ni gytuno arno rhywbryd neu’i gilydd, neu beidio; mae’r Gweinidog yn gwybod beth yw agwedd Plaid Cymru yn hynny o beth. Ond beth rydym wedi ei weld yn ystod y ddwy flynedd diwethaf gan y Llywodraeth ym maes byrddau iechyd yw symud o gyllido blynyddol i gyllido bob tair blynedd. Hoffwn i ofyn i’r Gweinidog: a yw yn ystyried bod cyllido tair blynedd yn rhywbeth y mae modd ei gyflwyno i wasanaethau cyhoeddus lleol nawr fel rhan o’r patrwm diwygio y mae’n ei ragweld?

The final question is one of funding. We’ll set aside for the time being the current budget, the draft settlement that is before this Assembly—that will be discussed and agreed or not; the Minister knows what Plaid Cymru’s attitude is on that. But what’ve seen over the past two years from this Government in terms of health boards is a shift from annual funding to funding every three years, and I’d like to ask the Minister whether he considers that three-year budgeting is something that can be introduced to local public services as part of the pattern of reform that he foresees.

17:41

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Dirprwy Lywydd, can I just say to the Plaid Cymru Member that he may think that this is a portmanteau statement; I regard it as a comprehensive statement, let me say? Let me just run through the areas that the Member has raised.

Ddirprwy Lywydd, a gaf i ddweud wrth yr Aelod Plaid Cymru y gall fod yn meddwl bod hwn yn ddatganiad ‘portmanteau’; rwy’n ei ystyried fel datganiad cynhwysfawr, gadewch i mi ddweud? Gadewch i mi fynd dros y meysydd y mae’r Aelod wedi’u codi.

In terms of reorganisation, we’re out to consultation on that; I don’t think he’d expect me to comment further until the consultation process closes. I would expect to report back to the Assembly before the end of this Assembly term on some initial observations in respect of the consultation, but, clearly, the implementation of that will be for the new Government after May.

O ran ad-drefnu, rydym yn ymgynghori ar hynny; nid wyf yn meddwl y byddai’n disgwyl imi wneud sylw pellach hyd nes i'r broses ymgynghori ddod i ben. Byddwn yn disgwyl adrodd yn ôl i'r Cynulliad cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn ar rai sylwadau cychwynnol mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad, ond, yn amlwg, bydd gweithredu hynny yn fater i’r Llywodraeth newydd ar ôl mis Mai.

In respect of the issue of funding, we are looking long term at the funding of local government; I've established a finance futures panel to look into that. But I think it's right to separate that from the immediate challenges that would arise were we to move forward on a local government reorganisation programme including mergers. In an ideal world, one would want to give three-year funding. In an ideal world, one would want the Assembly and the Welsh Government to receive three-year funding settlements on which we could rely. We don't necessarily live in that ideal world.

O ran mater ariannu, rydym yn edrych yn y tymor hir ar ariannu llywodraeth leol; rwyf wedi sefydlu panel dyfodol cyllid i ymchwilio i hynny. Ond rwy'n credu ei bod yn iawn i wahanu hynny o'r heriau uniongyrchol a fyddai'n codi pe baem yn symud ymlaen ar raglen ad-drefnu llywodraeth leol, gan gynnwys uno. Mewn byd delfrydol, byddai rhywun yn dymuno rhoi cyllid tair blynedd. Mewn byd delfrydol, byddai rhywun am weld y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn derbyn setliadau cyllido tair blynedd y gallem ddibynnu arnynt. Nid ydym o reidrwydd yn byw yn y byd delfrydol hwnnw.

In respect of the footprints, I think that the map we published provides a coherent basis for the future footprint of public service delivery. It's been signed off by Cabinet. We will wait and see what comes in in terms of the consultation responses.

O ran yr olion traed, rwy'n meddwl bod y map a gyhoeddwyd gennym yn darparu sail gydlynol ar gyfer ôl-troed darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae wedi cael sêl bendith y Cabinet. Byddwn yn aros i weld beth a ddaw i mewn o ran yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Now, I appreciate that his party has a different approach to this from us, and they've managed to cobble together something that holds together the leaders of their different local authorities, who all have different views on the matter. We will look with interest to what emerges subsequently, shall we say, when they are no longer in need of establishing an electoral fix. But it is important that we remind people in Wales, I think, that the implication of the Plaid Cymru proposals for local government would be to strip social services out of local government and to establish a very deep centralisation of the health service in Wales.

Yn awr, rwy'n gwerthfawrogi bod gan ei blaid ef ddull gwahanol i ni o weithredu hyn, ac maen nhw wedi llwyddo i roi at ei gilydd rywbeth sy'n dal ynghyd arweinwyr eu gwahanol awdurdodau lleol, sydd i gyd â barn wahanol ar y mater. Byddwn yn edrych gyda diddordeb ar yr hyn sy'n dod i'r amlwg yn dilyn hynny, ddywedwn ni, pan nad oes bellach angen iddynt sefydlu ateb etholiadol. Ond mae'n bwysig ein bod yn atgoffa pobl yng Nghymru, rwy'n meddwl, mai goblygiadau cynigion Plaid Cymru i lywodraeth leol fyddai tynnu gwasanaethau cymdeithasol allan o lywodraeth leol a sefydlu canoli cadarn iawn ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

The Member also asked about the auditor general's report, 'A Picture of Public Services 2015'. I'm not going to respond on that in detail today. I think, however, that that report is helpful to our reform agenda in many areas, and we will engage with local government on the basis of many aspects of that report.

Gofynnodd yr Aelod hefyd am adroddiad yr archwilydd cyffredinol, 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015'. Dydw i ddim yn mynd i ymateb i hynny'n fanwl heddiw. Rwy'n meddwl, fodd bynnag, bod yr adroddiad hwnnw yn ddefnyddiol i'n hagenda ddiwygio mewn sawl maes, a byddwn yn ymgysylltu â llywodraeth leol ar sail llawer o agweddau ar yr adroddiad hwnnw.

17:44

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I thank the Minister for the statement? I think 'portmanteau' summed it up, actually. But, certainly, it is a comprehensive statement covering a whole range of issues. I'm not sure there's anything particular new in it, but I think there are a number of questions that arise from it.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad? Rwy'n meddwl bod 'portmanteau' yn ei grynhoi, mewn gwirionedd. Ond, yn sicr, mae'n ddatganiad cynhwysfawr sy'n cwmpasu ystod eang o faterion. Dwi ddim yn siŵr a oes unrhyw beth penodol newydd ynddo, ond rwy'n credu bod nifer o gwestiynau'n codi ohono.

I think, first of all, I just want to say about public services generally that the Welsh Liberal Democrat vision is for public services that are accountable and transparent and delivered efficiently and effectively. I think that we need to see to what extent the Williams recommendations delivered that. I would be interested, if the Minister says that he's in the process of delivering 60 of the 62 Williams recommendations, whether he will publish a comprehensive list detailing the actions on each one that we may then properly scrutinise so that we can actually see for ourselves to what extent the Minister has achieved that on each of those recommendations.

Rwy'n meddwl, yn gyntaf oll, yr hoffwn ddweud am wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol mai gweledigaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yw gwasanaethau cyhoeddus sy'n atebol ac yn dryloyw ac yn darparu'n effeithlon ac yn effeithiol. Credaf fod angen inni weld i ba raddau yr oedd argymhellion Williams yn darparu hynny. Os yw'r Gweinidog yn dweud ei fod yn y broses o gyflwyno 60 o'r 62 o argymhellion Williams, byddai gennyf ddiddordeb i weld a fydd yn cyhoeddi rhestr gynhwysfawr yn manylu ar y camau gweithredu ar bob un y gallwn wedyn graffu yn iawn arnynt fel y gallwn mewn gwirionedd weld drosom ein hunain i ba raddau y mae'r Gweinidog wedi cyflawni hynny ar bob un o'r argymhellion.

In terms of some of the points in the statement, Deputy Presiding Officer, the Minister refers to the public service boards as being established on a statutory basis by the Well-being of Future Generations (Wales) Act. That is the case. I would be interested if the Minister has had any further thoughts as to the most effective way to scrutinise those new public service boards. I think he said on the committee at the time that we looked at scrutiny that the Communities, Equality and Local Government Committee did raise concerns about the scrutiny of joint boards such as this by democratically elected councillors. I am interested in what processes have been put in place to ensure that those councillors, whether in a reformed or unreformed local government structure, will be able to actually look at the work of these new statutory public service boards and actually ask questions as to the work that they're doing and raise points with them, other than indirectly, of course, through the council itself. I think it would be useful if those boards could be scrutinised directly by those councillors. So, I'd be interested in the Minister's thoughts on that particular issue.

O ran rhai o'r pwyntiau yn y datganiad, Ddirprwy Lywydd, mae'r Gweinidog yn cyfeirio at y byrddau gwasanaethau cyhoeddus fel rhai sydd wedi'u sefydlu ar sail statudol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hynny'n wir. Byddai gennyf ddiddordeb i wybod os yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw syniadau pellach ynghylch y ffordd fwyaf effeithiol o graffu ar y byrddau gwasanaethau cyhoeddus newydd hynny. Rwy'n credu ei fod wedi dweud yn y pwyllgor pan oeddem yn edrych ar graffu fod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi codi pryderon am graffu ar fyrddau ar y cyd fel hyn gan gynghorwyr a etholwyd yn ddemocrataidd. Mae gennyf ddiddordeb ym mha brosesau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y cynghorwyr hynny, boed mewn strwythur llywodraeth leol sydd wedi'i ddiwygio neu heb ei ddiwygio, yn gallu edrych mewn gwirionedd ar waith y byrddau gwasanaethau cyhoeddus statudol newydd a gofyn cwestiynau ynghylch y gwaith y maent yn ei wneud a chodi pwyntiau gyda nhw, ac eithrio yn anuniongyrchol, wrth gwrs, drwy'r cyngor ei hun. Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i'r cynghorwyr hynny graffu ar y byrddau hynny yn uniongyrchol. Felly, byddai gennyf ddiddordeb yn yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei feddwl am y mater penodol hwnnw.

The Minister talks over the page about monitoring

Mae'r Gweinidog yn sôn dros y dudalen am fonitro

'the performance of local government to create a simpler system, focused on driving improvement through smart use of evidence',

'perfformiad llywodraeth leol i greu system symlach, yn canolbwyntio ar ysgogi gwelliant trwy ddefnydd call o dystiolaeth',

which, again, I very much support. Actually, I support his initiative to reduce the number of hypothecated grants, including getting rid, I think, of the performance grants, which were put in place to reward local councils that met specific targets. However, now those targets and those grants have gone, what incentives—or in what way is the Minister actually asking local authorities to account for the improvement that he requires of them? How is he holding them to account for that, putting to one side, of course, that they are largely accountable to the electorate? How is the Minister getting the councils to talk to him about meeting his agenda as part of that?

ac rwyf, unwaith eto, yn cefnogi hynny'n fawr iawn. A dweud y gwir, rwy'n cefnogi ei fenter i leihau nifer y grantiau sydd wedi'u neilltuo, yn cynnwys cael gwared, rwy'n meddwl, ar y grantiau perfformiad, a gafodd eu rhoi ar waith i wobrwyo cynghorau lleol a oedd yn cyrraedd targedau penodol. Fodd bynnag, nawr fod y targedau hynny a'r grantiau hynny wedi mynd, pa gymhellion—neu ym mha ffordd y mae'r Gweinidog mewn gwirionedd yn gofyn i awdurdodau lleol gyfrif am y gwelliant sy'n ofynnol ganddo? Sut mae ef yn eu dal i gyfrif am hynny, gan roi i un ochr, wrth gwrs, eu bod yn atebol i raddau helaeth i'r etholwyr? Sut y mae'r Gweinidog yn cael y cynghorau i siarad ag ef am fodloni ei agenda fel rhan o hynny?

The Minister refers to the resources efficiency group to support authorities to realise savings and consider where shared services or collective action by authorities can reduce costs, defend services and enable different ways of working. Could the Minister give some detail, or maybe write to Members, or put in the library details of exactly what sort of take-up there is by local authorities of that initiative and how local authorities are engaging with that group?

Mae'r Gweinidog yn cyfeirio at y grŵp effeithlonrwydd adnoddau i gefnogi awdurdodau i wireddu arbedion ac i ystyried lle gall gwasanaethau a rennir neu weithredu ar y cyd gan awdurdodau leihau costau, amddiffyn gwasanaethau a galluogi ffyrdd gwahanol o weithio. A allai'r Gweinidog roi rhywfaint o fanylion, neu efallai ysgrifennu at yr Aelodau, neu roi manylion yn y llyfrgell, ynghylch yr union fath o ddefnydd sydd gan awdurdodau lleol o'r fenter honno a sut mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r grŵp hwnnw?

Finally, the Minister refers to the £250,000 digital innovation fund to support public service organisations using digital technology. I'd be interested in what level of interest there is from the public sector in that fund, how much of that fund has been committed, what bids have been put in et cetera, and how successful those bids are.

Yn olaf, mae'r Gweinidog yn cyfeirio at y gronfa arloesi digidol gwerth £250,000 i gefnogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n defnyddio technoleg ddigidol. Byddai gennyf ddiddordeb ym mha lefel o ddiddordeb sydd gan y sector cyhoeddus yn y gronfa honno, faint o'r gronfa honno sydd wedi'i neilltuo, pa geisiadau sydd wedi'u rhoi i mewn ac ati, a pha mor llwyddiannus yw'r ceisiadau hynny.

17:48

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think we can agree then on 'comprehensive' as a description of the statement. Can I just say that I obviously agree with the Liberal Democrat spokesperson that what we want to see in terms of local government is accountability, transparency, efficiency and effectiveness? But then probably everybody in the Chamber would agree that that is what we would want to see from local government.

Rwy'n meddwl y gallwn ni gytuno wedyn ar 'cynhwysfawr' fel disgrifiad o'r datganiad. A gaf i ddweud fy mod yn amlwg yn cytuno â llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol mai'r hyn yr ydym am ei weld o ran llywodraeth leol yw atebolrwydd, tryloywder, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd? Ond yna byddai pawb yn ôl pob tebyg yn y Siambr yn cytuno mai dyna y byddem am ei weld gan lywodraeth leol.

In respect of the performance that we have undertaken against the recommendations of Williams, I think I reported on that regularly over the last 15 months or so as we've taken these developments forward. Indeed, I've been before the committee on which the Member sits on many occasions where we've discussed these issues.

O ran y perfformiad yr ydym wedi'i gyflawni yn erbyn argymhellion Williams, rwy'n meddwl fy mod wedi adrodd ar hynny yn rheolaidd dros y 15 mis diwethaf wrth i ni fynd â'r datblygiadau hyn yn eu blaen. Yn wir, dwi wedi bod gerbron y pwyllgor y mae'r Aelod yn eistedd arno ar sawl achlysur lle rydyn ni wedi trafod y materion hyn.

He asks some very fair questions about scrutiny of public service boards, and what I would invite him to do is to look at the guidance that we've put out there for local government in respect of public service boards. We've published a lot of guidance now in respect of those and in respect of the ability of backbench members to scrutinise more generally. For example, I recently published advice on how to scrutinise reserves in local authorities, which I think is an important area for Members.

Mae'n gofyn rhai cwestiynau teg iawn am graffu ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, a'r hyn y byddwn i'n ei wahodd i'w wneud yw edrych ar y canllawiau yr ydym wedi eu rhoi allan yno ar gyfer llywodraeth leol mewn cysylltiad â byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi cyhoeddi llawer o ganllawiau yn awr mewn cysylltiad â'r rheini ac mewn cysylltiad â gallu aelodau meinciau cefn i graffu yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, yn ddiweddar, cyhoeddais gyngor yn ddiweddar ar sut i graffu ar gronfeydd wrth gefn mewn awdurdodau lleol, yr wyf yn meddwl sy'n faes pwysig i Aelodau.

I welcome what he had to say about the move away from hypothecated grants and the commitment that we have made to greater openness and transparency. We have published comparative information on the Welsh Government website of the performance of local authorities in a variety of service areas, and I think that, at the end of the day, it is for local publics, as it were, to hold to account their local authorities. Where the Welsh Government can assist in that, I think, is by providing the comparative data that allow people to make judgements about who is performing well and who is performing not so well.

Croesawaf yr hyn yr oedd ganddo i'w ddweud am y symudiad i ffwrdd oddi wrth grantiau wedi'u neilltuo a'r ymrwymiad yr ydym wedi'i wneud i fod yn fwy agored a thryloyw. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth gymharol ar wefan Llywodraeth Cymru o berfformiad awdurdodau lleol mewn amrywiaeth o feysydd gwasanaeth, ac rwy'n meddwl, ar ddiwedd y dydd, mai mater i'r cyhoedd lleol, fel petai, yw dal eu hawdurdodau lleol i gyfrif. Lle gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo yn hynny o beth, rwy'n meddwl, yw trwy ddarparu'r data cymharol sy'n caniatáu i bobl lunio barnau am bwy sy'n perfformio'n dda a phwy nad ydynt yn perfformio cystal.

It is still open to us, of course, to decide, subsequently, that we might move to a system of penalties where we felt that performance was not adequate, but at the present time, I would rather rely on data being published and I think in the age of big data, as it were, that becomes more obvious, more transparent; people have greater pointers to what is going on.

Mae'n dal yn agored i ni, wrth gwrs, i benderfynu, yn dilyn hynny, y gallem symud at weithredu system o gosbau lle'r ydym yn teimlo nad oedd perfformiad yn ddigon da. Ond ar hyn o bryd, byddai'n well gennyf ddibynnu ar ddata yn cael ei gyhoeddi ac rwy'n credu yn oes y data mawr, fel petai, mae hynny'n dod yn fwy amlwg, yn fwy tryloyw; mae gan bobl fwy o arwyddion o'r hyn sy'n digwydd.

There are also models that we've talked about with local government and that have been adopted by other local authorities that have benchmarked their own performance against leading authorities in the area, or against their own past performance, and can see how their trajectory is moving. I think that those kinds of models that operate are very important for leaders of local authorities to use alongside their chief executives, and holding their own authorities to account.

Mae modelau hefyd yr ydym wedi siarad amdanynt gyda llywodraeth leol ac sydd wedi eu mabwysiadu gan awdurdodau lleol eraill sydd wedi meincnodi eu perfformiad eu hunain yn erbyn awdurdodau blaenllaw yn yr ardal, neu yn erbyn eu perfformiad eu hunain yn y gorffennol, a gallant weld sut y mae eu llwybr yn symud. Credaf fod y mathau hynny o fodelau sy'n gweithredu yn bwysig iawn i arweinwyr awdurdodau lleol eu defnyddio ochr yn ochr â'u prif weithredwyr, a dal eu hawdurdodau eu hunain i gyfrif.

In respect of what we've been doing on the resource efficiency group and the implementation of the administrative costs review, we held a seminar with the WLGA in November on the financial challenges facing local government. I spoke at it and the Minister for Finance and Government Business also spoke there, and we had contributions from outside Wales, as well. In respect of the challenges facing local government, we were able to look at how authorities in England, where the cuts have obviously been deeper, have been handling the challenges that they face and look at the opportunities to learn from them. I know that a number of local authorities subsequently decided, for example, to visit one of the authorities from England that presented on that day. But I'm certainly happy to provide further feedback in respect of the work of the resource efficiency group.

O ran yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud ar y grŵp effeithlonrwydd adnoddau a rhoi'r adolygiad costau gweinyddol ar waith, cynhaliwyd seminar gyda CLlLC ym mis Tachwedd ar yr heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol. Siaradais i yno a siaradodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yno , a chawsom gyfraniadau o'r tu allan i Gymru hefyd. O ran yr heriau sy'n wynebu llywodraeth leol, roedd modd i ni edrych ar y ffordd y mae awdurdodau yn Lloegr, lle mae'r toriadau yn amlwg wedi bod yn ddwysach, wedi bod yn trafod yr heriau y maent yn eu hwynebu ac edrych ar y cyfleoedd i ddysgu ganddynt. Gwn fod nifer o awdurdodau lleol wedi hynny wedi penderfynu, er enghraifft, ymweld ag un o'r awdurdodau o Loegr a gyflwynodd ar y diwrnod hwnnw. Ond rwy'n sicr yn hapus i roi adborth pellach mewn perthynas â gwaith y grŵp effeithlonrwydd adnoddau.

On the digital fund, I think it's early days. He will be aware of Y Lab, which has been established as a joint partnership between Cardiff University and Nesta. They will be assisting us in the delivery of that digital innovation fund. This is very much about identifying opportunities through digital means, which make authorities more accountable to their citizens and provide greater ease of access to services by citizens or provide greater information, through digital means, to citizens. I think there are plenty of opportunities there for local authorities to engage. I hope they will take up the use of that fund. As we know, in this area, small amounts of money can be used to kick-start quite radical initiatives in some cases, and I think there are huge opportunities for us to do that. I will report back, obviously, again, when there is more to say in respect of the bids that are being received and approved.

O ran y gronfa ddigidol, rwy'n meddwl ei bod yn ddyddiau cynnar. Bydd yn ymwybodol o'r Lab, a sefydlwyd fel partneriaeth ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd a Nesta. Byddant yn ein helpu wrth gyflwyno'r gronfa arloesi digidol. Mae hyn yn ymwneud llawer â nodi cyfleoedd trwy ddulliau digidol, sy'n gwneud awdurdodau yn fwy atebol i'w dinasyddion a darparu mynediad mwy rhwydd at wasanaethau gan ddinasyddion neu ddarparu mwy o wybodaeth, drwy ddulliau digidol, i ddinasyddion. Rwy'n meddwl bod digon o gyfleoedd i ymgysylltu ar gael i awdurdodau lleol. Rwy'n gobeithio y byddant yn manteisio ar y defnydd o'r gronfa honno. Fel y gwyddom, yn y maes hwn, gellir defnyddio symiau bach o arian i roi hwb i fentrau eithaf radical mewn rhai achosion, ac rwy'n meddwl bod cyfleoedd enfawr i ni wneud hynny. Byddaf yn adrodd yn ôl, yn amlwg, eto, pan mae mwy i'w ddweud o ran y cynigion sy'n cael eu derbyn a'u cymeradwyo.

17:53 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for your statement this afternoon, Minister. There are just two questions that I have for you. You answered a question to Peter Black on the future generations Bill in terms of the establishment of public service boards. The future generations 'Act', I should say, is, of course, a far more comprehensive piece of legislation than simply making an individual structural change to the delivery of services. It's about a fundamental different way of working and I'd be grateful if you could outline how that's affected your thinking and the development of your thinking in terms of delivering the many conclusions of the Williams commission, for example, which was delivered before the future generations Act became law. So, I'd appreciate it if you could outline that to us.

Diolch i chi am eich datganiad y prynhawn yma, Weinidog. Dim ond dau gwestiwn sydd gennyf i chi. Rydych wedi ateb cwestiwn i Peter Black ar y Bil cenedlaethau'r dyfodol o ran sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r 'Ddeddf' cenedlaethau'r dyfodol, dylwn ddweud, wrth gwrs, yn ddarn llawer mwy cynhwysfawr o ddeddfwriaeth na dim ond gwneud newid strwythurol unigol i ddarparu gwasanaethau. Mae'n ymwneud â ffordd sylfaenol wahanol o weithio a byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu sut mae hynny'n effeithio ar eich ffordd o feddwl a datblygiad eich ffordd o feddwl o ran darparu'r casgliadau niferus o gomisiwn Williams, er enghraifft, a gyflwynwyd cyn i'r Ddeddf cenedlaethau'r dyfodol ddod yn gyfraith. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech amlinellu hynny i ni.

Secondly, in terms of taking forward the different reforms that you have in mind and that you've outlined this afternoon and on other occasions, one of those is about the structure of delivery of services and of local government. People might argue about the different structures, but for the moment, let's just look at how we deliver those services. One of the important focuses that I would like to see in the future is that of empowering the new units of local government and strengthening local government and promoting the devolution, if you like, of decision making and decision taking in Wales and throughout and across Wales. I'd be grateful if you could outline to us, Minister, whether you think that that is important. If you do, how does that influence and drive your thinking?

Yn ail, o ran bwrw ymlaen â'r diwygiadau gwahanol sydd gennych mewn golwg ac yr ydych wedi sôn amdanynt y prynhawn yma ac ar achlysuron eraill, mae un o'r rheini yn ymwneud â strwythur darparu gwasanaethau a llywodraeth leol. Efallai y bydd pobl yn dadlau am y gwahanol strwythurau, ond am y tro, gadewch i ni ddim ond edrych ar y modd yr ydym yn darparu'r gwasanaethau hynny. Un o'r pethau pwysig yr hoffwn weld pwyslais arno yn y dyfodol yw rhoi grym i'r unedau newydd o lywodraeth leol a chryfhau llywodraeth leol a hyrwyddo unrhyw ddatganoli, os hoffech, wrth wneud penderfyniadau a chymryd penderfyniadau yng Nghymru ac ar hyd a lled Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu i ni, Weinidog, a ydych yn credu bod hynny'n bwysig. Os felly, sut mae hynny'n dylanwadu ar, ac yn ysgogi, eich ffordd o feddwl?

17:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I start by saying the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, in a sense, is the fundamental starting point for the development of policy and public services as we move forward? The principles underlying that Act will dictate how we take forward the reorganisation of local government and how we take forward the transformation of public services in general in Wales. I think that's now commonplace across Government as a starting point. I do want to reiterate the importance of the public service boards, and I think it's very valuable that we'll have not only devolved public services but also non-devolved public services taking part within those.

A gaf i ddechrau trwy ddweud mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mewn ffordd, yw'r man cychwyn sylfaenol ar gyfer datblygu polisïau a gwasanaethau cyhoeddus wrth inni symud ymlaen? Bydd egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf honno yn pennu sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ad-drefnu llywodraeth leol a sut rydym yn mynd ati i weddnewid gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol yng Nghymru. Rwy'n credu bod hynny bellach yn gyffredin ar draws y Llywodraeth fel man cychwyn. Rwyf am bwysleisio eto bwysigrwydd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, ac rwy'n meddwl ei bod yn werthfawr iawn y bydd gennym nid yn unig wasanaethau cyhoeddus datganoledig, ond hefyd wasanaethau cyhoeddus heb eu datganoli yn cymryd rhan o fewn y rheini.

I know my colleague the Member for Blaenau Gwent certainly wouldn't want to argue with me on structures, but let me move on to the issue of empowerment. I think he makes a very valid point. We want to see strong local authorities that are increasingly able to monitor their own performance and develop their own services in the interests of their publics without being led directly by us. We need to look at the ways in which the financing of local government works in future as well, because, clearly, local government is heavily reliant on central Government finance at the present time. It may well be that, as we move forward into a new structure of local government, there are opportunities to empower local authorities with greater responsibility. That is something that we would certainly be willing to look towards.

Rwy'n gwybod na fyddai fy nghydweithiwr yr Aelod dros Flaenau Gwent yn sicr am ddadlau â mi ar strwythurau, ond gadewch i mi symud ymlaen at y mater o roi grym. Rwy'n credu ei fod yn gwneud pwynt dilys iawn. Rydym am weld awdurdodau lleol cryf sydd yn gynyddol yn gallu monitro eu perfformiad eu hunain a datblygu eu gwasanaethau eu hunain er budd eu cyhoedd heb gael eu harwain yn uniongyrchol gennym ni. Mae angen i ni edrych ar y ffyrdd y mae ariannu llywodraeth leol yn gweithio yn y dyfodol hefyd oherwydd, yn amlwg, mae llywodraeth leol yn dibynnu'n drwm ar gyllid Llywodraeth ganolog ar hyn o bryd. Mae'n ddigon posibl, wrth inni symud ymlaen at strwythur newydd o lywodraeth leol, y ceir cyfleoedd i roi mwy o gyfrifoldeb i awdurdodau lleol. Mae hynny'n rhywbeth y byddem yn sicr yn barod i edrych tuag ato.

17:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

17:56

## 7. Datganiad: Argymhellion a Dyfodol y Cynllun Bathodynnau Glas yng Nghymru

## 7. Statement: Recommendations and the Future of the Blue Badges Scheme in Wales

Senedd.tv Fideo Video

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 7, the statement on the future of the blue badges scheme in Wales has been withdrawn and will now be issued as a written statement.

Mae eitem 7, y datganiad ar ddyfodol y cynllun bathodynnau glas yng Nghymru, wedi cael ei dynnu'n ôl a bydd yn awr yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig.

17:56

## 8. Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016

## 8. The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 8 is the council tax reduction schemes regs, and I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Eitem 8 yw rheoliadau cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor, a galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5918 Jane Hutt

Motion NDM5918 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015.

Approves that the draft Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 1 December 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:56

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Dirprwy Lywydd, the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2016, which you are being asked to approve today, will amend the 2013 council tax reduction scheme regulations. The amendments are needed to ensure the figures used to calculate a person's entitlement to a reduction in their council tax are increased to take account of rises in the cost of living. The UK is currently experiencing a low inflationary period, and price increases as measured by the consumer prices index are close to 0 per cent. Therefore, no change is being proposed to the figures relating to working-aged persons, disabled persons and carers for 2016-17. The figures related to pensioners, however, will increase in line with the standard minimum guarantee of 2.9 per cent. These amendments are in line with housing benefit uprating. Increasing pensioners' entitlement by this higher rate builds in additional protection for pensioners as they are considered less able to obtain additional income from other sources. While the exact impact is dependent on an applicant's particular circumstances, pensioners who are means tested will be worse off if the uprating amendments are not made.

Ddirprwy Lywydd, bydd Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016, y gofynnir i chi eu cymeradwyo heddiw, yn diwygio rheoliadau cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor 2013. Mae angen y diwygiadau er mwyn sicrhau bod y ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl pobl i gael gostyngiad yn eu treth gyngor yn cael eu cynyddu i ystyried codiadau mewn costau byw. Ar hyn o bryd mae'r DU yn profi cyfnod chwyddiant isel, ac mae cynnydd mewn prisiau fel y'u mesurir gan y mynegai prisiau defnyddwyr yn agos i 0 y cant. Felly, nid oes unrhyw newid yn cael ei gynnig i'r ffigurau sy'n ymwneud â phobl o oedran gweithio, pobl anabl a gofalwyr ar gyfer 2016-17. Bydd y ffigurau sy'n ymwneud â phensiynwyr, fodd bynnag, yn cynyddu yn unol â'r lleiafswm gwarant safonol o 2.9 y cant. Mae'r diwygiadau hyn yn unol ag uwchraddio budd-dal tai. Bydd cynyddu hawl pensiynwyr drwy'r gyfradd uwch hon yn rhoi amddiffyniad ychwanegol i bensiynwyr gan eu bod yn cael eu hystyried yn llai abl i gael incwm ychwanegol o ffynonellau eraill. Er bod yr union effaith yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr ymgeisydd, bydd pensiynwyr sydd yn cael prawf modd yn waeth eu byd pe na bai'r gwelliannau uwchraddio yn cael eu gwneud.

As you may know, the UK Government has introduced new restrictions in respect of entitlement to housing benefit by removing the family premium from the calculation of a person's eligibility for support. I will not be making these changes in respect of council tax reductions as I wish to protect those applicants who have been affected by welfare reforms from any further cut in income. Consequently, the family premium will remain in respect of new births and new claims from April 2016 and the backdating period for applications will not be shortened to four weeks.

Fel y gwyddoch efallai, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cyfyngiadau newydd o ran yr hawl i fudd-dal tai drwy gael gwared ar y premiwm teulu wrth gyfrifo cymhwyster unigolyn am gymorth. Ni fyddaf yn gwneud y newidiadau hyn o ran gostyngiadau'r dreth gyngor gan fy mod am amddiffyn yr ymgeiswyr hynny sydd wedi cael eu heffeithio gan ddiwygiadau lles rhag unrhyw doriad pellach mewn incwm. O ganlyniad, bydd y premiwm teulu yn parhau i fodoli mewn cysylltiad â genedigaethau newydd a hawliadau newydd o fis Ebrill 2016 ac ni fydd y cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer ceisiadau yn cael ei fyrhau i bedair wythnos.

In making these regulations, I've also taken the opportunity to include minor technical changes and additional amendments to reflect changes to the policy and legislation for related benefits and other welfare payments. For example, the regulations include amendments required to take account of the new arrangements and terminology introduced via the Pensions Act 2014. They also include amendments to take account of the new arrangements for care and support needs introduced via the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the Care Act 2014. These amendments are necessary to ensure applicants remain entitled to the same level of support. If these consequential amendments are not made to the regulations, some applicants could be financially disadvantaged. I ask the Assembly to approve the regulations today.

Wrth wneud y rheoliadau hyn, rwyf hefyd wedi cymryd y cyfle i gynnwys mân newidiadau technegol a diwygiadau ychwanegol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi a'r ddeddfwriaeth ar gyfer budd-daliadau cysylltiedig a thaliadau lles eraill. Er enghraifft, mae'r rheoliadau yn cynnwys diwygiadau sydd eu hangen i ystyried y trefniadau a'r derminoleg newydd a gyflwynwyd drwy Ddeddf Pensiynau 2014. Maent hefyd yn cynnwys diwygiadau i ystyried y trefniadau newydd ar gyfer anghenion gofal a chymorth a gyflwynwyd trwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Gofal 2014. Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod gan ymgeiswyr yr hawl i'r un lefel o gymorth o hyd. Os nad yw'r diwygiadau canlyniadol hyn yn cael eu gwneud i'r rheoliadau, gallai rhai ymgeiswyr fod dan anfantais yn ariannol. Gofynnaf i'r Cynulliad gymeradwyo'r rheoliadau heddiw.

17:59

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. Therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## 9. Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014-15

## 9. Debate on the Annual Report on Equality 2014-15

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 5 a 6 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of Paul Davies, and amendments 5 and 6 in the name of Aled Roberts.*

17:59

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 9 is the debate on the annual report on equality, and I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Eitem 9 yw'r ddadl ar yr adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb, a galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5919 Jane Hutt

Motion NDM5919 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014-2015.

Notes the Annual Report on Equality 2014-2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:59 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to present the Welsh Government's sixteenth annual report on equality. The report brings together our statutory reporting requirements under the Government of Wales Act 2006, the Equality Act 2010 and the Welsh specific equality duties. The Welsh Government remains committed to doing all we can to tackle inequality. However, it remains a challenging climate. The impact of welfare reform is being felt across Wales and these changes push people deeper into poverty. This report captures a milestone year of progress in the Welsh Government's drive to make Wales a fairer nation, a year when we have continued to place the needs of the most marginalised and disadvantaged people in Wales at the forefront of our decisions, and a year when we introduced some truly groundbreaking policy and legislation.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i gyflwyno unfed adroddiad blynyddol ar bymtheg Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn amlinellu ein gofynion adrodd statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn hinsawdd heriol. Mae effaith diwygio lles yn cael ei deimlo ar draws Cymru ac mae'r newidiadau hyn yn gwthio pobl yn ddyfnach i dlodi. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi blwyddyn garreg filltir o gynnydd yn ymgyrch Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn genedl decach, blwyddyn pan rydym wedi parhau i roi anghenion y bobl fwyaf ymylol a difreintiedig yng Nghymru yn flaenllaw yn ein penderfyniadau, a blwyddyn pan gyflwynwyd rhai polisïau a deddfwriaeth gwirioneddol arloesol.

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 will transform the way social services are being delivered in Wales, promoting people's independence and giving them a stronger voice and control. The Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 will improve arrangements to promote awareness of and prevent violence against women, domestic abuse and sexual violence, as well as protecting and supporting victims. The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 provides a clear focus on what public services are seeking to achieve in order to improve the social, economic, environmental and cultural wellbeing of Wales for current and future generations. Our commitment to tackling inequality is evident in all these pieces of legislation. These Acts will improve the way we do things in Wales, and all three are ultimately playing a part in our progress towards making Wales a fairer and safer nation.

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu yng Nghymru, gan hyrwyddo annibyniaeth pobl a rhoi llais cryfach a rheolaeth iddynt. Bydd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gwella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais ac yn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ogystal ag amddiffyn a chefnogi dioddefwyr. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu ffocws clir ar yr hyn y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ceisio ei gyflawni er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn amlwg ym mhob un o'r darnau hyn o ddeddfwriaeth. Bydd y Deddfau hyn yn gwella'r ffordd rydym yn gwneud pethau yng Nghymru, ac mae'r tair deddf yn y pen draw yn chwarae rhan yn ein cynnydd tuag at wneud Cymru yn genedl decach a mwy diogel.

Strong, cohesive communities are an important contributing factor to the development of a fairer and safer Wales. Austerity and welfare reform are unquestionably having a detrimental impact on our communities, testing their resilience. In times of greater hardship, negative views and stereotypes can become entrenched in relation to particular people or communities. The Welsh Government's community cohesion programme aims to mitigate some of these negative impacts. A delivery plan was launched in June 2014 and is being delivered across Wales through eight Welsh-Government funded regional community cohesion co-ordinator posts, based within local authorities. The plan provides an overarching national structure across seven outcome areas. Co-ordinators play a key role in translating this into regional and local delivery.

Mae cymunedau cryf a chydlynol yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at ddatblygu Cymru decach a mwy diogel. Mae llymder a diwygio lles yn ddiamheuol yn cael effaith andwyol ar ein cymunedau, gan brofi eu cydnerthedd. Ar adegau pan ceir mwy o galedi, gall barn a stereoteipiau negyddol ymwreiddio mewn pobl neu gymunedau penodol. Mae rhaglen gydlyniant cymunedol Llywodraeth Cymru yn anelu at liniaru rhai o'r effeithiau negyddol hyn. Cafodd cynllun cyflawni ei lansio ym mis Mehefin 2014 ac mae'n cael ei gyflwyno ar draws Cymru trwy wyth swydd cydgysylltydd cydlyniant cymunedol rhanbarthol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi'u lleoli o fewn awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn darparu strwythur cenedlaethol trosfwaol ar draws saith ardal canlyniad. Mae cydgysylltwyr yn chwarae rhan allweddol wrth drosi hyn yn gyflenwi rhanbarthol a lleol.

We've taken another stride towards making Wales a safer and more cohesive place in which to live through 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action', which was launched in May 2014. Wales has taken the lead in generating innovative ways to tackle hate crime. A delivery plan has been developed across Welsh Government departments to ensure the aim of tackling hostility and prejudice is embedded across a number of key policy areas, including housing, health, social services, sport and culture.

Rydym wedi cymryd cam arall tuag at wneud Cymru yn lle mwy diogel a chydlynol i fyw ynddi drwy 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu', a lansiwyd ym mis Mai 2014. Mae Cymru wedi cymryd yr awenau wrth gynhyrchu ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â throseddau casineb. Datblygwyd cynllun cyflawni ar draws adrannau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y nod o fynd i'r afael â gelyniaeth a rhagfarn yn rhan annatod o nifer o feysydd polisi allweddol, gan gynnwys tai, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, chwaraeon a diwylliant.

Every child in Wales should receive the best possible start in life. The report reflects our continued focus on removing the barriers that limit opportunities and hinder aspirations. In May 2014, the duty contained in the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 was extended, and Welsh Ministers are now under a duty to have due regard to the requirement of children's rights. The Measure incorporates the United Nations Convention on the Rights of the Child into Welsh domestic law. It sends a strong message about the importance of children's rights in everything the Welsh Government does.

Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ein pwyslais parhaus ar gael gwared ar y rhwystrau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ac yn atal dyheadau. Ym mis Mai 2014, cafodd y ddyletswydd yn y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ei hymestyn, ac mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru bellach i roi sylw dyledus i'r gofyniad hawliau plant. Mae'r Mesur yn ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig yng Nghymru. Mae'n anfon neges gref am bwysigrwydd hawliau plant ym mhopeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.

During the same reporting period, the Welsh Government published a revised child poverty strategy for Wales to reaffirm our commitment to the ambition to eradicate child poverty by 2020. The revised strategy, like the tackling poverty action plan, commits to identifying more opportunities to dovetail the equality and tackling poverty agendas. Our commitment to better the lives of children in Wales is clearly demonstrated in the success of our Flying Start programme, which ensures children in some of the most disadvantaged areas of Wales receive the support they need to thrive and reach their potential. During the 2014-15 period, 37,260 children benefited from Flying Start services in Wales. This meant the Welsh Government met its target to deliver the programme to 36,000 children by 2016—a year earlier.

Yn ystod yr un cyfnod adrodd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth ddiwygiedig ar dlodi plant i Gymru i ailddatgan ein hymrwymiad i'r uchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'r strategaeth ddiwygiedig, fel y cynllun gweithredu trechu tlodi, yn ymrwymo i ganfod mwy o gyfleoedd i blethu'r agendâu cydraddoldeb a threchu tlodi. Mae ein hymrwymiad i wella bywydau plant yng Nghymru yn cael ei ddangos yn glir yn llwyddiant ein rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n sicrhau bod plant yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ffynnu a chyrraedd eu potensial. Yn ystod y cyfnod 2014-15, gwnaeth 37,260 o blant elwa o wasanaethau Dechrau'n Deg yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd ei tharged o gyflwyno'r rhaglen i 36,000 o blant erbyn 2016—flwyddyn yn gynharach.

We've continued our investment in advice services, which make a real difference to the lives of many people right across Wales. Under the front-line grant, we support organisations to provide free and independent advice to people on their financial entitlements, debt and housing-related issues. This funding has enabled organisations to respond to over 30,000 requests for information and advice, securing almost £6.5 million in income gains in 2014-15. The wide range of actions contained within the report, once again, clearly demonstrates our cross-governmental commitment to tackling inequality. It is evident in our programme for government, our strategic equality plan, our impact-assessed actions, and in every ministerial portfolio. Equality runs through the spine of this Welsh Government and is an integral part of our vision for Wales. I look forward to the debate this afternoon.

Rydym wedi parhau â'n buddsoddiad mewn gwasanaethau cynghori, sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau llawer o bobl ledled Cymru. Dan y grant rheng flaen, rydym yn cynorthwyo sefydliadau i ddarparu cyngor annibynnol am ddim i bobl ar eu hawliau ariannol, dyled a materion sy'n ymwneud â thai. Mae'r arian hwn wedi galluogi sefydliadau i ymateb i dros 30,000 o geisiadau am wybodaeth a chyngor, gan sicrhau bron £6.5 miliwn mewn enillion incwm yn 2014-15. Mae'r ystod eang o gamau gweithredu a gynhwyswyd yn yr adroddiad, unwaith eto, yn dangos yn glir ein hymrwymiad trawslywodraethol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Mae'n amlwg yn ein rhaglen lywodraethu, ein cynllun cydraddoldeb strategol, ein camau gweithredu yr aseswyd eu heffaith, ac ym mhob portffolio gweinidogol. Mae cydraddoldeb yn rhedeg drwy asgwrn cefn y Llywodraeth hon yng Nghymru ac mae'n rhan annatod o'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Edrychaf ymlaen at y ddadl y prynhawn yma.

18:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the six amendments to the motion, and I call on Mohammad Asghar to move amendments 1, 2, 3 and 4, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig, ac rwy'n galw ar Mohammad Asghar i gynnig gwelliannau 1, 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw toriadau i'r gyllideb cymunedau a threchu tlodi yn cael effaith andwyol ar gynnydd o ran creu cymunedau mwy cydlynol a chynhwysol yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to ensure cuts to the Communities and Tackling Poverty budget do not adversely affect progress in creating more cohesive and inclusive communities in Wales.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi â phryder y toriad arfaethedig o 68 y cant mewn cyllid craidd i Anabledd Cymru.*

*Notes with concern the proposed cut of 68 per cent in core funding to Disability Wales.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod cymhelliad hiliol i ychydig dros dri chwarter o'r troseddau casineb a adroddwyd i heddluoedd Cymru yn 2012-2013.*

*Notes that just over three quarters of hate crimes reported to Welsh police forces in 2012-2013 were racially motivated.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith mai dim ond 13 y cant o blant sy'n Sipsiwn/Sipsiwn Roma a 17 y cant o blant sy'n derbyn gofal a gyflawnodd TGAU graddau A* i C, mewn mathemateg a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf yn 2014.*

*Regrets that only 13 per cent of Gypsy/Roma children and 17 per cent of looked-after children achieved GCSEs at grades A*-C, in maths and either English or Welsh as a first language in 2014.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2, 3 a 4.*

*Amendments 1, 2, 3 and 4 moved.*

18:05

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the amendments tabled in the name of Paul Davies.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I am grateful for the opportunity of speaking today on the Welsh Government’s annual report on equality, which outlines progress made in meeting the equalities objectives set by the Welsh Government. Although some progress has been made, there inevitably remains much more to do, and, in my remarks this afternoon, I wish to highlight some of the areas where we need to take action to address serious problems of inequality in our society.

Rwy’n ddiolchgar am y cyfle i siarad heddiw ar adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb, sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion cydraddoldeb a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae'n anochel fod llawer mwy i'w wneud o hyd, ac, yn fy sylwadau y prynhawn yma, hoffwn dynnu sylw at rai o'r meysydd lle mae angen i ni gymryd camau i fynd i'r afael â phroblemau difrifol anghydraddoldeb yn ein cymdeithas.

Education, as we know, can be a route out of poverty for many disadvantaged groups. Reducing the number of young people not in education, employment or training is a key priority for the Welsh Government. I welcome the fact that the proportion of pupils achieving five or more GCSEs at grades A to C, including maths and English or Welsh, has increased from 47 per cent in 2009 to 53 per cent in 2013. However, the attainment gap between groups of pupils has either remained pretty static or has, in some cases, increased. Only 13 per cent of Gypsy and Roma children achieve 5 of more GCSEs, as I outlined previously, and only 17 per cent of looked-after children or children with special educational needs. I would ask the Minister in her reply to say what action will be taken to address the attainment gap and to increase the opportunity for these children to access employment or training.

Gall addysg, fel y gwyddom, fod yn llwybr allan o dlodi i lawer o grwpiau dan anfantais. Mae lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Croesawaf y ffaith bod cyfran y disgyblion sy'n ennill pump neu fwy TGAU gradd A i C, gan gynnwys mathemateg a Saesneg neu Gymraeg, wedi cynyddu o 47 y cant yn 2009 i 53 y cant yn 2013. Fodd bynnag, mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng grwpiau o ddisgyblion naill ai wedi aros yn eithaf sefydlog neu, mewn rhai achosion, wedi cynyddu. Dim ond 13 y cant o blant Sipsiwn a Roma sy’n sicrhau 5 TGAU neu fwy, fel yr amlinellwyd gennyf yn flaenorol, a dim ond 17 y cant o blant sy'n derbyn gofal neu blant ag anghenion addysgol arbennig. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog yn ei hateb i ddweud pa gamau sy’n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad ac i gynyddu'r cyfle i'r plant hyn gael mynediad at gyflogaeth neu hyfforddiant.

Deputy Presiding Officer, this report states that the Welsh Government is committed to supporting disabled people and to enable them to participate in society. Disability Wales is doing great work in helping the Welsh Government meet the same. Indeed, speaking at their annual conference, the health Minister praised Disability Wales for its work on the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. He went on to say that Government would, quote,

Ddirprwy Lywydd, dywed yr adroddiad hwn bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi pobl anabl ac i'w galluogi i gymryd rhan mewn cymdeithas. Mae Anabledd Cymru yn gwneud gwaith gwych wrth helpu Llywodraeth Cymru i fodloni’r un peth. Yn wir, wrth siarad yn eu cynhadledd flynyddol, canmolodd y Gweinidog Iechyd Anabledd Cymru am ei waith ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Aeth ymlaen i ddweud y byddai’r Llywodraeth, dyfynnaf,

‘rely on Disability Wales as well to deliver training to local authorities across Wales’

‘yn dibynnu ar Anabledd Cymru hefyd i gyflwyno hyfforddiant i awdurdodau lleol ledled Cymru’

on the United Nations disability convention so that decisions made under the new Act will be properly informed by the due-regard duties that the Act now places on the shoulders of our local authorities. It is surprising, therefore, that Disability Wales faces closure next year due to cuts of 68 per cent in its core funding. I call on the Wels Government to provide the necessary funding to enable Disability Wales to continue to do its vital work in providing information and support to disabled people’s organisations and to influence policy on issues such as independent living and hate crime.

ar gonfensiwn anabledd y Cenhedloedd Unedig fel y bydd penderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf newydd yn cael eu llywio’n briodol gan y dyletswyddau sylw dyledus y mae’r Ddeddf yn awr yn eu rhoi ar ysgwyddau ein hawdurdodau lleol. Mae'n syndod, felly, bod Anabledd Cymru yn wynebu cau'r flwyddyn nesaf oherwydd toriadau o 68 y cant i’w gyllid craidd. Galwaf ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cyllid angenrheidiol i alluogi Anabledd Cymru i barhau i wneud ei waith hanfodol yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i sefydliadau pobl anabl ac i ddylanwadu ar bolisi ar faterion megis byw'n annibynnol a throseddau casineb.

One of the key aims of this Government is to create a fair society, free from discrimination, harassment and victimisation, with cohesive and inclusive communities. It is now clear that the draft budget cuts the communities and tackling poverty budget by £3 million in cash terms at a time of increasing hate crime and rising tension among the communities in Wales. Three quarters of the 1,800 hate crimes reported to Welsh police forces in 2012-13 were racially motivated. This is a staggering figure, Deputy Presiding Officer. Events such as the terrorist attacks in Egypt, Turkey, Tunisia, Paris and most recently Indonesia have fuelled a rising incidence of Islamaphobic and anti-Semitic hate crimes in Wales. In Wales, we have seen attacks on mosques and Islamic centres in our towns and cities. I ask the Minister, in reply to the debate, to guarantee that cuts to the communities and tackling poverty budget will not have an impact on efforts to build stronger community cohesion in Wales. I look forward to your response on this, Minister, and there are a number of areas, like lesbian, gay, bisexual and transgender, black and ethnic minorities and disabilities. Finally, one thing I can say is that the gender pay scale between men and women is still very different in many departments in this country.

Un o nodau allweddol y Llywodraeth hon yw creu cymdeithas deg, sy'n rhydd o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, gyda chymunedau cydlynol a chynhwysol. Mae bellach yn glir bod y gyllideb ddrafft yn torri £3 miliwn oddi ar gyllideb cymunedau a threchu tlodi yn nhermau arian parod ar adeg o droseddau casineb cynyddol a thensiwn yn codi ymhlith y cymunedau yng Nghymru. Roedd tri chwarter o'r 1,800 o droseddau casineb a adroddwyd i heddluoedd Cymru yn 2012-13 wedi cael eu hysgogi gan hiliaeth. Mae hwn yn ffigwr syfrdanol, Ddirprwy Lywydd. Mae digwyddiadau fel yr ymosodiadau terfysgol yn yr Aifft, Twrci, Tunisia, Paris ac yn fwyaf diweddar Indonesia wedi sbarduno cynnydd mewn achosion o droseddau casineb Islamaphobig a gwrth-Semitaidd yng Nghymru. Yng Nghymru, rydym wedi gweld ymosodiadau ar fosgiau a chanolfannau Islamaidd yn ein trefi a'n dinasoedd. Gofynnaf i'r Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl, warantu na fydd y toriadau i'r gyllideb cymunedau a threchu tlodi yn effeithio ar ymdrechion i adeiladu cydlyniant cymunedol cryfach yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at eich ymateb ar hyn, Weinidog, ac mae nifer o feysydd, fel pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, lleiafrifoedd du ac ethnig ac anableddau. Yn olaf, un peth y gallaf ei ddweud yw bod y raddfa gyflog ar sail rhyw rhwng dynion a menywod yn dal i fod yn wahanol iawn mewn nifer o adrannau yn y wlad hon.

Finally, one note from Oxfam, Deputy Presiding Officer, 62 people of wealth in this world have the wealth of half of the world's population.

Yn olaf, un nodyn gan Oxfam, Ddirprwy Lywydd, mae 62 o bobl gyfoethog y byd hwn yn meddu ar gyfoeth hanner poblogaeth y byd.

18:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendments 5 and 6, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed o ran gwella gwasanaethau dysfforia rhywedd yng Nghymru, ac yn galw am astudiaeth ddichonolrwydd annibynnol i sefydlu clinig hunaniaeth rhywedd yng Nghymru.*

*Calls on the Minister to update the Assembly on her progress in improving gender dysphoria services in Wales, and calls for an independent feasibility study into establishing a gender identity clinic in Wales.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i symud at recriwtio dienw yn y sector cyhoeddus pan fo hynny'n bosibl fel bod pobl yn cael eu barnu ar eu gallu gwirioneddol i wneud swydd.*

*Calls on the Welsh Government to move to 'name blank' recruitment wherever possible in the public sector so that people are judged on their true abilities to do a job.*

*Cynigiwyd gwelliannau 5 a 6.*

*Amendments 5 and 6 moved.*

18:10 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendments 5 and 6? Before I start on my contribution, can I just congratulate all of the staff in the Assembly Commission who worked so hard in achieving third place in Stonewall's top 100 employers with LGBT people? I think that's a tremendous result and, next time, we'll beat MI5.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gaf i gynnig gwelliannau 5 a 6? Cyn i mi gychwyn ar fy nghyfraniad, a gaf i longyfarch pob un o'r staff yng Nghomisiwn y Cynulliad a weithiodd mor galed i gyrraedd y trydydd safle yn 100 cyflogwr gorau Stonewall o ran pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol? Rwy'n credu bod hynny'n ganlyniad aruthrol, a'r tro nesaf byddwn yn curo MI5.

Deputy Presiding Officer, I'm proud to live in a diverse country and believe that tolerance and peaceful coexistence strengthens our society, whereas the rhetoric of hate and division threatens our way of life. That applies equally to racism and hate crime as it does to the anti-immigrant rhetoric of UKIP and others. I think that this Assembly, certainly in this term and previous terms, has set a mark, if you like, in how we can work better together, how we can try to create more equality in our society and how we can deal with that hatred and that racism and how we can put that behind us and work together across all races and all genders and, of course, all our differences to produce that diverse country, which is, I think, what we're all aiming to achieve here in Wales. Certainly, I hope that this report—and this is the last time that we'll be considering it in this particular Assembly—demonstrates a lot of that work and what we've managed to achieve together, both the Government and the Assembly Members in this Chamber. For that reason, I very much support what is in it.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n falch o fyw mewn gwlad amrywiol ac rwy'n credu bod goddefgarwch a chydfodoli yn heddychlon yn cryfhau ein cymdeithas, tra bod y rhethreg o gasineb a rhannu yn bygwth ein ffordd o fyw. Mae hynny'r un mor berthnasol i hiliaeth a throseddau casineb ag ydyw i rethreg gwrth-fewnfudwyr UKIP ac eraill. Credaf fod y Cynulliad hwn, yn sicr yn y tymor hwn a thymhorau blaenorol, wedi gosod marc, os mynnwch, yn y modd y gallwn weithio'n well gyda'n gilydd, sut y gallwn geisio creu mwy o gydraddoldeb yn ein cymdeithas a sut y byddwn yn delio â'r casineb hwnnw a'r hiliaeth hwnnw a sut y gallwn roi hynny y tu ôl i ni a gweithio gyda'n gilydd ar draws pob hil a phob rhyw ac, wrth gwrs, pob un o'n gwahaniaethau i gynhyrchu gwlad amrywiol, sydd, rwy'n meddwl, yr hyn yr ydym ni i gyd yn anelu at ei gyflawni yma yng Nghymru. Yn sicr, rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn—a dyma'r tro olaf y byddwn yn ei ystyried yn y Cynulliad penodol hwn—yn dangos llawer o'r gwaith hwnnw a'r hyn yr ydym wedi llwyddo i'w gyflawni gyda'n gilydd, y Llywodraeth ac Aelodau'r Cynulliad yn Siambr hon. Am y rheswm hwnnw, cefnogaf yn fawr iawn beth sydd ynddo.

The amendments that we've tabled, as Welsh Liberal Democrats, include a couple of things that we think could be done better. There are always things that we can do better to do with this. I hope that the Minister takes these comments in that spirit.

Mae'r gwelliannau yr ydym wedi'u cyflwyno, fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn cynnwys un neu ddau o bethau y gellid eu gwneud yn well yn ein barn ni. Mae bob amser bethau y gallwn eu gwneud yn well wrth ymwneud â hyn. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn cymryd y sylwadau hyn yn yr ysbryd hwnnw.

I'm pleased to read in the annual report, and I welcome, the work that is being done by Public Health Wales to improve screening information for transgender people. However, this work is a very small part of the needs of transgender people and this is not the first time, and no doubt not the last time, that I and others in my party will be raising this particular issue in this Assembly. We raised a motion back in November 2014, and our amendment to the Welsh Minister for equality's report was supported on that. However, we still have not heard anything about the independent feasibility study into establishing a gender identity clinic in Wales. I'd be grateful if the Minister could give us some progress on that particular issue.

Rwy'n falch o ddarllen yn yr adroddiad blynyddol am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella gwybodaeth sgrinio ar gyfer pobl drawsrywiol, ac rwy'n croesawu hynny. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn rhan fechan iawn o anghenion pobl drawsrywiol ac nid dyma'r tro cyntaf, ac yn sicr nid y tro olaf, y byddaf i ac eraill yn fy mhlaid yn codi'r mater penodol hwn yn y Cynulliad hwn. Gwnaed cynnig gennym yn ôl ym mis Tachwedd 2014, a chafodd ein gwelliant i adroddiad y Gweinidog cydraddoldeb ei gefnogi ar hynny. Fodd bynnag, rydym yn dal heb glywed unrhyw beth am yr astudiaeth ddichonoldeb annibynnol i sefydlu clinig hunaniaeth rhywedd yng Nghymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi rhywfaint o gynnydd ar y mater penodol hwnnw i ni.

The House of Commons Women and Equalities Committee produced an excellent report only last week following their inquiry into transgender equality. Their report noted that the evidence is overwhelming that there are serious deficiencies in the equality and capacity of NHS gender identity services. In particular, the waiting time that many patients experience, prior to their first appointment and before surgery, is completely unacceptable and in clear breach of the legal obligation under the NHS constitution to provide treatment within 18 weeks. The Gender Identity Research and Education Society informed the committee that a recent report indicated that waiting times were two to three years for access to some of the adult clinics. Although that largely relates to NHS England, Wales still remains the only country in the UK that does not have a designated gender identity clinic, and people from Wales have to travel to clinics in England. So, of course, that issue applies to Welsh people who are making use of those services, hence, the amendment that we've tabled today, calling for an independent feasibility study into establishing a gender identity clinic in Wales.

Cynhyrchodd Pwyllgor Cydraddoldebau Menywod Tŷ'r Cyffredin adroddiad rhagorol dim ond yr wythnos ddiwethaf yn dilyn ei ymchwiliad i gydraddoldeb trawsrywiol. Nododd ei adroddiad bod tystiolaeth llethol bod diffygion difrifol yng nghydraddoldeb a gallu gwasanaethau hunaniaeth rhywedd y GIG. Yn benodol, mae'r amser aros y mae llawer o gleifion yn ei brofi, cyn eu hapwyntiad cyntaf a chyn llawdriniaeth, yn gwbl annerbyniol ac yn amlwg yn torri'r rhwymedigaeth gyfreithiol dan gyfansoddiad y GIG i ddarparu triniaeth o fewn 18 wythnos. Hysbysodd Cymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Rhywedd y pwyllgor fod adroddiad diweddar yn dangos bod amseroedd aros yn ddwy i dair blynedd ar gyfer mynediad i rai o'r clinigau oedolion. Er bod hynny'n ymwneud i raddau helaeth â GIG Lloegr, Cymru yw'r unig wlad yn y DU sy'n dal heb glinig hunaniaeth rhywedd dynodedig, ac mae'n rhaid i bobl o Gymru deithio i glinigau yn Lloegr. Felly, wrth gwrs, mae'r mater hwnnw yn berthnasol i bobl Cymru sy'n gwneud defnydd o'r gwasanaethau hynny. Dyna pam y ceir y gwelliant yr ydym wedi'i gyflwyno heddiw, yn galw am astudiaeth dichonolrwydd annibynnol i sefydlu clinig hunaniaeth rhywedd yng Nghymru.

In terms of amendment 6, we believe that in order to improve diversity of public sector appointments, we need to make sure that the recruitment processes are fair and balanced and do not entertain bias, whether explicit or unconscious. Introducing name-blank processes helps ensure that talented candidates from less represented backgrounds are judged on their experience and skills rather than their name, and the assumptions on protected characteristics that can sometimes accompany people's names.

O ran gwelliant 6, credwn er mwyn gwella amrywiaeth y penodiadau sector cyhoeddus, fod angen i ni sicrhau bod y prosesau recriwtio yn deg ac yn gytbwys ac nad ydynt yn magu rhagfarn, boed yn amlwg neu'n anymwybodol. Mae cyflwyno prosesau enw gwag yn helpu i sicrhau bod ymgeiswyr dawnus o gefndiroedd sydd heb gymaint o gynrychiolaeth yn cael eu barnu ar eu profiad a'u sgiliau yn hytrach na'u henw, a'r tybiaethau ar nodweddion gwarchodedig sydd weithiau yn gallu mynd gydag enwau pobl.

Unfortunately, there is an increasing evidence of this recruitment bias. In December 2012 an all-parliamentary group on race and community in Westminster found that women who anglicised their names on job applications were able to send half as many job applications as those who didn't before they got asked for an interview. Department for Work and Pensions research shows that if you have an African or Asian-sounding surname, you need to send approximately twice as many job applications as those with a traditionally English name even to get an interview. The European Foundation for the Improvement of Living and Working Conditions have shown that name-blank procedures can increase the likelihood of female candidates being invited for interview by over 8 per cent. We believe this is good practice, and I would urge the Welsh Government to move to a blind or name-blank recruitment approach wherever possible in public sector recruitment, at least at the first stage, so that people are judged on their true abilities to do a job. That would help the Welsh Government to meet equality objective 2 and ensure equality for all people seeking employment in the public sector in Wales.

Yn anffodus, mae tystiolaeth gynyddol o'r rhagfarn hon o ran recriwtio. Ym mis Rhagfyr 2012 canfu grŵp seneddol holl-bleidiol ar hil a chymuned yn San Steffan nad oedd angen i fenywod sy'n Seisnigo eu henwau ar ffurflenni cais am swydd anfon hanner gymaint o geisiadau am swyddi cyn iddynt gael eu galw am gyfweliad â'r menywod oedd heb Seisnigo eu henwau. Mae ymchwil gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos os oes gennych gyfenw sy'n swnio'n Affricanaidd neu Asiaidd, mae angen i chi anfon tua dwywaith gymaint o geisiadau am swyddi â'r rhai sydd ag enw Saesneg yn draddodiadol, hyd yn oed i gael cyfweliad. Mae'r Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Gwella Amodau Byw a Gweithio wedi dangos ei bod dros 8 y cant yn fwy tebygol y gall ymgeiswyr benywaidd gael eu gwahodd am gyfweliad drwy weithdrefnau enw gwag. Credwn fod hyn yn arfer da, a byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i newid i ddull recriwtio dall neu enw gwag pan fo hynny'n bosibl wrth recriwtio yn y sector cyhoeddus, o leiaf yn ystod y cam cyntaf, fel bod pobl yn cael eu barnu ar sail eu galluoedd i wneud swydd. Byddai hynny'n helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni amcan cydraddoldeb 2 ac yn sicrhau cydraddoldeb i bawb sy'n chwilio am gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Deputy Presiding Officer, I very much hope that we can support these amendments and move together in that spirit of co-operation, which is to characterise the equality agenda in this Assembly and improve the assemblies. I certainly think that we can build on the work we've already done in future assemblies.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n gobeithio'n fawr y gallwn gefnogi'r gwelliannau hyn a symud gyda'n gilydd yn yr ysbryd o gydweithio, a fydd yn nodweddu'r agenda gydraddoldeb yn y Cynulliad hwn a gwella'r cynulliadau. Rwy'n sicr yn credu y gallwn adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi ei wneud eisoes mewn cynulliadau yn y dyfodol.

18:16 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It really is a pleasure to speak in this debate on the Welsh Government's annual equality report, but I do stand today in my role as Assembly Commissioner with portfolio responsibility for equalities.

Pleser yn wir yw siarad yn y ddadl hon ar adroddiad cydraddoldeb blynyddol Llywodraeth Cymru, ond rwy'n sefyll heddiw yn fy rôl fel Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb portffolio dros gydraddoldeb.

We've already heard about the success that we've had today, as an Assembly, and I'm sure Members in this Chamber from across the political parties will share with me their congratulations to Welsh organisations who have today been named in Stonewall's workplace equality index—the annual national benchmark of over 400 organisations across the UK.

Rydym eisoes wedi clywed am y llwyddiant yr ydym wedi'i gael heddiw, fel Cynulliad, ac rwy'n siŵr y bydd Aelodau yn y Siambr hon ar draws y pleidiau gwleidyddol am ymuno â mi i longyfarch sefydliadau yng Nghymru sydd wedi cael eu henwi heddiw ym mynegai cydraddoldeb yn y gweithle Stonewall—y meincnod cenedlaethol blynyddol ar gyfer dros 400 o sefydliadau ar draws y DU.

Wales as a country has featured strongly in the index. We might only be 5 per cent of the UK population, but there are 12 Wales-based organisations within the top 100, demonstrating that, as a country, we take seriously the importance of creating inclusive policies and services for the people we serve. I congratulate everyone on that list, which includes Welsh universities, local authorities and health boards. I note that Welsh Government has risen to No. 17 in the UK, but I would particularly like to congratulate us as a legislature. The Assembly has further strengthened its position as a top lesbian, gay, bisexual and transgender employer by reaching No. 3 in the UK and the best public sector employer in Wales.

Mae Cymru fel gwlad wedi ymddangos yn gryf yn y mynegai. Efallai mai dim ond 5 y cant o boblogaeth y DU yw Cymru, ond mae 12 o sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru o fewn y 100 uchaf, gan ddangos ein bod ni, fel gwlad, o ddifrif wrth ystyried pwysigrwydd creu polisïau a gwasanaethau cynhwysol ar gyfer y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Hoffwn longyfarch pawb ar y rhestr honno, sy'n cynnwys prifysgolion Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Nodaf fod Llywodraeth Cymru wedi codi i Rif 17 yn y DU, ond byddwn yn enwedig yn hoffi ein llongyfarch ni fel deddfwrfa. Mae'r Cynulliad wedi cryfhau ymhellach ei safle fel cyflogwr pennaf pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol drwy gyrraedd Rhif 3 yn y Deyrnas Unedig a'r cyflogwr sector cyhoeddus gorau yng Nghymru.

I would like to pay particular thanks to OUT-NAW—the LGBT staff network—Assembly Members and allies of the network and to the Assembly equalities team. Everyone plays an important part in this and the whole of the equalities agenda. Next Wednesday the Assembly will host the Stonewall Cymru awards after Plenary, and I hope that Members will be able to join us as we celebrate Welsh diversity at its best.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i staff OUT-NAW—y rhwydwaith staff pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol—Aelodau'r Cynulliad a chynghreiriaid y rhwydwaith ac i dîm cydraddoldebau'r Cynulliad. Mae pawb yn chwarae rhan bwysig yn hyn a'r holl agenda cydraddoldeb. Ddydd Mercher nesaf bydd y Cynulliad yn cynnal gwobrau Stonewall Cymru ar ôl y Cyfarfod Llawn, ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n gallu ymuno â ni wrth i ni ddathlu amrywiaeth yng Nghymru ar ei orau.

My contribution today is narrow in focus so that it does not detract from the important scrutiny of the Welsh Government's annual equalities report, which covers the whole of the equalities agenda and many successes. However, I thought it was important to acknowledge, on the record, our congratulations to those organisations that have made very good progress with their LGBT inclusivity. I hope, Minister, you will be able to join us in this.

Mae fy nghyfraniad heddiw yn gul o ran ffocws fel nad yw'n tynnu oddi wrth y gwaith craffu pwysig ar adroddiad cydraddoldebau blynyddol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys yr holl agenda gydraddoldeb a llawer o lwyddiannau. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod, ar y cofnod, ein bod yn llongyfarch y sefydliadau hynny sydd wedi gwneud cynnydd da iawn o ran cynwysoldeb pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol . Rwy'n gobeithio, Weinidog, y byddwch yn gallu ymuno â ni yn hyn.

Can I thank everyone involved, including Members, staff and all those people I've mentioned, especially the people here? Thank you very much indeed.

A gaf i ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â hyn, gan gynnwys yr Aelodau, staff a'r holl bobl yr wyf wedi'u crybwyll, yn enwedig y bobl sydd yma? Diolch yn fawr iawn yn wir.

18:18 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I shall be brief, and of course echo all the sentiments of all of the contributors in this debate today. The equality report is very detailed and comprehensive. First of all, it's clear what the Welsh Government is trying to achieve because the report clearly sets out the eight key objectives, but it's also clear that a huge amount of work still needs to be done in order to get anywhere near to achieving all of those objectives. To do that, we need to work very closely with a number of other organisations, such as local authorities, the voluntary sector and the police.

Byddaf yn fyr, ac wrth gwrs rwy'n adleisio teimladau pawb o'r cyfranwyr yn y ddadl hon heddiw. Mae'r adroddiad cydraddoldeb yn fanwl ac yn gynhwysfawr iawn. Yn gyntaf oll, mae'n glir beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ei gyflawni oherwydd bod yr adroddiad yn nodi'n glir yr wyth amcan allweddol, ond mae hefyd yn amlwg bod llawer iawn o waith sydd angen ei wneud o hyd er mwyn dod yn agos at gyflawni pob un o'r amcanion hynny. I wneud hynny, mae angen i ni weithio'n agos iawn gyda nifer o sefydliadau eraill, megis awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a'r heddlu.

While far too many adults in Wales are experiencing discrimination in terms of pay gaps between men and women, far fewer employment opportunities for disabled people, and the abuse or neglect of older people in care, my main concern, which I want to highlight today, is the welfare of children and the role that schools could play in guiding pupils away from negative attitudes towards certain people with protected characteristics. But many children are themselves the victims of social inequality. We know that children coming from poorer backgrounds are less likely than fellow pupils to achieve high grades in their exams and, as a result, more likely to end up without further education, training or a job.

Er bod llawer gormod o oedolion yng Nghymru yn dioddef o wahaniaethu o ran y bwlch cyflog rhwng dynion a menywod, llawer llai o gyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl, a cham-drin neu esgeuluso pobl hŷn mewn gofal, rwyf am dynnu sylw at fy mhrif bryder heddiw, sef lles plant a'r rôl y gallai ysgolion ei chwarae wrth arwain disgyblion oddi wrth agweddau negyddol tuag at rai pobl â nodweddion gwarchodedig. Ond mae llawer o'r plant eu hunain yn dioddef anghydraddoldeb cymdeithasol. Rydym yn gwybod bod plant sy'n dod o gefndiroedd tlotach yn llai tebygol na'u cyd-ddisgyblion o ennill graddau uchel yn eu harholiadau ac, o ganlyniad, yn fwy tebygol o orfod mynd heb addysg bellach, hyfforddiant neu swydd.

A recent report from the Equality and Human Rights Commission in Wales points out the stark fact that pupils with special educational needs, those who are disabled or from an ethnic minority are much more likely to experience bullying than other pupils. What is really worrying is the report from Estyn that schools' awareness and understanding of bullying and schools' responsibility to LGBT pupils, and their ability to deal with this, were found, I'm afraid, to be weak.

Mae adroddiad diweddar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn tynnu sylw at y ffaith foel bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, y rhai sy'n anabl neu o leiafrif ethnig yn llawer mwy tebygol o gael eu bwlio na disgyblion eraill. Yr hyn sy'n wirioneddol beri pryder yw'r canfyddiad yn adroddiad Estyn fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ysgolion o fwlio a chyfrifoldeb ysgolion tuag at ddisgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, a'u gallu i ddelio â hyn, yn anffodus, yn wan.

So, Dirprwy Lywydd, what we need to do, perhaps, would be to maybe add at least one additional objective to those eight set out in the Welsh Government's annual equality report. There is no specific mention of children in those objectives and we must make it clear that their particular rights must be safeguarded. No child should be the victim or the perpetrator of bullying or hate crime. And apart from parental responsibility, it should also be made clear that we expect schools at primary and secondary level to play a key role in helping children to grow up and enjoy equal rights and equal opportunities, whatever their background. In a perfect Wales and a perfect world, I also expect society to play its part in, indeed, an equal Wales. Diolch yn fawr.

Felly, Ddirprwy Lywydd, yr hyn y mae angen i ni ei wneud, o bosibl, fyddai efallai ychwanegu o leiaf un amcan ychwanegol at yr wyth a nodir yn adroddiad cydraddoldeb blynyddol Llywodraeth Cymru. Nid oes sôn penodol am blant yn yr amcanion hynny ac mae'n rhaid i ni ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'w hawliau penodol nhw gael eu diogelu. Ni ddylai unrhyw blentyn ddioddef na chyflawni unrhyw weithred o fwlio neu drosedd casineb. Ac ar wahân i gyfrifoldeb rhieni, dylid ei gwneud yn glir hefyd ein bod yn disgwyl i ysgolion ar lefel gynradd ac uwchradd chwarae rhan allweddol wrth helpu plant i dyfu i fyny a mwynhau hawliau cyfartal a chyfle cyfartal, beth bynnag fo'u cefndir. Mewn Cymru berffaith a byd perffaith, yn wir rwyf hefyd yn disgwyl i gymdeithas chwarae ei rhan mewn sicrhau Cymru gyfartal. Diolch yn fawr.

18:21 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm very pleased to speak in this very important annual debate. I want to concentrate my remarks on provision for Gypsies and Travellers, particularly as it's raised in one of the amendments by the Conservatives.

Rwy'n falch iawn o'r cyfle i siarad yn y ddadl flynyddol bwysig hon. Hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau ar y ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yn enwedig gan fod hyn yn cael ei godi yn un o'r gwelliannau gan y Ceidwadwyr.

First of all, I want to say that I think there has been a lot of progress during this Assembly term in recognising the needs of Gypsies and Travellers. That is particularly in housing, because, without somewhere to live, we all know how the discrimination that Gypsies and Travellers suffer is much, much worse.

Yn gyntaf oll, rwyf am ddweud fy mod yn credu y bu llawer o gynnydd yn ystod tymor y Cynulliad hwn o safbwynt cydnabod anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Mae hynny'n enwedig o ran tai, oherwydd, heb rywle i fyw, rydym i gyd yn gwybod sut mae'r gwahaniaethu y mae Sipsiwn a Theithwyr yn ei ddioddef yn llawer, llawer gwaeth.

I'm very pleased the Government has reintroduced the duty on local authorities to assess the accommodation needs of Gypsies and Travellers in their areas, and this will probably lead to the expansion or development of more sites. I think putting back the duty on local authorities to provide for Gypsies and Travellers was a huge step during this Assembly term and I want to congratulate all who were concerned about that. I note, in correspondence from the Minister that I received earlier this month, that, in 2007, 20 out of 31 recorded sites were local authority owned, whereas now, in 2015, 23 are recorded as local authority-owned sites.

Rwy'n falch iawn bod y Llywodraeth wedi ailgyflwyno'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardaloedd, a bydd hyn yn debygol o arwain at ehangu neu ddatblygu mwy o safleoedd. Rwy'n credu bod trosglwyddo'r ddyletswydd yn ôl i awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn gam enfawr yn ystod tymor y Cynulliad hwn, ac rwyf am longyfarch pawb oedd yn pryderu am hynny. Nodaf, mewn gohebiaeth gan y Gweinidog a gefais yn gynharach y mis hwn, fod, yn 2007, 20 allan o 31 o safleoedd a gofnodwyd yn eiddo i'r awdurdod lleol, ond yn awr, yn 2015, mae 23 yn cael eu cofnodi fel safleoedd sy'n eiddo i'r awdurdod lleol.

The other issue that I wanted to bring up was the fact that many Gypsies and Travellers don't want to live on a local authority-type site; they want to live on their own private sites where they've purchased land and they want to get planning permission to live on that bit of land. I think there is more opportunity now for that to happen. The Minister also said in her letter to me that the new Gypsy and Traveller accommodation assessments are, for local authorities, the flexibility to work with households that wish to develop private sites. I welcome the fact that this is there to encourage local authorities to develop such viable private sites. I was very pleased when I went to Pembrokeshire recently with the cross-party group for Gypsies and Travellers to see some of the private sites that have been developed there, which I thought were absolutely excellent.

Y mater arall yr oeddwn am ei godi oedd y ffaith nad oedd llawer o Sipsiwn a Theithwyr eisiau byw ar safle o fath un yr awdurdod lleol; maent am fyw ar eu safleoedd preifat eu hunain lle maent wedi prynu tir ac maent yn awyddus i gael caniatâd cynllunio i fyw ar y darn hwnnw o dir. Rwy'n meddwl bod mwy o gyfle yn awr i hynny ddigwydd. Dywedodd y Gweinidog hefyd yn ei llythyr ataf mai'r asesiadau newydd o ran llety Sipsiwn a Theithwyr, ar gyfer awdurdodau lleol, yw'r hyblygrwydd i weithio gydag aelwydydd sy'n dymuno datblygu safleoedd preifat. Croesawaf y ffaith bod hyn yno i annog awdurdodau lleol i ddatblygu safleoedd preifat hyfyw o'r fath. Roeddwn yn falch iawn pan es i Sir Benfro yn ddiweddar gyda'r grŵp trawsbleidiol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr i weld rhai o'r safleoedd preifat a ddatblygwyd yno, a oedd yn hollol wych yn fy marn i.

We also know that there is more money now for capital improvement for sites, and some sites have already been improved. So, we've got a long way, there's still a long way to go, there are still outstanding issues, and we certainly do still have some of those issues in terms of site provision in Cardiff.

Rydym hefyd yn gwybod bod mwy o arian ar gael yn awr ar gyfer gwelliannau cyfalaf i safleoedd, ac mae rhai safleoedd eisoes wedi cael eu gwella. Felly, mae gennym ffordd bell, mae ffordd bell i fynd o hyd, mae materion heb eu datrys o hyd, ac yn sicr mae rhai o'r problemau hynny yn dal yn bodoli o ran darparu safleoedd yng Nghaerdydd.

One of the most important things, I think, we have to do when new sites are developed is to make absolutely certain that a community building is included in those sites, because that gives a wonderful opportunity for activities to take place on these sites. I was delighted to got to Shirenewton in the constituency of Vaughan Gething earlier in October last year where I saw Gypsy children working on dance with dancers from the Birmingham Royal Ballet, and that was such a stimulating, exciting thing to be present at. That was a huge opportunity offered to the children organised by the Romani cultural association. But having a community building also gives the opportunity for pre-school groups to meet, and for Flying Start activities to take place, and after-school clubs. So, I think that is absolutely essential and I hope that the Minister can confirm that, when new sites will be built, or when other sites are developed, there will be a community building included.

Un o'r pethau mwyaf pwysig, rwy'n meddwl, y mae'n rhaid i ni ei wneud pan fydd safleoedd newydd yn cael eu datblygu yw gwneud yn gwbl sicr bod adeilad cymunedol yn cael ei gynnwys yn y safleoedd hynny, gan fod hynny'n rhoi cyfle gwych i gynnal gweithgareddau ar y safleoedd hyn. Roeddwn wrth fy modd cael mynd i Drenewydd Gelli-farch yn etholaeth Vaughan Gething yn gynharach ym mis Hydref y llynedd, lle gwelais blant Sipsiwn yn gweithio ar ddawns gyda dawnswyr o Birmingham Royal Ballet, ac yr oedd hynny'n rhywbeth mor ysgogol, mor gyffrous i fod yn bresennol ynddo. Roedd hynny'n gyfle enfawr a gynigiwyd i'r plant ac a drefnwyd gan gymdeithas ddiwylliannol y Romani. Ond mae cael adeilad cymunedol hefyd yn rhoi cyfle i grwpiau cyn-ysgol i gyfarfod, ac i weithgareddau Dechrau'n Deg ddigwydd, a chlybiau ar ôl ysgol. Felly, credaf fod hynny'n gwbl hanfodol ac rwy'n gobeithio y gall y Gweinidog gadarnhau, pan fydd safleoedd newydd yn cael eu hadeiladu, neu pan fydd safleoedd eraill yn cael eu datblygu, y bydd adeilad cymunedol yn cael ei gynnwys.

The Conservative amendment

Gwelliant y Ceidwadwyr

'Regrets that only 13 per cent of Gypsy/Roma children… achieved GCSEs at grades A*-C, in maths and either English or Welsh as a first language.'

Yn gresynu mai dim ond 13 y cant o blant Sipsiwn / Roma ... gyflawnodd TGAU graddau A*-C, mewn mathemateg a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf.'

But I think it is very important to look at this in context. It is right that we must acknowledge that there's a huge amount more to do in secondary education, but there has been a lot of development of primary education, and a huge growth in the number of children from Gypsy and Traveller sites attending primary schools. It's essential that we have good Traveller education services to support those children in their homes and encourage their parents to encourage them to go to school. In the years I've been involved with Gypsy and Traveller education, there has been a big move forward.

Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn edrych ar hyn yn ei gyd-destun. Mae'n iawn fod yn rhaid inni gydnabod bod llawer mwy i'w wneud mewn addysg uwchradd, ond bu llawer o ddatblygiad mewn addysg gynradd, ac mae twf enfawr yn y nifer o blant o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd. Mae'n hanfodol bod gennym wasanaethau addysg Teithwyr da i gefnogi'r plant hynny yn eu cartrefi ac annog eu rhieni i'w hannog i fynd i'r ysgol. Yn y blynyddoedd y bûm i'n ymwneud ag addysg Sipsiwn a Theithwyr, bu symudiad mawr ymlaen.

However, one of the issues that have raised concern recently is, in September 2014, the new single grant funding system, the education improvement grant, was announced, and this means that the funding for Gypsy/Traveller education is no longer ring-fenced. Many of the people working in this field have expressed a lot of concern about this, and I wondered if the Minister was able to feed back on how that has actually gone and whether there is any sign of the money not going to education for Gypsy/Travellers where it obviously went when it was ring-fenced.

Fodd bynnag, un o'r materion sydd wedi codi pryder yn ddiweddar yw, ym mis Medi 2014, y cyhoeddwyd y system cyllid grant sengl newydd, y grant gwella addysg, ac mae hyn yn golygu nad yw'r cyllid ar gyfer addysg Sipsiwn/Teithwyr wedi'i glustnodi mwyach. Mae llawer o'r bobl sy'n gweithio yn y maes hwn wedi mynegi llawer o bryder am hyn, ac rwy'n meddwl tybed a all y Gweinidog roi adborth ar sut mae hynny wedi mynd mewn gwirionedd ac a oes unrhyw arwydd nad yw'r arian yn mynd at addysg ar gyfer Sipsiwn/Teithwyr lle'r oedd yn amlwg yn mynd pan oedd wedi'i glustnodi.

Finally, I'd like to say how pleased I am that extensive research was done about producing good health guidelines from the Welsh Government, and I think that was a very, very successful move forward.

Yn olaf, hoffwn ddweud pa mor falch yr wyf fod ymchwil helaeth wedi cael ei gwneud am gynhyrchu canllawiau iechyd da gan Lywodraeth Cymru, a chredaf fod hwn yn gam llwyddiannus iawn, iawn ymlaen.

18:26 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome this debate today and the general context of improvement in equality and achieving equality in Wales, which, I'm sure, across this Chamber, Members would be absolutely supportive of. But, as ever, there are a number of issues where problems remain, and one that I would like to highlight, Minister, is that of EU migrants in Wales who are described as not exercising their rights under the EU treaties and have no recourse to public funds. Generally, they are not allowed to access mainstream benefits and, obviously, that can put people in a very, very difficult position. I hear from equality bodies in Wales that this includes families with young children and is particularly a problem in my area, at least, for Roma families. So, the difficulties, obviously, include classification by the UK Government, Minister, and obviously there might be reason to liaise with them as far as that's concerned, but increasingly, I think, this is recognised as a problem. It's a problem for local authorities, social services, the public and third sector here in Wales, because, obviously, they're having to deal with these problems and try to pick up the pieces as best they can. So, I hear from them, Minister, that this is an increasing problem. It has other effects, for example in terms of the pupil deprivation grant, because some schools have substantial Roma pupil populations and their pupil deprivation grant isn't reflecting the entirety of pupils that should be eligible for free school meals, but are not because of this restriction. So, that's just one example; I hear there are many others that are, you know, the knock-on effects of this classification and the problems that it creates.

Croesawaf y ddadl hon heddiw a'r cyd-destun cyffredinol o welliant mewn cydraddoldeb a sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru, yr wyf yn siŵr, ar draws y Siambr hon, y byddai'r Aelodau yn hollol gefnogol ohono. Ond, fel arfer, mae nifer o faterion lle mae problemau yn parhau, ac un yr hoffwn dynnu sylw ato, Weinidog, yw problem mudwyr UE yng Nghymru sy'n cael eu disgrifio fel rhai nad ydynt yn arfer eu hawliau o dan y cytundebau UE ac sydd heb hawl i gael arian cyhoeddus. Yn gyffredinol, nid ydynt yn cael mynediad at fudd-daliadau prif ffrwd ac, yn amlwg, gall hynny roi pobl mewn sefyllfa anodd iawn, iawn. Rwyf yn clywed gan gyrff cydraddoldeb yng Nghymru bod hyn yn cynnwys teuluoedd â phlant ifanc ac mae'n broblem yn arbennig yn fy ardal i, o leiaf, ar gyfer teuluoedd Roma. Felly, mae'r anawsterau, yn amlwg, yn cynnwys dosbarthiad gan Lywodraeth y DU, Weinidog, ac mae'n amlwg y gallai fod rheswm i gysylltu â hwy cyn belled ag y mae hynny yn y cwestiwn, ond yn gynyddol, rwy'n meddwl, mae hyn yn cael ei gydnabod fel problem. Mae'n broblem i awdurdodau lleol, y gwasanaethau cymdeithasol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yma yng Nghymru, oherwydd, yn amlwg, maent yn gorfod ymdrin â'r problemau hyn a cheisio casglu'r darnau hyd eithaf eu gallu. Felly, rwy'n clywed ganddynt, Weinidog, fod hon yn broblem gynyddol. Mae iddi effeithiau eraill, er enghraifft o ran y grant amddifadedd disgyblion, gan fod gan rai ysgolion niferoedd sylweddol o ddisgyblion Roma ac nid yw eu grant amddifadedd disgyblion yn adlewyrchu cyfanrwydd y disgyblion a ddylai fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond nad ydynt yn eu cael oherwydd y cyfyngiad hwn. Felly, dyna un enghraifft yn unig; rwy'n clywed bod llawer o rai eraill sydd, chi'n gwybod, yn sgîl-effeithiau'r dosbarthiad hwn a'r problemau y mae'n eu creu.

It became centre stage in Newport, some time ago, with the tragic death of somebody who had migrated here from the European Union, had become homeless and destitute as a result of these classifications and restrictions, had then been subject to a street attack as a homeless person, and had died. So, it is centre stage, to some extent, locally, but I'm sure there are other areas of Wales that are also affected by these issues. I'd be very grateful, Minister, notwithstanding the overlap with UK Government, if you could say something about Welsh Government policy and strategy to deal with these matters.

Daeth i sylw amlwg yng Nghasnewydd, beth amser yn ôl, gyda marwolaeth drasig rhywun a oedd wedi mudo yma o'r Undeb Ewropeaidd, ac wedi dod yn ddigartref ac yn amddifad o ganlyniad i'r dosbarthiadau a'r cyfyngiadau hyn, yna wedi bod yn destun ymosodiad ar y stryd fel person digartref, ac wedi marw. Felly, daeth i sylw amlwg, i ryw raddau, yn lleol, ond rwy'n siŵr bod ardaloedd eraill o Gymru sydd hefyd yn cael eu heffeithio gan y materion hyn. Byddwn yn ddiolchgar iawn, Weinidog, er gwaethaf y gorgyffwrdd â Llywodraeth y DU, pe gallech ddweud rhywbeth am bolisi a strategaeth Llywodraeth Cymru i ymdrin â'r materion hyn.

18:29 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for the opportunity to speak in this important debate today. The annual report on equality is a welcome contribution to the debate around the progress that we have made on equality in Wales. As a former Welsh Government Cabinet Minister, who had policy responsibility for this very issue, Members will appreciate that it is one in which I take a keen interest.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Mae'r adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb yn gyfraniad derbyniol i drafodaeth ynghylch y cynnydd a wnaed gennym ar gydraddoldeb yng Nghymru. Fel cyn Weinidog Cabinet Llywodraeth Cymru, a oedd yn gyfrifol am bolisi ar gyfer yr union fater hwn, bydd yr Aelodau'n sylweddoli ei fod yn un yr wyf yn cymryd diddordeb brwd ynddo.

There are a number of different aspects of equality that I would like to look at, all of which are important in ensuring that we move towards a more equal society in Wales: that of equality of opportunity, of outcomes, and of provision of public services. The Welsh Government has long taken its statutory duty for reporting on the progress of equality very seriously and has a record on this of which it can be proud. Its combined duties under the Government of Wales Act 2006 and the Equality Act 2010 set out a challenging set of measures against which we can judge how we meet the needs of ethnic minority and faith communities in particular. This is especially important in the current climate, brought about by high-profile acts of terror abroad and a rise in the number of reported hate crimes that have largely happened in response. I note amendment 3 to this motion tabled by the Welsh Conservatives, and I know that the Welsh Government takes the issue of hate crimes very seriously. It is important that we work together with the police, local authorities and community-based organisations to ensure that this issue is tackled at its source.

Mae nifer o wahanol agweddau ar gydraddoldeb yr hoffwn edrych arnynt, bob un ohonynt yn bwysig wrth sicrhau ein bod yn symud tuag at gymdeithas fwy cyfartal yng Nghymru: cyfle cyfartal, canlyniadau, a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru ers amser hir wedi cymryd ei dyletswydd statudol ar gyfer adrodd ar gynnydd cydraddoldeb yn ddifrifol iawn ac mae ganddi hanes am hyn y gall fod yn falch ohono. Roedd ei dyletswyddau ar y cyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi cyfres heriol o fesurau y gallwn farnu yn eu herbyn sut yr ydym yn diwallu anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig a ffydd yn benodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd bresennol, a ddaeth yn sgil proffil uchel gweithredoedd o derfysgaeth tramor a chynnydd yn nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt sydd wedi digwydd yn bennaf mewn ymateb i hynny. Nodaf welliant 3 i'r cynnig hwn a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig, a gwn fod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mater o droseddau casineb yn ddifrifol iawn. Mae'n bwysig ein bod yn cydweithio â'r heddlu, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y gymuned er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r mater hwn yn llygad y ffynnon.

The issue of equality for minority ethnic and faith communities does not stop at the issue of tackling hate crime, important as that matter is. It also extends to matters such as the availability and suitability of employability schemes and training opportunities. We must ensure that young people from such communities are not underrepresented when it comes to such initiatives, and particularly when it comes to achieving our strategic aims of boosting skill levels, creating jobs and reducing poverty. Equality is as much about utilising the most of our potential talent as it is about fairness. Improving integration and creating sustainable communities will only be possible in the long term when we address such issues.

Nid yw mater cydraddoldeb ar gyfer cymunedau lleiafrifoedd ethnig a ffydd yn peidio gyda mater mynd i'r afael â throseddau casineb, er mor bwysig yw'r mater hwnnw. Mae hefyd yn ymestyn i faterion fel addasrwydd cynlluniau cyflogadwyedd a chyfleoedd hyfforddi ac a ydynt ar gael yn hawdd. Mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw pobl ifanc o gymunedau o'r fath yn cael eu tangynrychioli pan ddaw at fentrau o'r fath, ac yn enwedig pan ddaw at gyflawni ein nodau strategol o roi hwb i lefelau sgiliau, creu swyddi a lleihau tlodi. Mae cydraddoldeb yn ymwneud â gwneud y defnydd mwyaf o'n talent posibl gymaint ag y mae'n ymwneud â thegwch. Dim ond wrth fynd i'r afael â materion o'r fath y bydd modd inni wella integreiddio a chreu cymunedau cynaliadwy yn y tymor hir.

A very useful tool for us in doing this is, of course, the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which, among its seven wellbeing goals, sets out the ambition for a more equal Wales. This goal within the Act sets out a vision of Wales as a society that enables people to fulfil their potential, no matter what their background or circumstances—something that will be key to ensuring better equality between persons who share a relevant protected characteristic and those who do not, as laid out in the Equality Act 2010. Making public bodies legally required to deliver on such objectives will be crucial in setting out an example for individuals, the private sector and voluntary organisations, as well as engineering a more equality-orientated culture in Wales. The public service boards that will be established in each local authority in Wales will help to ensure that this is achieved and, in particular, will need to assess the needs of people with protected characteristics, such as those from minority ethnic and faith communities, in their localities.

Offeryn defnyddiol iawn i ni wrth wneud hyn, wrth gwrs, yw'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd, ymhlith ei saith o amcanion lles, yn nodi'r uchelgais ar gyfer Cymru fwy cyfartal. Mae'r amcan hwn yn y Ddeddf yn nodi gweledigaeth o Gymru fel cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau—rhywbeth a fydd yn allweddol er mwyn sicrhau gwell cydraddoldeb rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i gyrff cyhoeddus gyflawni amcanion o'r fath yn hanfodol wrth osod esiampl ar gyfer unigolion, y sector preifat a mudiadau gwirfoddol, yn ogystal â llunio diwylliant sy'n canolbwyntio'n fwy ar gydraddoldeb yng Nghymru. Bydd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus a fydd yn cael eu sefydlu ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn helpu i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni ac, yn benodol, bydd angen iddynt asesu anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, megis y rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a ffydd, yn eu hardaloedd.

To conclude, Deputy Llywydd, I welcome the publication of this report and the chance to debate both its specific contents and the wider issue of progress towards equality in Wales. I have focused my contribution on the needs of minority, faith and ethnic communities for the reasons that I outlined earlier, as I feel that it is particularly pertinent in the current climate. We must be doing all that we can to advance equality of opportunity of outcomes and of provision in Wales and we increasingly have the tools to help us do that through the architecture of the Equality Act, and now bolstered by the wellbeing of future generations Act. I know that the Minister is committed to making Wales a more equal nation, and she will continue to have my full support in her efforts to advance this cause. We have a good record on equality in Wales, and the Welsh Government has long been a leader in initiatives and policies that promote it. We must continue to push forward now that we are better placed, in many ways, to do so.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, rwy'n croesawu cyhoeddi'r adroddiad hwn a'r cyfle i drafod ei gynnwys penodol a'r mater ehangach o gynnydd tuag at gydraddoldeb yng Nghymru. Rwyf wedi canolbwyntio fy nghyfraniad ar anghenion lleiafrifol, ffydd a chymunedau ethnig am y rhesymau a amlinellais yn gynharach, gan fy mod yn teimlo ei bod yn arbennig o berthnasol yn yr hinsawdd sydd ohoni. Mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran canlyniadau a darpariaeth yng Nghymru ac mae gennym yr offer yn gynyddol i'n helpu i wneud hynny drwy bensaernïaeth y Ddeddf Cydraddoldeb, sydd yn awr yn cael ei hategu gan Ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Gwn fod y Gweinidog wedi ymrwymo i wneud Cymru yn genedl fwy cyfartal, a bydd yn parhau i gael fy nghefnogaeth lawn yn ei hymdrechion i hyrwyddo'r achos hwn. Mae gennym record dda ar gydraddoldeb yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ers amser mewn mentrau a pholisïau sy'n hyrwyddo hyn. Mae'n rhaid i ni barhau i fwrw ymlaen nawr ein bod mewn sefyllfa well, mewn sawl ffordd, i wneud hynny.

18:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

18:34

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank all Members for their contributions, and I will respond to some of the points they've raised, but I'll just start by turning to the amendments. We will be supporting amendment 1, brought forward by the Welsh Conservatives. In my opening speech, I spoke of the value of cohesive communities and the damaging impact of austerity and welfare reform, and we will continue to invest in the promotion of cohesive and inclusive communities.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau, a byddaf yn ymateb i rai o'r pwyntiau y maent wedi eu codi, ond byddaf yn dechrau drwy droi at y gwelliannau. Byddwn yn cefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig. Yn fy araith agoriadol, siaradais am werth cymunedau cydlynol ac effaith niweidiol cyni a diwygio lles, a byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn hyrwyddo cymunedau cydlynol a chynhwysol.

I just recently announced last week that we will continue to fund the eight community cohesion co-ordinators that we have here in Wales—right across Wales in eight areas. Over the last two years, they've worked to a national delivery plan. The funding was due to end at the end of March, but I think it shows our commitment that we have funded them again for a further year, and my officials are continuing to work with them to develop a new delivery plan for the year. And part of their role is to monitor local tensions and promote the reporting of hate crime.

Cyhoeddais yr wythnos diwethaf y byddwn yn parhau i ariannu'r wyth cydgysylltydd cydlyniad cymunedol sydd gennym yma yng Nghymru—ar draws Cymru mewn wyth ardal. Dros y ddwy flynedd diwethaf, maent wedi gweithio i gynllun cyflawni cenedlaethol. Roedd y cyllid i fod i ddod i ben ar ddiwedd mis Mawrth, ond rwy'n meddwl ei fod yn dangos ein hymrwymiad ein bod wedi eu hariannu nhw eto am flwyddyn arall, ac mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda nhw i ddatblygu cynllun cyflawni newydd ar gyfer y flwyddyn. A rhan o'u rôl yw monitro tensiynau lleol a hyrwyddo adroddiadau am droseddau casineb.

We oppose amendment 2. I think it's very misleading of the Welsh Conservatives to suggest that Welsh Government set out to cut the funding of Disability Wales by 68 per cent. Disability Wales was unsuccessful in its application for funding under the new sustainable social services third sector grant scheme. However, we have agreed a three-year funding package for Disability Wales. That will be managed by my department going forward, and officials are discussing future funding with Disability Wales, with a view to them becoming a much more sustainable organisation.

Rydym yn gwrthwynebu gwelliant 2. Rwy'n credu ei fod yn gamarweiniol iawn ar ran y Ceidwadwyr Cymreig i awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i dorri 68 y cant oddi ar gyllid Anabledd Cymru. Roedd Anabledd Cymru yn aflwyddiannus yn ei gais am gyllid dan y cynllun grant newydd i'r trydydd sector ddarparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Fodd bynnag, rydym wedi cytuno ar becyn ariannu tair blynedd ar gyfer Anabledd Cymru. Bydd hynny'n cael ei reoli gan fy adran i yn y dyfodol, ac mae swyddogion yn trafod cyllid yn y dyfodol gydag Anabledd Cymru, gyda'r bwriad iddynt ddod yn sefydliad llawer mwy cynaliadwy.

The Government continues to work with the police and other partners to ensure that all victims of hate crime have the confidence to report. I think that it's really important that people, when they come forward to report hate crime, know they will be dealt with in a way that will give them confidence to do so. I actually view an increase in reporting, which we have seen, as a positive indicator and, therefore, I support amendment 3.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio gyda'r heddlu a phartneriaid eraill i sicrhau bod gan yr holl ddioddefwyr troseddau casineb yr hyder i adrodd amdanynt. Credaf ei bod yn bwysig iawn bod pobl, pan fyddant yn dod ymlaen i roi gwybodaeth am droseddau casineb, yn gwybod y byddant yn cael eu trin mewn ffordd a fydd yn rhoi hyder iddynt wneud hynny. Rwyf mewn gwirionedd yn ystyried y cynnydd mewn adrodd, yr ydym wedi'i weld, fel dangosydd cadarnhaol ac, felly, rwy'n cefnogi gwelliant 3.

I also support amendment 4. Welsh Government is committed to ensuring all children and young people reach their full potential in education, regardless of their background or circumstances. And we recognise we must continue to focus on improving the educational performance of some learners, such as looked-after children and Gypsy and Traveller children.

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliant 4. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cyrraedd eu potensial llawn mewn addysg, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Ac rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni barhau i ganolbwyntio ar wella perfformiad addysgol rhai dysgwyr, megis plant sy'n derbyn gofal a phlant Sipsiwn a Theithwyr.

I support amendment 5 in the name of Aled Roberts. The transgender action plan recognises the need to progress the development of an NHS Wales gender dysphoria strategy. That will include a care pathway and guidance for healthcare practitioners, and any service changes needed to support the pathway would begin in the next financial year. The chief executive of NHS Wales recently met with service users and has since started discussions with health board chief executives to agree how this work, including whether we have a gender identity clinic or clinics in Wales, is needed and how that's going to be taken forward.

Cefnogaf welliant 5 yn enw Aled Roberts. Mae'r cynllun gweithredu trawsrywiol yn cydnabod yr angen i wneud cynnydd mewn datblygu strategaeth dysfforia rhywedd GIG Cymru. Bydd yn cynnwys llwybr gofal a chanllawiau ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd, a byddai unrhyw newidiadau mewn gwasanaeth sydd eu hangen i gefnogi'r llwybr yn dechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Cyfarfu prif weithredwr GIG Cymru yn ddiweddar gyda defnyddwyr gwasanaethau ac ers hynny mae wedi dechrau trafodaethau gyda phrif weithredwyr byrddau iechyd i gytuno ar sut mae angen y gwaith hwn, gan gynnwys a oes gennym glinig neu glinigau hunaniaeth rhywedd yng Nghymru, a sut mae hynny'n mynd i gael ei ddwyn ymlaen .

Welsh Government also supports the aim of greater equality and diversity, ensuring no discrimination in recruitment processes across the Welsh public sector. We would encourage employers to consider a wide range of interventions, appropriate to the organisation and the communities they serve, to ensure this aim. And I think that would include name- blank recruitment, and therefore we support amendment 6.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r nod o fwy o gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan sicrhau nad oes gwahaniaethu o ran prosesau recriwtio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Byddem yn annog cyflogwyr i ystyried ystod eang o ymyriadau, sy'n briodol i'r sefydliad a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, er mwyn sicrhau'r nod hwn. Ac rwy'n meddwl y byddai hynny'n cynnwys recriwtio enw gwag, ac felly rydym yn cefnogi gwelliant 6.

Just turning to some of the Members' contributions, Mohammad Asghar refers to the cuts to the budget within my department, and regrets them. Well, you know, I very much regret that the UK Government's cut our budget by £1.4 billion since 2010. We have to cut our cloth accordingly. But, I do hope that I've shown that by funding the community cohesion co-ordinators again that we do have a huge commitment to ensuring that hate crime—and that includes around extremism also—is addressed.

Gan droi at rai o gyfraniadau yr Aelodau, mae Mohammad Asghar yn cyfeirio at y toriadau i'r gyllideb yn fy adran, ac yn eu gresynu. Wel, chi'n gwybod, rwy'n gresynu'n fawr iawn fod Llywodraeth y DU wedi torri £1.4 biliwn ar ein cyllideb ers 2010. Mae'n rhaid i ni dorri ein brethyn yn unol â hynny. Ond, rwy'n gobeithio fy mod i wedi dangos, drwy ariannu cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol eto, fod gennym ymrwymiad enfawr i sicrhau bod troseddau casineb—ac mae hynny'n cynnwys eithafiaeth hefyd—yn cael sylw.

Peter Black mentioned that the National Assembly for Wales came third in the Stonewall top-100 employers. Welsh Government wasn't too far behind, but I absolutely congratulate both the National Assembly for Wales and the Welsh Government.

Soniodd Peter Black fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn drydydd yn 100 uchaf cyflogwyr Stonewall. Nid oedd Llywodraeth Cymru ymhell y tu ôl, ond rwy'n llongyfarch Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Sandy Mewies referred to the fact that there are 12 employers in Wales in the top 100, so we really are punching above our weight; as you said, we're 5 per cent of the population, so it's great to see that. Again, I would pay tribute to OUT-NAW and everyone involved in those achievements. I very much look forward to attending the Stonewall Cymru awards next week, here in the Assembly, in my ministerial role.

Cyfeiriodd Sandy Mewies at y ffaith bod 12 o gyflogwyr yng Nghymru yn y 100 uchaf, felly rydym wir yn cyflawni'n well na'r disgwyl; fel y dywedasoch, rydym yn 5 y cant o'r boblogaeth, felly mae'n wych i weld hynny. Unwaith eto, byddwn yn talu teyrnged i OUT-NAW a phawb sy'n ymwneud â'r cyflawniadau hynny. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at fynd i ddigwyddiad gwobrau Stonewall Cymru yr wythnos nesaf, yma yn y Cynulliad, yn fy rôl weinidogol.

Lindsay Whittle, we will continue to work very closely with all the organisations you referred to, and the police et cetera. When I've met with groups of young people—I met some young people from Children in Wales and also last week I met with some young people who'd attended the UK Youth Parliament—bullying is one issue that comes up quite a lot of the time. I have worked very closely with my colleague the Minister for Education and Skills to ensure that we are strengthening guidance around bullying in school, and it will not be tolerated.

Lindsay Whittle, byddwn yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'r holl sefydliadau y cyfeiriasoch atynt, a'r heddlu ac ati. Pan wyf wedi cwrdd â grwpiau o bobl ifanc—fe wnes i gyfarfod rhai pobl ifanc o Plant yng Nghymru, a hefyd yr wythnos diwethaf cyfarfûm â rhai pobl ifanc oedd yn bresennol yn Senedd Ieuenctid y DU—mae bwlio yn un mater sy'n codi'n eithaf aml. Rwyf wedi gweithio'n agos iawn gyda fy nghydweithiwr y Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau ein bod yn cryfhau'r canllawiau ynghylch bwlio yn yr ysgol, ac ni fydd yn cael ei oddef.

You referred also to the gender pay difference and equal pay, and we are absolutely committed to tackling the underlying issues that create pay inequality, to ensure that future generations don't suffer those same inequalities that we had. We know that pay gaps are a very complex and longstanding issue, and some of the levers don't rest with us; they do rest with the employers, and I think it's very important that our public sector equality duty requires public sector employers to address pay and employment differences across all protected characteristics under the Equality Act 2010.

Cyfeiriasoch hefyd at y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau a chyflog cyfartal, ac rydym yn gwbl ymroddedig i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n creu anghydraddoldeb cyflog, er mwyn sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn dioddef yr un anghydraddoldebau hynny â ni. Rydym yn gwybod bod bylchau cyflog yn fater cymhleth a hirsefydlog iawn, ond nid yw rhai o'r ffactorau sbarduno gyda ni; maent yn gorffwys gyda'r cyflogwyr, ac rwy'n credu ei fod yn bwysig iawn bod ein dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog a chyflogaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Julie Morgan—I'd like to pay tribute to the work Julie does in relation to Gypsy and Traveller communities. I was very pleased to attend the cross-party group; I think it's very beneficial for me to hear how the policies we have affect those communities. I think you're absolutely right: a community building does enhance a site, and, certainly, I visited one in my colleague Ken Skates's constituency of Clwyd South, where they have a community room that they can use. To hear of ballet being introduced in the site, in Vaughan Gething's constituency, just shows what inclusivity does. I think it's very important that the children have those opportunities. I think, again, it's very important that we do have the flexibility for local authorities to be able to work with members of the Gypsy and Traveller communities; if they don't want to live on a site and they do want to buy a piece of land and live on that, that that is able to happen.

Julie Morgan—hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith y mae Julie yn ei wneud mewn cysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Roeddwn yn falch iawn o gael bod yn bresennol yn y grŵp trawsbleidiol; rwy'n credu ei fod yn fuddiol iawn i mi gael clywed sut mae'r polisïau sydd gennym yn effeithio ar y cymunedau hynny. Rwy'n meddwl eich bod yn hollol gywir: mae adeilad cymunedol yn gwella'r safle, ac, yn sicr, ymwelais ag un yn etholaeth fy nghydweithiwr Ken Skates yn Ne Clwyd, lle mae ganddynt ystafell gymunedol y gallant ei defnyddio. Mae clywed am ballet yn cael ei gyflwyno yn y safle, yn etholaeth Vaughan Gething, yn dangos beth y mae cynwysoldeb yn ei wneud. Credaf ei bod yn bwysig iawn bod y plant yn cael y cyfleoedd hynny. Rwy'n meddwl, unwaith eto, ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cael yr hyblygrwydd i awdurdodau lleol allu gweithio gydag aelodau o'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr; ac os nad ydynt eisiau byw ar safle a'u bod yn dymuno prynu darn o dir a byw ar hwnnw, bod hynny'n gallu digwydd.

John Griffiths referred to EU migrants. Just last night, I visited the Bus project in Cardiff, which is the bus that parks outside the museum, Sunday night to Thursday night, run with the Salvation Army as part of our Supporting People programme. I have to say there were several EU migrants there who had found themselves homeless. So, I think you raise a very important point. And, again, the Supporting People programme does help some of these people, and, certainly, last night, everybody was found accommodation, just for last night, but I think we do have to work very closely with Home Office officials to make sure that we work in a way that ensures that when people do come here they have the services that they require.

Cyfeiriodd John Griffiths at ymfudwyr yr UE. Dim ond neithiwr, ymwelais â'r prosiect Bws yng Nghaerdydd, sef y bws sy'n parcio tu allan i'r amgueddfa, o nos Sul tan nos Iau, sy'n cael ei redeg gyda Byddin yr Iachawdwriaeth fel rhan o'n rhaglen Cefnogi Pobl. Rhaid i mi ddweud bod nifer o fudwyr UE yno a oedd wedi cael eu hunain yn ddigartref. Felly, rwy'n meddwl eich bod yn codi pwynt pwysig iawn. Ac, unwaith eto, mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu rhai o'r bobl hyn, ac, yn sicr, neithiwr, daethpwyd o hyd i lety i bawb, dim ond ar gyfer neithiwr, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid inni weithio'n agos iawn gyda swyddogion y Swyddfa Gartref i wneud yn siŵr ein bod yn gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau pan fydd pobl yn dod yma bod ganddynt y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Jeff Cuthbert—I'd like to pay tribute to the work that Jeff did in this portfolio, and you're absolutely right: equality is embedded in all our policies, decisions and our legislation. Hate crime is clearly of great concern, particularly at the moment, and we see the faith groups working very closely with us. The First Minister chairs the faith forum and it's very important that we work with faith groups to help them at difficult times. I know that the Jewish community in particular have raised with me concerns that they, at times, feel very threatened and very frightened in a community they've lived in, have been born in and brought up in. So, I think we need to continue to work very closely with the police. But, I think the most important thing is that people do feel confident to report hate crime. I think it's very important that we take it seriously and that people know that we will do that.

Jeff Cuthbert—hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith a wnaeth Jeff yn y portffolio hwn, ac rydych yn hollol gywir: mae cydraddoldeb yn cael ei ymgorffori ym mhob un o'n polisïau, penderfyniadau a'n deddfwriaeth. Mae troseddau casineb yn amlwg yn destun pryder mawr, yn enwedig ar hyn o bryd, ac rydym yn gweld y grwpiau ffydd yn gweithio'n agos iawn gyda ni. Mae'r Prif Weinidog yn cadeirio fforwm ffydd ac mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithio gyda grwpiau ffydd i'w helpu ar adegau anodd. Gwn fod y gymuned Iddewig yn benodol wedi codi pryderon gyda mi eu bod, ar adegau, yn teimlo dan fygythiad mawr ac yn ofnus iawn mewn cymuned y maent wedi byw ynddi, wedi cael eu geni ynddi a'i magu ynddi. Felly, rwy'n credu bod angen i ni barhau i weithio'n agos iawn gyda'r heddlu. Ond, rwy'n credu mai'r peth pwysicaf yw bod pobl yn teimlo'n hyderus i roi gwybod am droseddau casineb. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn ei gymryd o ddifrif, a bod pobl yn gwybod y byddwn yn gwneud hynny.

As I indicated in my opening remarks, tackling inequality remains an absolute priority for this Welsh Labour Government and I think for all parties in this Chamber. I think we've also developed a very strong and distinct approach to equality in Wales, and I think the enthusiasm for and commitment to creating a society that is inclusive, equal and welcoming was very clearly evident in all Members in the Chamber in this afternoon. Thank you.

Fel y nodais yn fy sylwadau agoriadol, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth ddiamod i Lywodraeth bresennol Llafur Cymru, ac yn fy marn i, i bob plaid yn y Siambr hon. Rwy'n credu ein bod hefyd wedi datblygu dull cadarn a gwahanol iawn o weithredu cydraddoldeb yng Nghymru, ac rwy'n credu bod y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i greu cymdeithas sy'n gynhwysol, yn gyfartal ac yn groesawgar i'w weld yn amlwg iawn yn yr holl Aelodau yn y Siambr yn y prynhawn yma . Diolch.

18:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. That was a very constructive debate, but can I remind Members not to use the word 'misleading'? It was mentioned so softly that it almost escaped notice, but it really isn't helpful. If you mean 'inaccurate', 'selective' or just plain 'wrong', I'd rather you used those words. Thank you.

Diolch yn fawr, Weinidog. Roedd honna'n ddadl adeiladol iawn, ond a gaf i atgoffa'r Aelodau i beidio â defnyddio'r gair 'camarweiniol'? Cafodd ei grybwyll mor ysgafn fel na sylwyd arno bron, ond yn wir nid yw'n ddefnyddiol. Os ydych yn golygu 'anghywir', 'dewisol' neu ddim ond 'anghywir', byddai'n well gen i i chi ddefnyddio'r geiriau hynny. Diolch.

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 1 ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? [Objection.] We will conduct the rest of the votes electronically at voting time, which now follows.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cynnal gweddill y pleidleisiau yn electronig ar yr amser pleidleisio, sydd bellach yn dilyn.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio*

*Voting deferred until voting time.*

18:44

# 10. Cyfnod Pleidleisio

# 10. Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will complete the voting on the annual report on equality.

A oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly byddwn yn cwblhau'r bleidlais ar yr adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb.

I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, there voted against 25. In accordance with Standing Order 6.20, I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 25 yn erbyn. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.20, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5919.

Result of the vote on motion amendment 2 to motion NDM5919.

18:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49, no votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 3 yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5919.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5919.

18:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 50, no votes against. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 50 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 4 yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5919.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5919.

18:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 5, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 50, no votes against. Therefore, amendment 5 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 50 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 5 yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5919. Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5919.

18:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 6, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 50, no votes against. Therefore, amendment 6 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 6, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 50 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 6 yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5919. Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5919.

18:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cynnig NDM5919 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5919 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014-2015.

1. Notes the Annual Report on Equality 2014-2015.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw toriadau i'r gyllideb cymunedau a threchu tlodi yn cael effaith andwyol ar gynnydd o ran creu cymunedau mwy cydlynol a chynhwysol yng Nghymru.

2. Calls on the Welsh Government to ensure cuts to the Communities and Tackling Poverty budget do not adversely affect progress in creating more cohesive and inclusive communities in Wales.

3. Yn nodi bod cymhelliad hiliol i ychydig dros dri chwarter o'r troseddau casineb a adroddwyd i heddluoedd Cymru yn 2012-2013.

3. Notes that just over three quarters of hate crimes reported to Welsh police forces in 2012-2013 were racially motivated.

4. Yn gresynu at y ffaith mai dim ond 13 y cant o blant sy'n Sipsiwn/Sipsiwn Roma a 17 y cant o blant sy'n derbyn gofal a gyflawnodd TGAU graddau A* i C, mewn mathemateg a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf yn 2014.

4. Regrets that only 13 per cent of Gypsy/Roma children and 17 per cent of looked-after children achieved GCSEs at grades A*-C, in maths and either English or Welsh as a first language in 2014.

5. Yn galw ar y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed o ran gwella gwasanaethau dysfforia rhywedd yng Nghymru, ac yn galw am astudiaeth ddichonolrwydd annibynnol i sefydlu clinig hunaniaeth rhywedd yng Nghymru.

5. Calls on the Minister to update the Assembly on her progress in improving gender dysphoria services in Wales, and calls for an independent feasibility study into establishing a gender identity clinic in Wales.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i symud at recriwtio dienw yn y sector cyhoeddus pan fo hynny'n bosibl fel bod pobl yn cael eu barnu ar eu gallu gwirioneddol i wneud swydd.

6. Calls on the Welsh Government to move to 'name blank' recruitment wherever possible in the public sector so that people are judged on their true abilities to do a job.

18:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 50, no votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 50 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5919 fel y'i diwygiwyd: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5919 as amended agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5919 fel y'i diwygiwyd. Result of the vote on motion NDM5919 as amended.

18:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18.46.*

*The meeting ended at 18.46.*